# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 11/03/2014

Cynnwys Contents


Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Cwestiwn Brys: TGAU Saesneg
Urgent Question: GCSE English

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

Datganiad: Moderneiddio Amaethyddiaeth yng Nghymru: Systemau Ar-lein i Ffermwyr
Statement: Modernising Welsh Agriculture: Online Systems for Farmers

Datganiad: Cynnydd ar Wella Caffael Cyhoeddus
Statement: Progress on Improving Public Procurement

Yr Ail Gyllideb Atodol 2013-14
The Second Supplementary Budget 2013-14

Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 i Amrywio Trefn Ystyried Gwelliannau'r Cyfnod Adrodd i'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)
Motion under Standing Order 26.36 to Vary the Order of Consideration of Report Stage Amendments to the Social Services and Well-being (Wales) Bill

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Addysg (Cymru)
Stage 3 Standing Order 26.44 Debate on the Education (Wales) Bill

Neges gan Ei Mawrhydi Y Frenhines, Pennaeth y Gymanwlad
A Message from Her Majesty The Queen, Head of the Commonwealth


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Prynhawn da. Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

Good afternoon. I call the National Assembly for Wales to order.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## Questions to the First Minister

### Toriadau Cyllid

### Funding Cuts

13:30

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith toriadau cyllid ar y gwasanaeth iechyd yng ngogledd Cymru? OAQ(4)1546(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on the impact of funding cuts on the health service in north Wales? OAQ(4)1546(FM)*

13:30

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Nid yw cyllideb refeniw y gwasanaeth iechyd wedi cael ei thorri.

The NHS revenue budget has not been cut.

13:30 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Lle mae gwasgu ar gyllidebau yn lleol—rydym yn gwybod bod hynny yn digwydd—a lle mae, felly, wasgu ar wasanaethau, mae'n bwysicach nag erioed bod gennym ni'r meddygon gorau posib er mwyn rhoi'r gwasanaeth gorau posib i gleifion. A wnewch chi, Brif Weinidog, groesawu'r camau y mae Prifysgol Bangor wedi eu cymryd, mewn cydweithrediad â chyrff eraill, i sicrhau bod rhagor o gyfleon yn y dyfodol i Gymry ifanc astudio meddygaeth yma yng Nghymru, ac i wneud hynny o fewn eu milltir sgwâr lle mae'n bosib, er mwyn mynd i'r afael â'r problemau recriwtio sydd gennym ni?

Where there are pressures on budgets at a local level—we know that that happens—and where there is, therefore, pressure on services, it is more important than ever that we have the best possible doctors in order to provide the highest quality service to patients. Will you, First Minister, welcome the steps taken by Bangor University, in collaboration with other bodies, to ensure that there will be more opportunities for young Welsh people to study medicine here in Wales, in their own local areas where possible, so that we can tackle the recruitment problems that we have?

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wrth gwrs. Mae hynny yn rhan o strategaeth y Llywodraeth, sef i recriwtio mwy o bobl i astudio yng Nghymru ac i sefyll yng Nghymru fel meddygon, ac, wrth gwrs, i dynnu meddygon profiadol mewn i Gymru i weithio yn y gwasanaeth iechyd. Rydym yn croesawu'n fawr unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd er mwyn sicrhau'r ddau nod hynny.

Yes, of course, and this is part of the Government's strategy, to recruit more people to study in Wales and to remain in Wales as working doctors, and also to attract experienced doctors into Wales to work in the health service here. We very warmly welcome any steps that are taken to ensure that those two aims are met.

13:31 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, NHS trusts in England have seen a £20 billion reduction in funding under the masterhood of the Conservatives who are ruling over there. That has led to 4,500 fewer nurses on those wards, while, here in Wales, we have to say that nurse numbers have remained stable. With the extra £10 million that your Government has said that it will put in, we hope to see nurse places increase. What more can your Welsh Government do, First Minister, to ensure that we have the proper and appropriate number of clinical staff, especially across north Wales, where, historically, it has been difficult to recruit, given that the medical centre is based in Cardiff?

Brif Weinidog, bu gostyngiad o £20 biliwn i gyllid ymddiriedolaethau'r GIG yn Lloegr dan reolaeth y Ceidwadwyr sy'n llywodraethau draw yno. Mae hynny wedi arwain at 4,500 llai o nyrsys ar y wardiau hynny, ac yn y cyfamser, yma yng Nghymru, mae'n rhaid i ni ddweud bod niferoedd nyrsys wedi aros yn sefydlog. Gyda'r £10 miliwn ychwanegol y mae eich Llywodraeth wedi dweud y bydd yn ei gyfrannu, rydym ni'n gobeithio gweld lleoedd nyrsio yn cynyddu. Beth arall all eich Llywodraeth Cymru ei wneud, Brif Weinidog, i sicrhau bod gennym y nifer cywir a phriodol o aelodau staff clinigol, yn enwedig ar draws gogledd Cymru, lle, yn hanesyddol, y mae wedi bod yn anodd recriwtio, o gofio bod y ganolfan feddygol wedi ei lleoli yng Nghaerdydd?

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Members will be aware, of course, of the medical recruitment programme and the fact that there have been, as the Member has said, many thousands of nurses who have lost their jobs in England. That has not happened in Wales. We prize the NHS in Wales and we have provided the appropriate resources in order for it to be able to deliver in the future.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol, wrth gwrs, o'r rhaglen recriwtio meddygol a'r ffaith, fel y dywedodd yr Aelod, bod miloedd lawer o nyrsys wedi colli eu swyddi yn Lloegr. Nid yw hynny wedi digwydd yng Nghymru. Rydym ni'n gwerthfawrogi'r GIG yng Nghymru ac rydym wedi darparu'r adnoddau priodol er mwyn iddo allu cyflawni yn y dyfodol.

13:32 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you suggested that the NHS is not having its budget cut here in Wales, but we know that in terms of real-term budget cuts, it has had the biggest in its history and faces an uphill struggle for the next few years because of the record-breaking cuts that your Government is imposing. One of the services that is under pressure as a result of that, in north Wales and elsewhere, is the child and adolescent mental health service, which has experienced very long delays in waiting times for children needing access to support. In fact, some experts have been claiming that services across Wales are currently operating at between 20% and 40% of the recommended staffing levels. What work is your Government going to do to ensure that people can have timely access to interventions from the child and adolescent mental health service when they need them?

Brif Weinidog, awgrymwyd gennych nad yw cyllideb y GIG yn cael ei thorri yma yng Nghymru, ond rydym ni'n gwybod, o ran y toriadau i'r gyllideb mewn termau real, ei bod wedi dioddef y toriad mwyaf yn ei hanes a'i bod yn mynd i fod yn anodd iawn yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf oherwydd y toriadau mwyaf erioed y mae eich Llywodraeth chi yn eu gwneud. Un o'r gwasanaethau sydd dan bwysau o ganlyniad i hynny, yng ngogledd Cymru ac mewn mannau eraill, yw'r gwasanaeth iechyd meddwl plant a'r glasoed, sydd wedi dioddef oediadau hir iawn o ran amseroedd aros i blant sydd angen mynediad at gymorth. Yn wir, mae rhai arbenigwyr wedi bod yn honni bod gwasanaethau ledled Cymru yn gweithredu ar rhwng 20% a 40% o'r lefelau staffio a argymhellir ar hyn o bryd. Pa waith mae eich Llywodraeth yn bwriadu ei wneud i sicrhau y gall pobl gael mynediad prydlon at ymyraethau gan y gwasanaeth iechyd meddwl plant a'r glasoed pan fydd eu hangen arnynt?

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

First of all, I refute the allegations he makes about the record-breaking cuts. I wonder sometimes whether he is going to be replaced by a parrot on the benches opposite—it would do the same job. The reality is, as he well knows, that some £620 million extra has been put into the NHS budget at a time when his Government is cutting funding to Wales. I know it is painful for him, but he needs to listen. He asked specifically about CAMHS. In October, the Minister for Health and Social Services announced an extra £250,000 annually, ensuring that more young people are cared for in Wales. The Mental Health (Wales) Measure 2010 allows many more patients to be seen in primary care, meaning, of course, that CAMHS services can concentrate on treating the most complex cases. A total of £3.5 million was invested in this new service, and more than 30,000 people were assessed up to December of last year.

Yn gyntaf oll, rwy'n gwrthod yr honiadau y mae'n eu gwneud am y toriadau mwyaf erioed. Rwy'n meddwl weithiau tybed a yw'n mynd i gael ei ddisodli gan barot ar y meinciau gyferbyn—byddai'n cyflawni'r un swyddogaeth. Y gwir amdani, fel y mae'n gwybod yn iawn, yw yr ychwanegwyd tua £620 miliwn yn ychwanegol at gyllideb y GIG ar adeg pan fo ei Lywodraeth ef yn torri cyllid i Gymru. Rwy'n gwybod bod hyn yn boenus iddo, ond mae angen iddo wrando. Holodd yn benodol am CAMHS. Ym mis Hydref, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol £250,000 ychwanegol yn flynyddol, gan sicrhau bod mwy o bobl ifanc yn derbyn gofal yng Nghymru. Mae Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn caniatáu i lawer mwy o gleifion gael eu gweld mewn gofal sylfaenol, sy'n golygu, wrth gwrs, y gall gwasanaethau CAMHS ganolbwyntio ar drin yr achosion mwyaf cymhleth. Buddsoddwyd cyfanswm o £3.5 miliwn yn y gwasanaeth newydd hwn, ac aseswyd mwy na 30,000 o bobl hyd at fis Rhagfyr y llynedd.

13:34 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, mae adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn dangos bod Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi lleihau ei diffyg o £13 miliwn ar ddiwedd mis naw i £7.5 miliwn ar ddiwedd mis 10—gostyngiad o ryw £5.5 miliwn mewn mis. Mae person wedi cysylltu â fi ddoe yn dweud bod ei thriniaeth hi yn Ysbyty Glan Clwyd wedi cael ei gohirio a bod yr ysbyty wedi dweud bod yr holl driniaethau dyddiol yn yr ysbyty wedi'u gohirio ar gyfer mis Mawrth. A yw'r Llywodraeth yn ymwybodol o hynny, ac a fuasech chi, fel Llywodraeth, yn cadarnhau a yw'r math hwn bolisi gan fwrdd iechyd Betsi Cadwaladr yn dderbyniol?

First Minister, the Public Accounts Committee report demonstrates that Betsi Cadwaladr University Local Health Board reduced its deficit by £13 million from the end of month 9 to £7.5 million at the end of month 10—a reduction of some £5.5 million in a month. An individual has contacted me yesterday, telling me that her treatment at Ysbyty Glan Clwyd has been deferred and that the hospital had told her that all day treatments at the hospital had been deferred for March. Is the Government aware of that and would you, as a Government, confirm whether that sort of policy within Betsi Cadwaladr health board is acceptable?

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wrth gwrs, mae'n anodd iawn i roi unrhyw fath o farn ynglŷn â sefyllfa unigolyn heb wybod y ffeithiau i gyd. Fodd bynnag, rydym yn erfyn i bob bwrdd iechyd lleol sicrhau bod ganddo ddigon o adnoddau yn ystod y flwyddyn ariannol er mwyn sicrhau ei fod yn symud ymlaen gyda'r llawdriniaethau y dylai eu cyflawni.

Of course, it is very difficult to give any opinion on the situation of an individual without having all the facts to hand. However, we do expect all local health boards to ensure that they have sufficient resources during the financial year to progress with the surgery that they should be carrying out.

## Treth Ystafell Wely

## The Bedroom Tax

13:35

**Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. Beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i liniaru effaith y dreth ystafell wely? OAQ(4)1550(FM)*

*2. What can the Welsh Government do to mitigate the impact of the bedroom tax? OAQ(4)1550(FM)*

13:35

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We have implemented a number of initiatives, including making available an additional £1.3 million to Welsh local authorities to add to their discretionary housing payments funds.

Rydym ni wedi rhoi nifer o fentrau ar waith, gan gynnwys rhoi £1.3 miliwn ychwanegol ar gael i awdurdodau lleol Cymru ychwanegu at eu cronfeydd taliadau tai dewisol.

13:35

**Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you will be aware that a tribunal in Monmouthshire has decided that bedrooms used as a study and art room are not counted as bedrooms, whereas a tribunal in Cardiff has decided the opposite. I wondered how the Government can help to elucidate what is the real situation with this very poor legislation.

Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod tribiwnlys yn Sir Fynwy wedi penderfynu nad yw ystafelloedd gwely a ddefnyddir fel ystafell astudio a chelf yn cael eu cyfrif fel ystafelloedd gwely, tra bod tribiwnlys yng Nghaerdydd wedi penderfynu i'r gwrthwyneb. Roeddwn i'n meddwl tybed sut y gallai'r Llywodraeth helpu i egluro'r gwir sefyllfa o ran y ddeddfwriaeth wael iawn hon.

13:36

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, this illustrates the mess that reigns as a result of the introduction of this policy: the fact that there is inconsistency in different parts of Wales. What I can say, of course, is that there is the possibility of appeal to the upper tribunal. However, this shows that this policy was ill-thought-out, ill-conceived and ill-implemented, as evidenced by the fact that there is a complete lack of consistency, as the Member has said, in terms of the way that it has been implemented across Wales.

Wel, mae hyn yn dangos y llanast sy'n bodoli o ganlyniad i gyflwyno'r polisi hwn: y ffaith fod anghysondeb mewn gwahanol rannau o Gymru. Yr hyn y gallaf ei ddweud, wrth gwrs, yw ei bod yn bosibl apelio i'r tribiwnlys uchaf. Fodd bynnag, mae hyn yn dangos bod y polisi hwn wedi ei gynllunio'n wael, wedi ei lunio'n wael ac wedi ei roi ar waith yn wael, fel y dangosir gan y ffaith y ceir diffyg cysondeb llwyr, fel y mae'r Aelod wedi ei ddweud, o ran y ffordd y mae wedi cael ei roi ar waith ledled Cymru.

13:36

**Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, Labour introduced this policy for housing benefit recipients in the private rented sector in 2008. However, Department for Work and Pensions guidance was issued to every local authority in March 2011, and again in July 2012, on discretionary housing payments. It said that disabled people who were in adapted accommodation or were reliant on local support networks should be prioritised for discretionary housing payments. We know that Welsh Government figures show that only three out of 22 local authorities had spent even half of the discretionary housing payments halfway through the financial year, even though unspent money has to go back to the Treasury at the end of the year. Why is that, and what are you doing to ensure that that money is going to where it should be going, rather than being returned to the Treasury?

Wrth gwrs, cyflwynodd Llafur y polisi hwn ar gyfer y rhai a oedd yn derbyn budd-dal tai yn y sector rhentu preifat yn 2008. Fodd bynnag, cyflwynwyd canllawiau'r Adran Gwaith a Phensiynau i bob awdurdod lleol ym mis Mawrth 2011, ac unwaith eto ym mis Gorffennaf 2012, ar daliadau tai dewisol. Roeddent yn dweud y dylid blaenoriaethu pobl anabl a oedd mewn llety wedi ei addasu neu a oedd yn ddibynnol ar rwydweithiau cymorth lleol ar gyfer taliadau tai dewisol. Rydym yn gwybod bod ffigurau Llywodraeth Cymru yn dangos mai dim ond tri allan o 22 awdurdod lleol oedd wedi gwario hyd yn oed hanner y taliadau tai dewisol hanner ffordd drwy'r flwyddyn ariannol, er bod yn rhaid i'r arian sydd heb ei wario fynd yn ôl i'r Trysorlys ar ddiwedd y flwyddyn. Pam mae hynny, a beth ydych chi'n ei wneud i sicrhau bod yr arian hwnnw yn mynd i'r lle y dylai fod yn mynd iddo, yn hytrach na chael ei ddychwelyd i'r Trysorlys?

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, it is a matter, of course, for local authorities to ensure that they get the money out of the door, as they have been asked to do. However, I can say that demand for discretionary housing payments in 15 local authorities in the first half of the financial year that we are in now has increased by around 260% compared with the same period a year earlier. That tells us, of course, that there is immense hardship out there because of the introduction of the bedroom tax. It is a policy that the party opposite continues to defend, despite the effect that it has on many people who are working; despite the effect that it has on many people who are disabled; and despite the incredible inconsistency with which it is interpreted. At the end of the day, it is nothing more than an attempt to have a go at and to degrade those who have the least incomes, while leaving those with the greatest incomes untouched. We should not be surprised that that is what the party opposite stands for.

Wel, mater i awdurdodau lleol, wrth gwrs, yw sicrhau eu bod yn cael yr arian allan drwy'r drws, fel y gofynnwyd iddynt ei wneud. Fodd bynnag, gallaf ddweud bod y galw am daliadau tai dewisol mewn 15 awdurdod lleol yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol yr ydym ni ynddi nawr wedi cynyddu tua 260% o'i gymharu â'r un cyfnod flwyddyn ynghynt. Mae hynny'n dweud wrthym, wrth gwrs, bod caledi aruthrol yn bodoli yn sgil cyflwyno'r dreth ystafell wely. Mae hwn yn bolisi y mae'r blaid gyferbyn yn parhau i'w amddiffyn, er gwaethaf yr effaith y mae'n ei chael ar lawer o bobl sy'n gweithio; er gwaethaf yr effaith y mae'n ei chael ar lawer o bobl sy'n anabl; ac er gwaethaf yr anghysondeb anhygoel o ran ei ddehongli. Yn y pen draw, nid yw'n ddim mwy nag ymgais i ddiraddio ac ymosod ar y rhai sydd â'r incwm lleiaf, gan adael y rhai sydd â'r incwm mwyaf heb eu cyffwrdd. Ni ddylem ni synnu mai dyna y mae'r blaid gyferbyn yn sefyll drosto.

13:38 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the Monmouthshire case, of course, decided that a room needs to be furnished as, and used as, a bedroom before it could be considered as such. Therefore, tenants are winning appeals at tribunal. These appeal decisions must be relayed to other tenants in similar circumstances so that they can avoid this spiteful policy. What are you doing to ensure that tenants across the country are getting this information so that they can appeal against those decisions by their local authority?

Brif Weinidog, penderfynodd achos Sir Fynwy, wrth gwrs, bod yn rhaid i ystafell fod wedi ei dodrefnu a'i defnyddio fel ystafell wely cyn y gellid ei hystyried yn ystafell wely. Felly, mae tenantiaid yn ennill apeliadau mewn tribiwnlys. Mae'n rhaid cyfleu'r penderfyniadau apêl hyn i denantiaid eraill dan amgylchiadau tebyg fel y gallant osgoi'r polisi milain hwn. Beth ydych chi'n ei wneud i sicrhau bod tenantiaid ledled y wlad yn cael y wybodaeth hon fel y gallant apelio yn erbyn y penderfyniadau hynny gan eu hawdurdod lleol?

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The difficulty is, of course, that these are lower tribunal decisions and they are not binding on subsequent appeals. Therefore, what is decided in one local authority by one tribunal does not necessarily have to be followed by tribunals elsewhere. The only way to resolve this is for there to be better guidance from DWP, so that there is a better understanding of how to apply the law. Sadly, that has not been forthcoming.

Yr anhawster yw, wrth gwrs, mai penderfyniadau tribiwnlysoedd is yw'r rhain ac nid ydynt yn gyfrwymol ar apeliadau dilynol. Felly, nid oes rhaid i'r hyn a benderfynir mewn un tribiwnlys mewn un awdurdod lleol gael ei ddilyn gan dribiwnlysoedd mewn mannau eraill o anghenraid. Yr unig ffordd i ddatrys hyn yw cael canllawiau gwell gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, fel bod gwell dealltwriaeth o sut i ddefnyddio'r gyfraith. Yn anffodus, nid yw hynny wedi digwydd.

13:39 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, as you know, I am not a fan of the bedroom tax in its present form. Of course, we want to put in place provisions to try to alleviate its impact. Mark Isherwood has already referred to the issue of discretionary housing payments. The vast majority of Welsh councils, when they assess a claimant for discretionary housing payments, are taking into account disabled living allowance and child benefit as income, which the DWP does not do itself. Is there any way that the Welsh Government can give advice to those councils to tell them that that is not the way that they should be going forward, and that these payments for disabled living allowance and for child benefit are there for completely different issues and should not be taken into account as part of their income?

Brif Weinidog, fel y gwyddoch, nid wyf yn gefnogwr o'r dreth ystafell wely ar ei ffurf bresennol. Wrth gwrs, rydym ni eisiau rhoi darpariaethau ar waith i geisio lliniaru ei heffaith. Mae Mark Isherwood wedi cyfeirio eisoes at y mater o daliadau tai dewisol. Mae'r mwyafrif llethol o gynghorau Cymru, pan fyddant yn asesu hawlydd am daliadau tai dewisol, yn ystyried lwfans byw i'r anabl a budd-dal plant fel incwm, ac nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau yn gwneud hynny ei hun. A oes unrhyw ffordd y gall Llywodraeth Cymru roi cyngor i'r cynghorau hynny i ddweud wrthynt mai nad dyna'r ffordd y dylent fwrw ymlaen, a bod y taliadau hyn ar gyfer lwfans byw i'r anabl a budd-dal plant ar gael ar gyfer materion hollol wahanol ac na ddylid eu hystyried yn rhan o'u hincwm?

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

We will see what we can do in order to counter the lack of information to come from the UK Government, which is ultimately responsible for this policy. However, I think that we should bear in mind that, even with discretionary housing payments with an allocation of £6.2 million, the bedroom tax costs £23 million per year, so there is no way that the discretionary housing payments system can actually make up for the loss that there is to Wales as a result of these changes, and as a result of so many hard-working families being hammered by the Conservatives.

Byddwn yn gweld beth allwn ni ei wneud er mwyn datrys y diffyg gwybodaeth sy'n dod gan Lywodraeth y DU, sy'n gyfrifol am y polisi hwn yn y pen draw. Fodd bynnag, rwy'n meddwl y dylem gofio, hyd yn oed gyda thaliadau tai dewisol â dyraniad o £6.2 miliwn, bod y dreth ystafell wely yn costio £23 miliwn y flwyddyn, felly nid oes unrhyw ffordd y gall y system taliadau tai dewisol wneud iawn am y golled i Gymru o ganlyniad i'r newidiadau hyn mewn gwirionedd, ac o ganlyniad i gymaint o deuluoedd sy'n gweithio'n galed gael eu pannu gan y Ceidwadwyr.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yn awr, ceir cwestiynau gan arweinwyr y pleidiau. Yn gyntaf y prynhawn yma, galwaf ar arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

Now, we have questions from the party leaders. First this afternoon, I call the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

13:40 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, do you think that the January GCSE English results were an injustice to young people in Wales?

Brif Weinidog, a ydych chi'n credu bod canlyniadau TGAU Saesneg mis Ionawr yn anghyfiawnder i bobl ifanc yng Nghymru?

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

There is a review that is taking place. It appears, from the initial investigation, that around 16% of schools are affected.

Mae adolygiad yn cael ei gynnal. Mae'n ymddangos, o'r ymchwiliad cychwynnol, bod tua 16% o ysgolion wedi eu heffeithio.

13:41 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I used the word 'injustice' because it was quite clearly used by the previous Minister for education when the last grading debacle happened some 18 months ago, when he actually used the words,

Defnyddiais y gair 'anghyfiawnder' gan iddo gael ei ddefnyddio'n gwbl eglur gan y Gweinidog addysg blaenorol yn dilyn y llanast graddio diwethaf tua18 mis yn ôl, pan ddefnyddiodd yr union eiriau hyn,

'to ensure that such an injustice does not happen in the future.'

'i sicrhau na fydd anghyfiawnder o'r fath yn digwydd eto.'

He then went on to fill out his argument. The head of the Association of School and College Leaders said,

Yna aeth ymlaen i ychwanegu manylion at ei ddadl. Dywedodd pennaeth y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau,

'A wheelbarrow-load of evidence is already pointing to systemic failure.'

Mae llond berfa o dystiolaeth eisoes yn awgrymu methiant systemig.

What is bemusing a lot of people is how this situation was allowed to occur. It has knocked the confidence of learners. It has knocked the confidence of teachers. When you have the chief executive of WJEC saying that the Government should now pause in its reform of the qualification system, do you not think that you should start to listen to such senior people in the education establishment, so that the learners, going forward, can have confidence that they will be given a fair crack of the whip?

Yr hyn sy'n drysu llawer o bobl yw sut y caniatawyd i'r sefyllfa hon ddigwydd. Mae wedi bwrw hyder dysgwyr. Mae wedi bwrw hyder athrawon. Pan fo gennych chi brif weithredwr CBAC yn dweud y dylai'r Llywodraeth oedi ei diwygiad o'r system gymwysterau nawr, onid ydych chi'n credu y dylech chi ddechrau gwrando ar bobl mewn swyddi uwch o'r fath yn y sefydliad addysg, fel y gall dysgwyr, yn y dyfodol, fod yn hyderus y byddant yn cael cyfleoedd teg?

13:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

If Michael Gove actually did that, I am sure that education in England would be in a far better place. He meddles and interferes with every opportunity. What has happened, of course, is that one unit with regard to English GCSE has been affected. From what we understand, it is a minority of schools that have been affected. It is right to say that the rigour of that unit has been improved so that spelling and grammar now count for more in terms of the marking system than was the case before—something that I am sure he would actually welcome. Nevertheless, as I have said, there is a quick review being taken forward, and I know that the Minister will give further details of that in the urgent question that will come after my questions.

Pe bai Michael Gove yn gwneud hynny mewn gwirionedd, rwy'n siŵr y byddai addysg yn Lloegr mewn sefyllfa lawer gwell. Mae'n ymyrryd ac yn amharu ar bob gafael. Yr hyn sydd wedi digwydd, wrth gwrs, yw bod un uned o Saesneg TGAU wedi cael ei heffeithio. O'r hyn yr ydym ni'n ei ddeall, lleiafrif o ysgolion yr effeithiwyd arnynt. Mae'n iawn dweud bod trylwyredd yr uned honno wedi ei wella fel bod sillafu a gramadeg bellach yn cyfrif am fwy o ran y system farcio nag oedd yn wir o'r blaen—rhywbeth yr wyf yn siŵr y byddai'n ei groesawu mewn gwirionedd. Er hynny, fel y dywedais, mae adolygiad cyflym yn cael ei gynnal, a gwn y bydd y Gweinidog yn rhoi rhagor o fanylion am hynny yn y cwestiwn a fydd yn dilyn fy nghwestiynau i.

13:42 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, 81 schools have been affected by the calamity, I would say, that happened last week to their cohort taking these exams. As I said, it has knocked learners' confidence just on the eve of their main summer exams. It has knocked the confidence of the teachers who will obviously have been teaching the modules. There has been, and there is, critical evidence out there that shows that the information to schools was slow in being made available through the module, as it progressed, arriving at the schools in October and November 2012. We saw a decline from a 23% pass of grade C to a 5% pass of grade C. That is an 18% reduction. When the chief executive of WJEC talks, as he does, as the most senior person within that examination board, and you say that you base your health reforms on the advice that you receive from senior clinicians, and therefore we should listen to them, should your Government not start listening to the educationalists who do want to improve Welsh education and instil confidence in our learners, rather than putting them through the debacle that you put them through last week?

Brif Weinidog, mae 81 o ysgolion wedi eu heffeithio gan y llanast, byddwn i'n dweud, a ddigwyddodd yr wythnos diwethaf i'w carfan a oedd yn sefyll yr arholiadau hyn. Fel y dywedais, mae wedi bwrw hyder dysgwyr a hwythau ar fin sefyll prif arholiadau'r haf. Mae wedi bwrw hyder yr athrawon a fydd yn amlwg wedi bod yn addysgu'r modiwlau. Bu tystiolaeth feirniadol, a cheir tystiolaeth feirniadol o hyd, sy'n dangos y rhoddwyd y wybodaeth ar gael i ysgolion yn araf drwy'r modiwl, wrth iddo ddatblygu, gan gyrraedd yr ysgolion ym mis Hydref a mis Tachwedd 2012. Gwelsom ostyngiad o 23% yn pasio â gradd C i 5% yn pasio â gradd C. Mae hynny'n ostyngiad o 18%. Pan fydd prif weithredwr CBAC yn siarad, fel y mae'n ei wneud, fel yr unigolyn uchaf yn y bwrdd arholi hwnnw, ac rydych chi'n dweud eich bod yn seilio eich diwygiadau iechyd ar y cyngor a gewch gan uwch glinigwyr, ac felly y dylem wrando arnynt, oni ddylai eich Llywodraeth ddechrau gwrando ar yr addysgwyr sydd eisiau gwella addysg yng Nghymru a magu hyder ymhlith ein dysgwyr, yn hytrach na'u rhoi drwy'r llanast i chi eu rhoi drwyddo yr wythnos diwethaf?

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Coming from a man whose party wants to cut education funding by 20%, I do find these things quite remarkable. [Assembly Members: 'Oh'.] The sheer amnesia that exists on the benches opposite is quite astounding at times. They must think that the Welsh public is stupid. The reality is that that is what his party wants to do, and he talks about raising standards. I make no apology for raising the standards of GCSE English.

Gan i hyn ddod oddi wrth ddyn y mae ei blaid eisiau torri cyllid ar gyfer addysg o 20%, rwy'n gweld y pethau hyn yn gwbl ryfeddol. [Aelodau'r Cynulliad: 'O'.] Mae'r amnesia llwyr sy'n bodoli ar y meinciau gyferbyn yn dra syfrdanol ar adegau. Mae'n rhaid eu bod nhw'n meddwl bod y cyhoedd yng Nghymru yn dwp. Y gwir yw mai dyna mae ei blaid eisiau ei wneud, ac mae'n sôn am godi safonau. Nid wyf yn gwneud unrhyw ymddiheuriad am godi safonau TGAU Saesneg.

13:44 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You are ripping the guts out of learners.

Rydych chi'n chwalu hyder dysgwyr.

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I make no apology for ensuring that spelling and grammar are examined in the way that they should be, and I am sure that the Welsh public would support that. We stand for higher standards; he stands for diluted standards. [Assembly Members: 'Oh'.]

Nid wyf yn ymddiheuro am sicrhau bod sillafu a gramadeg yn cael eu harholi yn y ffordd y dylent, ac rwy'n siŵr y byddai'r cyhoedd yng Nghymru yn cefnogi hynny. Rydym ni'n sefyll dros safonau uwch; mae e'n sefyll dros safonau wedi eu gwanhau. [Aelodau'r Cynulliad: 'O'.]

13:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. Gracious me.

Trefn. Mawredd mawr.

Galwaf ar arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

I call on the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

13:44 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

First Minister, I know that you will agree that, although International Women's Day is an annual event, we should work every day to ensure that issues of concern to women remain on the political agenda. Yesterday, two Welsh police officers were dismissed for failing to properly follow up complaints of sexual assaults on domestic abuse survivors by another officer. Although policing is not devolved, what action will you and your Government take to ensure that lessons are learned from this case?

Brif Weinidog, rwy'n gwybod y byddwch yn cytuno, er bod Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn ddigwyddiad blynyddol, y dylem ni weithio bob dydd i sicrhau bod materion sy'n peri pryder i fenywod yn parhau ar yr agenda wleidyddol. Ddoe, diswyddwyd dau swyddog yr heddlu yng Nghymru am fethu ag ymateb yn briodol i gwynion am ymosodiadau rhywiol gan swyddog arall ar rai a oedd wedi eu cam-drin yn ddomestig. Er nad yw plismona wedi ei ddatganoli, pa gamau y byddwch chi a'ch Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o'r achos hwn?

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, as the leader of Plaid Cymru will know, we have the violence against women and domestic abuse Bill, which is being taken through the Assembly. It will be introduced in June. That will be an opportunity for us to examine issues such as this and to strengthen the law where we can within our devolved competence to make sure, as she rightly says, that International Women's Day is not just one day a year but is something that is mainstreamed every day of the year.

Wel, fel y bydd arweinydd Plaid Cymru yn gwybod, mae gennym y Bil cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod, syddd ar ei ffordd drwy'r Cynulliad. Bydd yn cael ei gyflwyno ym mis Mehefin. Bydd hwnnw'n gyfle i ni archwilio materion fel y rhain a chryfhau'r gyfraith lle y gallwn o fewn ein cymhwysedd datganoledig i wneud yn siŵr, fel y mae hi'n ei ddweud yn gywir, mai nad un diwrnod y flwyddyn yn unig yw Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, ond rhywbeth sydd yn y prif-ffrwd bob dydd o'r flwyddyn.

13:45 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for your answer, First Minister. I know that proposals for legislation on domestic abuse will consider how public bodies can work together in order to reduce such abuse. One proposal is to create an adviser with a statutory role to work with public bodies and Government. Could such a role work, even though policing is not yet devolved?

Diolch yn fawr iawn am eich ateb, Brif Weinidog. Gwn y bydd cynigion ar gyfer deddfwriaeth ar gam-drin domestig yn ystyried sut y gall cyrff cyhoeddus weithio gyda'i gilydd er mwyn lleihau camdriniaeth o'r fath. Un cynnig yw creu ymgynghorydd â swyddogaeth statudol i weithio gyda chyrff cyhoeddus a'r Llywodraeth. A allai swyddogaeth o'r fath weithio, er nad yw plismona wedi ei ddatganoli eto?

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, it could. There are many ways, of course, in which abuse can be avoided. That means looking at social services and looking at advice services. In many ways, when abuse comes to the attention of the police and the prosecuting authorities, it has gone too far. So, what we want to do is, within our devolved competence, to ensure that as much as possible is done before things get to that stage in order to avoid abuse in the first place.

Gallai'n wir. Ceir llawer o ffyrdd, wrth gwrs, o osgoi camdriniaeth. Mae hynny'n golygu edrych ar wasanaethau cymdeithasol ac edrych ar wasanaethau cynghori. Mewn sawl ffordd, pan fydd cam-drin yn dod i sylw'r heddlu a'r awdurdodau erlyn, mae wedi mynd yn rhy bell. Felly, yr hyn rydym ni eisiau ei wneud, o fewn ein cymhwysedd datganoledig, yw sicrhau bod cymaint â phosibl yn cael ei wneud cyn i bethau gyrraedd y cam hwnnw er mwyn osgoi cam-drin yn y lle cyntaf.

13:46 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I very much welcome your response, First Minister, and Plaid Cymru would support your view that prevention is always better than cure. We agree as well that early intervention and education are crucial in this debate. There has been some concern recently about evidence about attitudes towards sexual harassment and sexual violence. What interventions can your Government make within the education system to help to create healthier attitudes towards gender equality and sexual relationships?

Rwy’n croesawu eich ymateb yn fawr, Brif Weinidog, a byddai Plaid Cymru yn cefnogi eich safbwynt bod atal yn well na gwella bob amser. Rydym yn cytuno hefyd bod ymyrraeth gynnar ac addysg yn hanfodol yn y ddadl hon. Bu rhywfaint o bryder yn ddiweddar oherwydd tystiolaeth o agweddau tuag at aflonyddu rhywiol a thrais rhywiol. Pa ymyraethau all eich Llywodraeth eu gwneud o fewn y system addysg i helpu i greu agweddau iachach tuag at gydraddoldeb rhwng y rhywiau a pherthnasoedd rhywiol?

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I would hope, of course, that this forms part of what schools are teaching in their personal and social education courses, particularly ensuring that the children that they produce through the school system are not just well educated in the academic sense, but are well-rounded individuals as well. I know that many schools make a great effort—well, they all make a great effort—to ensure that equality, particularly, is seen as exceptionally important, be that racial equality or sexual equality, and I am very glad to see the examples that I have seen in schools around Wales of schools delivering on that agenda.

Byddwn yn gobeithio, wrth gwrs, bod hyn yn rhan o’r hyn y mae ysgolion yn ei addysgu yn eu cyrsiau addysg bersonol a chymdeithasol, gan sicrhau’n benodol nid yn unig bod y plant y maen nhw’n eu cynhyrchu drwy’r system ysgol yn cael eu haddysgu’n dda yn yr ystyr academaidd, ond eu bod yn unigolion cyflawn hefyd. Gwn fod llawer o ysgolion yn gwneud ymdrech fawr—wel, maen nhw i gyd yn gwneud ymdrech fawr—i sicrhau bod cydraddoldeb, yn benodol, yn cael ei ystyried yn eithriadol o bwysig, pa un a yw’n gydraddoldeb hiliol neu gydraddoldeb rhywiol, ac rwy’n falch iawn o weld yr enghreifftiau yr wyf wedi eu gweld mewn ysgolion o gwmpas Cymru o ysgolion yn cyflawni ar yr agenda honno.

13:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yn olaf, arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

Finally, the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

13:47 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, last year, the National Union of Teachers surveyed its members, asking them about their experience of the new literacy and numeracy tests introduced by your Government. Unfortunately, the survey results do not make for very positive reading. When asked, ‘Do you think the literacy and numeracy tests have been a positive experience for pupils?’ 93% of the teachers who responded to the survey said ‘no’. When asked, ‘Do you think the tests have provided any new information about the pupils that you teach that is not provided by teacher assessments?’ 92% of the teachers who responded said ‘no’. First Minister, if you cannot carry the profession with you, how on earth can you expect these tests to make the difference in literacy and numeracy that our schoolchildren so desperately need?

Brif Weinidog, y llynedd, cynhaliodd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon arolwg ymhlith ei aelodau, gan ofyn iddynt am eu profiad o’r profion llythrennedd a rhifedd newydd a gyflwynwyd gan eich Llywodraeth. Yn anffodus, nid yw’r canlyniadau’r arolwg yn rhai cadarnhaol iawn. Pan ofynnwyd, ‘A ydych chi’n credu bod y profion llythrennedd a rhifedd wedi bod yn brofiad cadarnhaol i ddisgyblion?’ dywedodd 93% o’r athrawon a ymatebodd i’r arolwg ‘nac ydw’. Pan ofynnwyd, ‘A ydych chi’n credu bod y profion wedi darparu unrhyw wybodaeth newydd am y disgyblion yr ydych chi’n eu haddysgu nad yw’n cael ei darparu gan asesiadau athrawon?’ dywedodd 92% o’r athrawon a ymatebodd ‘nac ydw’. Brif Weinidog, os na allwch chi ddarbwyllo’r proffesiwn i’ch dilyn chi, sut ar y ddaear y gallwch chi ddisgwyl i’r profion hyn wneud y gwahaniaeth mewn llythrennedd a rhifedd y mae ein plant ysgol ei angen mor daer?

13:48

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I am a parent and I welcomed the tests. I know that many others did as well. For the first time, I was able to understand objectively how my children were doing. It may well be that there are some in the profession who do not like it, but the tests are staying. I want to make sure that we are able to assess how children are doing. I want to make sure that teachers are able to benchmark their own grading of children against a more objective benchmark—it is helpful for them as well. However, I believe very strongly that parents have very much welcomed the literacy and numeracy tests in order to provide an idea of how children are progressing through school.

Rwyf fi'n rhiant ac roeddwn i'n croesawu'r profion. Gwn fod llawer o bobl eraill yn eu croesawu hefyd. Am y tro cyntaf, roeddwn i'n gallu deall yn wrthrychol sut yr oedd fy mhlant yn dod ymlaen. Efallai'n wir fod rhai yn y proffesiwn nad ydynt yn eu hoffi, ond mae'r profion yn aros. Rwyf eisiau gwneud yn siŵr y gallwn asesu sut y mae plant yn dod yn eu blaenau. Rwyf eisiau gwneud yn siŵr bod athrawon yn gallu meincnodi eu graddio eu hunain o blant yn erbyn meincnod mwy gwrthrychol—mae'n ddefnyddiol iddyn nhw hefyd. Fodd bynnag, rwy'n credu'n gryf iawn bod rhieni wedi croesawu'r profion llythrennedd a rhifedd yn fawr, i roi syniad o sut mae plant yn mynd yn eu blaenau drwy'r ysgol.

13:48

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The question that I asked, First Minister, was on what you were doing as a Government to ensure that the profession felt the same way, because it is clear from this survey that it does not. Last week, we saw unexpectedly low results from the new English language GCSE exams that your Government has introduced in a lot of Welsh schools. Now, WJEC has said that some schools appear to have struggled to cope with the changes to that exam and have not prepared themselves and their children well enough. Could you outline to the Chamber what steps your Government did take to ensure that the profession and the schools were ready for those new exams?

Roedd y cwestiwn a ofynnais, Brif Weinidog, yn ymwneud â'r hyn yr ydych chi fel Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod y proffesiwn yn teimlo yr un fath, oherwydd mae'n amlwg o'r arolwg hwn nad yw'n teimlo yr un fath. Yr wythnos diwethaf, gwelsom ganlyniadau annisgwyl o isel o'r arholiadau TGAU iaith Saesneg newydd y mae eich Llywodraeth wedi eu cyflwyno mewn llawer o ysgolion yng Nghymru. Erbyn hyn, mae CBAC wedi dweud ei bod yn ymddangos bod rhai ysgolion wedi cael trafferth i ymdopi â'r newidiadau i'r arholiad ac nad ydynt wedi paratoi eu hunain a'u plant yn ddigon da. A allech chi amlinellu i'r Siambr pa gamau a gymerwyd gan eich Llywodraeth i sicrhau bod y proffesiwn a'r ysgolion yn barod ar gyfer yr arholiadau newydd hynny?

13:49

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

As the Minister for education will be able to outline, it is clear from the initial findings that this is not something that happened in every school—far from it. There were some schools that were not affected and some were affected more than others. Why that is the case is something that a review will look at to try to understand why some schools are affected more than others. With regard to the change in the way in which English was assessed, however, yes, there was more emphasis on spelling and grammar. I would expect English teachers to teach spelling and grammar. There is no point being creative in English if you cannot spell or use punctuation. You will not get a job by doing that. So I make no apologies for the fact that spelling and grammar have been given greater weighting than before at a time when, particularly, skills such as oracy are being downgraded in England. I think it is important that children are able to express themselves properly in writing and I would expect teachers to be able to teach that and produce children who can do just that.

Fel y bydd y Gweinidog addysg yn gallu amlinellu, mae'n amlwg o'r canfyddiadau cychwynnol nad yw hyn yn rhywbeth a ddigwyddodd ym mhob ysgol—o bell ffordd. Roedd rhai ysgolion na chawsant eu heffeithio ac effeithiwyd ar rai yn fwy nag eraill. Mae pam mae hynny'n wir yn rhywbeth y bydd adolygiad yn ei ystyried i geisio deall pam mae rhai ysgolion yn cael eu heffeithio'n fwy nag eraill. O ran y newid i'r ffordd yr aseswyd Saesneg, fodd bynnag, oedd, roedd mwy o bwyslais ar sillafu a gramadeg. Byddwn yn disgwyl i athrawon Saesneg addysgu sillafu a gramadeg. Nid oes unrhyw bwynt bod yn greadigol yn y Saesneg os nad ydych chi'n gallu sillafu neu ddefnyddio atalnodau. Ni fyddwch yn cael swydd drwy wneud hynny. Felly, nid wyf yn gwneud unrhyw ymddiheuriadau am y ffaith y rhoddwyd mwy o bwyslais ar sillafu a gramadeg nag o'r blaen ar adeg pan, yn benodol, fo sgiliau fel llafaredd yn cael eu hisraddio yn Lloegr. Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod plant yn gallu mynegi eu hunain yn briodol yn ysgrifenedig a byddwn yn disgwyl i athrawon allu addysgu hynny a chynhyrchu plant sy'n gallu gwneud yn union hynny.

13:50 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

With all due respect, again, First Minister, the question I asked you was: could you outline what steps your Government had taken to ensure that teachers and schools were prepared for the new exam? You have not been able to give me a single action that your Government took. The chief executive of WJEC has gone on to warn that schools may not be ready for the new GCSEs and Welsh baccalaureate that you plan to introduce in September next year. While poor GCSE results might only be a political hiccup and a bad news headline for you for one day, for the pupils that take those exams, those results will stay with them for the rest of their lives. You have already ruled out delays in the introduction of those exams, so I will ask you specifically once again: what steps is your Government taking to ensure that teachers and schools are adequately prepared to teach those new exam curricula so our children get the best possible chance of achieving their potential? What steps are you taking to ensure that that happens?

Gyda phob dyledus barch, unwaith eto, Brif Weinidog, y cwestiwn a ofynnais i chi oedd: a allwch chi amlinellu pa gamau a gymerwyd gan eich Llywodraeth i sicrhau bod athrawon ac ysgolion yn barod ar gyfer yr arholiad newydd? Nid ydych chi wedi gallu rhoi yr un cam a gymerodd eich Llywodraeth i mi. Mae prif weithredwr CBAC wedi mynd yn ei flaen i rybuddio efallai nad yw ysgolion yn barod ar gyfer y TGAU newydd a bagloriaeth Cymru yr ydych chi'n bwriadu eu cyflwyno ym mis Medi y flwyddyn nesaf. Er efallai mai dim ond anhawster gwleidyddol neu bennawd newyddion gwael am un diwrnod fydd canlyniadau TGAU gwael i chi, i'r disgyblion sy'n sefyll yr arholiadau hynny, bydd y canlyniadau hynny yn aros gyda nhw am weddill eu hoes. Rydych chi eisoes wedi dweud na fydd oedi wrth gyflwyno'r arholiadau hynny, felly, rwy'n gofyn i chi'n benodol unwaith eto: pa gamau mae eich Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau bod athrawon ac ysgolion yn cael eu paratoi'n briodol i addysgu'r cwricwla arholiad newydd hynny fel bod ein plant yn cael y cyfle gorau posibl o wireddu eu potensial? Pa gamau ydych chi'n eu cymryd i sicrhau bod hynny'n digwydd?

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

First of all, WJEC has a role, of course, as the exams board. It cannot just say, 'It's nothing to do with us, guv'. Secondly, I have absolutely no qualms at all in saying the literacy and numeracy tests have been an enormously good thing for children and for parents. There are many parents like myself who, for the first time, have an understanding of how children are doing in an objective way. Thirdly, in terms of English GCSE, it is a matter for WJEC to communicate the change in weighting to schools, but, in any event, I expect English teachers to teach English. I expect English teachers to be able to teach spelling and grammar and punctuation, and I do not accept in any way, shape or form that, somehow, because this is a greater part of the English GCSE syllabus, teachers have been wrong-footed. It is important that teachers teach the basic skills to children. There are schools that have not been affected, and there are schools that have been affected. We need to find out why, but I cannot for the life of me understand the tenor of the Lib Dem leader's views that, somehow, it is a surprise that teachers of English should be asked to teach spelling and grammar.

Yn gyntaf oll, mae gan CBAC swyddogaeth, wrth gwrs, fel y bwrdd arholiadau. Ni all ddweud, 'Nid oes gan hyn unrhyw beth i wneud â ni'. Yn ail, nid oes gennyf unrhyw amheuon o gwbl wrth ddweud bod y profion llythrennedd a rhifedd wedi bod yn beth eithriadol o dda i blant ac i rieni. Mae llawer o rieni fel fi sydd, am y tro cyntaf, yn deall sut mae plant yn gwneud mewn ffordd wrthrychol. Yn drydydd, o ran Saesneg TGAU, mater i CBAC yw cyfleu'r newid mewn pwyslais i ysgolion, ond, beth bynnag, rwy'n disgwyl i athrawon Saesneg addysgu Saesneg. Rwy'n disgwyl i athrawon Saesneg allu addysgu sillafu a gramadeg ac atalnodi, ac nid wyf yn derbyn mewn unrhyw ffordd o gwbl, gan fod hyn yn rhan fwy o faes llafur TGAU Saesneg, bod athrawon, rhywsut, wedi cael eu dal heb fod yn barod. Mae'n bwysig bod athrawon yn addysgu'r sgiliau sylfaenol i blant. Ceir ysgolion nad effeithiwyd arnynt, a cheir ysgolion sydd wedi cael eu heffeithio. Mae angen i ni ddarganfod pam, ond ni allaf yn fy myw ddeall natur safbwyntiau arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol ei bod rywsut yn syndod y dylid gofyn i athrawon Saesneg addysgu sillafu a gramadeg.

13:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar y papur, a chwestiwn 3 gan David Rees.

We return to the questions on the Order paper, and question 3 from David Rees.

### Twf Economaidd

### Economic Growth

13:52 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*3. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn ysgogi twf economaidd yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)1547(FM)*

*3. How is the Welsh Government stimulating economic growth in South Wales West? OAQ(4)1547(FM)*

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

In many ways, of course. First of all, we look at Jobs Growth Wales in terms of what that has done for youth employment in Wales. We look for example at the jobs statistics, which show that Wales's unemployment rate is at 7.1%, and the fact that more and more jobs are being safeguarded and created through foreign direct investment, and, of course, the improvement in home-grown entrepreneurship.

Mewn sawl ffordd, wrth gwrs. Yn gyntaf oll, rydym yn edrych ar Dwf Swyddi Cymru o ran yr hyn y mae hwnnw wedi ei wneud ar gyfer cyflogaeth ieuenctid yng Nghymru. Rydym yn edrych er enghraifft yn yr ystadegau swyddi, sy'n dangos mai 7.1% yw cyfradd diweithdra Cymru, a'r ffaith fod mwy a mwy o swyddi yn cael eu diogelu a'u creu trwy fuddsoddiad tramor uniongyrchol, ac, wrth gwrs, y gwelliant i entrepreneuriaeth gartref.

13:53 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. I welcome the recent figures demonstrating that unemployment across Wales has fallen to 7.1% and commend the Welsh Government on its work in this area, as well as on its work in reducing youth unemployment. However, the most recent economic figures have highlighted that the South Wales West region, and my area of Aberavon in particular, has fallen behind the rest of Wales in terms of economic growth and employment. If you add this to the recent Trades Union Congress report highlighting that the average Welsh worker is now over £1,600 worse off in real terms than before the Tory-led UK Government got into power in 2010, there is a clear impact upon our local economy. What more could the Welsh Government actually be doing to stimulate economic growth and job creation in my area, so that we can feel the same Wales-wide economic benefits?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Rwy'n croesawu'r ffigurau diweddar sy'n dangos bod diweithdra ledled Cymru wedi gostwng i 7.1% ac yn canmol Llywodraeth Cymru ar ei gwaith yn y maes hwn, yn ogystal ag ar ei gwaith i leihau diweithdra ymhlith pobl ifanc. Fodd bynnag, mae'r ffigurau economaidd diweddaraf wedi amlygu bod rhanbarth Gorllewin De Cymru, a fy ardal i yn Aberafan yn benodol, wedi disgyn y tu ôl i weddill Cymru o ran twf economaidd a chyflogaeth. Os ychwanegwch chi hyn at adroddiad diweddar Cyngres yr Undebau Llafur a oedd yn amlygu bod gweithiwr cyffredin yng Nghymru yn waeth ei fyd o £1,600 bellach mewn termau real na chyn i Lywodraeth y DU dan arweiniad y Torïaid ddod i rym yn 2010, ceir effaith eglur ar ein heconomi leol . Beth arall y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud mewn gwirionedd i ysgogi twf economaidd a chreu swyddi yn fy ardal i, fel y gallwn deimlo'r un manteision economaidd â Chymru gyfan?

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Of course, the major employer in the Member's constituency is Tata, and we have a very good relationship with Tata. He will know of the visit I made to India, and the fact that £800 million-worth of investment was announced after that visit to Tata itself. We know that that investment was needed to turn the steelworks around. There are many other companies that would simply have abandoned Port Talbot. Tata did not do that. It invested the money that was needed in order to provide the steelworks of the future that it needs. We are keen to see that grow and to see the impressive growth that there has been in youth employment, mainly through the use of Jobs Growth Wales as well as other schemes that I have mentioned in terms of entrepreneurship and, of course, the good record that we have particularly in foreign direct investment and now with exports, where we have seen Wales, yet again, massively outstrip the rest of the UK.

Wrth gwrs, Tata yw'r prif gyflogwr yn etholaeth yr Aelod, ac mae gennym berthynas dda iawn gyda Tata. Bydd yn gwybod am yr ymweliad a dalais ag India, a'r ffaith y cyhoeddwyd gwerth £800 miliwn o fuddsoddiad ar ôl yr ymweliad hwnnw yn Tata ei hun. Rydym yn gwybod bod angen y buddsoddiad hwnnw i wrthdroi'r gwaith dur. Mae llawer o gwmnïau eraill a fyddai wedi gadael Port Talbot. Ni wnaeth Tata hynny. Buddsoddodd yr arian yr oedd ei angen er mwyn darparu gwaith dur ar gyfer y dyfodol y mae ei angen arno. Rydym yn awyddus i weld hynny'n tyfu ac i weld twf trawiadol a fu mewn cyflogaeth ymhlith pobl ifanc, yn bennaf trwy ddefnyddio Twf Swyddi Cymru yn ogystal â chynlluniau eraill yr wyf wedi eu crybwyll o ran entrepreneuriaeth ac, wrth gwrs, yr hanes da sydd gennym, yn enwedig o ran buddsoddiad uniongyrchol o dramor a nawr gydag allforion, lle'r ydym wedi gweld Cymru, unwaith eto, yn perfformio'n llawer gwell na gweddill y DU.

13:54 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you will be aware of the importance to the Afan Valley of its world-class mountain biking routes, which have helped contribute £3 million a year to the area. With the infection of larches now effectively out of control in south Wales, we can already see how felling has damaged those forest routes in the Afan valley. The Welsh Government can commit to funding of speedy and complete planting of mixed forestry in those areas where felling has taken place to help maintain the tourist economy momentum in South Wales West. Is that a commitment that you are able to give today?

Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol o bwysigrwydd ei lwybrau beicio mynydd, sydd ymhlith y gorau yn y byd, i Gwm Afan, sydd wedi helpu i gyfrannu £3 miliwn y flwyddyn i'r ardal. Gan fod haint llarwydd fwy neu lai allan o reolaeth yn ne Cymru bellach, gallwn weld eisoes sut mae torri coed wedi difrodi'r llwybrau coedwig hynny yng nghwm Afan. Gall Llywodraeth Cymru ymrwymo i ariannu plannu cyflym a chyflawn o goedwigaeth gymysg yn yr ardaloedd hynny lle torrwyd coed i helpu i gynnal momentwm yr economi twristiaeth yn ne-orllewin Cymru. A yw hwnnw'n ymrwymiad y gallwch chi ei roi heddiw?

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, it has been the case for many years that we expected Forestry Commission Wales—now, of course, Natural Resources Wales—to plant more mixed woodlands than was the case before. 'Woodlands for Wales', the strategy that was produced more than 10 years ago now, said just that—that there was a need to ensure that we did not just see conifers. Yes, they are important for the saw mills, but it is also important that woodlands are seen as an area for recreation.

Wel, mae wedi bod yn wir ers blynyddoedd lawer ein bod yn disgwyl i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru—Cyfoeth Naturiol Cymru bellach wrth gwrs—i blannu mwy o goetiroedd cymysg nag oedd yn wir cynt. Roedd 'Coetiroedd i Gymru', y strategaeth a gynhyrchwyd fwy na 10 mlynedd yn ôl bellach, yn dweud yn union hynny—bod angen sicrhau nad ydym yn gweld coed conwydd yn unig. Ydy, maen nhw'n bwysig ar gyfer y melinau llif, ond mae hefyd yn bwysig bod y coetiroedd yn cael eu gweld fel ardal ar gyfer hamdden.

You talk about the Afan valley, and it is right to say that, 20 years ago, forestry was seen as an imposition on the people there. I was able to open the new centre there in Glyncorrwg—again, some 12 years ago, now—and I have seen the impact that mountain biking has had.

Rydych chi'n sôn am gwm Afan, ac mae'n iawn i ddweud, 20 mlynedd yn ôl, yr ystyriwyd bod coedwigaeth yn cael ei wthio ar y bobl yno. Cefais i agor y ganolfan newydd yno yng Nglyncorrwg—unwaith eto, tua 12 mlynedd yn ôl, erbyn hyn—ac rwyf wedi gweld yr effaith y mae beicio mynydd wedi ei chael.

In terms of areas where there has had to be felling of larch, it is absolutely crucial that, when the time is right to do so, when it is safe to do so, there is further planting, not just of larch, but that consideration is given to broadleaved species as well.

O ran yr ardaloedd lle bu'n rhaid torri llarwydd, mae'n gwbl hanfodol, pan fydd yr amser yn iawn i wneud hynny, pan fydd yn ddiogel i wneud hynny, y ceir plannu pellach, nid yn unig o larwydd, ond y rhoddir ystyriaeth i rywogaethau llydanddail hefyd.

13:56 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I asked you around two years ago what your Government would be doing to market brownfield land unlocked around Port Talbot as a result of the opening of Harbour Way. You said that you would be looking to encourage businesses to invest in that area. Can you give us an outline today of what you have done between now and the last time that I asked you this question?

Brif Weinidog, gofynnais i chi tua dwy flynedd yn ôl beth fyddai eich Llywodraeth yn ei wneud i farchnata tir llwyd a gafodd ei roi ar gael o amgylch Port Talbot o ganlyniad i agor Ffordd yr Harbwr. Dywedasoch y byddech yn ceisio annog busnesau i fuddsoddi yn yr ardal honno. A allwch chi roi amlinelliad i ni heddiw o'r hyn yr ydych chi wedi ei wneud rhwng nawr a'r tro diwethaf y gofynnais y cwestiwn hwn i chi?

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Working with Neath Port Talbot County Borough Council, we have seen Harbour Way open. That has opened up an enormous amount of land for potential development in future, including, of course, part of the docks. Before the road was opened, it was very difficult to attract anybody there because of the lack of access. However, the opening of the road—some months ago now—will certainly act as a stimulus to open up for development that part of Part Talbot in the area that leads up to the southern end of the town centre and beyond.

Gan weithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, rydym ni wedi gweld Ffordd yr Harbwr yn cael ei hagor. Mae hynny wedi sicrhau bod llawer iawn o dir ar gael ar gyfer datblygiad posibl yn y dyfodol, gan gynnwys, wrth gwrs, rhan o'r dociau. Cyn i'r ffordd gael ei hagor, roedd yn anodd iawn denu unrhyw un yno oherwydd y diffyg mynediad. Fodd bynnag, mae'n sicr y bydd agor y ffordd—rai misoedd yn ôl bellach—yn gweithredu fel ysgogiad i agor y rhan honno o Bort Talbot ar gyfer datblygiad, yn yr ardal sy'n arwain at ben deheuol canol y dref a thu hwnt.

### Gwasanaeth Trên

### Train Service

13:57 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. Beth yw polisi Llywodraeth Cymru o ran sicrhau gwasanaeth trên amlach o Aberystwyth? OAQ(4)1540(FM)*

*4. What is the Welsh Government's policy with regard to ensuring a more frequent train service from Aberystwyth? OAQ(4)1540(FM)*

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Ar hyn o bryd rydym yn ystyried y posibilrwydd o wasanaeth trên amlach, gan gynnwys gwasanaeth bob awr ar reilffordd canolbarth Cymru.

We are currently looking at the possibility of a more frequent train service, including an hourly service on the Cambrian line.

13:57 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, mae ymgyrch gref wedi cael ei sefydlu yn y canolbarth i ddangos y gwir angen am wasanaeth trên amlach, ac mae'r ymgyrch honno wedi cyflwyno tystiolaeth i'r Gweinidog. Fel yr ydych yn sôn, mae penderfyniad ar fin cael ei gymryd gennych fel Llywodraeth ar y gwasanaeth hwn, felly, a gaf gymryd y cyfle i'ch annog i edrych ar bwysigrwydd gwasanaeth trên amlach i Aberystwyth ac o Aberystwyth? Dyna'r unig reilffordd sy'n gwasanaethu Ceredigion, ac mae gwir angen i'r rheilffordd honno fod yn gwasanaethu'n amlach nag yw ar hyn o bryd. Hefyd, mae gwir angen rhywfaint o newyddion da ar bobl Aberystwyth a phobl Borth ar ôl y gaeaf caled y maent wedi'i wynebu.

First Minister, a strong campaign has been run in mid Wales to demonstrate the real need for a more frequent train service, and that campaign has presented evidence to the Minister. As you mentioned, a decision is just about to be made by you as a Government on that service, therefore, may I take this opportunity to urge you to look at the importance of a more frequent train service to and from Aberystwyth? That is the only rail route that serves Ceredigion, and there is a real need for that line to have more frequent services. Also, the people of Aberystwyth and of Borth do really need some good news after the very hard winter that they have faced.

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae hynny'n iawn. Rwy'n gwybod y cyfarfu'r Gweinidog â phwyllgor 'liaison' y rheilffordd o Aberystwyth i'r Amwythig yn ôl ym mis Tachwedd. Mae hi'n cwrdd â'r pwyllgor eto yfory er mwyn ystyried argymhellion sydd wedi cael eu rhoi iddi gan grŵp gweithredu rheilffordd Cambria. Gobeithio y bydd yna sgwrs ynglŷn â pha ffordd ymlaen sy'n bosibl, wrth gofio'r sefyllfa ariannol, gyda'r pwyllgor hwnnw.

That is quite right. I know that the Minister met the liaison committee covering this particular stretch of railway in November. She will meet the committee again tomorrow in order to consider recommendations that have been made to her by the Cambrian railway action group. I do hope that there will be a conversation as to the possible way forward, bearing in mind the financial position, with that committee.

13:58 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Please excuse my poor voice today, First Minister. There is no doubt that an hourly service on the Cambrian line is vital and must happen. However, there are concerns from farmers regarding moving livestock from either side of the line, as this is quite an intensive process. Would you be prepared to have discussions with Network Rail, or make representations to it, with regard to creating stock-proof holding areas close to the boundary of the line to help speed up movement? Sorry again about my voice.

Esgusodwch fy llais gwan heddiw, Brif Weinidog. Nid oes unrhyw amheuaeth fod gwasanaeth bob awr ar reilffordd y Cambrian yn hanfodol ac mae'n rhaid iddo ddigwydd. Fodd bynnag, ceir pryderon gan ffermwyr o ran symud da byw o'r naill ochr i'r lein i'r llall, gan fod hon yn broses eithaf dwys. A fyddech chi'n fodlon cynnal trafodaethau gyda Network Rail, neu wneud sylwadau iddo, o ran creu ardaloedd cadw sy'n addas ar gyfer stoc yn agos at ffin y rheilffordd i helpu i gyflymu'r symudiad? Unwaith eto, mae'n ddrwg gennyf am fy llais.

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I commend the Member on his voice lasting; we have all been in that position. He raises an important point, and that is that, if there are to be more regular services, as we hope that there will be when the time is right and the money is there on the central Wales railway, consideration is given to the need to move livestock across the line. Where there are more frequent services, then that involves looking at ways of holding livestock back until the line is clear. Certainly, I will ask the Minister to write to Network Rail to raise those concerns to ensure that there is a solution in future if we do see more frequent services.

Cymeradwyaf yr Aelod bod ei lais wedi para; rydym ni i gyd wedi bod yn y sefyllfa honno. Mae'n codi pwynt pwysig, sef os ydym ni am gael gwasanaethau mwy rheolaidd, fel y gobeithiwn y bydd gennym pan fydd yr amser yn iawn a'r arian ar gael ar reilffordd canolbarth Cymru, y rhoddir ystyriaeth i'r angen i symud da byw ar draws y rheilffordd. Lle ceir gwasanaethau amlach, yna mae hynny'n golygu edrych ar ffyrdd o ddal da byw yn ôl tan fod y rheilffordd yn glir. Yn sicr, byddaf yn gofyn i'r Gweinidog ysgrifennu at Network Rail i godi'r pryderon hynny er mwyn sicrhau y bydd ateb yn y dyfodol os byddwn yn gweld gwasanaethau amlach.

## Trafnidiaeth Gyhoeddus

## Public Transport

13:59 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus? OAQ(4)1544(FM)*

*5. What is the Welsh Government doing to increase the use of public transport? OAQ(4)1544(FM)*

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We recognise the importance of effective and affordable public transport in Wales, and, as a result of our investment, rail service capacity and indeed passenger numbers have seen an expansion. For example, we have seen an increase of approximately 50% in passenger numbers using Arriva Trains Wales services from the start of the franchise in 2003 and, of course, we have seen the re-opening over the last decade or two of the Vale of Glamorgan line and the Ebbw Valley line.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cludiant cyhoeddus effeithiol a fforddiadwy yng Nghymru, ac, o ganlyniad i'n buddsoddiad, mae gallu'r gwasanaeth rheilffyrdd a nifer y teithwyr yn wir, wedi cynyddu. Er enghraifft, rydym ni wedi gweld cynnydd o tua 50% yn nifer y teithwyr sy'n defnyddio gwasanaethau Trenau Arriva Cymru ers dechrau'r fasnachfraint yn 2003 ac, wrth gwrs, mae rheilffordd Bro Morgannwg a rheilffordd Cwm Ebwy wedi ail-agor yn ystod y degawd neu ddau diwethaf.

14:00 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The south-east Wales metro project is obviously a great opportunity to encourage people to use public transport, especially in those communities that have limited access to public transport at the moment. A stage 1 report has identified the north-east quadrant of Cardiff as the largest area of disconnected communities in the region. There is a huge population in places like Pentwyn, Pontprennau and so on that has very poor access to either bus or rail services. Would you agree with me that connecting those kinds of disconnected communities should be the No 1 priority for the metro project?

Mae prosiect metro de-ddwyrain Cymru yn amlwg yn gyfle gwych i annog pobl i ddefnyddio cludiant cyhoeddus, yn enwedig yn y cymunedau hynny sydd â mynediad cyfyngedig at gludiant cyhoeddus ar hyn o bryd. Mae adroddiad cam 1 wedi nodi cwadrant gogledd-ddwyrain Caerdydd fel yr ardal fwyaf o gymunedau sydd wedi eu datgysylltu yn y rhanbarth. Ceir poblogaeth enfawr mewn lleoedd fel Pentwyn, Pontprennau ac yn y blaen sydd â mynediad gwael iawn wasanaethau bysiau neu reilffordd. A fyddech chi'n cytuno â mi y dylai cysylltu'r mathau hynny o gymunedau datgysylltiedig fod y prif flaenoriaeth i'r prosiect metro?

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Consideration can be given to all of these in the project. We welcome, of course, the commitment given by the UK Government to pay in full for electrification of all of the Valleys lines and the main line to Swansea. We look forward to that being confirmed in the course of the next few weeks. It is important that those communities to the east of Cardiff that have traditionally been disconnected from the railway lines—because of the way that the lines were built originally in Victorian times—are able to access regular, sustainable public transport, be it rail or bus, to make sure that there are viable alternatives other than the car for people travelling into the city centre to work.

Gellir rhoi ystyriaeth i bob un o'r rhain yn y prosiect. Rydym yn croesawu, wrth gwrs, yr ymrwymiad a wnaed gan Lywodraeth y DU i dalu'n llawn am drydaneiddio holl reilffyrdd y Cymoedd a'r brif reilffordd i Abertawe. Edrychwn ymlaen at gadarnhau hynny yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf. Mae'n bwysig bod y cymunedau hynny i'r dwyrain o Gaerdydd sydd wedi cael eu datgysylltu o'r rheilffordd yn draddodiadol—oherwydd y ffordd yr adeiladwyd y rheilffyrdd yn wreiddiol yn Oes Victoria—yn gallu cael mynediad at gludiant cyhoeddus rheolaidd, cynaliadwy, boed yn rheilffordd neu'n fws, i wneud yn siŵr bod dewisiadau eraill hyfyw ar wahân i'r car i bobl sy'n teithio i ganol y ddinas i weithio.

14:01 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, access to reliable public transport is absolutely vital in my constituency, in part due to low car ownership rates. What guidance does the Welsh Government give to bus operators and local authorities to make sure that access to public transport is adequate to the needs of local communities? As an example, in Penrhiwceiber a bus company has suddenly ceased using a bus stop that has been in use for 40 years. This is causing much anger and great inconvenience to the many elderly and disabled residents who use the stop and who now face long walks to access public transport.

Brif Weinidog, mae mynediad at gludiant cyhoeddus dibynadwy yn gwbl hanfodol yn fy etholaeth i, yn rhannol oherwydd cyfraddau perchnogaeth car isel. Pa ganllawiau mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi i weithredwyr bysiau ac awdurdodau lleol i sicrhau bod mynediad at gludiant cyhoeddus yn ddigonol i anghenion cymunedau lleol? Fel enghraifft, mae cwmni bysiau ym Mhenrhiw-ceibr wedi rhoi'r gorau'n sydyn i ddefnyddio arhosfan bws sydd wedi ei ddefnyddio ers 40 mlynedd. Mae hyn yn achosi llawer o ddicter ac anghyfleustra mawr i'r nifer o drigolion oedrannus ac anabl sy'n defnyddio'r arhosfan ac sydd bellach yn wynebu teithiau cerdded hir i gael mynediad at gludiant cyhoeddus.

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I am sure that that is an issue of concern. Of course, it is important that if bus companies decide not to use stops, a bus stop is provided as close as possible to the original—there might be an issue of the accessibility of the stop; I am not familiar with it. What I can say to the Member is that we do not issue guidance to bus operators, but each local authority, working with the operators and representatives of passengers, is responsible for determining whether local public transport facilities are adequate and appropriate. Where decisions are made as to where to locate a bus stop, it is imperative that local authorities look carefully at the road safety implications, both for passengers and other road users. I can say to the Member that we do provide financial support for Bus Users UK Cymru, which can assist with bus passengers' complaints about services or take them forward to bus service providers and, indeed, to the local authority, where appropriate. I would urge those with a concern—going through you as a Member—to contact that body with that concern.

Rwy'n siŵr bod hynny'n fater o bryder. Wrth gwrs, mae'n bwysig os bydd cwmnïau bysiau yn penderfynu peidio â defnyddio arosfannau, bod arhosfan bws yn cael ei ddarparu mor agos â phosibl at y gwreiddiol—gallai fod problem o ran hygyrchedd yr arhosfan; nid wyf yn gyfarwydd ag ef. Yr hyn y gallaf ei ddweud wrth yr Aelod yw nad ydym yn cyflwyno canllawiau i weithredwyr bysiau, ond mae pob awdurdod lleol, gan weithio gyda'r gweithredwyr a chynrychiolwyr teithwyr, yn gyfrifol am benderfynu a yw cyfleusterau cludiant cyhoeddus lleol yn ddigonol ac yn briodol. Pan wneir penderfyniadau o ran ble i leoli arhosfan bws, mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol yn edrych yn ofalus ar y goblygiadau o ran diogelwch ar y ffyrdd, ar gyfer teithwyr a defnyddwyr eraill y ffordd. Gallaf ddweud wrth yr Aelod ein bod yn darparu cymorth ariannol i Bus Users UK Cymru, sy'n gallu cynorthwyo â chwynion teithwyr bysiau am wasanaethau neu eu symud ymlaen i ddarparwyr gwasanaethau bysiau ac, yn wir, i'r awdurdod lleol, pan fo hynny'n briodol. Byddwn yn annog y rhai sydd â phryder—gan fynd drwyddoch chi fel Aelod—i gysylltu â'r corff hwnnw gyda'r pryder hwnnw.

14:03 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, since I became an Assembly Member I have tackled the issue—as I am sure that we all have—of how to increase the use of public transport, as well as ideas to integrate our public transport network and help people to get out of their cars. The key consideration for me is planning to integrate the car into our network. The car is an integral element to any integrated public transport network—like it or not—given the rurality of Wales. With an eye to the future, I would like to ask whether your Government would explore the feasibility of a Swansea parkway off the M4, in view of the upcoming electrification investment between Swansea and Neath, to create a significant park and ride, given the immense daily drift of people between west and east in the mornings and their return journeys in the evenings?

Brif Weinidog, ers i mi gael fy ethol yn Aelod Cynulliad, rwyf wedi mynd i'r afael â'r mater—fel rwy'n siŵr y mae pob un ohonom ni—o sut i gynyddu'r defnydd o gludiant cyhoeddus, yn ogystal â syniadau i integreiddio ein rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus a helpu pobl i gael allan o'u ceir. Yr ystyriaeth allweddol i mi yw cynllunio i integreiddio'r car i mewn i'n rhwydwaith. Mae'r car yn elfen annatod o unrhyw rwydwaith cludiant cyhoeddus integredig—pa un a ydych chi'n hapus â hynny ai peidio—o ystyried natur wledig Cymru. Gyda golwg ar y dyfodol, hoffwn ofyn a fyddai eich Llywodraeth yn ymchwilio i ymarferoldeb gorsaf parcffordd Abertawe oddi ar yr M4, o ystyried y buddsoddiad trydaneiddio sydd ar y gweill rhwng Abertawe a Chastell-nedd, i greu cyfleuster marcio a theithio sylweddol, o ystyried y nifer enfawr o bobl sy'n teithio bob dydd rhwng y gorllewin a'r dwyrain yn y bore ac sy'n teithio'n ôl gyda'r nos?

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The difficulty is that the Member is suggesting a parkway station on the Swansea district line, the line from Briton Ferry to Pantyffynnon, if I remember rightly, which bypasses Swansea entirely. That line would need to be electrified in order for it to form part of the inter-city passenger service in years to come. At the moment it is used as a diversion line, but if the trains are electrified and that line is not, it can no longer be used as a passenger diversion line. In order for a Swansea parkway to be built, we would need to see a commitment from the UK Government to electrify the Swansea district line as well as the main line.

Yr anhawster yw bod yr Aelod yn awgrymu gorsaf barcffordd ar reilffordd ardal Abertawe, y rheilffordd o Lansawel i Bantyffynnon, os cofiaf yn iawn, sy'n osgoi Abertawe yn gyfan gwbl. Byddai angen trydaneiddio'r rheilffordd honno er mwyn iddi fod yn rhan o'r gwasanaeth i deithwyr rhwng dinasoedd yn y blynyddoedd i ddod. Mae'n cael ei defnyddio fel rheilffordd ddargyfeirio ar hyn o bryd, ond os bydd y trenau yn cael eu trydaneiddio ac nad yw'r rheilffordd, ni ellir ei defnyddio fel llinell dargyfeirio teithwyr mwyach. Er mwyn i orsaf parcffordd Abertawe gael ei hadeiladu, byddai angen i ni weld ymrwymiad gan Lywodraeth y DU i drydaneiddio rheilffordd ardal Abertawe yn ogystal â'r brif reilffordd.

14:04 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr, Fonesig Lywydd. A fyddai'r Prif Weinidog yn cytuno, yn dilyn cyhoeddi ail adroddiad y comisiwn ar y cyfansoddiad o dan arweiniad disglair Paul Silk, mai'r ddau anghenraid pennaf o ran creu cyfundrefn drafnidiaeth integredig yng Nghymru yw bod y fasnachfraint ar gyfer y rheilffordd rhwng y de a'r gogledd a'r Mers, a Threnau Arriva Cymru yn gyffredinol, yn cael ei datganoli a bod rheoleiddio bysys yn dod yn rym i Lywodraeth Cymru? Pa mor fuan y gall y Prif Weinidog negodi ar y materion hyn, yn lle ein bod yn gorfod disgwyl cyn cynllunio am y gwasanaeth integredig y mae Cymru ei angen?

Thank you very much, Dame Presiding Officer. Would the First Minister agree, following the publication of the second report of the commission on the constitution, ably led by Paul Silk, that the two major requirements for creating an integrated transport system in Wales is for the franchise for the railway from the south to the north and the Marches, and Arriva Trains Wales more generally, to be devolved and that the regulation of buses should be a power held by the Welsh Government? How soon can the First Minister negotiate on these issues, rather than us having to wait before planning for the integrated services that Wales so badly needs?

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rwy'n cytuno â'r hyn y mae'r Aelod wedi ei ddweud ynghylch rheilffyrdd a hefyd ynghylch bysiau. Byddai o les i'r Llywodraeth a'r Cynulliad ein bod yn gallu rheoli'r ffordd y mae bysiau yn cael eu rhedeg yma yng Nghymru. Byddai hynny'n dibynnu ar Fil yn mynd trwy San Steffan ar ôl yr etholiad nesaf. Fel Llywodraeth, byddem yn gefnogol o'r ddau beth yna.

I agree with what the Member has said about railways and also about buses. It would be of benefit to the Government and to the Assembly that we could manage the way that the buses are run here in Wales. That would be depended on a Bill being passed in Westminster after the next election. As a Government, we would be supportive of those two things.

### Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru

### Commission on Devolution in Wales

14:05 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion a wnaed yn ail adroddiad y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf? OAQ(4)1543(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's response to the recommendations made in the Commission on Devolution in Wales's second report published last week? OAQ(4)1543(FM)*

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We welcome the publication of the report. We hope that it will form the basis of a cross-party consensus on the future of devolution in Wales. Of course, I am sure that we all look forward to the full debate that will be held in the Chamber after Easter.

Rydym yn croesawu cyhoeddiad yr adroddiad. Rydym yn gobeithio y bydd yn sail ar gyfer consensws trawsbleidiol ar ddyfodol datganoli yng Nghymru. Wrth gwrs, rwy'n siŵr ein bod i gyd yn edrych ymlaen at y ddadl lawn a fydd yn cael ei chynnal yn y Siambr ar ôl y Pasg.

14:06 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to thank the First Minister for that response. One particular aspect of Silk part 2 that is of particular interest is that which relates to cross-border healthcare and the delivery thereof. As you will be aware, the report proposes that current cross-border arrangements should be strengthened by developing individual protocols between each border local health board in Wales and neighbouring NHS trusts on the English side. This is of particular importance in locations such as Montgomeryshire, and Powys more widely, where you have such inter-dependence on acute hospital services. In this context, given the ability that already exists to put in place some of these protocols to enhance the effective delivery of healthcare, what measures will your Government undertake to bring this forward ahead of any fuller implementation on Silk 2?

Hoffwn ddiolch i'r Prif Weinidog am yr ateb yna. Un agwedd benodol ar Silk rhan 2 sydd o ddiddordeb arbennig yw'r rhan sy'n ymwneud â gofal iechyd trawsffiniol a'r ddarpariaeth o hynny. Fel y byddwch yn ymwybodol, mae'r adroddiad yn awgrymu y dylid cryfhau trefniadau traws-ffiniol cyfredol trwy ddatblygu protocolau unigol rhwng pob bwrdd iechyd lleol ar y ffin yng Nghymru ac ymddiriedolaethau'r GIG ar ochr Lloegr. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ran lleoliadau fel Sir Drefaldwyn, a Phowys yn ehangach, lle mae gennych gymaint o ryng-ddibyniaeth ar wasanaethau ysbyty acíwt. Yn y cyd-destun hwn, o ystyried y gallu sy'n bodoli eisoes i sefydlu rhai o'r protocolau hyn i wella'r ddarpariaeth effeithiol o ofal iechyd, pa fesurau fydd eich Llywodraeth yn eu cymryd i gyflwyno hyn cyn unrhyw weithredu llawnach o Silk 2?

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

There are memoranda of understanding that exist between authorities in Wales and authorities in England, with a view to delivering healthcare, and they have worked by and large very well. We will study what the Silk commission has said in terms of strengthening cross-border arrangements, with a view to improving the service for those who live in Wales and, indeed, those who live in England.

Mae memoranda cyd-ddealltwriaeth yn bodoli rhwng awdurdodau yng Nghymru ac awdurdodau yn Lloegr, gyda golwg ar ddarparu gofal iechyd, ac maent wedi gweithio'n dda iawn ar y cyfan. Byddwn yn astudio'r hyn y mae comisiwn Silk wedi ei ddweud o ran cryfhau trefniadau traws-ffiniol, gyda'r nod o wella'r gwasanaeth i'r rhai sy'n byw yng Nghymru ac, yn wir, y rhai sy'n byw yn Lloegr.

14:07 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, since 2011, when this institution first received primary law-making powers, we have seen three Assembly Acts referred to the Supreme Court, and I fear that this number will increase in the future. Will you, therefore, join me in welcoming the Silk commission's recommendation that the conferred powers model should be replaced by a reserved powers model, as is already the case in Northern Ireland, Scotland and most of Europe? This would make life a lot easier. It is not about adding more powers under devolution; it is just clarifying where we are at the moment.

Brif Weinidog, ers 2011, pan dderbyniodd y sefydliad hwn bwerau deddfu sylfaenol am y tro cyntaf, rydym wedi gweld tair o Ddeddfau'r Cynulliad yn cael eu cyfeirio i'r Goruchaf Lys, ac mae arnaf ofn y bydd y nifer hwn yn cynyddu yn y dyfodol. A wnewch chi ymuno â mi, felly, i groesawu argymhelliad comisiwn Silk y dylai'r model pwerau a roddwyd gael ei ddisodli gan fodel pwerau a gedwir, fel sydd eisoes yn digwydd yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a'r rhan fwyaf o Ewrop? Byddai hyn yn gwneud bywyd yn llawer haws. Nid yw'n ymwneud ag ychwanegu mwy o bwerau dan ddatganoli; y cwbl mae'n ei wneud yw egluro ein sefyllfa ar hyn o bryd.

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It would save money as well, because every time there is a referral to the Supreme Court, there is a cost, not just to the Welsh Government but to the UK Government as well. The reserved powers model would clarify the legislative boundaries of this Assembly and of the UK Government. That has to be in the interest of all. It is right to say that Schedule 7, as it is presently drafted, is vague, to say the least, in certain areas in terms of competence. We know, of course, that three Bills that have either been referred or have gone through the process of being referred. That is not the sign of a devolution settlement that is clear, nor is it the sign of a devolution settlement that is sustainable. The reserved powers model would deliver that clarity that I think that we and Whitehall need.

Byddai'n arbed arian hefyd, oherwydd bob tro y ceir cyfeiriad i'r Goruchaf Lys, ceir cost, nid yn unig i Lywodraeth Cymru, ond i Lywodraeth y DU hefyd. Byddai'r model pwerau a gedwir yn egluro ffiniau deddfwriaethol y Cynulliad hwn a rhai Llywodraeth y DU. Mae'n rhaid bod hynny o fudd i bawb. Mae'n iawn i ddweud bod Atodlen 7, fel y mae wedi ei drafftio ar hyn o bryd, yn amwys, a dweud y lleiaf, mewn rhai meysydd o ran cymhwysedd. Rydym yn gwybod, wrth gwrs, fod tri Bil sydd naill ai wedi eu cyfeirio neu wedi mynd drwy'r broses o gael eu cyfeirio. Nid yw hynny'n arwydd o setliad datganoli sy'n eglur, ac nid yw'n arwydd o setliad datganoli sy'n gynaliadwy. Byddai'r model pwerau a gedwir yn cynnig yr eglurder hwnnw yr wyf yn credu sydd ei angen arnom ni ac ar Whitehall.

14:08 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, on the publication of the Silk 2 report, you were quick off the blocks to welcome the recommendation to transfer criminal justice and policing, or certainly policing, anyway. Given the size of this institution, and the pressures on it, do you not believe that if people purport to be for change, they should be honest and open and admit that this institution will have to grow and, ultimately, settle on the figure, which I believe Silk 2 talked of in its recommendations, of about 80 Members? So, if you are supporting one proposition, you need to support the other proposition. You cannot do one in isolation.

Brif Weinidog, ar ôl cyhoeddi adroddiad Silk 2, roeddech chi'n gyflym iawn i groesawu'r argymhelliad i drosglwyddo cyfiawnder troseddol a phlismona, neu'n sicr plismona, beth bynnag. O ystyried maint y sefydliad hwn, a'r pwysau arno, onid ydych yn credu os bydd pobl yn honni eu bod o blaid newid, y dylent fod yn onest ac yn agored a chyfaddef y bydd yn rhaid i'r sefydliad hwn dyfu ac, yn y pen draw, setlo ar y ffigur, yr wyf yn credu y nodwyd gan Silk 2 yn ei argymhellion, o tua 80 o Aelodau? Felly, os ydych chi'n cefnogi un cynnig, mae angen i chi gefnogi'r cynnig arall. Ni allwch chi gefnogi un ar wahân.

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I would not agree with the leader of the opposition that one is dependent on the other and that there cannot be transfer of powers via Silk Part 2 unless there is an increase in the number of Members in the Chamber. It is right to say that this is a small Chamber, given the work that it does, and I am aware that backbench Members from all parties here work extremely hard, particularly on the legislative committees that we have. I am not keen, however, to conflate the idea that more powers means more politicians. That would be a difficult idea for the public to support, given that it will inevitably see this as an attempt to have more politicians. While I do not agree with what he said, I think that 80 Members would be better as far as the Chamber is concerned. Nevertheless, I am fully aware that suggesting to the public that there should be more politicians without there being a reduction in the numbers of politicians elsewhere, for example, is a very difficult sell. Even though I have sympathy with what he said, I would not go as far as to say that you cannot have implementation of Silk part 2 without an increase in the number of Members; I think that it is possible to have one without the other.

Ni fyddwn yn cytuno ag arweinydd yr wrthblaid bod un yn dibynnu ar y llall ac na ellir cael trosglwyddo pwerau trwy Silk Rhan 2 oni bai fod cynnydd i nifer yr Aelodau yn y Siambr. Mae'n iawn dweud mai Siambr fach yw hon, o ystyried yr holl waith mae'n ei wneud, ac rwy'n ymwybodol bod Aelodau meinciau cefn o bob plaid yma yn gweithio'n hynod o galed, yn enwedig ar y pwyllgorau deddfwriaethol sydd gennym ni. Nid wyf yn awyddus, fodd bynnag, i gyfateb y syniad bod rhagor o bwerau yn golygu mwy o wleidyddion. Byddai hwnnw'n syniad anodd i'r cyhoedd ei gefnogi, o gofio ei bod yn anochel y bydd yn gweld hyn fel ymgais i gael mwy o wleidyddion. Er nad wyf yn cytuno â'r hyn a ddywedodd, rwy'n meddwl y byddai 80 o Aelodau yn well o ran y Siambr. Serch hynny, rwy'n gwbl ymwybodol bod awgrymu i'r cyhoedd y dylai fod mwy o wleidyddion heb leihau nifer y gwleidyddion mewn mannau eraill, er enghraifft, yn beth anodd iawn i'w werthu. Er fy mod yn cydymdeimlo â'r hyn a ddywedodd, ni fyddwn yn mynd mor bell â dweud na allwch chi roi Silk rhan 2 ar waith heb gynyddu nifer yr Aelodau; rwy'n meddwl ei bod yn bosibl cael un heb y llall.

14:10 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Un o'r argymhellion clir iawn yn ail adroddiad Silk yw hwnnw dros ddatganoli tâl ac amodau athrawon, sef yr unig ran o'r pecyn addysg sydd heb fod yn nwylo Llywodraeth Cymru. Gan fod Silk, a'r rheini ar draws y pleidiau, wedi argymell hynny, a fyddwch chi'n awr, Brif Weinidog, yn newid barn Llywodraeth Cymru ar y mater hwn ac yn gweithio gyda ni ar ddatganoli tâl ac amodau gwaith athrawon?

One of the very clear recommendations in the second Silk report is the one on the devolution of teachers' pay and conditions, which is the only part of the education package that has not been in the hands of the Welsh Government. Given that Silk, and those from across parties, have recommended that, will you now, First Minister, change the Welsh Government's view on this issue and work with us on the devolution of teachers' pay and conditions?

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Wel, nid yw'n rhywbeth yr ydym wedi gofyn amdano, ond os bydd hyn yn rhywbeth a gaiff ei ddatganoli, bydd y ddadl, felly, ynghylch yr arian. Beth na fyddem yn gallu ei gefnogi yw trosglwyddo'r dyletswyddau heb drosglwyddo digon o gyllid i fynd gyda'r dyletswyddau hynny. Rydym yn gwybod beth ddigwyddodd gyda budd-daliadau treth cyngor—90% o'r gyllideb a gafodd ei throsglwyddo, ac wedyn roedd yn rhaid i ni fel Llywodraeth wneud lan y 10% ychwanegol. Felly, byddai hyn yn dibynnu'n gryf ar y setliad ariannol a fyddai'n dod gyda'r ddyletswydd. Fodd bynnag, rydym yn gwybod beth mae Silk wedi ei ddweud, ac er nad oedd yn rhywbeth yr oeddem eisiau ei weld fel plaid, os yw'n mynd i ddigwydd, cawn siarad am faint o arian fydd ar gael. Un o'r pethau y byddai'n rhaid imi ei ddweud yn awr yw hyn: ni fyddwn fyth mo'yn gweld sefyllfa, wedi i hyn gael ei ddatganoli neu beidio, lle byddai athrawon yng Nghymru yn cael eu talu'n llai nag athrawon yn Lloegr. Mae'n bwysig dros ben i ddweud hynny yn awr. Nid yw hynny'n rhywbeth y gallai unrhyw Lywodraeth, yn fy marn i, ei ystyried yn y dyfodol.

Well, it is not something that we have asked for, but if this is something that will be devolved, the argument, therefore, will be on the funding. What we could not support is the transfer of the duties without the transfer of adequate funding to go with those duties. We know what happened with the council tax benefits—only 90% of the funding was transferred, and then we as a Government had to make up the additional 10%. So, this is something that would be strongly dependent on the financial settlement that accompanied the duty. However, we know what Silk has said, and while it was not something that we wanted to see as a party, if it is to happen, we can talk about how much funding will be available. One of the things that I would have to say now is this: I would never wish to see a situation, whether this is devolved or not, where teachers in Wales are paid less than teachers in England. It is extremely important to state that now. That is not something that any Government here, in my opinion, could consider in future.

## Cyllid GIG Cymru

## Welsh NHS Finances

14:12 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyllid GIG Cymru? OAQ(4)1535(FM)*

*7. Will the First Minister make a statement on Welsh NHS finances? OAQ(4)1535(FM)*

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

With the additional funding that we have announced this year, the NHS will be in a stronger position to meet increasing demand and drive up standards of care.

Gyda'r arian ychwanegol rydym ni wedi ei gyhoeddi eleni, bydd y GIG mewn sefyllfa gryfach i fodloni'r galw cynyddol a gwella safonau gofal.

14:12 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, as you know, the Wales Audit Office has looked at NHS finances a number of times in the past, and almost always concluded that there is insufficient resource to be able to balance the books at the year end. Indeed, this year is no exception; an extra £50 million bail-out was awarded just a few weeks ago for the Welsh NHS. While extra money is very welcome, the First Minister will know that there is still a £27 million black hole for health boards to meet before the end of this financial year. Will NHS bodies across Wales balance the books in this financial year? If not, are you going to give them another bail-out?

Brif Weinidog, fel y gwyddoch, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi edrych ar gyllid y GIG nifer o weithiau yn y gorffennol, a bron bob tro wedi dod i'r casgliad nad oes digon o adnoddau i allu mantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn. Yn wir, nid yw eleni'n eithriad; dyfarnwyd cymorth ychwanegol o £50 miliwn ar gyfer y GIG yng Nghymru dim ond ychydig wythnosau yn ôl. Er bod arian ychwanegol i'w groesawu'n fawr, bydd y Prif Weinidog yn gwybod bod yna fwlch enfawr o £27 miliwn i fyrddau iechyd ei lenwi cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. A fydd cyrff y GIG ledled Cymru yn mantoli'r gyllideb yn y flwyddyn ariannol hon? Os na fyddant, a ydych chi'n mynd i roi mwy o arian ychwanegol iddynt?

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We will provide the finances that the health service needs. Is he arguing that this money should not be given to the NHS? He clarifies that he is not arguing that the money should not be given. Therefore, what is his concern? That is the point that I would make. One of the things that we have not done, of course, is to cut the NHS budget by £20 billion. That is what we have not done, and it is something that we would never do. The major difference at the end of the day between the party on this bench—and, I believe, the parties on the benches opposite, and that party over there—is that we believe in the NHS and it does not.

Byddwn yn darparu'r cyllid y mae'r gwasanaeth iechyd ei angen. A yw'n dadlau na ddylid rhoi'r arian hwn i'r GIG? Mae'n egluro nad yw'n dadlau na ddylid rhoi'r arian. Felly, beth yw ei bryder? Dyna'r pwynt y byddwn i'n ei wneud. Un o'r pethau nad ydym wedi ei wneud, wrth gwrs, yw torri cyllideb y GIG o £20 biliwn. Dyna'r hyn nad ydym wedi ei wneud, ac mae'n rhywbeth na fyddem byth yn ei wneud. Y prif wahaniaeth yn y pen draw rhwng y blaid ar y fainc hon —ac, yn fy marn i, y pleidiau ar y meinciau gyferbyn, a'r blaid yn y fan yna—yw ein bod ni'n credu yn y GIG ac nid yw hynny'n wir amdanyn nhw.

14:13 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, as you know, one of the issue for NHS Wales's finances is the recruitment of doctors. First Minister, will you join me in congratulating Swansea University on becoming an awarder of UK primary medical qualifications from 25 Februray of this year, therefore enabling us to train and hopefully retain more doctors in Wales?

Brif Weinidog, fel y gwyddoch, un o'r problemau i gyllid GIG Cymru yw recriwtio meddygon. Brif Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i longyfarch Prifysgol Abertawe ar gael ei gwneud yn ddyfarnwr prif gymwysterau meddygol y DU o 25 Chwefror eleni, gan ein galluogi i hyfforddi a, gobeithio, cadw mwy o feddygon yng Nghymru?

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, indeed, I would. We know that the issue of medical recrutiment is a complex one. It is not just about money; it is about enabling hospitals in Wales to provide the right level of training and the right level of expertise for doctors to stay in Wales. They want to go to places where they can see the throughput of cases and where they can build up their expertise. I very much welcome what has been done in Swansea, as I welcomed earlier on what was done in Bangor. We know that the Welsh NHS is building itself a reputation as a place to come to work, and we need to ensure that that continues to be the case in the future.

Gwnaf, yn wir. Rydym yn gwybod bod y mater o recriwtio meddygol yn un cymhleth. Nid dim ond mater o arian yw hyn; mae'n ymwneud â galluogi ysbytai yng Nghymru i ddarparu'r lefel cywir o hyfforddiant a'r lefel cywir o arbenigedd i feddygon i aros yng Nghymru. Maen nhw eisiau mynd i leoedd lle y gallant weld digon o achosion a lle y gallant ddatblygu eu harbenigedd. Croesawaf yn fawr yr hyn a wnaed yn Abertawe, fel y croesewais yn gynharach yr hyn a wnaed ym Mangor. Rydym yn gwybod bod y GIG yng Nghymru yn datblygu enw da iddo'i hun fel lle i ddod i weithio ynddo, ac mae angen i ni sicrhau bod hynny'n parhau i fod yn wir yn y dyfodol.

14:14 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

O ran yr £50 miliwn ychwanegol sydd wedi cael ei glustnodi ar gyfer y gwasanaeth iechyd, ar ba sail y bydd yn cael ei ddosbarthu i'r gwahanol fyrddau iechyd? A fydd hynny ar sail angen, ar sail galw, ar sail methu â chydbwyso'r llyfrau, neu beth?

In terms of the additional £50 million that has been allocated for the health service, on what basis will it be distributed to the various health boards? Will it be on the basis of need, demand, or on the basis of failure to balance the books, or what?

Senedd.tv Fideo Video

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, bydd cymysgedd o ffyrdd. Wrth gwrs, bydd raid dosbarthu'r arian ynglŷn â sicrhau refeniw blynyddol, ond mae grantiau'n cael eu rhoi tuag at bethau unigol. Er enghraifft, un o'r pethau a wnaeth y Llywodraeth ddiwethaf oedd sicrhau bod mwy o arian yn mynd i wasanaethau orthopedig er mwyn sicrhau bod lefel yr aros yn mynd i lawr. Felly, byddwn yn ystyried ym mha ffordd y gall yr arian hwnnw gael ei ddefnyddio a'r ffordd fwyaf effeithiol o wneud hynny

Well, there will be a variety of means and methods. Of course, we will have to distribute the funding in terms of annual revenue, but there are grants provided for individual elements. For example, one of the things the previous Government did was to ensure that there was more funding available for orthopaedic services in order to ensure that waiting times reduced. So, we will consider how that funding can be best used and the most effective way possible of doing so.

Senedd.tv Fideo Video

14:15 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

First Minister, Welsh health boards were invited to submit or sponsor applications for funding through the health technologies fund by the deadline at the end of last month. Could you tell the Chamber how many applications have been received to that fund and when the outcome of that bidding process will be announced?

Brif Weinidog, gwahoddwyd byrddau iechyd Cymru i gyflwyno neu noddi ceisiadau am gyllid trwy'r gronfa technolegau iechyd erbyn y dyddiad cau ddiwedd mis diwethaf. A allech chi ddweud wrth y Siambr faint o geisiadau sydd wedi dod i law i'r gronfa honno a phryd y bydd canlyniad y broses ymgeisio honno'n cael ei gyhoeddi?

Senedd.tv Fideo Video

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, I cannot give you figures for how many have been received. Certainly, it is the case that we have the fund. It is a fund that I know your party has supported. It is a fund that, unfortunately, has been removed in England by the UK Government. It slipped it away in terms of its spending at a quiet moment. However, we are very encouraged by the fact that there is such interest and we know, as she will know, that this will benefit many Welsh patients, and I am grateful for her support.

Wel, ni allaf roi'r ffigurau i chi ynglŷn â faint sydd wedi dod i law. Yn sicr, mae'n wir bod y gronfa gennym. Mae'n gronfa y gwn fod eich plaid wedi ei chefnogi. Mae'n gronfa sydd, yn anffodus, wedi cael ei dileu yn Lloegr gan Lywodraeth y DU. Llithrodd i ffwrdd o ran ei gwario ar adeg dawel. Fodd bynnag, mae'n galonogol iawn i ni bod diddordeb o'r fath ac rydym yn gwybod, fel y bydd hithau'n gwybod, y bydd hyn o fudd i lawer o gleifion yng Nghymru, ac rwy'n ddiolchgar am ei chefnogaeth.

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

Senedd.tv Fideo Video

14:16

## Cwestiwn Brys: TGAU Saesneg

## Urgent Question: GCSE English

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I have accepted an urgent question under Standing Order 12.66. I call on Simon Thomas to ask the urgent question.

Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys dan Reol Sefydlog 12.66. Galwaf ar Simon Thomas i ofyn y cwestiwn brys.

14:16 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

*A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ganlyniadau'r modiwlau TGAU Saesneg a gafodd eu cymryd ym mis Ionawr? EAQ(4)0399(ESK)*

*Will the Minister make a statement on the results of the English GCSE modules taken in January? EAQ(4)0399(ESK)*

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Senedd.tv Fideo Video

I will. As I set out in my written statement on 7 March, I have ordered a rapid review to get to the root of this important issue, to identify factors underlying the results and to identify and then put in place appropriate actions. Fairness and rigour must be at the heart of our qualifications.

Gwnaf. Fel y nodais yn fy natganiad ysgrifenedig ar 7 Mawrth, rwyf wedi gorchymyn adolygiad cyflym i fynd i wraidd y mater pwysig hwn, er mwyn nodi ffactorau sy'n sail i'r canlyniadau ac i nodi ac yna rhoi camau priodol ar waith. Mae'n rhaid i degwch a thrylwyredd fod yn ganolog i'n cymwysterau.

14:17 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, but this is the second time that you as the Welsh exam regulator have been caught short, and you really should have come to this Assembly of your own free will to give a full statement rather than being dragged here by an urgent question. This is the first GCSE—[Interruption.] This GCSE in English is the first wholly Wales-made exam in a core subject. It was set by you, taught in your schools, examined by the Welsh Joint Education Committee, regulated by you and marked in Wales. It has been an absolute shambles. Once again, the reliability, standards and quality of Welsh examinations are in the headlines and for all the wrong reasons. This ill serves our young people. Teachers, parents and pupils do not understand or know the grade boundaries for some of the exams, Presiding Officer. One school told me that it was expecting 82% A* to C passes in these exams and only achieved 36%. Minister, you can only rectify this by remarking, regrading or having everyone resit. Which will you do?

Diolch i chi, Weinidog, ond dyma'r ail dro i chi fel rheoleiddiwr arholiadau Cymru gael eich dal allan ac, mewn gwirionedd, dylech chi fod wedi dod i'r Cynulliad hwn o'ch gwirfodd i roi datganiad llawn yn hytrach na chael eich llusgo yma gan gwestiwn brys. Dyma'r TGAU cyntaf—[Torri ar draws.] Y TGAU Saesneg hwn yw'r arholiad cyntaf mewn pwnc craidd i gael ei lunio yn gyfan gwbl yng Nghymru. Fe'i lluniwyd gennych chi, fe'i haddysgwyd yn eich ysgolion, fe'i harholwyd gan Gyd-bwyllgor Addysg Cymru, fe'i rheoleiddir gennych chi a chafodd ei farcio yng Nghymru. Mae wedi bod yn draed moch llwyr. Unwaith eto, mae dibynadwyedd, safonau ac ansawdd arholiadau Cymru yn y penawdau ac am y rhesymau anghywir. Mae hyn yn gwneud tro gwael â'n pobl ifanc. Nid yw athrawon, rhieni a disgyblion yn deall nac yn gwybod y ffiniau graddau ar gyfer rhai o'r arholiadau, Lywydd. Dywedodd un ysgol wrthyf ei bod yn disgwyl i 82% basio'r arholiadau hyn gyda graddau A* i C, a dim ond 36% wnaeth hynny. Weinidog, dim ond trwy ail-farcio, ailraddio neu gael pawb i ailsefyll y gallwch chi unioni hyn. Pa un ydych chi'n bwriadu ei wneud?

14:18 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Presiding Officer, these alarmist and really quite extreme comments emanating from the opposition benches this afternoon are, I have to say, less than helpful in terms of what should be at the centre of our concerns here, which, of course, is the learner.

Lywydd, mae'r sylwadau hyn sy'n creu dychryn a braidd yn eithafol a dweud y gwir, sy'n deillio o feinciau'r gwrthbleidiau y prynhawn yma, mae'n rhaid i mi ddweud, yn llai na chynorthwyol o ran yr hyn ddylai fod wrth wraidd ein pryderon yma, sef, wrth gwrs, y dysgwr.

14:18 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And you have let them down—

Ac rydych chi wedi eu siomi—

14:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. The Minister has been asked an urgent question. You have asked the question. Will you please listen to what he is saying? Minister.

Trefn. Gofynnwyd cwestiwn brys i'r Gweinidog. Rydych chi wedi gofyn y cwestiwn. A wnewch chi wrando ar yr hyn y mae'n ei ddweud os gwelwch yn dda? Weinidog.

14:18 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As I mentioned in my previous response, I have ordered a rapid review, which will then produce a rapid diagnosis of the problem and provide rapid support in order to make sure that the learner at the centre of our concerns—of my concerns at least—in terms of what has happened here is supported and so that, if there have been problems, they are put right. There have been many intemperate things said this afternoon by opposition spokespeople and I hope that they will not have to retract too much of what they have said, but I fear that they will in terms of what the facts will actually reveal. That review has been ordered. My officials are already working closely with the WJEC to get to the bottom of the issue. It will identify actions that can be put in place as we prepare to support learners for the June assessments. That will be absolutely vital and it will be based, not on hearsay, not on speculation, but on solid data and information coming back from schools. Resources and continuing professional development events will be made available to schools, including post-exam review meetings at the end of March and in early April, organised on a regional basis. All heads of English will be invited to attend one of these sessions, which, of course, will be free of charge. As I say, the focus will be on the learners.

Fel y soniais yn fy ateb blaenorol, rwyf wedi gorchymyn adolygiad cyflym, a fydd wedyn yn cynhyrchu diagnosis cyflym o'r broblem ac yn darparu cymorth cyflym er mwyn gwneud yn siŵr bod y dysgwr sy'n ganolog i'n pryderon—fy mhryderon i o leiaf—o ran yr hyn sydd wedi digwydd yma yn cael ei gefnogi ac, os oes problemau wedi codi, eu bod yn cael eu hunioni. Dywedwyd llawer o bethau eithafol y prynhawn yma gan lefarwyr y gwrthbleidiau ac rwy'n gobeithio na fydd yn rhaid iddynt dynnu gormod o'r hyn y maent wedi'i ddweud yn ôl, ond rwy'n ofni y bydd rhaid iddynt wneud hynny o ran yr hyn y bydd y ffeithiau yn ei ddatgelu mewn gwirionedd. Mae'r adolygiad hwnnw wedi ei orchymyn. Mae fy swyddogion eisoes yn gweithio'n agos gyda CBAC i gael at wraidd y mater hwn. Bydd yn nodi camau gweithredu y gellir eu cymryd wrth i ni baratoi i gefnogi dysgwyr ar gyfer asesiadau mis Mehefin. Bydd hynny'n gwbl hanfodol a bydd yn seiliedig, nid ar sïon, nid ar ddyfalu, ond ar ddata a gwybodaeth gadarn sy'n dod yn ôl gan ysgolion. Bydd Adnoddau a digwyddiadau datblygu proffesiynol parhaus yn cael eu rhoi ar gael i ysgolion, gan gynnwys cyfarfodydd adolygu ôl-arholiad ddiwedd mis Mawrth ac yn gynnar ym mis Ebrill, wedi eu trefnu ar sail ranbarthol. Bydd yr holl benaethiaid Saesneg yn cael eu gwahodd i ddod i un o'r sesiynau hyn, a fydd, wrth gwrs, am ddim. Fel y dywedais, bydd y pwyslais ar y dysgwyr.

However, we will first establish exactly what has happened. Without that, we will not know exactly what needs to be done by the Welsh Government, the WJEC and others such as regional consortia. [Interruption.] I am happy to take a supplementary question, Presiding Officer.

Fodd bynnag, byddwn yn darganfod beth yn union sydd wedi digwydd yn gyntaf. Heb hynny, ni fyddwn yn gwybod yn union beth y mae angen i Lywodraeth Cymru, CBAC ac eraill fel consortia rhanbarthol ei wneud. [Torri ar draws.] Rwy'n hapus i dderbyn cwestiwn atodol, Lywydd.

14:20 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am sorry, but I have more people to call. You have had your opportunity, Simon. I call Leighton Andrews.

Mae'n ddrwg gennyf, ond mae gennyf fwy o bobl i'w galw. Rydych chi wedi cael eich cyfle, Simon. Galwaf ar Leighton Andrews.

14:20 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Does the Minister agree that this is not the same situation as was faced in 2012? We are talking about a single unit, or a single module. We are not talking about the overall grading for a GCSE.

A yw'r Gweinidog yn cytuno nad yw hyn yr un sefyllfa â'r hyn a wynebwyd yn 2012? Rydym ni'n sôn am un uned sengl, neu un modiwl. Nid ydym yn sôn am y graddio cyffredinol ar gyfer cymhwyster TGAU.

Is the Minister aware that, on Thursday, I e-mailed all of the secondary schools in my constituency? I have heard back from four out of five of those and they are different in their responses in terms of the issues that they are facing. So, may I welcome the fact that he has called for a rapid review? I urge everyone in this Chamber to wait until we see the evidence before leaping up and down with absurd conclusions.

A yw'r Gweinidog yn ymwybodol, ddydd Iau, i mi anfon e-bost at yr holl ysgolion uwchradd yn fy etholaeth? Rwyf wedi clywed yn ôl gan bedair allan o bump o'r rheini ac mae eu hymatebion yn wahanol o ran y materion y maent yn eu hwynebu. Felly, a gaf i groesawu'r ffaith ei fod wedi galw am adolygiad cyflym? Rwy'n annog pawb yn y Siambr hon i aros tan y byddwn yn gweld y dystiolaeth cyn neidio i fyny ac i lawr â chasgliadau hurt.

14:21 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The Member for the Rhondda is absolutely correct, in my view, in terms of taking a cool-headed response to what is going on here. It is singularly obvious that this is not an analogous situation to that with which the Welsh Government was presented in 2012. Let us be clear here, because there are real people at the end of the point-scoring that is going on in the Chamber this afternoon—real young people with real life chances that we need to take care of. Let us be absolutely clear about this. [Interruption.] Reckless; that is exactly what we are seeing this afternoon—people being reckless with those life chances in order to score political points in this Chamber this afternoon. I will ensure that the prospects of these young people are taken care of and that we support our learners through what is not an analogous situation to the one that we saw in 2012.

Mae'r Aelod dros y Rhondda yn llygad ei le, yn fy marn i, o ran ymateb yn synhwyrol i'r hyn sy'n digwydd yma. Mae'n gwbl amlwg nad yw hon yn sefyllfa debyg i'r un a wynebodd Llywodraeth Cymru yn 2012. Gadewch i ni fod yn eglur yma, oherwydd mae pobl go iawn yn cael eu heffeithio gan y sgorio pwyntiau sy'n digwydd yn y Siambr y prynhawn yma—pobl ifanc go iawn â chyfleoedd bywyd go iawn y mae angen i ni ofalu amdanynt. Gadewch i ni fod yn hollol eglur ynglŷn â hyn. [Torri ar draws.] Di-hid; dyna'n union yr ydym ni'n ei weld y prynhawn yma—pobl yn bod yn ddi-hid gyda'r cyfleoedd bywyd hynny er mwyn sgorio pwyntiau gwleidyddol yn y Siambr hon y prynhawn yma. Byddaf yn sicrhau y gofelir am ragolygon y bobl ifanc hyn a'n bod yn cefnogi ein dysgwyr trwy sefyllfa nad yw'n debyg i'r un a welsom yn 2012.

Quite clearly, in 2012, we saw the regrading of an entire GCSE cohort. What we are talking about here is a single unit. It is not a final result or a GCSE result for any of these learners. There is an issue; I am not denying that there is, but we will get to the bottom of it and we will discover what needs to be done and then we will do what is necessary.

Yn amlwg, yn 2012, gwelsom garfan TGAU gyfan yn cael ei hailraddio. Rydym ni'n sôn am un uned yma. Nid yw'n ganlyniad terfynol nac yn ganlyniad TGAU i unrhyw un o'r dysgwyr hyn. Mae problem; nid wyf yn gwadu hynny, ond byddwn yn darganfod y rheswm amdani a'r hyn y mae angen ei wneud ac yna byddwn yn gwneud yr hyn sydd ei angen.

I am encouraged, Presiding Officer—. I will take further questions.

Rwyf wedi fy nghalonogi, Lywydd—. Byddaf yn derbyn cwestiynau pellach.

14:22 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

You are absolutely right, Minister, that it is about the young people, and it is about them having faith and trust in the education system that sets out to educate them. My concern is what is going to happen in June and July when they sit these exams. These are children or young people who should be GCSE English language-ready. The fact that this exam takes up 60% of the mark—already, we have talked about it and you have spoken in your public pronouncements about looking for comparable results in the summer—means that there is going to be a 40% uplift of some sort in order to bring these A*, A and B grade pupils who are now on Ds, Es and Us—. A number of the 81 schools that have come forward so far, Minister, are system-leading schools. So, because we do need to restore faith and trust in this examination, how will you ensure that, come the summer, the young people who get their results then have a true result and not some kind of fudge to make up for this very poor base starting line that they will have had having taken units 1 and 2?

Rydych chi yn llygad eich lle, Weinidog, ei bod yn ymwneud â'r bobl ifanc, ac mae'n ymwneud â'u ffydd a'u hymddiriedaeth nhw yn y system sydd â'r nod o'u haddysgu. Fy mhryder yw yr hyn sy'n mynd i ddigwydd ym mis Mehefin a mis Gorffennaf pan fyddant yn sefyll yr arholiadau hyn. Mae'r rhain yn blant neu bobl ifanc a ddylai fod yn barod ar gyfer TGAU iaith Saesneg. Mae'r ffaith bod yr arholiad hwn yn 60% o'r marc—rydym ni wedi siarad amdano eisoes, ac rydych chi wedi sôn yn eich cyhoeddiadau cyhoeddus am chwilio am ganlyniadau cymharol yn yr haf—yn golygu y bydd cynnydd o 40% o ryw fath er mwyn dod â'r disgyblion graddau A*, A a B sydd â graddau D, E ac U ar hyn o bryd—. Mae nifer o'r 81 o ysgolion sydd wedi dod ymlaen hyd yn hyn, Weinidog, yn ysgolion sy'n arwain y system. Felly, gan fod angen i ni adfer ffydd ac ymddiriedaeth yn yr arholiad hwn, sut wnewch chi sicrhau, pan ddaw'r haf, y bydd y bobl ifanc sy'n cael eu canlyniadau bryd hynny yn cael gwir ganlyniad, ac nid rhyw fath o gymysgedd i wneud iawn am y llinell gychwyn sylfaenol wael iawn hon a fydd ganddynt ar ôl sefyll unedau 1 a 2?

14:23 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Presiding Officer, it really is quite distressing to see senior politicians within this Chamber making supposedly factual remarks based on rumour and received opinion.

Lywydd, mae wir yn dorcalonnus gweld gwleidyddion profiadol yn y Siambr hon yn gwneud sylwadau sydd i fod yn ffeithiol yn seiliedig ar sïon a barn a dderbyniwyd gan eraill.

Let me outline to the Chamber exactly what we know, through initial data that are coming through from the WJEC comparing the outcomes of some schools that entered candidates back in January with those the previous January. There is no denying that there is an underlying issue here and I will come to that in a second. However, one thing that is clear and is emerging from the data, even in their raw form and most simplistic form, is that this is not an all-Wales issue. The data—and these are from the WJEC; not from some mysterious source of which I am not aware that seems to be being quoted by Members here this afternoon—has been compared from 102 schools that had 20 or more entries for equivalent units in January 2013 and 2014. What we know from that is this: there is an identifiable issue on some of the units entered by students specifically in 36 schools; 16.4% of entries for units at these centres saw an average drop in outcomes of at least one grade. Set against this, you can also see within the statistics that almost as many schools—29, to be precise—in some of the units entered by students, with the same measure, had an increase of at least half a grade in unit outcomes—[Interruption.]

Gadewch i mi amlinellu i'r Siambr yn union beth rydym ni'n ei wybod, trwy ddata cychwynnol sy'n dod drwodd gan CBAC yn cymharu canlyniadau rhai ysgolion a gofrestrodd ymgeiswyr yn ôl ym mis Ionawr gyda'r rhai yn y mis Ionawr blaenorol. Ni ellir gwadu bod problem sylfaenol yma a byddaf yn dod at hynny mewn eiliad. Fodd bynnag, un peth sy'n eglur ac yn dod i'r amlwg o'r data, hyd yn oed yn ei ffurf grai a'i ffurf symlaf, yw nad yw hwn yn fater Cymru gyfan. Mae'r data—ac mae hwn gan CBAC; nid o ryw ffynhonnell ddirgel nad wyf yn ymwybodol ohoni y mae'n ymddangos bod yr Aelodau'n ei dyfynnu yma y prynhawn yma—wedi cael ei gymharu o 102 o ysgolion a oedd ag 20 neu fwy o ymgeiswyr ar gyfer unedau cyfatebol ym mis Ionawr 2013 a 2014. Yr hyn a wyddom o hynny yw hyn: mae problem adnabyddadwy gyda rhai o'r unedau a ymgeisiwyd gan fyfyrwyr penodol mewn 36 o ysgolion; bu gostyngiad cyfartalog o un radd o leiaf i 16.4% o ymgeiswyr mewn unedau yn y canolfannau hyn. O gymharu â hyn, gallwch hefyd weld yn yr ystadegau bod bron cymaint o ysgolion—29, i fod yn fanwl gywir—mewn rhai o'r unedau a ymgeisiwyd gan fyfyrwyr, gyda'r un mesur, wedi cynyddu o leiaf hanner gradd o ran canlyniadau'r uned— [Torri ar draws.]

14:25

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. The Minister does not need any assistance.

Trefn. Nid yw'r Gweinidog angen unrhyw gymorth.

14:25

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Overall, Presiding Officer, over 50% of Welsh schools have pretty much seen this year's results levelling out with last year's, with slight fluctuations either way. Therefore, in other words, we have here a specific problem that is specific to some schools. What I need to know and what I intend to get to the bottom of is what has happened in those specific schools. Was there something going on that was specific to support for the learners within that school? Was there something about the relationship between the WJEC, while delivering the support package for that school, and that particular team within the English department in the school? However, the continued assumptions being peddled about this Chamber and throughout the media about there being some kind of systemic issue around this year's English GCSE are undermining—let me say this—the prospects for those learners, panicking parents and not doing right by the learners who should be at the centre of our concern.

Yn gyffredinol, Lywydd, mae canlyniadau eleni yn gyson â rhai'r llynedd mewn dros 50% o ysgolion Cymru, gyda mân amrywiadau y naill ffordd neu'r llall. Felly, mewn geiriau eraill, mae gennym broblem benodol yma sy'n benodol i rai ysgolion. Yr hyn y mae angen i mi ei wybod a'r hyn rwy'n bwriadu ei ddarganfod yw'r hyn sydd wedi digwydd yn yr ysgolion penodol hynny. A oedd rhywbeth yn digwydd a oedd yn benodol i gefnogaeth i'r dysgwyr yn yr ysgol honno? A oedd rhywbeth am y berthynas rhwng CBAC, tra ei fod yn darparu'r pecyn cymorth hwnnw i'r ysgol honno, a'r tîm penodol hwnnw yn adran Saesneg yr ysgol? Fodd bynnag, mae'r tybiaethau parhaus sy'n cael eu lledaenu yn y Siambr hon ac ar draws y cyfryngau am y ffaith bod rhyw fath o broblem systemig o amgylch Saesneg TGAU eleni yn tanseilio—gadewch i mi ddweud hyn—y rhagolygon ar gyfer y dysgwyr hynny, yn achosi braw i rieni ac yn gwneud tro gwael â'r dysgwyr a ddylai fod yn ganolog i'n pryder.

14:26 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I heard what the First Minister said earlier about the fact that many of the teachers should already be able to teach people how to spell. Therefore, I want to understand, if you believe that the standards are correct within the system as it stands, what this particular review will dig down into to look at. That is, we have another political intervention today, so, we need to understand whether it is a wider problem or just with regard to the 36 schools that you mention. I ask in good faith, because many teachers who have approached me, and many pupils in South Wales West, are concerned that they want to be teaching the right things to their pupils, but may not be doing the right thing by the Government, and they are very confused at the moment as to how to take this process forward. Therefore, I urge you, Minister, to be clear about how Assembly Members can be constructive to ensure that children are not put through this process yet again here in Wales.

Weinidog, clywais yr hyn a ddywedodd y Prif Weinidog yn gynharach am y ffaith y dylai llawer o'r athrawon allu addysgu pobl sut i sillafu eisoes. Felly, rwyf eisiau deall, os ydych chi'n credu bod y safonau yn gywir o fewn y system fel ag y mae, beth fydd yr adolygiad penodol hwn yn ymchwilio iddo er mwyn ei ystyried. Hynny yw, mae gennym ymyriad gwleidyddol arall heddiw, felly, mae angen i ni ddeall a yw'n broblem ehangach neu dim ond o ran y 36 o ysgolion yr ydych chi'n eu crybwyll. Rwy'n gofyn yn ddidwyll, gan fod llawer o athrawon sydd wedi cysylltu â mi, a llawer o ddisgyblion yng Ngorllewin De Cymru, yn pryderu eu bod yn dymuno addysgu'r pethau iawn i'w disgyblion, ond efallai nad ydynt yn gwneud y peth iawn yn ôl y Llywodraeth, ac maen nhw'n ddryslyd iawn o ran sut i fwrw ymlaen â'r broses hon ar hyn o bryd. Felly, rwy'n eich annog, Weinidog, i fod yn eglur am sut y gall Aelodau'r Cynulliad fod yn adeiladol i sicrhau nad yw plant yn cael eu rhoi drwy'r broses hon eto yma yng Nghymru.

14:27 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Presiding Officer, if teachers, particularly senior teachers, are confused about the process that has been set in train now for over a year, then I would be extraordinarily worried. We have already gone through a process whereby the WJEC, which delivers this support programme, has involved teachers in seminars and training from January through to November 2013, has involved teachers in guidance and has provided sample materials, specimen assessment materials and marking schemes. As I say, upwards of 60% of the schools involved in this process have seen their results either remain steady or improve. Therefore, this is a specific question, as I say, that needs to be answered about what has happened in specific schools.

Lywydd, os yw athrawon, yn enwedig athrawon uwch, yn ddryslyd am y broses sydd wedi bod ar waith ers dros flwyddyn bellach, yna byddwn yn poeni'n ofnadwy. Rydym eisoes wedi mynd trwy broses lle mae CBAC, sy'n darparu'r rhaglen gymorth hon, wedi cynnwys athrawon mewn seminarau a hyfforddiant o fis Ionawr tan fis Tachwedd 2013, wedi cynnwys athrawon yn y canllawiau ac wedi darparu deunyddiau enghreifftiol, deunyddiau asesu enghreifftiol a chynlluniau marcio. Fel y dywedais, mae canlyniadau mwy na 60% o'r ysgolion sy'n rhan o'r broses hon wedi aros yn gyson neu wedi gwella. Felly, mae hwn yn gwestiwn penodol, fel y dywedais, y mae angen ei ateb am yr hyn sydd wedi digwydd mewn ysgolion penodol.

In terms of the review, it will have three main themes: the teaching of the revised spec, the performance of the pupils and how well-prepared they were; the support and guidance given to teachers and schools about the changes to the specifications; and the WJEC's role in setting the exam, marking it and awarding it. That will be done rapidly. We will reach a diagnosis and there will be rapid support offered to right the situation.

O ran yr adolygiad, bydd tair prif thema iddo: addysgu'r fanyleb ddiwygiedig, perfformiad y disgyblion a pha mor dda roedden nhw wedi eu paratoi; y gefnogaeth a'r canllawiau a roddwyd i athrawon ac ysgolion ynghylch y newidiadau i'r manylebau; a swyddogaeth CBAC o ran gosod yr arholiad, ei farcio a'i ddyfarnu. Bydd hynny'n cael ei wneud yn gyflym. Byddwn yn cyrraedd diagnosis a bydd cefnogaeth gyflym yn cael ei chynnig i unioni'r sefyllfa.

14:28 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I understand the need for a rapid review, given the uncertainty that this whole discussion creates, particularly for the students who are sitting their exams in the summer. However, will you confirm today that the rapid review will still allow school leaders and, possibly, the unions to give evidence to the review? May I also ask that the regulatory functions of the Welsh Government be encompassed within the review? You mentioned that there are three aspects to the review. I think that we need reassurance with regard to whether or not the regulatory function of the Welsh Government has been properly exercised in this particular instance, looking back at what happened in 2012 as well. There is reference in your statement to the need for comparable outcomes with regard to historic trends, and specific reference was made with regard to the extent to which those outcomes can vary from year to year. I think that the review needs to deal with the concerns that we all have that if the underperformance—albeit within, as you suggest, only 40% of the schools—is such, that we have reassurance that those two remaining units in June will not be overinflated in order to achieve the outcomes within those comparative indicators? There is a real worry regarding that situation.

Weinidog, rwy'n deall yr angen am adolygiad cyflym, o ystyried yr ansicrwydd y mae'r holl drafodaeth hon yn ei greu, yn enwedig i'r myfyrwyr sy'n sefyll eu harholiadau yn yr haf. Fodd bynnag, a wnewch chi gadarnhau heddiw y bydd yr adolygiad cyflym yn dal i ganiatáu arweinwyr ysgolion, a'r undebau o bosibl, i gyflwyno tystiolaeth i'r adolygiad? A gaf i ofyn hefyd bod swyddogaethau rheoleiddio Llywodraeth Cymru yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad? Soniasoch fod tair agwedd i'r adolygiad. Rwy'n credu bod angen sicrwydd arnom o ran a yw swyddogaeth reoleiddio Llywodraeth Cymru wedi cael ei harfer yn iawn yn yr achos penodol hwn, gan edrych yn ôl ar yr hyn a ddigwyddodd yn 2012 hefyd. Cyfeirir yn eich datganiad at yr angen am ganlyniadau tebyg o ran tueddiadau hanesyddol, a chyfeiriwyd yn benodol at y graddau y gall y canlyniadau hynny amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Rwy'n credu bod angen i'r adolygiad ymdrin â'r pryderon sydd gan bob un ohonom os bydd y tanberfformio—er bod hynny, fel yr awgrymwch, mewn 40% o'r ysgolion yn unig—yn golygu bod gennym sicrwydd na fydd y ddwy uned hynny sy'n weddill ym mis Mehefin yn cael eu marcio'n rhy uchel er mwyn sicrhau'r canlyniadau o fewn y dangosyddion cymharol hynny? Ceir pryder gwirioneddol am y sefyllfa honno.

14:30 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I assure Aled Roberts—it is 16% of schools that we are talking about here, not 40%, incidentally—that there will be transparency throughout this process. It does not benefit anyone to obfuscate or attempt to conceal what is the heart of the matter here; I intend that the heart of the matter is exposed. If stakeholders—trade unions, for instance—have evidence that they wish the review to be aware of, then of course, I will be open to hearing their views as the regulator and as the Minister. However, their views will need to be substantiated with evidence. Any assertion of fault without evidence—we have heard it repeated here in the Chamber this afternoon; I exclude you Aled, as you have asked the first question this afternoon that was not based on the premise of causing public alarm in order to score a political point, and I thank you for a constructive question in that regard—is a very dangerous step. It does not do justice to our learners, who have the right to expect that we all play our part in upholding confidence in the system. Learners will be at the heart of my concerns and any attempt to massage statistics to disguise the reality of the situation will get short shrift from me.

Rwy'n sicrhau Aled Roberts—16% o ysgolion rydym ni'n sôn amdanynt yma, nid 40%, gyda llaw—y bydd tryloywder drwy gydol y broses hon. Nid yw cymylu neu geisio cuddio beth sydd wrth wraidd y mater hwn o fudd i unrhyw un; rwy'n bwriadu darganfod beth sydd wrth wraidd y mater. Os oes gan randdeiliaid—undebau llafur, er enghraifft—dystiolaeth eu bod yn dymuno i'r adolygiad fod yn ymwybodol ohoni, yna, wrth gwrs, byddaf yn agored i glywed eu barn fel y rheoleiddiwr ac fel y Gweinidog. Fodd bynnag, bydd angen iddynt gefnogi eu safbwyntiau gyda thystiolaeth. Mae unrhyw honiad o fai heb dystiolaeth—rydym ni wedi ei glywed dro ar ôl tro yma yn y Siambr y prynhawn yma; rwy'n eich eithrio chi Aled, gan mai chi sydd wedi gofyn y cwestiwn cyntaf y prynhawn yma nad oedd yn seiliedig ar y rhagdybiaeth o achosi pryder i'r cyhoedd er mwyn sgorio pwynt gwleidyddol, ac rwy'n diolch i chi am gwestiwn adeiladol yn hynny o beth—mae'n gam peryglus iawn. Nid yw'n gwneud cyfiawnder â'n dysgwyr, sydd â'r hawl i ddisgwyl y byddwn i gyd yn chwarae ein rhan o ran cynnal hyder yn y system. Bydd dysgwyr yn ganolog i'm pryderon ac ni fydd unrhyw ymgais i wyrdroi ystadegau i guddio gwirionedd y sefyllfa yn cael fawr o groeso gennyf i.

14:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I remind Members that this is a question and not a statement. I have three more speakers; lots of points have been made, so I hope that you will be short and concise and make points that have not been made.

Rwy'n atgoffa'r Aelodau mai cwestiwn ac nid datganiad yw hwn. Mae gennyf dri siaradwr arall; gwnaed llawer o bwyntiau, felly rwy'n gobeithio y byddwch yn fyr a chryno ac yn gwneud pwyntiau nad ydynt wedi eu gwneud o'r blaen.

14:32 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First of all, I thank you for your statement—

Yn gyntaf oll, rwy'n diolch i chi am eich datganiad—

14:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is an answer to a question.

Ateb i gwestiwn yw hwn.

14:32

## Christine Chapman [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Sorry. It is clear that this is not an all-Wales problem, but for those pupils, schools, teachers and parents affected, that is no comfort whatsoever. I will just quote what one school in my area said:

Mae'n ddrwg gennyf. Mae'n amlwg nad yw hon yn broblem i Gymru gyfan, ond nid yw hynny'n unrhyw gysur o gwbl i'r disgyblion, ysgolion, athrawon a rhieni hynny sydd wedi eu heffeithio. Hoffwn ddyfynnu yr hyn a ddywedodd un ysgol yn fy ardal i:

'Words cannot express how utterly dismayed we are in school by this complete and utter fiasco, with some fantastic students, future Oxbridge aspirants, medics and lawyers achieving frankly absurd D, E and U grades. You can imagine how, having never encountered any such problems with our previous exam board, we are in a state of complete disbelief and despair regarding those unprecedentedly appalling results.'

Ni all geiriau fynegi pa mor gwbl siomedig yr ydym ni yn yr ysgol gan y llanast llwyr hwn, wrth i rai myfyrwyr gwych, pobl sy'n dymuno mynd i Rydychen a Chaergrawnt yn y dyfodol, a darpar feddygon a chyfreithwyr yn cael graddau D, E ac U cwbl hurt. Gallwch ddychmygu, gan na wynebwyd unrhyw broblemau o'r fath gyda'n bwrdd arholi blaenorol erioed, ein bod yn gwbl anghrediniol ac mewn anobaith llwyr am y canlyniadau annisgwyl o wael hyn.

For this particular school, the worst point was that no real explanation was forthcoming. On results day, when the school was at a real low, there was no-one appropriate, according to the headteacher, available to speak to them at WJEC, which I find completely unacceptable. I very much welcome your comments—

I'r ysgol benodol hon, y pwynt gwaethaf oedd nad oedd unrhyw wir esboniad i'w gael. Ar ddiwrnod y canlyniadau, pan roedd yr ysgol yn isel iawn, nid oedd unrhyw un priodol, yn ôl y pennaeth, ar gael i siarad â nhw yn CBAC, sy'n gwbl annerbyniol yn fy marn i. Rwy'n croesawu eich sylwadau'n fawr—

14:33

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Are you coming to the question?

A ydych chi'n dod at y cwestiwn?

14:33

## Christine Chapman [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I very much welcome your comments, Minister, but I believe that speed is of the essence in any resolution, because we know that the morale of the students who have been affected will take some time to recover. What assurances can you give, Minister, that your response will encompass the problem with morale and address the needs of individual students who have to face the next few months with great trepidation?

Rwy'n croesawu eich sylwadau'n fawr, Weinidog, ond rwy'n credu bod cyflymder yn hanfodol o ran unrhyw benderfyniad, gan ein bod yn gwybod y bydd ysbryd y myfyrwyr sydd wedi cael eu heffeithio yn cymryd cryn amser i godi. Pa sicrwydd allwch chi ei roi, Weinidog, y bydd eich ymateb yn cwmpasu'r broblem o ran ysbryd ac yn mynd i'r afael ag anghenion myfyrwyr unigol sy'n gorfod wynebu'r misoedd nesaf gyda chryn anniddigrwydd?

14:33

## Huw Lewis [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I thank Chris Chapman for that question. That is very important for those parents and those learners who are faced with an issue. Let us remember here that we are dealing very much with a minority of entrants, and let me say that there has been no results day: the results day for GCSEs comes in June; it does not come in March. These are unit level results; they are not final qualification results. There will be re-sit opportunities in the summer and candidates' best grades will count. This system will run in the way with which people are familiar. We have also seen some volatility across the system; that would be expected in terms of a new specification, but to paint the situation as being some kind of cataclysmic breakdown is completely unfair and completely false and does the learners no service.

Diolchaf i Chris Chapman am y cwestiwn yna. Mae hynny'n bwysig iawn i'r rhieni hynny a'r dysgwyr hynny sy'n wynebu problem. Gadewch i ni gofio yma ein bod yn ymdrin â lleiafrif o ymgeiswyr, a gadewch i mi ddweud na fu unrhyw ddiwrnod canlyniadau: daw'r diwrnod canlyniadau ar gyfer TGAU ym mis Mehefin; nid yw'n digwydd ym mis Mawrth. Canlyniadau lefel uned yw'r rhain; nid ydynt yn ganlyniadau cymhwyster terfynol. Bydd cyfleoedd i ail-sefyll yn yr haf, a graddau gorau'r ymgeiswyr fydd yn cyfrif. Bydd y system hon yn rhedeg yn y ffordd y mae pobl yn gyfarwydd â hi. Rydym ni hefyd wedi gweld rhywfaint o anwadalrwydd ar draws y system; byddai hynny i'w ddisgwyl o ran manyleb newydd; ond mae cyflwyno'r sefyllfa fel rhyw fath o fethiant trychinebus yn gwbl annheg ac yn gwbl anghywir ac nid yw'n gwneud unrhyw ddaioni i'r dysgwyr.

We are in the business here of moving towards a system that has greater rigour at its core. Everyone has to raise their game and if the opposition parties want to take the opportunity to depart from the agenda around rigour this afternoon, they can do so, but I have not heard that coming from them. [Interruption.] If there have been particular issues within particular schools, we will make sure—I have said so already—that the learners are the recipients of every conceivable support that we can offer them in terms of making sure that they are not disadvantaged. I am determined that no learner in Wales will be disadvantaged at no fault of their own.

Rydym yn y busnes yma o symud tuag at system sydd â mwy o drylwyredd wrth ei gwraidd. Mae'n rhaid i bawb wella eu perfformiad ac os yw'r gwrthbleidiau eisiau manteisio ar y cyfle i wyro oddi ar yr agenda ynghylch trylwyredd y prynhawn yma, gallant wneud hynny, ond nid wyf wedi clywed hynny ganddyn nhw. [Torri ar draws.] Os bu problemau penodol mewn ysgolion penodol, byddwn yn gwneud yn siŵr—rwyf wedi dweud hynny eisoes—bod y dysgwyr yn derbyn pob cefnogaeth bosibl y gallwn ei chynnig o ran gwneud yn siŵr nad ydynt dan anfantais. Rwy'n benderfynol na fydd unrhyw ddysgwr yng Nghymru dan anfantais heb fod unrhyw fai arno ef ei hun.

14:35

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will reiterate what I have just said: concise questions and answers would be very helpful. I now call on Mark Isherwood. [Assembly Members: 'Oh'.] Order.

Ailadroddaf yr hyn yr wyf newydd ei ddweud: byddai cwestiynau ac atebion cryno yn helpu'n fawr. Galwaf nawr ar Mark Isherwood. [Aelodau'r Cynulliad: 'O'.] Trefn.

14:35

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

How would you respond to the Anglesey parent who e-mailed:

Sut fyddech chi'n ymateb i'r rhiant o Ynys Môn a e-bostiodd:

'My daughter and everyone else in her top set English class has been affected by a monumental mess-up. If she doesn't get sufficiently good grades, her chosen career as a dentist will be impossible.'

Mae fy merch a phawb arall yn ei dosbarth Saesneg set uchaf wedi cael eu heffeithio gan smonach anferthol. Os na fydd hi'n cael graddau digon da, bydd yr yrfa y mae wedi ei dewis fel deintydd yn amhosibl.

She concluded by saying:

Gorffennodd trwy ddweud:

'The phrase by the Minister which amused me is that the exam was changed to boost Wales's disappointing exam results. It certainly has achieved that.'

Yr ymadrodd a ddefnyddiwyd gan y Gweinidog a wnaeth fy nifyrru i yw y newidiwyd yr arholiad i roi hwb i ganlyniadau arholiadau siomedig Cymru. Mae'n sicr wedi llwyddo i wneud hynny.

14:35

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The idea that I should stand here and pontificate upon the results thus far—not the GCSE results, but the results thus far—of an individual anonymous learner in Anglesey is quite ludicrous. However, I would say this: the usual systems would apply if there was an issue regarding an individual problem with the marking of an individual's paper. That system will be run through WJEC as normal. I would also remind Members, as I have repeated this afternoon, that we do seem to have a particular problem with some parts of the system—around 16% of the schools that were involved—but the rest of the system seems to be coping very much as we might expect. Indeed, a large chunk of the schools that are in the data that we are talking about here have done extraordinarily well. So, there is, at the heart of this, a group or sub-set of learners within Wales for whom I need to understand what has happened in terms of the delivery and support for them, and we need to rapidly put that right.

Mae'r syniad y dylwn i sefyll yma a thraethu ar ganlyniadau hyd yn hyn ar gyfer un dysgwr dienw yn Ynys Môn—nid y canlyniadau TGAU, ond y canlyniadau hyd yn hyn—yn eithaf chwerthinllyd. Fodd bynnag, byddwn yn dweud hyn: byddai'r systemau arferol yn berthnasol os oedd problem unigol yn ymwneud â marcio papur unigolyn. Bydd y system honno yn cael ei rhedeg trwy CBAC yn ôl yr arfer. Byddwn hefyd yn atgoffa Aelodau, fel rwyf wedi ei ailadrodd y prynhawn yma, ei bod yn ymddangos bod gennym broblem benodol gyda rhai rhannau o'r system—tua 16% o'r ysgolion dan sylw—ond mae'n ymddangos bod gweddill y system yn ymdopi fel y byddem wedi ei ddisgwyl i raddau helaeth. Yn wir, mae cyfran fawr o'r ysgolion sydd yn y data rydym ni'n sôn amdano yma wedi gwneud yn arbennig o dda. Felly mae grŵp neu is-set o ddysgwyr yng Nghymru wrth wraidd hyn, y mae angen i mi ddeall ar eu rhan yr hyn sydd wedi digwydd o ran y ddarpariaeth a'r gefnogaeth iddynt, ac mae angen i ni unioni hynny'n gyflym.

14:37 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Spelling and grammar, of course, are skills for life not just for a test. Therefore, I am concerned, not so much about exam results going down in a particular year, where a particular cohort may have been less able than the previous one, but I am concerned about the rigour with which teachers are marking pupils' attainment. I wondered whether you could tell us what work is being done in this review to ensure that teachers are benchmarking their assessments to ensure that everyone is coming up with consistent results so that there are no surprises like this.

Mae sillafu a gramadeg, wrth gwrs, yn sgiliau am oes, nid ar gyfer prawf yn unig. Felly, rwy'n pryderu, nid yn gymaint am ganlyniadau arholiadau yn gwaethygu mewn blwyddyn benodol, lle efallai fod carfan benodol yn llai galluog na'r un flaenorol, ond rwyf yn pryderu am drylwyredd athrawon wrth farcio cyrhaeddiad disgyblion. Roeddwn i'n meddwl tybed a allech chi ddweud wrthym ba waith sy'n cael ei wneud yn yr adolygiad hwn i sicrhau bod athrawon yn meincnodi eu hasesiadau er mwyn sicrhau bod pawb yn cyflwyno canlyniadau yn gyson fel na fydd unrhyw beth annisgwyl fel hyn yn digwydd.

14:37 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Jenny Rathbone for that question. As I say, teachers have been provided, through seminars and training sessions, with guidance materials, sample materials, specimen assessment materials and mark schemes; so, there should have been no doubt in anyone's mind about what greater rigour involves here. Everyone will have to raise their game, without exception. In this instance, every English department of every secondary school in Wales will have to raise their game and deliver for our young people. This agenda around rigour is agreed, I believe—despite the huffing and puffing that we have in the Chamber this afternoon—across Welsh civil society. It is certainly what employers want to see, it is what our universities want to see and I believe that it is also what parents and learners want to see. If parties really are opposed to the process that we have to go through in order to gain that greater rigour, let them say so this afternoon, and propose an alternative.

Diolch i Jenny Rathbone am y cwestiwn yna. Fel y dywedais, mae athrawon wedi derbyn, trwy seminarau a sesiynau hyfforddi, deunyddiau cyfarwyddyd, deunyddiau enghreifftiol, deunyddiau asesu enghreifftiol a chynlluniau marcio; felly, ni ddylai fod unrhyw amheuaeth ym meddwl unrhyw un am yr hyn y mae mwy o drylwyredd yn ei olygu yma. Bydd yn rhaid i bawb wella eu perfformiad, yn ddieithriad. Yn yr achos hwn, bydd yn rhaid i bob adran Saesneg pob ysgol uwchradd yng Nghymru wella eu perfformiad a chyflawni ar gyfer ein pobl ifanc. Mae'r agenda hon yn ymwneud â thrylwyredd wed ei gytuno, rwy'n credu—er gwaethaf y cwynion sydd gennym yn y Siambr y prynhawn yma—ar draws gymdeithas sifil Cymru. Yn sicr, dyma mae cyflogwyr eisiau ei weld, dyma beth mae ein prifysgolion eisiau ei weld ac rwy'n credu mai dyma mae rhieni a dysgwyr eisiau ei weld hefyd. Os yw'r pleidiau wir yn gwrthwynebu'r broses y mae'n rhaid i ni fynd drwyddi er mwyn cael mwy o drylwyredd, gadewch iddyn nhw ddweud hynny y prynhawn yma, a chynnig dewis arall.

14:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. We now move back to the agenda.

Diolch i chi, Weinidog. Symudwn yn ôl at yr agenda nawr.

14:38

Senedd.tv Fideo Video

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## Business Statement and Announcement

**Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I have one change to report to this week's business. The Business Committee has agreed that voting time will take place immediately before the Stage 3 debate on the Education (Wales) Bill, rather than at the end of the session. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available electronically.

Mae gennyf un newid i'w adrodd i fusnes yr wythnos hon. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno y bydd y cyfnod pleidleisio yn digwydd yn uniongyrchol cyn dadl Cyfnod 3 ar Fil Addysg (Cymru), yn hytrach nag ar ddiwedd y sesiwn. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir eu gweld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael yn electronig.

14:39 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Is it possible to have two statements from the Minister responsible for planning? The first is about how the Government deals with called-in planning applications and, in particular, the time frame that it works to, and the criteria that it uses to assess the planning application, as to whether it does need to be called in. In my region I have recently dealt with several applications for which there has been consideration on the call in. I know that constituents have felt bemused by the process. I think that a statement from the Minister would be helpful so that this Member—and other Members, I presume—is crystal clear when dealing with constituents as to the criteria that the Minister uses when he is assessing the need to call in a planning application.

A yw'n bosibl i gael dau ddatganiad gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am gynllunio? Mae'r cyntaf yn ymwneud â sut mae'r Llywodraeth yn ymdrin â cheisiadau cynllunio sy'n cael eu galw i mewn ac, yn benodol, yr amserlen y mae'n gweithio'n unol â hi, a'r meini prawf y mae'n eu defnyddio i asesu'r cais cynllunio, ynghylch a oes angen iddo gael ei alw i mewn. Yn fy rhanbarth i, rwyf wedi ymdrin â sawl cais yn ddiweddar y bu ystyried o ran eu galw i mewn. Gwn fod y broses wedi bod yn ddryslyd i etholwyr. Rwy'n meddwl y byddai datganiad gan y Gweinidog o gymorth fel y gall yr Aelod hwn—ac Aelodau eraill, rwy'n tybio—fod yn gwbl eglur wrth ymdrin ag etholwyr ynghylch y meini prawf y mae'r Gweinidog yn eu defnyddio pan fydd yn asesu'r angen i alw cais cynllunio i mewn.

Secondly, is it possible to have clear guidance from the Minister responsible for planning as to the advice that his department gives to local authorities when dealing with fracking applications? It is the planning process that gives the initial green light for test drills and exploratory drills to establish the reserve, and there is considerable concern around guidance that has been given by the Welsh Government to local authorities. In the Vale of Glamorgan, for example, about 12 to 18 months ago, costs were incurred by the council because it lost an appeal when it stood up to an application, and those costs were significant. I have had many constituents who are bemused by the guidance. A clear statement from the Government as to how it acts would be of benefit.

Yn ail, a yw'n bosibl cael canllawiau eglur gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am gynllunio o ran y cyngor y mae ei adran yn ei roi i awdurdodau lleol wrth ymdrin â cheisiadau ffracio? Y broses gynllunio sy'n rhoi'r golau gwyrdd cychwynnol i ddrilio prawf a drilio archwiliadol i sefydlu'r gronfa, a cheir pryder sylweddol am ganllawiau a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol. Ym Mro Morgannwg, er enghraifft, tua 12 i 18 mis yn ôl, aeth y cyngor i gostau oherwydd iddo golli apêl ar ôl gwrthwynebu cais, ac roedd y costau hynny yn sylweddol. Rwyf wedi cael nifer o etholwyr sydd wedi eu drysu gan y canllawiau. Byddai datganiad eglur gan y Llywodraeth ynghylch sut y mae'n gweithredu yn fuddiol.

14:40 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for those two questions. I think that the guidance around fracking policy is very clear, but the Minister has indicated that he will write to you on both issues.

Diolch i chi am y ddau gwestiwn yna. Rwy'n credu bod y canllawiau ar y polisi ffracio yn eglur iawn, ond mae'r Gweinidog wedi dweud y bydd yn ysgrifennu atoch ar y ddau fater.

14:40 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Last week, I was pleased to chair a public meeting at which one of the speakers was the journalist Polly Toynbee, who spoke and later wrote about the success of Jobs Growth Wales. She said that England should learn from this Welsh success story—in fact, she was full of praise for what we are doing in Wales. What opportunities can the Minister offer to enable us to have a greater sharing of the great achievements that are happening in Wales?

Yr wythnos diwethaf, roeddwn yn falch o gadeirio cyfarfod cyhoeddus lle'r oedd y newyddiadurwr Polly Toynbee yn ymddangos fel un o'r siaradwyr, a siaradodd ac yn ddiweddarach ysgrifennodd am lwyddiant Twf Swyddi Cymru. Dywedodd y dylai Lloegr ddysgu o'r llwyddiant hwn yng Nghymru—a dweud y gwir, roedd hi'n llawn canmoliaeth am yr hyn yr ydym ni'n ei wneud yng Nghymru. Pa gyfleoedd a all y Gweinidog eu cynnig i'n galluogi i rannu mwy ar y llwyddiannau gwych sy'n digwydd yng Nghymru?

14:41 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Jobs Growth Wales is a huge success and the article by Polly Toynbee in 'The Guardian' made very pleasant reading. The Deputy Minister for Skills and Technology has hosted a number of events to celebrate the success of Jobs Growth Wales. He has invited a number of organisations and employers to visit and to have a look at the scheme. Also, delegates and Members of Parliament from England have visited employers with the Deputy Minister to view the programme and its success. The latest figures, from about a month ago, show that 10,594 Jobs Growth Wales job opportunities have been created right across Wales. Of these, 8,354 have been filled and the remainder are in various stages of recruitment. Therefore, it is a huge success for this Government.

Mae Twf Swyddi Cymru yn llwyddiant ysgubol ac roedd yn braf iawn darllen yr erthygl gan Polly Toynbee yn 'The Guardian'. Mae'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau i ddathlu llwyddiant Twf Swyddi Cymru. Mae wedi gwahodd nifer o sefydliadau a chyflogwyr i ymweld ac i gael golwg ar y cynllun. Hefyd, mae cynrychiolwyr ac Aelodau Seneddol o Loegr wedi ymweld â chyflogwyr gyda'r Dirprwy Weinidog i weld y rhaglen a'i llwyddiant. Mae'r ffigurau diweddaraf, o tua mis yn ôl, yn dangos bod 10,594 o gyfleoedd gwaith Twf Swyddi Cymru wedi cael eu creu ledled Cymru. O'r rhain, mae 8,354 wedi eu llenwi ac mae'r gweddill ar wahanol gamau recriwtio. Felly, mae'n llwyddiant ysgubol i'r Llywodraeth hon.

14:42 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A gaf ofyn am ddatganiad ar y gwasanaeth achub mynydd? Bob wythnos, rydym yn clywed am ddamweiniau ar fynyddoedd Cymru. Timau achub Llanberis ac Ogwen yw'r rhai prysuraf yn y Deyrnas Gyfunol. Timau gwirfoddol ydynt ond maent yn gweithio ochr yn ochr â'r heddlu, y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaeth hofrenyddion. Fodd bynnag, ychydig iawn o gefnogaeth ariannol y mae'r Llywodraeth yn ei rhoi i'r gwasanaeth hollbwysig hwn—llai na chwarter yr hyn sy'n cael ei roi yn yr Alban, er gwaethaf y gweithgarwch yma. Rwy'n gofyn am ddatganiad ar y gwasanaeth pwysig hwn sy'n gwarchod enw da Cymru, sy'n gefn i'r diwydiant twristiaeth ac sy'n arf hollbwysig i'r heddlu a'r gwasanaeth iechyd.

May I ask for a statement on the mountain rescue service? Every week, we hear about accidents on the Welsh mountains. The rescue teams in Llanberis and Ogwen are the busiest in the United Kingdom. These teams are voluntary but they work alongside the police, the health service and the helicopter service. However, there is very little financial support given by the Government to this vital service—less than a quarter of what is given in Scotland, despite the activity here. I ask for a statement on this important service, which protects the reputation of Wales, supports the tourism industry and is a vital tool for the police and health service.

14:43 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, you raise a very important point. I agree with you about mountain rescue services. I do not think that we do enough to thank them or celebrate what they achieve. I recently met with all the organisations in north Wales that dealt with the recent flooding. The mountain rescue services were represented at that event and I said to them that it was the first time that I had ever met somebody from the mountain rescue services. We could certainly look into providing a written statement.

Rydych chi'n codi pwynt pwysig iawn. Rwy'n cytuno â chi ynglŷn â gwasanaethau achub mynydd. Nid wyf yn meddwl ein bod yn gwneud digon i ddiolch iddyn nhw na dathlu'r hyn maen nhw'n ei gyflawni. Cefais gyfarfod yn ddiweddar â'r holl sefydliadau yng ngogledd Cymru a fu'n ymdrin â'r llifogydd diweddar. Roedd y gwasanaethau achub mynydd wedi eu cynrychioli yn y digwyddiad hwnnw a dywedais wrthynt mai hwn oedd y tro cyntaf i mi erioed gyfarfod â rhywun o'r gwasanaethau achub mynydd. Yn sicr, gallwn ystyried darparu datganiad ysgrifenedig.

14:43 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, could I ask for two statements, the first from the Minister for Education and Skills? The Welsh Government published guidance in May 2012 regarding the issue of school federation. Is the Minister intending to update that guidance? Last night, in a public meeting, parents were informed that Whitton (Aided) School could not federate with the nearby Presteigne Primary School because of its aided status. I have looked at the guidance and cannot see anything in the guidance that would prevent such a federation. Clarity from the Minister on that point and any update on the guidance would be greatly appreciated.

Weinidog, a gaf i ofyn am ddau ddatganiad, y cyntaf gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau? Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ym mis Mai 2012 ar y mater o ffedereiddio ysgolion. A yw'r Gweinidog yn bwriadu diweddaru'r canllawiau hynny? Neithiwr, mewn cyfarfod cyhoeddus, hysbyswyd rhieni na allai Ysgol Whitton (a Gynorthwyir) ffedereiddio ag Ysgol Gynradd Llanandras gyfagos oherwydd ei statws a gynorthwyir. Rwyf wedi edrych ar y canllawiau ac ni allaf weld unrhyw beth yn y canllawiau a fyddai'n atal ffederasiwn o'r fath. Byddai mwy o eglurder gan y Gweinidog ar y pwynt hwnnw ac unrhyw ddiweddariad ar y canllawiau yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

I know that the Chamber has been long-suffering in hearing my complaints about the A40 and the traffic lights at Glangrwyney but just when progress was being made, we have been struck down by another collapsing wall. This time, it is in the centre of Crickhowell, which has necessitated more traffic lights in Crickhowell, which is causing a great deal of problems for people who are trying to get through Crickhowell to Abergavenny for work and business purposes and the hospital. Could the Minister issue a written statement on when she expects the work at Crickhowell to be completed? Perhaps, at the same time, she could look at the reorganisation of the traffic lights to avoid queues on Llanbedr Road and New Road.

Gwn fod y Siambr wedi bod yn dioddef fy nghwynion am yr A40 a'r goleuadau traffig yng Nglangrwyne ers talwm, ond fel yr oedd cynnydd yn cael ei wneud, rydym ni wedi cael ein taro gan wal arall yn cwympo. Y tro hwn, mae yng nghanol Crucywel, sydd wedi golygu bod angen mwy o oleuadau traffig yng Nghrucywel, sy'n achosi llawer iawn o broblemau i bobl sy'n ceisio mynd drwy Grucywel i'r Fenni at ddibenion gwaith a busnes ac i'r ysbyty. A allai'r Gweinidog gyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar bryd y mae hi'n disgwyl i'r gwaith yng Nghrucywel gael ei gwblhau? Efallai, ar yr un pryd, y gallai ystyried ad-drefnu'r goleuadau traffig i osgoi ciwiau ar Heol Llanbedr a Ffordd Newydd.

14:45

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, the Minister for Economy, Science and Transport will update Members by a written statement on your latter point. I am not aware that the Minister for Education and Skills is updating guidance in relation to school federation, but I will speak to him and, if so, I will ask for a written statement.

Gallai, bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau mewn datganiad ysgrifenedig ar eich pwynt olaf. Nid wyf yn ymwybodol bod y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn diweddaru canllawiau o ran ffedereiddio ysgolion, ond byddaf yn siarad ag ef ac, os felly, byddaf yn gofyn am ddatganiad ysgrifenedig.

14:45

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you will be aware that councils across north Wales have faced quite large cuts in their budgets, and there is therefore some surprise amongst my constituents when they see Welsh Government spending £52 million on an airport, putting £30 million into Pinewood Studios, and now a rumoured £30 million into the circuit of Wales. Minister, I would like a statement from the Minister for business and enterprise about the circuit of Wales. There have been concerns expressed about the level of transparency that there is around the project and the level of due diligence that there has been around the project. There are real concerns that the level of examination that there should have been—and there has already been a £2 million investment from Welsh Government—and the level of care that should have been there have not been undertaken. At the moment, the Minister is citing commercial confidentiality, but of course any company seeking to raise funds will need to go out into the open market for those funds and will need to conduct due diligence themselves, so that information being in the public domain can only assist in deciding whether that funding is appropriately and properly spent. I think it is important for my constituents in north Wales, who see tens of millions of pounds being spent here in south Wales, to see that there is proper value for money for the taxpayer, and that these projects have been carefully and appropriately looked into.

Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod cynghorau ar draws gogledd Cymru wedi wynebu toriadau eithaf helaeth i'w cyllidebau, ac felly mae rhywfaint o syndod ymhlith fy etholwyr pan fyddant yn gweld Llywodraeth Cymru yn gwario £52 miliwn ar faes awyr, yn rhoi £30 miliwn i Pinewood Studios, a nawr y £30 miliwn honedig i gylchdaith Cymru. Weinidog, hoffwn gael datganiad gan y Gweinidog busnes a menter am gylchdaith Cymru. Mynegwyd pryderon ynghylch y lefel o dryloywder a geir ynglŷn â'r prosiect a lefel y diwydrwydd dyladwy a fu o gwmpas y prosiect. Ceir pryderon gwirioneddol na chynhaliwyd y lefel o archwilio—a bu eisoes buddsoddiad o £2 filiwn gan Lywodraeth Cymru—na lefel y gofal a ddylai fod wedi ei gynnal. Ar hyn o bryd, mae'r Gweinidog yn nodi cyfrinachedd masnachol, ond wrth gwrs bydd angen i unrhyw gwmni sy'n ceisio codi arian i fynd allan i'r farchnad agored ddod o hyd i'r cyllid hwnnw a bydd angen iddo gynnal diwydrwydd dyladwy ei hun, fel y gall y wybodaeth sy'n eiddo i'r cyhoedd ddim ond helpu i benderfynu a yw'r arian hwnnw'n cael ei wario'n briodol ac yn gywir. Rwy'n credu ei bod yn bwysig i'm hetholwyr yng ngogledd Cymru, sy'n gweld degau o filiynau o bunnoedd yn cael eu gwario yma yn ne Cymru, weld bod gwerth priodol am arian i'r trethdalwr, a bod y prosiectau hyn wedi cael eu hymchwilio'n ofalus ac yn briodol.

14:47

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I agree with the Minister for Economy, Science and Transport. I do not think it is appropriate for her or me to comment on or discuss future public funding for reasons of commercial confidentiality.

Rwy'n cytuno â Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Nid wyf yn credu ei bod yn briodol iddi hi na minnau wneud sylw ar gyllid cyhoeddus yn y dyfodol, na'i drafod, am resymau cyfrinachedd masnachol.

14:47

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, over the weekend you may have been aware of Patrick McLoughlin announcing that an extra £140 million would be made available to councils in England to repair local roads damaged by the severe weather. I wonder whether I could request a written statement giving us an indication as to whether or not you anticipate that there will be a Barnett consequential from that money, and also outlining the ways in which local authorities in Wales and the Welsh Government co-ordinate efforts to ensure that there are consistent and high-quality repairs being done to our local road network.

Weinidog, efallai eich bod yn ymwybodol dros y penwythnos bod Patrick McLoughlin wedi cyhoeddi y byddai £140 miliwn ychwanegol yn cael ei roi ar gael i gynghorau yn Lloegr i atgyweirio ffyrdd lleol a ddifrodwyd gan y tywydd garw. Tybed a fyddai modd i mi ofyn am ddatganiad ysgrifenedig yn rhoi awgrym i ni ynghylch pa un a ydych chi'n rhagweld y bydd cyllid canlyniadol Barnett o'r arian hwnnw, a hefyd amlinellu'r ffyrdd y mae awdurdodau lleol yng Nghymru a Llywodraeth Cymru yn cydgysylltu ymdrechion i sicrhau bod gwaith atgyweirio cyson ac o ansawdd uchel yn cael ei wneud ar ein rhwydwaith ffyrdd lleol.

14:47

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There is no Barnett consequential.

Nid oes unrhyw gyllid canlyniadol Barnett.

14:47 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I want to call for two statements and the first is on progress, if any, with collaboration between the UK and Welsh Governments on delivering skills training, given the call by the Welsh Affairs Committee in its report on the work programme in Wales for this.

Hoffwn alw am ddau ddatganiad ac mae'r cyntaf ar gynnydd, os bu cynnydd o gwbl, o ran y cydweithrediad rhwng Llywodraethau'r DU a Chymru ar ddarparu hyfforddiant sgiliau, o ystyried yr alwad gan y Pwyllgor Materion Cymreig yn ei adroddiad ar y rhaglen waith yng Nghymru ar gyfer hyn.

*Daeth Angela Burns i'r Gadair am 14:48.*

*Angela Burns took the Chair at 14:48.*

**Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

It would, for example, allow Jobs Growth Wales and the Work Programme, both of which do valuable work and complement each other, but which are not currently available through the separate media, to collaborate and be accessible together.

Byddai, er enghraifft, yn caniatáu i Dwf Swyddi Cymru a'r Rhaglen Waith, ac y mae'r ddau ohonynt yn gwneud gwaith gwerthfawr ac yn ategu ei gilydd, ond nid ydynt ar gael drwy'r cyfryngau ar wahân ar hyn o bryd, i gydweithio a bod ar gael gyda'i gilydd.

Secondly, and finally, could I call for a statement on Welsh Government implementation under delegated ministerial powers of the Localism Act 2011 in Wales? There are many calls for this. Thus far it has not happened. I will give you just two examples. On the day when we know that average council tax across Wales will rise by 4.2%, and that the share of average wages in Wales going on council tax will overtake the UK average, we know that, under the Localism Act, a council cannot increase council tax by more than 2% without a referendum of the local community in which it explains what that extra money would be spent on, but of course that is not available in Wales. A second example, and finally, is that the Campaign for Real Ale, which plays a key job in pubs, supporting local food and drink production, supporting communities and delivering jobs, is very much in favour of the Localism Act and is pleased with the way it is being applied in England, but its members in Wales are now mounting a campaign to have a Welsh version of the Act. We do not need a Welsh version of the Act; we need Ministers in Wales to use the delegated powers they have under the Act to break down the barriers between service providers and service users, and genuinely build resilient, sustainable communities in Wales, trusting the people.

Yn ail, ac yn olaf, a gaf i alw am ddatganiad ar weithrediad Llywodraeth Cymru dan bwerau gweinidogol dirprwyedig Deddf Lleoliaeth 2011 yng Nghymru? Ceir llawer o alwadau am hyn. Nid yw wedi digwydd hyd yn hyn. Rhoddaf ddwy enghraifft yn unig i chi. Ar y diwrnod pan ein bod yn gwybod y bydd y dreth gyngor gyfartalog ar draws Cymru yn codi o 4.2%, ac y bydd y gyfran o gyflogau cyfartalog yng Nghymru sy'n cael ei wario ar dreth gyngor yn goddiweddyd cyfartaledd y DU, rydym yn gwybod, dan y Ddeddf Lleoliaeth, na all cyngor gynyddu treth y cyngor o fwy na 2% heb refferendwm o'r gymuned leol lle mae'n egluro ar beth y byddai'r arian ychwanegol hwnnw yn cael ei wario, ond nid yw hynny ar gael yng Nghymru, wrth gwrs. Yr ail enghraifft, a'r olaf, yw bod yr Ymgyrch dros Gwrw Go Iawn, sy'n cyflawni swyddogaeth allweddol mewn tafarndai, gan gefnogi cynhyrchiant bwyd a diod lleol, cefnogi cymunedau a darparu swyddi, yn sicr o blaid y Ddeddf Lleoliaeth ac yn falch o'r ffordd y mae'n cael ei defnyddio yn Lloegr, ond mae ei haelodau yng Nghymru bellach yn dechrau ymgyrch i gael fersiwn o'r Ddeddf yng Nghymru. Nid ydym angen fersiwn o'r Ddeddf yng Nghymru; mae angen Gweinidogion arnom yng Nghymru i ddefnyddio'r pwerau dirprwyedig sydd ganddynt dan y Ddeddf i gael gwared ar y rhwystrau rhwng darparwyr gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau, ac adeiladu cymunedau gwirioneddol gryf a chynaliadwy yng Nghymru, gan ymddiried yn y bobl.

14:49 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Deputy Minister for Skills and Technology is happy to make a written statement regarding the first issue. In relation to the council tax increases, I think that it is absolutely right that local authorities set their own council tax; I think that it is the most demonstrable way of showing how they are accountable to their local population. You quote the 2% threshold in England. It is very interesting to see that one of your Ministers—well, it is actually a Liberal Democrat Minister—is saying that the policy is 'absurd', today, in the press. So, on the way that council taxes are being set, I am monitoring that now, because I have said that, if they are unreasonable, I will use my capping powers.

Mae'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg yn hapus i wneud datganiad ysgrifenedig ynglŷn â'r mater cyntaf. O ran y cynnydd i'r dreth gyngor, rwy'n meddwl ei bod yn hollol iawn bod awdurdodau lleol yn pennu eu treth gyngor eu hunain; rwy'n credu mai dyna'r ffordd fwyaf amlwg o ddangos sut y maen nhw'n atebol i'w poblogaeth leol. Rydych chi'n sôn am y trothwy 2% yn Lloegr. Mae'n ddiddorol iawn gweld bod un o'ch Gweinidogion—wel, Gweinidog y Democratiaid Rhyddfrydol a dweud y gwir—yn dweud bod y polisi yn hurt, heddiw, yn y wasg. Felly, o ran y ffordd y mae trethi cyngor yn cael eu pennu, rwy'n monitro hynny nawr, oherwydd rwyf wedi dweud, os ydynt yn afresymol, byddaf yn defnyddio fy mhwerau capio.

14:50 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, or leader of the house, as I should say, I wonder if we could have an update from the Welsh Government on where we are with the plan for the M4 south of Newport. I know that the draft plan consultation document was to receive responses by 16 December last year, I think, so you are currently in the consideration phase of that. It is vital that we get on with the job of improving transport links around Newport and beyond to the rest of Wales.

Weinidog, neu arweinydd y tŷ, fel y dylwn i ddweud, tybed a allem ni gael y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar y sefyllfa o ran y cynllun ar gyfer yr M4 i'r de o Gasnewydd. Gwn y disgwyliwyd i'r ddogfen ymgynghori ar y cynllun drafft dderbyn ymatebion erbyn 16 Rhagfyr y llynedd, rwy'n credu, felly rydych chi yn y cyfnod ystyried hynny ar hyn o bryd. Mae'n hanfodol ein bod yn bwrw ymlaen â'r gwaith o wella cysylltiadau trafnidiaeth o amgylch Casnewydd a thu hwnt, i weddill Cymru.

There are options in that plan. I know that there is also the alternative blue route, which might not feature in the original consultation. Nonetheless, a lot of work has gone into that blue route proposal; in fact, Byron Davies and I had a tour of that route yesterday. I think that we need to move forward on this, leader of the house. Will you bring forward a statement or debate on this as quickly as possible, so that businesses in Newport and the wider area beyond that, around the M4 corridor, can have some clarity and we can get on with building the economy of south Wales?

Ceir dewisiadau yn y cynllun hwnnw. Rwy'n gwybod bod y llwybr glas amgen ar gael hefyd, efallai na fydd yn cael ei gynnwys yn yr ymgynghoriad gwreiddiol. Serch hynny, gwnaed llawer o waith ar y cynnig llwybr glas hwnnw; a dweud y gwir, aeth Byron Davies a minnau ar daith ar hyd y llwybr hwnnw ddoe. Rwy'n credu bod angen i ni fwrw ymlaen â hyn, arweinydd y tŷ. A wnewch chi gyflwyno datganiad neu ddadl ar hyn cyn gynted â phosibl, fel y gall busnesau yng Nghasnewydd a'r ardal ehangach y tu hwnt i hynny, o amgylch coridor yr M4, gael rhywfaint o eglurder ac y gallwn fwrw ymlaen ag adeiladu economi de Cymru?

14:51 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As you say, it is at the consideration stage. I am sure that, when the Minister has something concrete to say, she will bring forward either a debate or a statement.

Fel y dywedwch, mae yn y cyfnod ystyriaeth. Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn cyflwyno dadl neu ddatganiad pan fydd ganddi rywbeth pendant i'w ddweud.

14:51 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that.

Diolch i chi am hynna.

14:51

Senedd.tv Fideo Video

## Datganiad: Moderneiddio Amaethyddiaeth yng Nghymru: Systemau Ar-lein i Ffermwyr

## Statement: Modernising Welsh Agriculture: Online Systems for Farmers

**Angela Burns** Bywgraffiad Biography

We now come to the statement by the Minister for Natural Resources and Food on modernising Welsh agriculture: online systems for farmers. I would like to call the Minister, Alun Davies.

Down yn awr at y datganiad gan y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd am foderneiddio amaethyddiaeth yng Nghymru: systemau ar-lein i ffermwyr. Hoffwn alw ar y Gweinidog, Alun Davies.

14:52 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

Thank you very much, acting Deputy Presiding Officer.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd dros dro.

Over the next two years, we will move to an entirely online environment for the delivery of Government services for farmers. I expect this process to have been completed by 31 March 2016. The purpose of this shift to online services and systems is to provide a more streamlined, simplified and more efficient means of managing information and accessing support.

Dros y ddwy flynedd nesaf, byddwn yn symud i amgylchedd cyfan gwbl ar-lein ar gyfer darparu gwasanaethau'r Llywodraeth i ffermwyr. Rwyf yn disgwyl y bydd y broses hon wedi ei chwblhau erbyn 31 Mawrth 2016. Pwrpas y newid hwn i wasanaethau a systemau ar-lein yw darparu ffordd haws, symlach a mwy effeithlon o reoli gwybodaeth a chael mynediad at gymorth.

Online systems represent a significant investment by the taxpayer in modernising agriculture and the administration of payments and services. This is in addition to the considerable investment planned for Electronic Identification Cymru and the county parish holding programme. It is clear that the approach that my officials in Rural Payments Wales have taken on the delivery of online systems has already helped to deliver on our 'Working Smarter' commitments.

Mae systemau ar-lein yn fuddsoddiad sylweddol gan y trethdalwr o ran moderneiddio amaethyddiaeth a gweinyddu taliadau a gwasanaethau. Mae hyn ar ben y buddsoddiad sylweddol a gynlluniwyd ar gyfer Adnabod Electronig Cymru a'r rhaglen daliadau plwyf y sir. Mae'n amlwg bod y dull y mae fy swyddogion yn Taliadau Gwledig Cymru wedi'i ddefnyddio i gyflenwi systemau ar-lein eisoes wedi helpu i gyflawni ein hymrwymiadau yn 'Hwyluso'r Drefn'.

Welsh agriculture must continue modernising to compete with rival producers across Europe and further afield. One element of this modernisation is making better use of available online systems. The Welsh Government has invested £7.9 million in a new easy-to-use online system for claiming payments, so that farm businesses can benefit from faster access to simpler applications. It is designed to reduce the burden on farmers and the Welsh Government, and to help minimise payment reductions due to unnecessary errors made during form completion that are impossible to rectify afterwards. The development of the online system was completed with the close involvement of the industry and focused on simplifying the application process for farmers and their representatives.

Rhaid i amaethyddiaeth Cymru barhau i foderneiddio i gystadlu gyda chynhyrchwyr sy'n cystadlu â ni ledled Ewrop a thu hwnt. Un elfen ar y moderneiddio hwn yw defnyddio'r systemau ar-lein sydd ar gael yn well. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £7.9 miliwn mewn system ar-lein newydd hawdd ei defnyddio i hawlio taliadau, fel y gall busnesau fferm elwa o gael mynediad cyflymach at geisiadau symlach. Mae wedi'i chynllunio i leihau'r baich ar ffermwyr ac ar Lywodraeth Cymru, ac i helpu i leihau gostyngiadau i daliadau oherwydd gwallau diangen a wnaethpwyd wrth gwblhau ffurflenni sy'n amhosibl eu cywiro wedyn. Chwaraeodd y diwydiant ran fawr yn y broses o ddatblygu'r system ar-lein, a'r ffocws oedd symleiddio'r broses ymgeisio i ffermwyr a'u cynrychiolwyr.

The new European basic payment scheme, which supersedes the single payment scheme next year, will introduce additional complexity. The online system will provide a simple and convenient channel to capture the additional information that will be required. It will use e-mail and text for quicker notification of when action is required, and online interactive maps will provide farmers with a useful reference for land classification and greening options. The new interactive single application form recognises common errors and will help farmers to get their applications right the first time.

Bydd cynllun taliadau sylfaenol newydd Ewrop, sy'n disodli'r cynllun taliad sengl y flwyddyn nesaf, yn cyflwyno cymhlethdod ychwanegol. Bydd y system ar-lein yn darparu sianel syml a chyfleus i gasglu'r wybodaeth ychwanegol y bydd ei hangen. Bydd yn defnyddio e-bost a negeseuon testun i hysbysu'n gyflymach pan fydd angen gweithredu, a bydd mapiau rhyngweithiol ar-lein yn rhoi cyfeiriad defnyddiol i ffermwyr ar gyfer opsiynau dosbarthu tir a gwyrddu. Mae'r ffurflen gais sengl ryngweithiol newydd yn adnabod camgymeriadau cyffredin a bydd yn helpu ffermwyr i gael eu ceisiadau'n iawn y tro cyntaf.

So far, about 40% of customers have requested enrolment details from the Rural Payments Wales online service. A small but significant number of farmers have already submitted online claims, even though the paper claim forms are not expected to reach farmers until next week. Initial reactions to the online claims have been excellent and I expect paper single application forms to be phased out entirely by 2016. I am considering ways to support farmers who may struggle to use online services.

Hyd yn hyn, mae tua 40% o gwsmeriaid wedi gofyn am fanylion cofrestru gan wasanaeth ar-lein Taliadau Gwledig Cymru. Mae nifer bach ond sylweddol o ffermwyr eisoes wedi cyflwyno hawliadau ar-lein, er nad oes disgwyl i'r ffurflenni cais papur gyrraedd ffermwyr tan yr wythnos nesaf. Mae'r ymatebion cychwynnol i'r hawliadau ar-lein wedi bod yn rhagorol ac rwyf yn disgwyl y bydd ffurflenni cais unigol papur wedi'u dirwyn i ben yn gyfan gwbl erbyn 2016. Rwyf yn ystyried ffyrdd o gynorthwyo ffermwyr a allai ei chael yn anodd defnyddio gwasanaethau ar-lein.

Most Rural Payments Wales online customers should be able to view their payment letters online by the end of November 2014, which is considerably earlier than with the current system. The online interactive maps will hold the latest information held by Rural Payments Wales on their farms. Farmers or land managers will be able to search for their land parcels easily, navigate around them and even switch between aerial photography and Ordnance Survey map layers. Land parcel information such as size, eligible area and permanent features will also be displayed.

Dylai fod y rhan fwyaf o gwsmeriaid ar-lein Taliadau Gwledig Cymru yn gallu gweld eu llythyrau talu ar-lein erbyn diwedd mis Tachwedd 2014, sy'n llawer cynharach na gyda'r system bresennol. Bydd y mapiau rhyngweithiol ar-lein yn cadw'r wybodaeth ddiweddaraf sydd gan Taliadau Gwledig Cymru am eu ffermydd. Bydd ffermwyr neu reolwyr tir yn gallu chwilio am eu parseli tir yn hawdd, llywio o'u cwmpas a hyd yn oed newid rhwng ffotograffiaeth o'r awyr a haenau map yr Arolwg Ordnans. Bydd gwybodaeth am barseli tir megis maint, ardal gymwys a nodweddion parhaol hefyd wedi'u harddangos.

All the services that are vital for effectively managing a farm business are moving online. These include HMRC's online tax return service as well as the British Cattle Movement Service's cattle tracing system. These payment systems will complement and underpin the modernisation of the industry. This is why the Welsh Government is committed to making sure that all rural businesses can access broadband by 2016. The Welsh Government and BT are working in partnership to deliver the Superfast Cymru programme, which, when combined with commercial roll-out, will provide 96% of Wales with fast fibre broadband. For those premises that are in hard-to-reach areas, the Access Broadband Cymru scheme can provide a grant of up to £1,000 to fund alternative broadband solutions.

Mae'r holl wasanaethau sy'n hanfodol i reoli busnes fferm yn effeithiol yn symud ar-lein. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaeth ffurflenni treth ar-lein Cyllid a Thollau EM yn ogystal â system olrhain gwartheg Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain. Bydd y systemau talu hyn yn ategu'r gwaith o foderneiddio'r diwydiant ac yn sail i'r gwaith hwnnw. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud yn siŵr bod band eang ar gael i bob busnes gwledig erbyn 2016. Mae Llywodraeth Cymru a BT yn gweithio mewn partneriaeth i gyflwyno'r rhaglen Cyflymu Cymru, a fydd, wedi'i chyfuno â'r hyn a gyflwynir yn fasnachol, yn darparu band eang ffibr cyflym i 96% o Gymru. I'r mangreoedd hynny sydd mewn ardaloedd anodd eu cyrraedd, gall cynllun Allwedd Band Eang Cymru ddarparu grant o hyd at £1,000 i ariannu datrysiadau band eang amgen.

EID Cymru will provide Wales with a modern robust traceability system to respond quickly and effectively to any disease outbreak. It will also provide the opportunity for farmers and processors to use the increased level of traceability to manage and develop their business and, potentially, their profitability. It will also deliver wider benefits by supporting the branding and marketing of Welsh lamb in new, developing and established markets.

Bydd EID Cymru yn darparu system olrhain gadarn fodern i Gymru i ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i unrhyw achos o glefyd. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i ffermwyr a phroseswyr i ddefnyddio'r gwell gallu i olrhain i reoli a datblygu eu busnes ac, o bosibl, eu proffidioldeb. Bydd hefyd yn sicrhau manteision ehangach trwy gynorthwyo prosesau brandio a marchnata cig oen Cymru mewn marchnadoedd newydd, marchnadoedd sy'n datblygu a marchnadoedd sefydledig.

A key recommendation of the 'Working Smarter' report was that,

Un o argymhellion allweddol adroddiad 'Hwyluso'r Drefn' oedd,

'The Welsh Government must rapidly progress the CPH transfer project to derive a sensible, credible, simplified, easily understood and implemented system of movement controls. The project must aim to remove multiple CPH, SOA, CTS links and the multitude of existing variations which add unnecessary complexity at present.'

'Rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu'r prosiect trosglwyddo CPH yn gyflym i sicrhau bod system synhwyrol, gredadwy, syml, hawdd ei deall o reoli symudiadau ar waith. Rhaid i'r prosiect anelu at gael gwared ar gysylltiadau lluosog CPH, SOA, CTS a'r llu o amrywiadau presennol sy'n ychwanegu cymhlethdod diangen ar hyn o bryd.'

My decision to rationalise the county parish holding system involves the removal of sole occupancy authorities and cattle tracing system links. The implementation of a 10-mile rule will allow livestock keepers to improve the efficiency of their business by giving them the opportunity to control all land parcels under their management within 10 miles of the main holding, and to do this under a single county parish holding reference. All land parcels within a county parish holding will be captured electronically on the land parcel identification system. This will ensure a quicker and more efficient response to any animal disease outbreak and will assist Wales in securing ongoing funding from the European Union towards our TB eradication plan.

Mae fy mhenderfyniad i symleiddio'r system ddaliadau'n golygu cael gwared ar awdurdodau meddiannaeth unigol a chysylltiadau systemau olrhain gwartheg. Bydd gweithredu rheol 10-milltir yn caniatáu i geidwaid da byw wella effeithlonrwydd eu busnes drwy roi cyfle iddynt i reoli pob parsel tir o dan eu rheolaeth o fewn 10 milltir i'r prif ddaliad, a gwneud hyn o dan un cyfeirnod daliad. Bydd yr holl barseli tir o fewn daliad yn cael eu cynnwys yn electronig ar y system adnabod parseli tir. Bydd hyn yn sicrhau ymateb cyflymach a mwy effeithlon i unrhyw achos o glefyd anifeiliaid, a bydd yn helpu Cymru i sicrhau cyllid parhaus gan yr Undeb Ewropeaidd tuag at ein cynllun dileu TB.

My decision will help to simplify the current system, establish consistent rules across species, and reduce the administrative burden on farmers in line with our 'Working Smarter' objectives. It is essential that all farmers embrace online technology and take advantage of training available to make sure that they do not get left behind in this wider new economy. Farming Connect is organising a series of one-to-one computer clinics across Wales to provide hour-long mentoring sessions to develop and strengthen computer skills. The farm liaison service has organised 20 open meetings for farmers wanting guidance on completing their single application form online. In addition, farm liaison service staff will be available at Welsh Government offices and livestock markets to promote the use of online systems and to help farmers understand what 'online' means for them.

Bydd fy mhenderfyniad yn helpu i symleiddio'r system bresennol, sefydlu rheolau cyson ar draws rhywogaethau, a lleihau'r baich gweinyddol ar ffermwyr yn unol â'n hamcanion 'Hwyluso'r Drefn'. Mae'n hanfodol bod pob ffermwr yn croesawu technoleg ar-lein ac yn manteisio ar yr hyfforddiant sydd ar gael i wneud yn siŵr na chaiff neb ei adael ar ôl yn yr economi newydd ehangach hon. Mae Cyswllt Ffermio'n trefnu cyfres o gymorthfeydd cyfrifiadurol un-i-un ledled Cymru i ddarparu sesiynau mentora am awr i ddatblygu a chryfhau sgiliau cyfrifiadurol. Mae'r gwasanaeth cyswllt ffermydd wedi trefnu 20 o gyfarfodydd agored i ffermwyr ag eisiau arweiniad i gwblhau eu ffurflen gais sengl ar-lein. Yn ogystal, bydd staff y gwasanaeth cyswllt ffermio ar gael yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ac mewn marchnadoedd da byw i hyrwyddo defnyddio systemau ar-lein ac i helpu ffermwyr i ddeall bet yw ystyr 'ar-lein' iddynt hwy.

Acting Deputy Presiding Officer, in conclusion, the process of moving to an entirely online system for payments and management within agriculture will not only help to modernise the industry and make it more efficient, but will help farmers to focus on the business of farming rather than administration and form-filling. This is something that I hope everyone will welcome.

Ddirprwy Lywydd Dros Dro, i gloi, nid yn unig y bydd y broses o symud i system gyfan gwbl ar-lein ar gyfer taliadau a rheoli amaethyddiaeth yn helpu i foderneiddio'r diwydiant a'i wneud yn fwy effeithlon, bydd hefyd yn helpu ffermwyr i ganolbwyntio ar fusnes ffermio yn hytrach na gweinyddu a llenwi ffurflenni. Mae hyn yn rhywbeth yr wyf yn gobeithio y bydd pawb yn ei groesawu.

14:58

## Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Galwaf ar arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

14:58

## Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I am standing in for my colleague, Russell George, who has a poor voice today.

Rwyf yn cymryd lle fy nghydweithiwr, Russell George; nid yw ei lais yn dda heddiw.

It is a pleasure to be able to respond to the Minister's statement. I am grateful to the Minister for making this statement. There is almost inevitability about moving to IT and computers. We all hear that it is more efficient and that it is going to be a better way of working; I very much hope that will come to fruition. Many of us who have always used computers, or been involved in any of these transitions, realise that the road to the promised land is never as smooth as it seems. Maybe in the agriculture world, there is a very salutary lesson in looking at other examples of IT roll-outs in other parts of the United Kingdom and realising that, with the remoteness of many of the businesses and the patchiness of the service, IT does not always provide all the solutions that we would wish it to provide.

Mae'n bleser gallu ymateb i ddatganiad y Gweinidog. Rwyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am wneud y datganiad hwn. Mae rhywbeth bron yn anochel am symud at TG a chyfrifiaduron. Rydym i gyd yn clywed bod hynny'n fwy effeithlon ac y bydd yn ffordd well o weithio; gobeithiaf yn fawr y bydd hynny'n dwyn ffrwyth. Mae llawer ohonom sydd wedi defnyddio cyfrifiaduron erioed, neu sydd wedi ymwneud ag unrhyw un o'r trawsnewidiadau hyn, yn sylweddoli nad yw'r ffordd i wlad yr addewid byth mor esmwyth ag y mae'n ymddangos. Efallai y gallai'r byd amaeth ddysgu gwers lesol iawn wrth edrych ar enghreifftiau eraill o gyflwyno TG mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig a sylweddoli, gan fod llawer o'r busnesau mor anghysbell a'r gwasanaeth mor anghyson, nad yw TG bob amser yn darparu'r holl ddatrysiadau yr hoffem iddi eu darparu.

I would be grateful if the Minister could indicate whether that 4% or 5% who will not be able to get it is measured by land area of Wales or by population. When he says that there will be 96% coverage, I think that we have all been on mobile phone contracts when you are told that 96% of the area is covered and it turns out to be a population figure rather than a land-based figure. As we are talking about a land-based industry, I think it is very important that we understand where we are going with this. You talk of £1,000 being made available to areas that are going to be challenging for broadband roll-out. How was that £1,000 arrived at? Is there a science behind it, or have you just plucked the £1,000 figure out of the air? Will that actually help people who cannot connect to high-speed broadband and broadband to find the solutions that they require for these businesses?

Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog nodi a yw'r 4% neu 5% na fydd yn gallu ei gael wedi'i fesur yn ôl arwynebedd tir Cymru neu yn ôl poblogaeth. Pan ddywed y bydd ar gael i 96%, rwyf yn meddwl ein bod i gyd wedi bod ar gontractau ffôn symudol lle cewch wybod bod signal ar gael yn 96% o'r ardal ac mai ffigur seiliedig ar boblogaeth ydyw yn y pen draw, yn hytrach na ffigur seiliedig ar dir. Gan ein bod yn sôn am ddiwydiant tir, rwyf yn credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn deall i ble'r ydym yn mynd â hyn. Rydych yn dweud y bydd £1,000 ar gael i ardaloedd lle bydd yn anodd cyflwyno band eang. Sut cawsoch chi'r ffigur hwnnw o £1,000? A oes gwyddoniaeth y tu ôl iddo, ynteu a wnaethoch dynnu'r ffigur £1,000 allan o'r awyr? A fydd hynny mewn gwirionedd yn helpu pobl nad ydynt yn gallu cysylltu â band eang cyflym a band eang i ddod o hyd i'r datrysiadau sydd eu hangen arnynt ar gyfer y busnesau hyn?

Also, at the very start of the statement, the Minister says that he expects the process to be completed by 31 March 2016. Is what it says in the statement an expectation, or will that be the cliff edge, that is, when we hit 31 March 2016, that will be it and there will be no paper in the system and you will have to move over to an IT-based system?

Hefyd, ar ddechrau'r datganiad, dywed y Gweinidog ei fod yn disgwyl y bydd y broses wedi'i chwblhau erbyn 31 Mawrth 2016. Ai disgwyliad yw'r hyn y mae'n ei ddweud yn y datganiad, ynteu ai dyna fydd ymyl y clogwyn, hynny yw, pan ddaw 31 Mawrth, 2016, ai dyna fydd diwedd y system bapur, a bydd rhaid ichi droi at system sy'n seiliedig ar TG?

I also remember the halcyon days when the Minister and I sat on the old Rural Development Sub-committee in the last Assembly. We undertook many inquiries into Glastir and TB. The Minister's position has shifted slightly now that he is in Government, but one thing I think that the Minister and I were very impressed with was—[Interruption.] I am just being polite.

Rwyf hefyd yn cofio'r dyddiau da pan eisteddai'r Gweinidog a mi ar yr hen Is-bwyllgor Datblygu Gwledig yn y Cynulliad diwethaf. Gwnaethom gynnal nifer o ymholiadau i mewn i Glastir a TB. Mae safbwynt y Gweinidog wedi newid ychydig ers iddo fod yn y Llywodraeth, ond un peth yr wyf yn meddwl iddo wneud argraff dda iawn ar y Gweinidog ac mi oedd—[Torri ar draws.] Dim ond bod yn gwrtais ydwyf.

One thing I was very impressed with was the evidence that we took from Scotland, which said that, when new systems were introduced in Scotland, especially around bureaucracy, red tape and form management, they had a specific panel within the rural affairs department there to road test those forms to make sure that they were user friendly. There is no greater need than, I would suggest, in the field of IT, to try to make it as simple as possible for people to be able to use it, especially in an industry where I think the average age, last time I looked, was 58, and there is, most probably, a large number of people who, for whatever reason, feel that IT is not the solution for them. So, I would be grateful to know whether the Minister can identify whether the proposals have been road-tested as being user friendly, not just by civil servants but by a group of individuals who would need to be using these tools on a day-to-day basis.

Un peth a wnaeth argraff dda iawn arnaf oedd y dystiolaeth a gawsom o'r Alban, a oedd yn dweud, pan gafodd systemau newydd eu cyflwyno yn yr Alban, yn enwedig o ran biwrocratiaeth, tâp coch a rheoli ffurflenni, bod ganddynt banel penodol yn yr adran materion gwledig yno i brofi'r ffurflenni hynny i wneud yn siŵr eu bod yn hawdd eu defnyddio. Nid oes dim byd yn bwysicach, byddwn yn awgrymu, ym maes TG, na cheisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl allu ei defnyddio, yn enwedig mewn diwydiant lle'r wyf yn meddwl bod y cyfartaledd oedran, y tro diwethaf imi edrych, yn 58, a lle mae, yn ôl pob tebyg, nifer mawr o bobl sydd, am ba bynnag reswm, yn teimlo nad TG yw'r ateb iddynt hwy. Felly, byddwn yn ddiolchgar o gael gwybod a all y Gweinidog nodi a yw'r cynigion wedi'u profi i fod yn hawdd eu defnyddio, nid yn unig gan weision sifil, ond gan grŵp o unigolion y byddai angen iddynt ddefnyddio'r adnoddau hyn o ddydd i ddydd.

Also, two weeks ago, I think that the UK Government announced an extra £12 million available for broadband in Wales. I wonder what discussions, if any, he has had with the Minister for Finance and the Minister for business and enterprise as to whether his department will be getting any of that money to assist in this operation that his department will be undertaking.

Hefyd, bythefnos yn ôl, rwyf yn credu bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd £12 miliwn ychwanegol ar gael ar gyfer band eang yng Nghymru. Tybed pa drafodaethau, os o gwbl, y mae wedi'u cael â'r Gweinidog Cyllid a'r Gweinidog busnes a menter ynghylch a fydd ei adran yn cael unrhyw faint o'r arian hwnnw i gynorthwyo â'r gwaith hwn y bydd ei adran yn ymgymryd ag ef.

Also, I question the Minister as to what tolerances will be built into the system for peak demands. Obviously, May is a real peak month for form filling for farmers, consultants and anyone related to farm businesses, and anyone who has been through the self-assessment model that HMRC has, especially in its early days, will be very aware of the collapse in the system when pressure is put on it. I fully expect the Minister to offer assurances, but can he be quite categorical in giving those assurances that there will be the tolerance there? We are talking about businesses that rely on these forms to, basically, activate considerable payments that go into their businesses to make them viable or not, and, through no fault of their own, they could find themselves on the wrong side of the argument with this.

Hefyd, hoffwn holi'r Gweinidog ynghylch y goddefiannau a fydd yn rhan o'r system ar gyfer adegau prysur. Yn amlwg, mae mis Mai yn fis prysur iawn o ran llenwi ffurflenni i ffermwyr, ymgynghorwyr ac unrhyw un sy'n gysylltiedig â busnesau fferm, a bydd unrhyw un sydd wedi defnyddio model hunanasesu Cyllid a Thollau EM, yn enwedig yn ei ddyddiau cynnar, yn ymwybodol iawn bod y system yn gallu methu pan roddir pwysau arni. Rwyf yn disgwyl i'r Gweinidog gynnig sicrwydd, ond a all fod yn eithaf pendant wrth roi'r sicrwydd hwnnw y bydd y goddefiant yno? Rydym yn sôn am fusnesau sy'n dibynnu ar y ffurflenni hyn, yn y bôn, i sbarduno taliadau sylweddol sy'n mynd i'w busnesau i'w gwneud yn hyfyw neu beidio, a, heb fod unrhyw fai arnynt, gallent eu cael eu hunain ar ochr anghywir y ddadl yn hyn o beth.

So, with those few questions, as I said, there is inevitability about moving forward to use IT, but I think that we have to remember, especially in the training and the advice that we offer, that we need to make sure that that advice is joined up. At the back end of the statement, you talk about seminars that the officials from your department will be offering. Will those advice sessions also include BT representatives? Obviously, BT is responsible for the roll-out of broadband, and, invariably, I could see some of that advice being offered and then it being said, 'We will have to go away and check' or 'BT is responsible for that, and we don't have the answers for you'. If you do work with BT on this, you will be able to provide all of the answers that people will require when they are seeking assurances from you and your officials, Minister.

Felly, gyda'r rhai cwestiynau hynny, fel y dywedais, mae anochel y byddwn yn symud ymlaen i ddefnyddio TG, ond rwyf yn meddwl bod rhaid inni gofio, yn enwedig yn yr hyfforddiant a'r cyngor a gynigir gennym, bod angen inni wneud yn siŵr bod y cyngor yn gydgysylltiedig. Ar ddiwedd y datganiad, rydych yn sôn am seminarau y bydd y swyddogion o'ch adran yn eu cynnig. A fydd y sesiynau cynghori hynny hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr BT? Yn amlwg, BT sy'n gyfrifol am gyflwyno band eang, ac, yn ddieithriad, gallwn weld rhywfaint o'r cyngor hwnnw'n cael ei gynnig ac yna eich bod yn dweud, 'Bydd yn rhaid inni fynd i ffwrdd a gwirio' neu 'BT sy'n gyfrifol am hynny, ac nid oes gennym yr atebion ichi'. Os ydych yn gweithio gyda BT ar hyn, byddwch yn gallu darparu'r holl atebion y bydd eu hangen ar bobl pan fyddant yn ceisio sicrwydd gennych chi a'ch swyddogion, Weinidog.

15:03

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to reply.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb.

15:03

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the leader of the opposition for his very positive response to the statement this afternoon. He referred to the time we spent together on a sub-committee in the previous Assembly, and I think that one of the issues that we debated and discussed there was the frustration that many people felt sometimes at the level of bureaucracy and administration that we had to deal with in order to deliver services to farmers and within the community. It was certainly the experiences that he has outlined today that led me, upon my appointment to office at the beginning of this Assembly, to launch a 'Working Smarter' initiative, which went beyond simply discussion of red tape and into the culture of regulation as well.

Diolch i arweinydd yr wrthblaid am ei ymateb cadarnhaol iawn i'r datganiad y prynhawn yma. Cyfeiriodd at yr amser y gwnaethom ei dreulio gyda'n gilydd ar is-bwyllgor yn y Cynulliad blaenorol, ac rwyf yn meddwl mai un o'r materion y buom yn ei ddadlau a'i drafod yno oedd y rhwystredigaeth yr oedd llawer o bobl yn ei theimlo ar adegau am lefel biwrocratiaeth a'r gwaith gweinyddu yr oedd rhaid inni ymdrin ag ef er mwyn cyflenwi gwasanaethau i ffermwyr ac o fewn y gymuned. Yn sicr, y profiadau y mae wedi sôn amdanynt heddiw a arweiniodd fi, pan gefais fy mhenodi i'r swydd ar ddechrau'r Cynulliad hwn, i lansio menter 'Hwyluso'r Drefn', a oedd yn mynd y tu hwnt i drafodaethau syml am dâp coch ac i mewn i ddiwylliant rheoleiddio hefyd.

Certainly, I do accept, and I think that he is absolutely right in saying it, that the road that we embark upon can have a few bumps along the way. We anticipate that we will deal with some issues as we move forward. I felt that it was important this afternoon that I set out the timescale. The timescale is our objective; it is our target. It is my expectation that we will withdraw all paper forms and all paper from the environment by 31 March 2016, which is the point of dissolution of this Assembly. I felt that that was a good point at which to arrive at our target, and that it would give us the time to ensure that farmers and their representatives felt comfortable with the new system, had had an opportunity to test it and to try it out, and an opportunity to solve some of the technology problems—the wires and pipes problems that the leader of the opposition referred to.

Yn sicr, rwyf yn derbyn, ac rwyf yn meddwl ei fod yn llygad ei le wrth ddweud hynny, y gallai fod y ffordd yr ydym yn cychwyn arni ychydig yn anwastad. Rydym yn rhagweld y byddwn yn wynebu rhai materion wrth inni symud ymlaen. Roeddwn yn teimlo ei bod yn bwysig y prynhawn yma fy mod yn amlinellu'r amserlen. Yr amserlen yw ein hamcan; dyna yw ein targed. Rwyf yn disgwyl y byddwn yn tynnu'n ôl pob ffurflen bapur a'r holl bapur o'r amgylchedd erbyn 31 Mawrth 2016, sef adeg diddymiad y Cynulliad hwn. Roeddwn yn teimlo bod hynny'n adeg dda i gyrraedd ein targed, ac y byddai'n rhoi amser inni i sicrhau bod ffermwyr a'u cynrychiolwyr yn teimlo'n gyfforddus gyda'r system newydd, eu bod wedi cael cyfle i'w phrofi a rhoi cynnig arni, a'n bod wedi cael cyfle i ddatrys rhai o'r problemau technoleg—y problemau â'r gwifrau a'r pibellau y cyfeiriodd arweinydd yr wrthblaid atynt.

He asked a number of detailed questions; let me try to answer them. The issues of coverage are fair. I am looking at that at the moment in terms of the level of coverage that we will have in the system by 2016, and also to ensure that alternatives are in place for those who, for whatever reason, are not able to access this level of technology at home. I have already spoken to Rural Payments Wales about an outreach service, which would ensure that if people are unable to access broadband in their homes they would be able to access it at a Government site elsewhere. So, there will be a system in place to ensure that no-one is left behind for that particular reason. At the same time, the forms have been road-tested, as the leader of the opposition suggested. He may remember that, during the Royal Welsh Show last year, we held a number of different workshops and we used the show last year to launch, if you like, some of this work with significant members of the industry. Both farming union leaders in Wales at that time signed up to online systems, and we have been working with stakeholders and the industry throughout the last year in developing the forms, the systems and the processes. So, we have done this in a very thorough way, and, certainly, the response that we have had has been very positive.

Gofynnodd nifer o gwestiynau manwl; dewch imi geisio eu hateb. Mae'r materion ynglŷn â chanran y wlad lle bydd hyn ar gael yn deg. Rwyf yn edrych ar hynny ar hyn o bryd o ran beth fydd maint y system erbyn 2016, a hefyd i sicrhau bod dewisiadau eraill ar gael i'r rheini sydd, am ba bynnag reswm, yn methu â chael y math hwn o dechnoleg yn eu cartrefi. Rwyf eisoes wedi siarad â Taliadau Gwledig Cymru am wasanaeth allgymorth a fyddai'n sicrhau, os na all pobl gael band eang yn eu cartrefi, y gallant ei gael mewn safle Llywodraeth yn rhywle arall. Felly, bydd system ar waith i sicrhau nad oes neb wedi'i adael ar ôl am y rheswm penodol hwnnw. Ar yr un pryd, mae'r ffurflenni wedi cael eu profi, fel yr awgrymodd arweinydd yr wrthblaid. Efallai y bydd yn cofio, yn ystod Sioe Frenhinol Cymru y llynedd, ein bod wedi cynnal nifer o wahanol weithdai a'n bod wedi defnyddio'r sioe y llynedd i lansio, os hoffwch, rhywfaint o'r gwaith hwn gydag aelodau pwysig o'r diwydiant. Cofrestrodd dau arweinydd undeb ffermio Cymru ar y pryd ar gyfer systemau ar-lein, ac rydym wedi bod yn cydweithio â rhanddeiliaid a'r diwydiant drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf i ddatblygu'r ffurflenni, y systemau a'r prosesau. Felly, rydym wedi gwneud hyn mewn ffordd drylwyr iawn, ac, yn sicr, rydym wedi cael ymateb cadarnhaol iawn.

I understand the point that he makes about IT not always being the solution for everyone, and I understand that some people will find these systems more difficult than others. However, I will also remind the leader of the opposition that, as he knows full well, many farmers use representatives and agents to do this form filling at the moment. You would not expect everyone to have all the skills necessary to run a business; we would employ lawyers and accountants as well. So, we understand that this is the environment in which people will operate and people will make those choices according to their own business decisions.

Rwyf yn deall y pwynt y mae'n ei wneud nad TG bob amser yw'r ateb i bawb, ac rwyf yn deall y bydd rhai pobl yn cael y systemau hyn yn anoddach na'i gilydd. Fodd bynnag, rwyf hefyd am atgoffa arweinydd yr wrthblaid, oherwydd mae'n gwybod yn iawn, bod llawer o ffermwyr yn defnyddio cynrychiolwyr ac asiantau i wneud y gwaith llenwi ffurflenni hwn ar hyn o bryd. Ni fyddech yn disgwyl i bawb feddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal busnes; byddem yn cyflogi cyfreithwyr a chyfrifwyr hefyd. Felly, rydym yn deall mai dyma'r amgylchedd lle bydd pobl yn gweithio, a bydd pobl yn gwneud y dewisiadau hynny yn ôl eu penderfyniadau busnes eu hunain.

At the moment, I do not intend to involve BT in the seminars that we are providing, because these seminars are based on the systems and processes, not the hardware and technology. If it is necessary, I am sure that I and the Minister for Economy, Science and Transport and the Deputy Minister dealing with these matters will be able to work together to deliver that.

Ar hyn o bryd, nid wyf yn bwriadu cynnwys BT yn y seminarau yr ydym yn eu darparu, oherwydd mae'r seminarau hyn yn seiliedig ar y systemau a'r prosesau, nid ar y caledwedd a'r dechnoleg. Os bydd angen, rwyf yn siŵr y byddaf fi a Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a'r Dirprwy Weinidog sy'n ymdrin â'r materion hyn yn gallu cydweithio i gyflenwi hynny.

15:07 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. So far, we have had two speakers in 15 minutes. They have been interesting questions and interesting answers, but we need to pick up the pace a bit. I call the Plaid Cymru spokesman, Llyr Gruffydd.

Diolch. Hyd yn hyn, rydym wedi cael dau siaradwr mewn 15 munud. Rydym wedi cael cwestiynau diddorol ac atebion diddorol, ond mae angen codi'r cyflymder ychydig. Galwaf lefarydd Plaid Cymru, Llyr Gruffydd.

15:07 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd dros dro, a diolch, Weinidog, am eich datganiad. Rwy'n croesawu'r symudiad i fwyfwy o ddefnydd o wasanaethau ar-lein, proses a gychwynodd o dan eich rhagflaenydd, Elin Jones. Rwy'n falch o weld fod y gwaith hwnnw'n parhau a'n bod yn mynd i gyrraedd pwynt yn y pen draw lle bydd yr holl wasanaethau yn cael eu darparu ar-lein. Rydym yn gweld hynny gan HMRC ac roeddech yn crybwyll y BCMS, ac yn y blaen. Mae'n broses o addysgu, ac mae'n mynd i fod yn heriol i nifer. Byddwn yn gobeithio ac yn hyderu y bydd y Llywodraeth yn cymryd agwedd bragmatig at sefyllfaoedd unigryw a allai godi mewn rhai amgylchiadau, er eich bod yn eithaf penderfynol o safbwynt gosod dyddiad i gyrraedd y man hwnnw.

Thank you, temporary Deputy Presiding Officer, and thank you, Minister, for your statement. I welcome the move to more use of online services, a process that was commenced under your predecessor, Elin Jones. I am pleased to see that that work is continuing and that we are going to reach a point ultimately where all services will be provided online. We have seen that from HMRC and you mentioned BCMS, and so on. It is a process of education, and it is going to be challenging for many. I would hope that the Government would take a pragmatic view of unique circumstances that may arise in some circumstances, although you are quite determined in terms of setting a date to get to that point.

Rydych yn dweud y bydd pob busnes gwledig yn cael mynediad i broadband erbyn 2016. Rwy'n canmol yr uchelgais hwnnw, yn amlwg. Yn ymarferol, efallai y bydd yn fwy heriol nag y mae'n swnio mewn datganiad yn y fan hon y prynhawn yma. Mae'r Alban, wrth gwrs, yn cadw elfen o geisiadau ar bapur, a byddwn yn awyddus i chi ddweud—wel, na wnewch chi ddweud, ond i chi ystyried y ffaith efallai y bydd hynny yn angenrheidiol i ambell unigolyn pan gyrhaeddwn 2016.

You say that every rural business will have access to broadband by 2016. I applaud that ambition, obviously. On a practical level, perhaps it will be more challenging than it appears in a statement here this afternoon. Scotland, of course, is retaining a paper-based element to its approach, and I would be eager for you to say—well, you will not say, but for you to consider the fact that that might be necessary for certain individuals when we get to 2016.

Rydych yn cyfeirio'n bendol at gynllun Access Broadband Cymru a'r £1,000 sydd ar gael. A ydych felly yn dweud y bydd y Lywodraeth hon yn rhoi blaenoriaeth i fusnesau fferm pan mae'n dod i gael mynediad i'r cyllid hwnnw er mwyn cael mynediad i broadband? Byddwn yn awyddus i wybod pa flaenoriaeth y bydd ffermwyr yn eu cael yn y cyd-destun hwnnw.

You mention specifically the Access Broadband Cymru scheme and the £1,000 available. Are you therefore saying that this Government will give priority to farm businesses when it comes to accessing that funding in order to gain to access broadband? I would be eager to know what level of priority farmers will have in that context.

Rydych eisoes wedi awgrymu y bydd modd defnyddio cyfrifiaduron gan swyddfeydd Llywodraeth Cymru. Rwy'n croesawu hynny, oherwydd mae allgau digidol yn thema mae'r Llywodraeth a'r Cynulliad yn trio mynd i'r afael â hi, ac ni fyddwn yn dymuno gweld hynny yn cynyddu mewn unrhyw ffordd.

You have already suggested that it will be possible to use computers in Welsh Government offices. I welcome that, because digital exclusion is a theme that the Government and the Assembly is endeavouring to tackle, and I would not want to see that increase in any way.

Yr unig bwynt arall roeddwn eisiau ei wneud oedd: pa waith mae'r Llywodraeth yn ei wneud ar greu gwell rhywngwyneb—'interface'—rhwng yr holl systemau gwahanol sydd gennym erbyn hyn? Mae hwn, wrth gwrs, yn un o'r argymhellion 'Hwyluso'r Drefn'. Mae gennym ddata arolygon fferm, mae gennym system rheoli iechyd a lles anifeiliad awdurdodau lleol, mae gennym ddata AHVLA, mae gennym EID Cymru, mae gennym gofrestrau tir comin ar-lein, ac yn y blaen. Mae'r rhain i gyd yn cynrychioli buddsoddiad arian cyhoeddus sylweddol iawn, ac felly a allwch ddweud ychydig ynglŷn â sut yr ydych yn gobeithio trio dod ag elfennau'r holl systemau hyn at ei gilydd er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cael y gwerth gorau o'r buddsoddiad hwnnw?

The only other point I wanted to make was to ask: what work is the Government doing on creating a better interface between all of the different systems that we have now? This, of course, is one of the recommendations made in 'Working Smarter'. We have the farm survey data, we have the local authority animal health and welfare management system, we have the Animal Health and Veterinary Laboratories Agency data, we have EID Cymru, we have common land registers online, and so on. All of those represent a substantial investment of public money, and so could you say something about how you intend to try to bring elements of all these systems together in order to ensure that we get the best value for money from that investment?

15:10 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr, a diolch i chi am eich geiriau o groeso i'r datganiad. Rwy'n cytuno bod y broses hon, ac unrhyw broses o newid, yn gallu bod yn heriol i rai pobl. Dyna pam rydym yn buddsoddi nid yn y system yn unig ond yn yr hyfforddiant fydd yn galluogi pobl i gymryd mantais lawn o'r systemau. Rydych yn gofyn i fi fod yn bragmatig. Rwyf yn bragmatig, rwy'n credu—rwyf yn gobeithio fy mod i—ond rwyf hefyd yn benderfynol, fel yr ydych yn ei ddweud. Oni bai ein bod yn gosod agenda ag amserlen glir a phendant, ni fyddem yn gwneud y 'progress' rwy'n credu bod pob un ohonom eisiau ei weld. Felly, bydd papur yn diflannu o'r system yn ei gyfanrwydd diwedd Mawrth 2016. Mae'r penderfyniad hwnnw wedi cael ei wneud. Rydym yn trafod yn awr sut y byddem yn ei wneud. Nid ydym yn trafod os ydym yn mynd i wneud hynny. Felly, mae'r penderfyniad i gael gwared ar y system papur yn ei gyfanrwydd wedi cael ei wneud, ac rydym yn trafod yn awr sut y bydd hynny yn digwydd. Rydych wedi gofyn rhai cwestiynau manwl ynghylch Superfast Cymru. Wel, wrth gwrs, mae hynny'n cael ei rhedeg gan Weinidogion eraill. Byddwn yn ei ddweud, o ran y grant o £1,000, mae'n ofyniad ar y bobl sydd angen y grant i wneud cais amdano. Nid yw'n rhywbeth bydd y Llywodraeth yn cynnig heb gais. Mae ar gais pwy bynnag sydd ei eisiau. Felly, nid oes cwestiwn o roi blaenoriaeth i unrhyw ran o gymdeithas. Mae'n i fyny i'r unigolion neu fusnes sydd arnynt angen y grant i wneud y cais, ac wedyn bydd y grant yn dod, lle bynnag y maent a phwy bynnag sector maent yn gweithio ynddo.

Thank you very much, and thank you for your words of welcome for the statement. I agree that this process, and any process of change, can be challenging for some people. That is why we are investing not only in the system but in the training that will enable people to take full advantage of the system. You ask me to be pragmatic. I am pragmatic, I think—I hope that I am—but I am also determined, as you say. Unless we actually put an agenda in place with a clear, definite timetable, I do not think we will make the progress that all of us wish to see. So, the paper-based approach will be scrapped from the system entirely by the end of March 2016. That decision has been taken. We are now discussing how we are going to do that. We are not discussing whether that is to happen. So, the decision to scrap the paper-based approach in its entirety has been made, and we are now discussing how that will happen. You have asked detailed questions about Superfast Cymru. Well, of course, that is run by other Ministers. I will say that, when it comes to the £1,000 grant, it is a requirement of those who need the grant that they apply for it. It is not something that the Government will automatically make available. There will be an application process for that. So, there is no question of giving priority to any sector of society. It is up to the individual or business that needs the grant to make that application, and then that grant will be made available, whichever sector they work in or wherever they are based.

A gaf ddweud hyn wrth ymateb i'ch cwestiwn olaf? Rwy'n credu bod hyn yn bwysig, ac, wrth i ni symud ymlaen, bydd 'suite' o raglenni a system ar-lein yn datblygu. Rydym wedi gweithio'n galed iawn i sicrhau bod yr 'interface', fel yr ydych wedi ei ddisgrifio, yn un hwylus ac un mae pobl yn gallu deall a chymryd mantais ohono. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu a byddem yn ystyried gwneud pa bynnag newidiadau sydd eu hangen i sicrhau ein bod yn cyrraedd lle yr ydych wedi ei gyrraedd a'r weledigaeth yr ydych wedi ei disgrifio—gweledigaeth yr wyf yn ei rhannu—lle bydd pob un o'r systemau hyn yn gweithio gyda'i gilydd ac nid yn erbyn ei gilydd. Rwyf yn credu bod pob un ohonom eisiau gweld hynny.

May I say this in responding to your final question? I do think that this is important, and, as we progress, there will be a suite of programmes and systems that we will develop online. We have worked very hard to ensure that the 'interface', as you described it, is easily understood and easily used and is used. This will be developed and we will consider making whatever changes are necessary to ensure that we reach the point that you have described and the vision that you have described—and it is a vision I share—where each of these systems can work together and not conflict. I think that all of us want to see that.

15:13 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Liberal Democrat spokesperson, William Powell.

Galwaf lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol, William Powell.

15:13 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddiprwy Lywydd dros dro, a diolch, Weinidog, am y datganiad heddiw.

Thank you, temporary Deputy Presiding Officer, and thank you, Minister, for this afternoon's statement.

I was pleased to hear your renewed commitment, Minister, to the 'Working Smarter' objectives, and I strongly support them. I did, however, detect something of an evangelical note about your commitment to moving to an entirely paperless system by March 2016. I share some of the doubts that have already been expressed in the Chamber about the practicability of that in particular and of the achievability of that within the timescale. The digital exclusion that faces significant parts of Wales is still something we need to focus on. I am pleased to see that included as quite a significant part of the current RDP consultation. That is very much to be welcomed.

Roeddwn yn falch o glywed eich ymrwymiad o'r newydd, Weinidog, i amcanion 'Hwyluso'r Drefn', ac rwyf yn eu cefnogi'n gryf. Fodd bynnag, sylwais ar nodyn eithaf efengylaidd yn eich ymrwymiad i symud i system gwbl ddi-bapur erbyn mis Mawrth 2016. Rwyf yn rhannu rhai o'r amheuon a fynegwyd eisoes yn y Siambr am ymarferoldeb hynny'n benodol ac am ba mor gyraeddadwy yw hynny o fewn yr amserlen. Mae'r allgáu digidol sy'n wynebu rhannau helaeth o Gymru yn dal i fod yn rhywbeth y mae angen inni ganolbwyntio arno. Rwyf yn falch o weld bod hynny wedi'i gynnwys fel rhan eithaf sylweddol o'r ymgynghoriad presennol am y Cynllun Datblygu Gwledig. Mae hynny i'w groesawu'n fawr iawn.

Minister, you spoke earlier about those farmers who already draw on the services of farm secretaries and other support agencies to assist them. I think it is important to bear in mind, however, that that places additional costs on farmers, who are facing some pretty tough times now for a combination of reasons that I do not need to rehearse today. While not wishing in any way to downplay the adaptability of farmers and their instinct for survival and moving on, we need to be aware that, while the average age of farmers may be 58 or 59, there are many people who are leading farm businesses in Wales today who left formal education in the days when Harold Macmillan was Prime Minister and when the old grey Fergies were still rolling off the production line. We need to be aware that these colleagues within the industry will need some assistance.

Weinidog, roeddech yn siarad yn gynharach am y ffermwyr hynny sydd eisoes yn galw ar wasanaethau ysgrifenyddion fferm ac asiantaethau cymorth eraill i'w cynorthwyo. Rwyf yn credu ei bod yn bwysig cofio, fodd bynnag, bod hynny'n creu costau ychwanegol i ffermwyr, sy'n wynebu cyfnod eithaf anodd yn awr am gyfuniad o resymau nad oes angen imi eu hailadrodd heddiw. Er nad wyf yn dymuno bychanu hyblygrwydd ffermwyr a'u greddf i oroesi a symud ymlaen mewn unrhyw ffordd, mae angen inni fod yn ymwybodol, tra bod cyfartaledd oedran ffermwyr yn 58 neu 59, bod llawer o'r bobl sy'n arwain busnesau fferm yng Nghymru heddiw wedi gadael addysg ffurfiol yn y dyddiau pan oedd Harold Macmillan yn Brif Weinidog a phan oedd yr hen Fergies llwyd yn dal i ddod oddi ar y llinell gynhyrchu. Mae angen inni fod yn ymwybodol y bydd angen rhywfaint o gymorth ar y gweithwyr hyn o fewn y diwydiant.

There is potentially a danger, Minister—I would like you to address this—that, alongside the many professionals that there are out there supporting farm businesses, there might be an opportunity for some kind of rogue operators to come in to take advantage of that gap in knowledge capital. I would ask you to be alert to that and, perhaps, to briefly respond to it later.

Mae perygl posibl, Weinidog—hoffwn ichi roi sylw i hyn—ochr yn ochr â'r llawer o weithwyr proffesiynol sydd allan yno'n cynorthwyo busnesau fferm, y gallai fod cyfle i ryw fath o weithredwyr diegwyddor i ddod i fanteisio ar y bwlch hwnnw mewn cyfalaf gwybodaeth. Byddwn yn gofyn ichi fod yn effro i hynny ac, efallai, i ymateb yn fyr i hynny'n nes ymlaen.

Many of the points that I wished to raise have already been made this afternoon; therefore, I do not intend to rehearse them further. However, there is an issue with regard to online completion, and that particularly relates to the tracking of errors. This was an issue that was brought up in an informal survey that I carried out among farm secretaries and others that provide farm support services, because that is a particular difficulty that can leave people potentially exposed to penalty.

Mae llawer o'r pwyntiau yr oeddwn am eu codi eisoes wedi cael eu gwneud y prynhawn yma; felly, nid wyf yn bwriadu eu hailadrodd eto. Fodd bynnag, mae problem o ran cwblhau ar-lein, ac mae honno'n ymwneud yn benodol ag olrhain gwallau. Roedd hwn yn fater a godwyd mewn arolwg anffurfiol a gynhaliais ymhlith ysgrifenyddion fferm ac eraill sy'n darparu gwasanaethau cymorth i ffermydd, gan fod hynny'n anhawster penodol a allai olygu bod pobl yn wynebu cosb.

Finally, reference has been made to the situation in Scotland where a kind of opt-out or an option for continuing, for a transitional period, with the paper-based system has been admitted. What good practice have you encountered from farm Ministers and colleagues in other nations of the European Union in the frequent contact that you maintain on the wider issues on which we might potentially draw in making a success of this here in Wales?

Yn olaf, cyfeiriwyd at y sefyllfa yn yr Alban lle mae math o optio allan neu opsiwn i barhau, am gyfnod trosiannol, â'r system bapur wedi'i dderbyn. Pa arfer da yr ydych wedi'i weld gan Weinidogion ffermio a chydweithwyr mewn gwledydd eraill yn yr Undeb Ewropeaidd wrth gysylltu'n rheolaidd â hwy am faterion ehangach y gallem o bosibl alw arno i wneud hyn yn llwyddiant yma yng Nghymru?

15:16 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that there was a note of welcome in there somewhere, hidden among all of the other matters that the Liberal Democrats raised. I would say to you, William, that it is possible to take an approach that is positive and that seeks to embrace change and to create the opportunities that change presents, rather than to regard any change as always a terrible challenge and for me to appear in the Chamber as Jeremiah seeking to create fears and doubt, rather than to actually embrace the opportunities that this change makes available to us.

Rwyf yn meddwl bod nodyn o groeso i mewn 'na yn rhywle, yn cuddio ymysg yr holl faterion eraill a gododd y Democratiaid Rhyddfrydol. Byddwn yn dweud wrthych, William, ei bod yn bosibl mabwysiadu ymagwedd sy'n gadarnhaol ac sy'n ceisio croesawu newid a chreu'r cyfleoedd a gyflwynir gan newid, yn hytrach nag ystyried bod pob newid yn her ofnadwy ac y dylwn ymddangos yn y Siambr fel Jeremeia i geisio creu ofnau ac amheuaeth, yn hytrach na chroesawu'r cyfleoedd sydd ar gael inni oherwydd y newid hwn.

May I say that we are all clearly aware of the difficulties that you have rehearsed in great detail? We can do two things: we can either be imprisoned by those difficulties, or we can seek to overcome them. It is my view that this Government should seek to overcome difficulties and solve problems, and not simply describe them. It is not sufficient and it is not an adequate response to the challenges facing either agriculture or any other industry today to say simply, 'There are problems, therefore, we will do nothing—we will put our heads in the sand and we will pretend that the change taking place elsewhere is not happening at all.'

A gaf ddweud ein bod i gyd yn amlwg yn ymwybodol o'r anawsterau yr ydych wedi'u hamlinellu'n fanwl iawn? Gallwn wneud dau beth: gallwn naill ai gael ein carcharu gan yr anawsterau hynny, neu gallwn geisio eu goresgyn. Yn fy marn i, dylai'r Llywodraeth hon geisio goresgyn anawsterau a datrys problemau, ac nid dim ond eu disgrifio. Nid yw'n ddigon ac nid yw'n ymateb digonol i'r heriau sy'n wynebu amaethyddiaeth neu unrhyw ddiwydiant arall heddiw i ddweud yn syml, 'Mae yna broblemau, felly, nid ydym am wneud dim—rydym am roi ein pennau yn y tywod ac esgus nad yw'r newid sy'n digwydd yn rhywle arall yn digwydd o gwbl.'

We have already started the transition period. The farmers to whom you referred in your survey are already taking part in the trials and the tests to which I referred in answer to the Conservatives. We have already been doing this; we have been doing it for most of the last year. We are already testing the systems and the practicalities. We have already worked with those people, whether they are the representatives of farmers, farmers themselves, or the unions involved in the industry. These things have already happened. We have set down a very clear timetable, clear ambitions and a clear vision that we will remove red tape from the industry step by step, year by year, month by month. We will not describe the problems, we will solve them, and I would like to invite the Liberals to join us on this journey.

Rydym eisoes wedi dechrau'r cyfnod pontio. Mae'r ffermwyr y cyfeiriwch atynt yn eich arolwg eisoes yn cymryd rhan yn y treialon a'r profion y cyfeiriais atynt wrth ateb y Ceidwadwyr. Rydym eisoes wedi bod yn gwneud hyn; rydym wedi bod yn gwneud hyn am y rhan fwyaf o'r flwyddyn ddiwethaf. Rydym eisoes yn profi'r systemau a'r ymarferoldeb. Rydym eisoes wedi gweithio gyda'r bobl hynny, p'un a ydynt yn gynrychiolwyr ffermwyr, yn ffermwyr eu hunain, ynteu'r undebau sy'n ymwneud â'r diwydiant. Mae'r pethau hyn eisoes wedi digwydd. Rydym wedi gosod amserlen glir iawn, uchelgeisiau clir a gweledigaeth glir y byddwn yn cael gwared ar fiwrocratiaeth o'r diwydiant gam wrth gam, o flwyddyn i flwyddyn, o fis i fis. Ni fyddwn yn disgrifio'r problemau, byddwn yn eu datrys, a hoffwn wahodd y Rhyddfrydwyr i ymuno â ni ar y daith hon.

15:18 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will call the remaining three Members who wish to speak, but may I ask you for questions, as we are beginning to run out of time? I call Jenny Rathbone.

Galwaf y tri Aelod arall sy'n dymuno siarad, ond a gaf ofyn ichi am gwestiynau, gan ein bod yn dechrau mynd yn brin o amser? Galwaf Jenny Rathbone.

15:19 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Cabinet office's digital efficiency research says that online transactions are 30 times as cheap as those by post. So, I obviously welcome your contribution to 'Working Smarter' in Government. Social security payments are increasingly made online and jobseekers have to apply for jobs online, so I cannot see why farmers cannot do the same thing.

Mae ymchwil swyddfa'r Cabinet i effeithlonrwydd digidol yn dweud bod trafodion ar-lein 30 gwaith yn rhatach na rhai drwy'r post. Felly, rwyf yn amlwg yn croesawu eich cyfraniad i 'Hwyluso'r Drefn' yn y Llywodraeth. Caiff mwy a mwy o daliadau nawdd cymdeithasol eu gwneud ar-lein a rhaid i geiswyr gwaith ymgeisio am swyddi ar-lein, felly ni allaf weld pam na all ffermwyr wneud yr un peth.

William Powell referred to rogue operators. What systems are in place to ensure that there are not two people claiming for the same parcel of land? Equally and interestingly, how would the use of aerial photography for cattle tracing and disease control also be applied to the prevention of fraud by people moving animals inappropriately and then claiming that they were there all of the time?

Cyfeiriodd William Powell at weithredwyr twyllodrus. Pa systemau sydd ar waith i sicrhau nad oes dau o bobl yn hawlio am yr un parsel tir? Yn yr un modd, ac yn ddiddorol, sut y gellid defnyddio'r ffotograffiaeth o'r awyr ar gyfer olrhain gwartheg a rheoli clefydau hefyd i atal twyll gan bobl sy'n symud anifeiliaid yn amhriodol ac yna'n honni eu bod yno drwy'r amser?

15:19 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Clearly, we have a number of different systems in place to prevent fraud. We are aware of the issues that the Member raises. Clearly, all customers are preregistered and checks are made to ensure that they are bona fide businesses. We use the Government gateway authorisation and identification to ensure that we have a high level of security. This is already used by a number of Government businesses and agencies. May I say that we are not simply dealing with individuals here, we are dealing with businesses, and it must be a prerequisite for a business in the twenty-first century to have access to the level of IT that is required for the proper and effective running of that business? We are not dealing with private individuals; we are dealing with businesses. If those businesses wish to receive public support and public funding, the public has a right to expect that those businesses take sufficient responsibility for their own affairs to ensure that they are able to and are in a fit state to fully access the services that they require to remain in business.

Yn amlwg, mae gennym nifer o systemau gwahanol ar waith i atal twyll. Rydym yn ymwybodol o'r materion y mae'r Aelod yn eu codi. Yn amlwg, mae'r holl gwsmeriaid yn cofrestru ymlaen llaw a gwneir archwiliadau i sicrhau eu bod yn fusnesau dilys. Rydym yn defnyddio awdurdodiad a dull adnabod Porth y Llywodraeth i sicrhau bod gennym ddiogelwch da. Mae nifer o fusnesau ac asiantaethau'r Llywodraeth eisoes yn defnyddio hyn. A gaf ddweud nad dim ond ymdrin ag unigolion yr ydym yma, rydym yn ymdrin â busnesau, ac un o'r rhagofynion i fusnesau yn yr unfed ganrif ar hugain yw bod TG ar gael at lefel sy'n ofynnol i gynnal y busnes hwnnw'n briodol ac yn effeithiol? Nid ydym yn ymdrin ag unigolion preifat; rydym yn ymdrin â busnesau. Os hoffai'r busnesau hynny gael cymorth cyhoeddus ac arian cyhoeddus, mae gan y cyhoedd hawl i ddisgwyl bod y busnesau hynny'n cymryd digon o gyfrifoldeb am eu materion eu hunain i sicrhau eu bod yn gallu defnyddio'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt i aros mewn busnes, a'u bod mewn cyflwr addas i wneud hynny.

15:21 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, while they may be businesses, many of these businesses are small family farms, and I think that the average age is about 65 on these family farms. You will know that succession is a big issue.

Weinidog, er eu bod o bosibl yn fusnesau, mae llawer o'r busnesau hyn yn ffermydd teuluol bach, a chredaf fod yr oedran ar gyfartaledd tua 65 ar y ffermydd teuluol hyn. Byddwch yn gwybod bod olyniaeth yn broblem fawr.

In terms of the county parish holding system and the coding that would be available in respect of the online forms, the two biggest problems that I see in my regional office are field numbers that have changed over time, often from one year to the next, with a very small movement of a boundary and, secondly, a lack of consistency in terms of coding. I am dealing with a case at the moment where there is a particular problem between BW1 and TW1 coding and the difference in meaning between the two codes on a form. How are those codes going to be identified and explained online so that people have a real understanding of what the difference is between the various codes? You talk about an automatic correction system; what happens if you are trying to enter a code and the system keeps correcting you?

O ran y system daliadau ym mhlwyf y sir a'r codau a fyddai ar gael ar gyfer y ffurflenni ar-lein, y ddwy broblem fwyaf a welaf yn fy swyddfa ranbarthol yw bod rhifau caeau wedi newid dros amser, yn aml o un flwyddyn i'r nesaf, wrth i ffin symud ychydig bach iawn ac, yn ail, diffyg cysondeb o ran codio. Rwyf yn ymdrin ag achos ar hyn o bryd lle mae problem benodol rhwng codio BW1 a TW1 a'r gwahaniaeth rhwng ystyr y ddau god ar ffurflen. Sut y caiff y codau hynny eu nodi a'u hegluro ar-lein fel bod pobl yn gallu deall mewn gwirionedd beth yw'r gwahaniaeth rhwng y gwahanol godau? Rydych yn sôn am system gywiro awtomatig; beth sy'n digwydd os ydych yn ceisio rhoi cod a bod y system yn parhau i geisio eich cywiro?

Finally, I know that CTS Online has proved to be quite successful and has allowed people to link holdings that may be further than 10 miles apart. Under this scheme, it would appear that, where farmers have two parcels of land that are further than 10 miles apart, they are now going to be unable to link their two holdings and are going to have to retain two completely separate sets of farm information. Can you confirm that that is the position and how that will work with your interactive online processes?

Yn olaf, rwyf yn gwybod bod SOG Ar-lein wedi bod yn eithaf llwyddiannus a'i bod wedi caniatáu i bobl gysylltu daliadau a all fod dros 10 milltir ar wahân. O dan y cynllun hwn, byddai'n ymddangos, lle mae gan ffermwyr ddau barsel tir sydd dros 10 milltir ar wahân, na fyddant yn awr yn gallu cysylltu eu dau ddaliad ac y bydd rhaid iddynt gadw dwy set o wybodaeth fferm yn hollol ar wahân. A allwch gadarnhau mai dyna'r sefyllfa a sut y bydd hynny'n gweithio gyda'ch prosesau rhyngweithiol ar-lein?

15:23 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that I have already said in answer to the Conservative spokesperson that the systems that we have online will be available in a pre-populated form, where farmers, landowners and land managers will be able to access detailed information about their own individual land parcels, and those land parcels will be identified both by satellite photography and also by Ordnance Survey maps. So, there will be a significant amount of information already on the forms available to people, and this will reduce the number of errors that can be made.

Credaf fy mod eisoes wedi dweud wrth ateb llefarydd y Ceidwadwyr y bydd y systemau sydd gennym ar-lein ar gael ar ffurflenni wedi'u llenwi ymlaen llaw, lle bydd ffermwyr, tirfeddianwyr a rheolwyr tir yn gallu cael gwybodaeth fanwl am eu parseli tir unigol eu hunain, a bydd y parseli tir hynny wedi'u nodi yn ôl ffotograffiaeth lloeren a hefyd yn ôl mapiau'r Arolwg Ordnans. Felly, bydd gwybodaeth sylweddol eisoes ar y ffurflenni sydd ar gael i bobl, a bydd hyn yn lleihau nifer y camgymeriadau y gellir eu gwneud.

In terms of the issue of coding, that will also be applied to the same forms. Clearly, you would not simply populate part of a form; you would populate the whole of it. That is exactly what has happened. This is what has happened already in terms of those people who are already using these forms and these online systems.

O ran y mater codio, bydd hynny hefyd yn berthnasol i'r un ffurflenni. Yn amlwg, ni fyddech yn syml yn llenwi rhan o ffurflen; byddech yn ei llenwi i gyd. Dyna'n union beth sydd wedi digwydd. Dyma beth sydd wedi digwydd eisoes o ran y bobl hynny sydd eisoes yn defnyddio'r ffurflenni hyn a'r systemau ar-lein hyn.

In terms of the reforms to the county parish holdings system, we are simplifying it to enable people to manage their land in a more coherent fashion than currently exists. This, again, is something that has followed considerable debate, discussion and consultation with the industry, and I believe that this is something that the industry wants and it will provide the sort of coherence that the industry requires.

O ran y diwygiadau i'r system ddaliadau, rydym yn ei symleiddio er mwyn galluogi pobl i reoli eu tir mewn modd mwy cydlynol na'r hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd. Mae hyn, eto, yn rhywbeth sydd wedi dilyn cryn ddadlau, trafod ac ymgynghori â'r diwydiant, ac rwyf yn credu bod hyn yn rhywbeth sydd ei eisiau ar y diwydiant ac y bydd yn rhoi'r math o gydlyniad sy'n ofynnol gan y diwydiant.

15:24 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Galwaf arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

15:24 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, given your comments about the need to employ an outreach service, does that unequivocally mean that there is a future for the field offices at both Llandrindod Wells and Brecon to provide a place where individuals who cannot access the internet can go to carry out this work? Secondly, given the changes to the EID Cymru scheme and the reporting changes that will come into force on 1 January 2015, what analysis has your Government made with regard to the impact on sheep being released to the mountain for grazing, given the difficulties in identifying sheep that are lost on those mountains over the summer period and the implications that that may have for cross-compliance and failure to meet regulations and standards?

Weinidog, ac ystyried eich sylwadau am yr angen i ddefnyddio gwasanaeth allgymorth, a yw hynny'n golygu'n ddiamwys bod dyfodol i'r swyddfeydd maes yn Llandrindod ac yn Aberhonddu er mwyn darparu man lle gall unigolion heb gysylltiad â'r rhyngrwyd fynd i wneud y gwaith hwn? Yn ail, ac ystyried y newidiadau i'r cynllun EID Cymru a'r newidiadau adrodd a ddaw i rym ar 1 Ionawr 2015, pa ddadansoddiad y mae eich Llywodraeth wedi'i wneud o ran yr effaith ar ddefaid sy'n cael eu rhyddhau i'r mynydd i bori, ac ystyried yr anawsterau o ran adnabod defaid sy'n cael eu colli ar y mynyddoedd hynny dros yr haf a goblygiadau posibl hynny i drawsgydymffurfio a methiant i fodloni rheoliadau a safonau?

15:25 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will answer your first question first. I can understand where you are coming from in terms of the question that you ask. I see this as a means of expanding, deepening and enriching the service that we provide to the farming community, and not simply a means of reducing that service. So, this does not imply, in any way, that there is any threat to the offices that you have described at all. In fact, I see those offices providing perhaps an enhanced—and I am trying to avoid saying 'more important', because the work already done is important—or a greater role in supporting the agricultural community than it is currently undertaking. We will be looking, over the next two years, as we roll out the system, at ways in which we can ensure that the support that we provide to the farming community is enhanced, and that this is a way of reducing the burden of administration and not simply as a way of reducing that support. I hope that I can give you an absolute copper-bottomed guarantee on that.

Atebaf eich cwestiwn cyntaf yn gyntaf. Gallaf ddeall o ble'r ydych yn dod o ran y cwestiwn yr ydych yn ei ofyn. Rwyf yn gweld hyn fel ffordd o ehangu, dyfnhau a chyfoethogi'r gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu i'r gymuned ffermio, ac nid dim ond modd o leihau'r gwasanaeth hwnnw. Felly, nid yw hyn yn awgrymu, mewn unrhyw ffordd, bod unrhyw fygythiad i'r swyddfeydd a ddisgrifiwyd gennych o gwbl. Yn wir, gallaf weld y swyddfeydd hynny'n chwarae rhan fwy—ac rwyf yn ceisio osgoi dweud 'pwysicach', oherwydd mae'r gwaith a wnaed eisoes yn bwysig—neu'n chwarae rhan amlycach wrth gefnogi'r gymuned amaethyddol nag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd. Byddwn yn edrych, dros y ddwy flynedd nesaf, wrth inni gyflwyno'r system, ar ffyrdd y gallwn sicrhau bod y cymorth yr ydym yn ei ddarparu i'r gymuned ffermio'n cael ei wella, a bod hyn yn ffordd o leihau baich gweinyddu ac nid dim ond yn ffordd o leihau'r cymorth hwnnw. Gobeithio y gallaf roi sicrwydd cwbl gadarn ichi o hynny.

The issues in terms of EID over the past few years have become quite clouded by a lot of different issues. My view is that EID will improve the management of flocks, such as those that you have described and other flocks as well. It will improve the ability of flock managers or farmers to be able to deliver greater efficiency within that flock and greater profitability from that flock. It was essential that people ensured that they maximised the value from EID. The database that we will be introducing will help that process. It is not a threat to the way that people currently manage their flocks. I understand the point that you have made, but I hope that people will see this as an opportunity and not a threat to the way that they do business. I want to see sheep farms and sheep farmers looking at EID, embracing it, and looking at how it can improve the bottom line and the profitability of their business, and not simply see it as a threat to their livelihoods.

Mae pwnc tagiau electronig yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi dod yn eithaf cymylog oherwydd llawer o wahanol faterion. Fy marn i yw y bydd tagio electronig yn gwella rheolaeth diadellau, fel y rhai yr ydych wedi'u disgrifio a diadellau eraill hefyd. Bydd yn gwella gallu rheolwyr diadellau neu ffermwyr i allu sicrhau mwy o effeithlonrwydd o fewn y ddiadell a mwy o broffidioldeb o'r ddiadell. Roedd yn hanfodol bod pobl yn sicrhau eu bod yn manteisio i'r eithaf ar werth tagiau electronig. Bydd y gronfa ddata y byddwn yn ei chyflwyno'n helpu'r broses honno. Nid yw'n fygythiad i'r ffordd y mae pobl yn rheoli eu diadellau ar hyn o bryd. Rwyf yn deall y pwynt yr ydych wedi'i wneud, ond rwyf yn gobeithio y bydd pobl yn gweld hyn fel cyfle ac nid fel bygythiad i'r ffordd y maent yn cynnal busnes. Hoffwn weld ffermydd defaid a ffermwyr defaid yn edrych ar dagio electronig, yn ei groesawu, ac yn edrych ar sut y gall wella sefyllfa gyffredinol a phroffidioldeb eu busnes, ac nid dim ond yn ei weld fel bygythiad i'w bywoliaeth.

15:27

## Datganiad: Cynnydd ar Wella Caffael Cyhoeddus

## Statement: Progress on Improving Public Procurement

Senedd.tv Fideo Video

**Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance*

I am pleased to make this statement today alongside the publication of my procurement progress report, outlining progress in driving forward public procurement policy as a strategic tool to support growth and jobs in Wales, leading up to Wales Procurement Week 2014.

Rwyf yn falch o wneud y datganiad hwn heddiw ochr yn ochr â chyhoeddi fy adroddiad cynnydd caffael, sy'n amlinellu'r cynnydd wrth fwrw ymlaen â pholisi caffael cyhoeddus fel arf strategol i ategu twf a swyddi yng Nghymru hyd at Wythnos Caffael Cymru 2014.

Since launching the Wales procurement policy statement in December 2012, I have focused on embedding its principles to optimise efficiencies and wider economic, social and environmental benefits delivered through the Welsh public sector's annual procurement expenditure of £4.3 billion. I have seen at first hand some excellent examples of where public bodies across Wales have embraced my policy expectations with a collective commitment to improving procurement outcomes. All local authorities have confirmed adoption of the Wales procurement policy statement. Health and education sectors in Wales have similarly committed to adopting its principles. This shared desire to embed best practice is delivering some impressive results.

Ers lansio datganiad polisi caffael Cymru ym mis Rhagfyr 2012, rwyf wedi canolbwyntio ar ymgorffori ei egwyddorion i optimeiddio arbedion a buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach a ddarperir drwy wariant caffael blynyddol sector cyhoeddus Cymru o £4.3 biliwn. Rwyf wedi gweld rhai enghreifftiau ardderchog yn uniongyrchol lle mae cyrff cyhoeddus ledled Cymru wedi croesawu fy nisgwyliadau polisi gydag ymrwymiad ar y cyd i wella canlyniadau caffael. Mae pob awdurdod lleol wedi cadarnhau eu bod wedi mabwysiadu datganiad polisi caffael Cymru. Mae'r sectorau iechyd ac addysg yng Nghymru hefyd wedi ymrwymo i fabwysiadu ei egwyddorion. Mae'r awydd hwn a rennir i ymgorffori arfer gorau'n cyflawni rhai canlyniadau trawiadol.

Our progressive community benefits policy, integral to the tackling poverty action plan, is making a positive difference to the people and communities of Wales. This approach has been recognised in two UK awards, winning the civil service award in 2012 for the ground-breaking and innovative procurement policy, and being shortlisted for the National Government Opportunities Awards 2013-14 for the sustainability initiative of the year, recognising excellence in public procurement.

Mae ein polisi budd cynyddol i'r gymuned, sy'n rhan annatod o'r cynllun gweithredu trechu tlodi, yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl a chymunedau Cymru. Mae'r dull hwn wedi cael ei gydnabod gan ddwy wobr DU gyfan; enillodd wobr y gwasanaeth sifil yn 2012 i'r polisi caffael arloesol sy'n torri tir newydd, a chyrhaeddodd restr fer Gwobrau Cenedlaethol y Llywodraeth am Gyfleoedd 2013-14 am fenter cynaliadwyedd y flwyddyn, sy'n cydnabod rhagoriaeth ym maes caffael cyhoeddus.

The measurement of the first completed 27 projects incorporating community benefits, with an overall value of £346 million, illustrates that 84% of this expenditure has been re-invested in Wales, with 517 disadvantaged people receiving 13,020 weeks of training. In January, I visited the Arbed 2 project delivered by Melin Homes in south Wales. Community benefits achieved through the project included 100% of the £14.3 million project expenditure being re-invested in Wales, 45 disadvantaged people receiving employment and 431 weeks of training being delivered.

Roedd cyfanswm gwerth y 27 o brosiectau cyntaf a gwblhawyd gan gynnwys manteision cymunedol yn £346 miliwn, sy'n dangos bod 84% o'r gwariant hwn wedi cael ei ail-fuddsoddi yng Nghymru, a bod 517 o bobl dan anfantais wedi cael 13,020 wythnos o hyfforddiant. Ym mis Ionawr, ymwelais â phrosiect Arbed 2 a gyflenwir gan Melin Homes yn y de. Roedd y buddion cymunedol a gyflawnwyd drwy'r prosiect yn cynnwys ail-fuddsoddi 100% o'r gwariant prosiect £14.3 miliwn yng Nghymru, cyflogi 45 o bobl dan anfantais a chyflenwi 431 wythnos o hyfforddiant.

I have also committed through my policy to ensure that contracts are open and accessible for all suppliers. The number of advertisements on Sell2Wales for contract opportunities below the European thresholds—vital to smaller, local suppliers and third sector organisations—continues to grow, now standing at 81%. Simplification of process is central to procurement policy, improving public service efficiency and accessibility of contracts. The supplier qualification information database approach to supplier selection has been adopted across Wales, enabling local businesses to gain a greater share of our contracts. Welsh contractors now win 75% of all major construction awards through Sell2Wale—up from around 30% prior to use of SQuID. The SQuID approach has been used to establish a construction framework in north Wales, and I am delighted that indigenous contractors from that region have secured places on the agreement.

Rwyf hefyd wedi ymrwymo drwy fy mholisi i sicrhau bod contractau'n agored ac yn hygyrch i bob cyflenwr. Mae nifer yr hysbysebion ar GwerthwchiGymru ar gyfer cyfleoedd contract is na'r trothwyon Ewropeaidd—sy'n hanfodol i gyflenwyr llai, lleol a mudiadau'r trydydd sector—yn parhau i dyfu, ac mae wedi cyrraedd 81%. Mae symleiddio'r broses yn ganolog i'r polisi caffael, gan wella effeithlonrwydd y gwasanaethau cyhoeddus a hygyrchedd contractau. Mae'r dull o ddewis cyflenwyr sy'n defnyddio cronfa ddata o wybodaeth am gymwysterau cyflenwyr wedi ei fabwysiadu ledled Cymru, gan alluogi busnesau lleol i ennill cyfran fwy o'n contractau. Contractwyr o Gymru sydd bellach yn ennill 75% o'r holl ddyfarniadau adeiladu mawr drwy GwerthwchiGymru—i fyny o tua 30% cyn defnyddio'r SQuID. Mae'r dull SQuID wedi cael ei ddefnyddio i sefydlu fframwaith adeiladu yn y gogledd, ac rwyf wrth fy modd bod contractwyr brodorol o'r rhanbarth hwnnw wedi sicrhau lleoedd ar y cytundeb.

Through integrating SQuID with our e-procurement tools, suppliers have stored over 144,000 pre-qualification responses for future re-use, cutting time and cost in doing business with the public sector in Wales, and an electronic SQuID is being developed. Some contracts may still be out of the reach of smaller businesses or third sector organisations, and collaboration can help in these instances. In October, I launched a joint bidding guide, promoting consortium bidding as a way of improving access to public contracts for smaller businesses and third sector organisations, and helping buyers make procurement processes open to consortia bids. Pilot projects are being progressed to implement the guidance and advertise consortium-friendly public contracts. I encourage full engagement with these pilot projects.

Drwy integreiddio SQuID gyda'n hoffer e-gaffael, mae cyflenwyr wedi storio dros 144,000 o ymatebion cyn-gymhwyso ar gyfer ailddefnyddio yn y dyfodol, gan leihau amser a chostau cynnal busnes gyda'r sector cyhoeddus yng Nghymru, ac mae SQuID electronig yn cael ei ddatblygu. Efallai y bydd rhai contractau'n dal i fod y tu hwnt i gyrraedd busnesau llai neu fudiadau trydydd sector, a gall cydweithio helpu yn yr achosion hyn. Ym mis Hydref, lansiais ganllaw ymgeisio ar y cyd, gan hyrwyddo ceisiadau consortiwm fel ffordd o wella mynediad at gontractau cyhoeddus i fusnesau llai a mudiadau'r trydydd sector, a helpu prynwyr i wneud prosesau caffael yn agored i geisiadau gan gonsortia. Mae prosiectau peilot yn cael eu datblygu i weithredu'r canllawiau a hysbysebu contractau cyhoeddus sy'n addas i gonsortia. Rwyf yn annog ymgysylltiad llawn gyda'r prosiectau peilot hyn.

We continue to improve opportunities for the third sector. A supported business, manufacturing items in Wales, secured a place on the community equipment framework that Value Wales awarded in 2013. Newport council has also developed a groundbreaking arrangement, linking its children's services with its local Barnardo's Cymru project, which is the first collaboration of its kind. There is an intrinsic link between procurement capability and intelligent application of procurement policy and regulation. Growing the procurement profession in Wales is a priority. Through the European-funded Home-grown Talent project, 28 trainees have secured structured support for attaining professional procurement qualifications. As part of their development, the trainees have supported collaborative projects, embedding agreed procurement policy and delivering almost £7 million of savings. New training opportunities and arrangements have also been implemented to enhance procurement capability. Procurement fitness checks have been completed for all 22 local authorities. Each authority will have received a report and action plan, which will help plot the right path for developing their overall procurement maturity. Similar reviews will take place in the coming months in the health and education sectors.

Rydym yn parhau i wella cyfleoedd i'r trydydd sector. Llwyddodd busnes a gefnogir, sy'n gweithgynhyrchu eitemau yng Nghymru, i sicrhau lle ar y fframwaith cyfarpar cymunedol a ddyfarnodd Gwerth Cymru yn 2013. Mae cyngor Casnewydd hefyd wedi datblygu trefniant sy'n torri tir newydd, gan gysylltu eu gwasanaethau plant â'u prosiect Barnardo's Cymru lleol, sef y cydweithio cyntaf o'i fath. Mae cysylltiad cynhenid rhwng gallu i gaffael a chymhwyso polisïau a rheoliadau caffael yn ddeallus. Mae tyfu'r proffesiwn caffael yng Nghymru'n flaenoriaeth. Drwy'r prosiect Doniau Cymru a ariennir gan Ewrop, mae 28 o hyfforddeion wedi sicrhau cymorth strwythuredig i ennill cymwysterau caffael proffesiynol. Fel rhan o'u datblygiad, mae'r hyfforddeion wedi cefnogi prosiectau ar y cyd, gan ymgorffori polisi caffael y cytunwyd arno ac arbed bron i £7 miliwn. Mae cyfleoedd hyfforddi a threfniadau newydd hefyd wedi cael eu rhoi ar waith i wella gallu i gaffael. Mae gwiriadau ffitrwydd caffael wedi'u cwblhau ar gyfer pob un o'r 22 awdurdod lleol. Bydd pob awdurdod wedi cael adroddiad a chynllun gweithredu, a fydd yn helpu i blotio'r llwybr cywir i ddatblygu eu haeddfedrwydd caffael cyffredinol. Bydd adolygiadau tebyg yn digwydd yn y misoedd sydd i ddod yn y sectorau iechyd ac addysg.

Given the ongoing pressures on public sector budgets in Wales, it is vital we co-ordinate common spend effectively and maximise efficiencies to support front-line service delivery. I launched the National Procurement Service in November with the Minister for Local Government and Government Business, Lesley Griffiths. This is an important part of the public services reform agenda and an exciting development for Wales. The service will deliver collaborative contracts and frameworks across the Welsh public sector, covering some 20% to 30% of total public sector expenditure, with an expected £25 million-worth of efficiencies being delivered annually once fully established with supply chain opportunities for Welsh suppliers identified.

Ac ystyried y pwysau parhaus ar gyllidebau'r sector cyhoeddus yng Nghymru, mae'n hanfodol ein bod yn cydlynu gwariant cyffredin yn effeithiol ac yn sicrhau cymaint â phosibl o arbedion i helpu i gyflenwi gwasanaethau rheng flaen. Lansiais y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ym mis Tachwedd gyda'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, Lesley Griffiths. Mae hyn yn rhan bwysig o'r agenda diwygio gwasanaethau cyhoeddus ac mae'n ddatblygiad cyffrous i Gymru. Bydd y gwasanaeth yn darparu contractau a fframweithiau cydweithredol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gwmpasu tua 20% i 30% o gyfanswm gwariant y sector cyhoeddus, a disgwylir iddo arbed £25 miliwn y flwyddyn cyn gynted ag y bydd wedi'i sefydlu'n llawn ac wedi canfod cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi i gyflenwyr Cymru.

I have demonstrated how effective procurement policy can encourage ethical and responsible business behaviour, helping to protect suppliers and employees. Earlier this year, I issued a written statement announcing the use of project bank accounts in construction. This new approach will help ensure that subcontractors involved in delivery of public construction projects are paid on time. This is a vital development that will help improve cash flow for many of our smaller contractors. Last year, I also issued a procurement advice note on blacklisting. We were the first Government in the UK to use procurement policy to help stamp out this unacceptable practice, and this was warmly welcomed by trade unions. Our progressive procurement policy has received recognition from further afield. In November, the National Assembly for Wales was nominated for a Liberty human rights award for our strong stance on blacklisting. In addition, the UK Government has recognised that our procurement policy is ahead of the legislative measures that were proposed through the Lord Young review in October last year to improve SME access to procurement. Consequently, the new legislation, which would have been a backward step for us, will not now apply to Wales.

Rwyf wedi dangos pa mor effeithiol y gall polisi caffael fod o ran annog ymddygiad busnes moesegol a chyfrifol, gan helpu i ddiogelu cyflenwyr a gweithwyr. Yn gynharach eleni, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig yn cyhoeddi defnyddio cyfrifon banc prosiect yn y diwydiant adeiladu. Bydd y dull newydd hwn yn helpu i sicrhau bod isgontractwyr sy'n ymwneud â chyflenwi prosiectau adeiladu cyhoeddus yn cael eu talu ar amser. Mae hwn yn ddatblygiad hanfodol a fydd yn helpu i wella llif arian llawer o'n contractwyr llai. Y llynedd, cyhoeddais hefyd nodyn cyngor caffael ar esgymuno. Ni oedd y Llywodraeth gyntaf yn y DU i ddefnyddio polisi caffael i helpu i ddileu'r arfer annerbyniol hwn, a chafodd hyn groeso cynnes gan undebau llafur. Mae ein polisi caffael blaengar wedi cael cydnabyddiaeth o ymhellach i ffwrdd. Ym mis Tachwedd, enwebwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru am wobr hawliau dynol Liberty am ein safiad cryf ar esgymuno. Hefyd, mae Llywodraeth y DU wedi cydnabod bod ein polisi caffael ar y blaen i'r mesurau deddfwriaethol a gynigiwyd yn adolygiad yr Arglwydd Young ym mis Hydref y llynedd i wella mynediad busnesau bach a chanolig at gaffael. O ganlyniad, ni fydd y ddeddfwriaeth newydd, a fyddai wedi bod yn gam yn ôl i ni, yn awr yn berthnasol i Gymru.

The new EU procurement directives are due to be transposed towards the end of this year, and I am determined to maximise the opportunities they will offer to strengthen application of Welsh procurement policy. Good progress has been made over the past 12 months but I am committed to driving forward this agenda to even greater effect. Our innovative procurement policies, designed in consultation with businesses and public sector stakeholders, have opened the doors for smaller, local suppliers. Through collective effort, clear goals and strong leadership, procurement is being transformed from a function to a strategic, intelligent lever that can have a positive and lasting impact on jobs, economic growth and the lives of people across Wales.

Bydd cyfarwyddebau caffael newydd yr UE yn cael eu trosi tua diwedd y flwyddyn yma, ac rwyf yn benderfynol o wneud y mwyaf o'r cyfleoedd y byddant yn eu cynnig i gryfhau sut y gweithredir polisi caffael Cymru. Gwnaethpwyd cynnydd da dros y 12 mis diwethaf, ond rwyf wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â'r agenda hon i'w gwneud yn fwy effeithiol fyth. Mae ein polisïau caffael arloesol, a gynlluniwyd drwy ymgynghori â busnesau a rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus, wedi agor y drysau i gyflenwyr llai, lleol. Trwy ymdrech ar y cyd, nodau clir ac arweinyddiaeth gref, mae caffael yn cael ei drawsnewid o fod yn swyddogaeth i fod yn lifer deallus strategol a all gael effaith gadarnhaol a pharhaol ar swyddi, twf economaidd a bywydau pobl ledled Cymru.

15:35

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the shadow Minister for finance, Paul Davies.

Galwaf ar Weinidog cyllid yr wrthblaid, Paul Davies.

15:35

## Paul Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you.

Diolch.

Thank you to the Minister for her statement this afternoon. As the Minister rightly pointed out, the National Procurement Service went live last November with the aim of securing efficiencies and exploring all possible options to develop local supply chains. Ahead of the service going live, the Minister made it clear that the service will become self-funding in three years. While I appreciate that these are early days, will the Minister tell us whether she is confident that this will still be the case? I fully believe that the first step towards improving Wales's procurement practices is to simplify our public sector procurement processes and regulations. I am pleased that this has been acknowledged by the Welsh Government. There are perceptions that the regulations and processes surrounding procurement are mostly beneficial to larger businesses, and I believe hat that needs to change. Small and medium-sized enterprises generally have lower administrative overheads and management costs than larger firms and, depending on the nature of the procurement, this can result in lower prices. The Minister, I am sure, will agree with me that it is important that local authorities still have the flexibility to work with SMEs when considering contracts.

Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad y prynhawn yma. Fel y dywedodd y Gweinidog yn hollol gywir, aeth y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn fyw fis Tachwedd diwethaf gyda'r nod o sicrhau arbedion ac edrych ar bob opsiwn posibl i ddatblygu cadwyni cyflenwi lleol. Cyn i'r gwasanaeth fynd yn fyw, gwnaeth y Gweinidog hi'n glir y daw'r gwasanaeth yn hunangyllidol mewn tair blynedd. Er fy mod yn sylweddoli ei bod yn ddyddiau cynnar, a wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym a yw'n hyderus y bydd hyn yn dal i ddigwydd? Rwyf yn credu'n gryf mai'r cam cyntaf tuag at wella arferion caffael Cymru yw symleiddio prosesau a rheoliadau caffael ein sector cyhoeddus. Rwyf yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod hyn. Ceir ymdeimlad bod y rheoliadau a'r prosesau ynghylch caffael yn fuddiol yn bennaf i fusnesau mwy, a chredaf fod angen newid hynny. Yn gyffredinol, mae gan fusnesau bach a chanolig orbenion gweinyddol a chostau rheoli is na chwmnïau mwy a, gan ddibynnu ar natur y caffael, gall hyn arwain at brisiau is. Rwyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn cytuno â mi ei bod yn bwysig bod awdurdodau lleol yn cadw'r hyblygrwydd i weithio gyda busnesau bach a chanolig wrth ystyried contractau.

The Federation of Small Businesses undertook some work into local government procurement last year, which noted that for every £1 spent by a participating local authority with local SMEs, it generated an additional 63p to benefit its local economy, compared with just 40p generated by larger local firms. It is clear that SMEs can be more beneficial to the local economy than larger firms, even though the procurement processes could be more advantageous to larger businesses. I am pleased that Welsh contractors now win 75% of all major construction awards through Sell2Wales. However, it is clear that more needs to be done to collect information and data on how much money is being spent locally and by whom through the public procurement process. It would, therefore, be beneficial to measure the size of each body and the benefit that each body or business provides to the local economy. Therefore, can the Minister tell us what work is being done in this specific area?

Gwnaeth y Ffederasiwn Busnesau Bach rywfaint o waith ym maes caffael llywodraeth leol y llynedd, a nododd fod pob £1 a werir ar fusnesau bach a chanolig lleol gan awdurdod lleol sy'n cymryd rhan yn cynhyrchu 63c ychwanegol er budd ei economi leol, o'i gymharu â dim ond 40c a gynhyrchir gan gwmnïau lleol mwy. Mae'n amlwg y gall busnesau bach a chanolig fod yn fwy buddiol i'r economi leol na chwmnïau mwy, hyd yn oed os yw'r prosesau caffael yn fwy manteisiol i fusnesau mwy. Rwyf yn falch bod contractwyr o Gymru bellach yn ennill 75% o'r holl ddyfarniadau adeiladu mawr drwy GwerthwchiGymru. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen gwneud mwy i gasglu gwybodaeth a data am faint o arian sy'n cael ei wario'n lleol a gan bwy drwy'r broses caffael cyhoeddus. Byddai, felly, yn fuddiol inni fesur maint pob corff a'r budd y mae pob corff neu fusnes yn ei ddarparu i'r economi leol. Felly, a all y Gweinidog ddweud wrthym pa waith sy'n cael ei wneud yn y maes penodol hwn?

The Minister has previously said that the adoption of e-procurement is growing, but can and should increase. She has also said that, over the next two years, all tenders and the majority of orders and payments should be electronic. Indeed, the delivery of phase 1 contracts for the e-procurement service programme were due to be delivered by the end of January. Can the Minister tell us whether that objective has been met?

Mae'r Gweinidog wedi dweud o'r blaen bod mabwysiadu e-gaffael ar gynnydd, ond y gallai ac y dylai gynyddu. Mae hi hefyd wedi dweud y dylai pob tendr a'r rhan fwyaf o archebion a thaliadau dros y ddwy flynedd nesaf fod yn electronig. Yn wir, dylid bod wedi cyflwyno contractau cam 1 y rhaglen gwasanaeth e-gaffael erbyn diwedd mis Ionawr. A all y Gweinidog ddweud wrthym a gyrhaeddwyd yr amcan hwnnw?

The National Procurement Service works alongside the Wales procurement policy statement, which identifies nine core principles in the way that public sector organisations should carry out procurement. When issuing the procurement policy statement, the Minister made it clear that the core nine principles were optional but that there was potential to legislate in this area in the future if matters did not progress satisfactorily. However, she suggests in her statement today that any legislation would be a backward step for the Government. Could the Minister tell us whether it is the Welsh Government's intention to rule out any future legislation in this area? The Minister also made it clear that the Welsh Government will review the way that the signed-up organisations are using the NPS contracts and that they will be asked to commit to using contracts for five years, because, otherwise, they will have to justify that to the NPS board. Can the Minister tell us whether this review is still on the agenda and whether signed-up organisations are progressing towards using five-year contracts?

Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn gweithio ochr yn ochr â datganiad polisi caffael Cymru, sy'n nodi naw egwyddor craidd ar gyfer sut y dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus gyflawni caffael. Wrth gyhoeddi'r datganiad polisi caffael, gwnaeth y Gweinidog hi'n glir bod y naw egwyddor craidd yn ddewisol ond y byddai'n bosibl deddfu yn y maes hwn yn y dyfodol pe na bai materion yn symud ymlaen yn foddhaol. Fodd bynnag, mae'n awgrymu yn ei datganiad heddiw y byddai unrhyw ddeddfu'n gam yn ôl i'r Llywodraeth. A allai'r Gweinidog ddweud wrthym ai bwriad Llywodraeth Cymru yw diystyru unrhyw ddeddfu yn y maes hwn yn y dyfodol? Gwnaeth y Gweinidog hi'n glir hefyd y bydd Llywodraeth Cymru'n adolygu'r ffordd y mae'r sefydliadau sydd wedi cofrestru'n defnyddio'r contractau NPS ac y gofynnir iddynt ymrwymo i ddefnyddio contractau am bum mlynedd, oherwydd, fel arall, bydd rhaid iddynt gyfiawnhau hynny i fwrdd yr NPS. A all y Gweinidog ddweud wrthym a yw'r adolygiad hwn yn dal i fod ar yr agenda ac a yw'r sefydliadau sydd wedi cofrestru'n symud ymlaen at ddefnyddio contractau pum mlynedd?

I note from your statement today that the Government is continuing to improve opportunities for the third sector in relation to public contracts. What work is being done in this area? I also note that a construction framework has been established in north Wales to improve matters. Can the Minister therefore tell us whether it is the Government's intention to roll out this framework across the whole of Wales?

Sylwaf o'ch datganiad heddiw fod y Llywodraeth yn parhau i wella cyfleoedd i'r trydydd sector o ran contractau cyhoeddus. Pa waith sy'n cael ei wneud yn y maes hwn? Nodaf hefyd fod fframwaith adeiladu wedi'i sefydlu yn y gogledd i wella pethau. Felly, a all y Gweinidog ddweud wrthym ai bwriad y Llywodraeth yw cyflwyno'r fframwaith hwn ar draws Cymru gyfan?

Finally, may I once again thank the Minister for her statement this afternoon? I appreciate that it is still early days, but I sincerely hope that the National Procurement Service will result in improving the processes and procedures around procurement so that all businesses in Wales will benefit. I look forward to hearing more about this service's development in the future.

Yn olaf, a gaf ddiolch unwaith eto i'r Gweinidog am ei datganiad y prynhawn yma? Rwyf yn sylweddoli ei bod yn dal i fod yn ddyddiau cynnar, ond rwyf yn mawr obeithio y bydd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn arwain at wella prosesau a gweithdrefnau caffael er budd i bob busnes yng Nghymru. Edrychaf ymlaen at glywed mwy am ddatblygiad y gwasanaeth hwn yn y dyfodol.

15:40 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

I would like to thank Paul Davies very much for his very positive response to the statement. I have to say that I believe that the way in which we have developed our public policy procurement statement has been very much influenced by the constructive scrutiny from Members across this Chamber. In terms of the questions—the many, many questions—I will answer as many as I can this afternoon to the shadow Minister for finance. It is very clear that the establishment of the National Procurement Service is warmly welcomed across the public sector, and many organisations have agreed to become part of that—not just local authorities, but organisations across the public sector, and not just devolved, but non-devolved organisations as well.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Paul Davies am ei ymateb cadarnhaol iawn i'r datganiad. Rhaid imi ddweud fy mod yn credu bod y gwaith craffu adeiladol gan Aelodau ar draws y Siambr hon wedi dylanwadu'n fawr iawn ar y ffordd yr ydym wedi datblygu ein datganiad caffael polisi cyhoeddus. O ran y cwestiynau—y llawer iawn o gwestiynau—atebaf gynifer ag y gallaf y prynhawn yma i Weinidog cyllid yr wrthblaid. Mae'n amlwg iawn bod sefydlu'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi'i groesawu'n gynnes ar draws y sector cyhoeddus, ac mae llawer o sefydliadau wedi cytuno i fod yn rhan o hynny—nid dim ond awdurdodau lleol, ond sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus, ac nid dim ond sefydliadau datganoledig, ond sefydliadau heb eu datganoli hefyd.

The National Procurement Service is clearly about stronger, centralised procurement capability. It is not about barriers to developing local suppliers, and I think that is a very important message today. It is about collaborative procurement. The evidence from the McClelland review showed that the better the procurement capability, the more that is spent with Wales-based businesses. Clearly, it is early days in terms of the implementation of the National Procurement Service, but it is an innovative and exciting development for Wales, and it will realise efficiencies, but it will also work with Welsh businesses to develop supply chain opportunities where appropriate. Of course, it will identify those supply chain opportunities for SMEs in Wales and ensure that they are fully embraced across the procurement expenditure. I believe that SMEs will benefit from this because of the improved capability. I also recognise that, as you say, those public sector bodies that are part of the National Procurement Service will still be able to work with SMEs in local supply chains in terms of that flexibility, which of course is important. Look at Sell2Wales now in terms of the opportunities that have been taken forward, particularly in relation to the new Sell2Wales website last week, and, of course, we are now developing electronic SQuID so that you have once-only data entry, which is very important. Over 500 buyers have been trained in the new risk-based approach and use of the common question set, and this is available in the new e-tender templates provided through EPS, clearly recognising that the opportunities that were taken forward are benefiting businesses and being embraced by them, particularly SMEs. I can assure Paul Davies that the e-procurement developments are progressing well, and I will be reporting back on that as your Minister in terms of the developments and the delivery of the new e-procurement arrangements.

Yn amlwg, diben y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yw cryfhau a chanoli'r gallu i gaffael. Nid yw'n codi rhwystrau i ddatblygu cyflenwyr lleol, a chredaf fod hynny'n neges bwysig iawn heddiw. Caffael ar y cyd yw'r diben. Dangosodd y dystiolaeth o adolygiad McClelland mai'r gorau yw'r gallu i gaffael, y mwyaf sy'n cael ei wario gyda busnesau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Yn amlwg, mae'n ddyddiau cynnar o ran gweithredu'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, ond mae'n ddatblygiad arloesol a chyffrous i Gymru, a bydd yn sicrhau arbedion, ond bydd hefyd yn gweithio gyda busnesau Cymru i ddatblygu cyfleoedd cadwyn gyflenwi lle bo hynny'n briodol. Wrth gwrs, bydd yn nodi cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru ac yn sicrhau eu bod wedi'u cynnwys yn llawn ar draws y gwariant caffael. Rwyf yn credu y bydd busnesau bach a chanolig yn elwa o hyn oherwydd y gwell gallu. Rwyf hefyd yn cydnabod, fel y dywedwch, y bydd y cyrff sector cyhoeddus hynny sy'n rhan o'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn dal i allu gweithio gyda busnesau bach a chanolig mewn cadwyni cyflenwi lleol o ran yr hyblygrwydd hwnnw, sydd wrth gwrs yn bwysig. Edrychwch ar GwerthwchiGymru yn awr o ran y cyfleoedd sydd wedi'u datblygu, yn enwedig o ran gwefan newydd GwerthwchiGymru yr wythnos diwethaf, ac, wrth gwrs, rydym yn awr yn datblygu SQuID electronig fel mai dim ond unwaith y bydd angen cofnodi data, sy'n bwysig iawn. Mae dros 500 o brynwyr wedi cael hyfforddiant am yr ymagwedd newydd seiliedig ar risg ac am ddefnyddio'r set gyffredin o gwestiynau, ac mae hyn ar gael yn y templedi e-dendro newydd a ddarperir drwy EPS, gan gydnabod yn glir bod y cyfleoedd a gymerwyd o fudd i fusnesau ac yn cael eu croesawu ganddynt, yn enwedig busnesau bach a chanolig. Gallaf sicrhau Paul Davies bod datblygiadau e-gaffael yn gwneud cynnydd da, a byddaf yn adrodd yn ôl am hynny fel eich Gweinidog o ran y datblygiadau ac o ran cyflenwi'r trefniadau e-gaffael newydd.

You ask the question about legislation—why not a procurement Bill for Wales? Of course, we are looking at the developments, for example, in Scotland, but we do not want to legislate for legislation's sake. It is a complex position legally, and European directives take precedence over any Bill that we might take forward. I think it makes sense to wait for the new directives to come into effect, but we are going to monitor how well organisations are implementing our Wales procurement policy statement, and then, if we see a need to legislate, I would have no hesitation in acting. However, of course, we now need to see that the new directives, which are due to be transposed by mid to late 2014, are in line with Welsh Government policy in practice. In fact, I think the work that has been done by the committee that was working on this, chaired by Julie James, was very helpful in ensuring that our experience and policy direction did have an influence, I believe, on those new directives. So, we need to see this in terms of legislative opportunities.

Rydych yn gofyn y cwestiwn am ddeddfu—pam ddim Bil caffael ar gyfer Cymru? Wrth gwrs, rydym yn edrych ar y datblygiadau, er enghraifft, yn yr Alban, ond nid ydym am ddeddfu er mwyn deddfu. Mae'n sefyllfa gymhleth yn gyfreithiol, ac mae cyfarwyddebau Ewropeaidd yn cael blaenoriaeth dros unrhyw Fil y gallem fwrw ymlaen ag ef. Rwyf yn credu ei bod yn gwneud synnwyr i aros i'r cyfarwyddebau newydd ddod i rym, ond rydym yn mynd i fonitro pa mor dda y mae sefydliadau'n gweithredu ein datganiad polisi caffael Cymru, ac yna, os gwelwn fod angen deddfu, ni wnaf oedi o gwbl cyn gweithredu. Fodd bynnag, wrth gwrs, mae angen inni weld bod y cyfarwyddebau newydd, a ddylai fod wedi'u trosi erbyn canol i ddiwedd 2014, yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru'n ymarferol. Yn wir, rwyf yn meddwl bod y gwaith a wnaeth y pwyllgor a oedd yn gweithio ar hyn, dan gadeiryddiaeth Julie James, yn ddefnyddiol iawn o ran sicrhau bod ein profiad a chyfeiriad ein polisi wedi dylanwadu, rwyf yn credu, ar y cyfarwyddebau newydd hynny. Felly, mae angen inni edrych ar hyn o safbwynt cyfleoedd deddfwriaethol.

In terms of the National Procurement Service, we are seeking to deliver on our aims and objectives—the saving of £25 million that it is clear we expect and the fact that we want to see these as robust contracts. We will see, in terms of the five-year opportunities for contracts, how that pans out. However, it is clear that this is going to have a benefit, not just in terms of the public sector, collaboration and efficiency with regard to savings, but in supply chains for local small and medium-sized enterprises.

O ran y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, rydym yn ceisio cyflawni ein nodau a'n hamcanion—yr arbediad £25 miliwn y mae'n amlwg ein bod yn ei ddisgwyl a'r ffaith yr hoffem weld y rhain fel contractau cadarn. Cawn weld, o ran y cyfleoedd pum mlynedd ar gyfer contractau, sut yr aiff hynny. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod hyn yn mynd i greu budd, nid yn unig o ran y sector cyhoeddus, cydweithio ac arbedion, ond i gadwyni cyflenwi busnesau bach a chanolig lleol.

15:45 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Plaid Cymru spokesperson, Alun Ffred Jones.

Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Alun Ffred Jones.

15:45 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr i'r Gweinidog am ei datganiad heddiw. Mae Plaid Cymru yn ystyried caffael fel pwnc cwbl allweddol i'r economi, gan ei fod yn ffordd effeithlon o gefnogi busnesau Cymru a chefnogi swyddi yng Nghymru.

I thank the Minister for her statement today. Plaid Cymru sees procurement as a crucial issue for the economy, as it is an efficient way to support Welsh businesses and support jobs in Wales.

Yn anffodus, nid yw'r canllawiau sydd gan y Llywodraeth yn rhai statudol. Nid oes yn rhaid i unrhyw gorff yng Nghymru eu dilyn; dyna'r broblem y mae'n rhaid i'r Llywodraeth ei thaclo er mwyn gwireddu ei hamcanion.

Unfortunately, the Government's guidance is not statutory. There is no requirement for any body in Wales to follow that guidance; that is the problem that the Government has to tackle in order to realise its objectives.

Rydym yn gwybod bod y ganran bresennol—52% o gontractau sydd ar gael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn mynd i gwmnïau yng Nghymru—yn gyfrifol am bron i 100,000 o swyddi. Pe baem yn llwyddo i gynyddu'r ffigur hwnnw i rywle ar draws 75%, nad yw gyfuwch â nifer o wledydd yn Ewrop, byddai'n gallu creu hyd at 46,000 o swyddi, yn ôl ffigurau 'Value Wales' ei hun. Byddai hynny'n gostwng diweithdra ac yn ychwanegu at ein ffigurau GVA, hefyd. Y ffaith syml amdani yw na fyddem yn gorfod gwario ceiniog yn ychwanegol i gyflawni hynny, felly mae hwn yn faes eithriadol o allweddol.

We know that the current percentage—52% of contracts in the public sector in Wales given to Welsh companies—accounts for nearly 100,000 jobs. If we were able to increase that figure to somewhere around 75%, which is not as high as in many countries in Europe, it could create up to 46,000 jobs, according to Value Wales's own figures. That would reduce unemployment and add to our GVA figures, too. The simple fact is that we would not have to spend a penny extra to achieve that, so this is a crucial area.

Fel roedd y Gweinidog yn ei ddweud, mae enghreifftiau da ac enghreifftiau o arfer gwael yma yng Nghymru. O edrych ar y gogledd-orllewin, roeddwn yn sylwi y diwrnod o'r blaen bod Cyngor Gwynedd, wrth osod cytundebau ar gyfer prydau ysgol yn 2013, wedi llwyddo i roi 100% o'r cytundebau hynny i gwmnïau yn y gogledd-orllewin. Mewn cyngor sir cyfagos, rhoddwyd y cytundebau—yn union yr un fath o gytundebau—i un cyflenwr o Reading. Dyna gytundeb gwerth £1.2 miliwn yn mynd i gwmni ymhell y tu allan i Gymru. Mae'n siŵr bod rhesymau am hynny, ond dyna enghraifft o ddau gyngor sir yn gweithredu mewn ffyrdd cwbl wahanol, a hoffwn wybod sut mae'r Llywodraeth yn mynd i geisio ymateb i hynny. Wedi'r cwbl, rydych newydd sôn am rannu arferion da, a bod hwn yn rhan o gynllun gweithredu gwrthdlodi. Nid yw'n mynd i helpu neb os ydym yn gosod contractau o'r fath ymhell y tu hwnt i ffiniau Cymru.

As the Minister said, there are good examples and examples of bad practice here in Wales. Looking at north-west Wales, I noticed the other day that Gwynedd Council, in tendering contracts for school meals in 2013, managed to give 100% of those contracts to companies in north-west Wales. A neighbouring county council, the contracts—exactly the same kind of contracts—went to a single supplier from Reading. That is a contract worth £1.2 million going to a company well outside Wales. I am sure that there are reasons for that, but that is an example of two county councils operating in completely different ways, and I would like to know how the Government is going to try to respond to that. After all, you have just talked about sharing good practice, and said that this is part of the anti-poverty action plan. It is not going to help anyone if we award such contracts well beyond the borders of Wales.

Ddeunaw mis yn ôl y cafwyd y ffigurau diwethaf, a oedd yn awgrymu bod ychydig dros hanner ein contractau cyhoeddus yn mynd i gwmnïau o Gymru. A wnaiff y Gweinidog ddiweddaru'r Cynulliad ar y cynnydd yng nghanran y cytundebau sy'n mynd i gwmnïau Cymreig? Os nad yw'n gallu gwneud hynny, pryd y bydd mewn sefyllfa i'n diweddaru ni?

It is eighteen months since we had the last figures, which suggested that just over half of our public contracts are awarded to Welsh companies. Will the Minister update the Assembly on the increase in the percentage of contracts that go to Welsh companies? If she is not able to do that, when will she be in a position to update us?

15:48 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very grateful to Alun Ffred Jones for his response. He has been very actively engaged in promoting the importance of public procurement policy and, indeed, in influencing it.

Rwyf yn ddiolchgar iawn i Alun Ffred Jones am ei ymateb. Mae wedi bod yn weithgar iawn wrth hyrwyddo pwysigrwydd polisi caffael cyhoeddus ac, yn wir, wrth ddylanwadu arno.

I am sure that Alun Ffred Jones will recognise that, as he indicated, the Welsh procurement policy has had a positive impact. It will continue to be monitored. I have already responded to Paul Davies on the opportunities that may need to be brought forward in terms of legislative action and in relation to the importance of EU directives, and the fact that we welcome the direction that it is taking in terms of our policy issues. I also recognise that regulation is very important in this respect, and we need to look at that as well.

Rwyf yn siŵr y bydd Alun Ffred Jones yn cydnabod, fel y dywedodd, bod polisi caffael Cymru wedi cael effaith gadarnhaol. Bydd yn parhau i gael ei fonitro. Rwyf eisoes wedi ymateb i Paul Davies am y cyfleoedd y gallai fod angen eu cyflwyno o ran deddfu ac o ran pwysigrwydd cyfarwyddebau'r UE, a'r ffaith ein bod yn croesawu'r cyfeiriad y mae ein materion polisi'n symud iddo. Rwyf hefyd yn cydnabod bod rheoleiddio'n bwysig iawn yn hyn o beth, ac mae angen inni edrych ar hynny hefyd.

In terms of the analysis of the 2010-11 procurement expenditure, it illustrated that 52% of Welsh procurement spend was won by Wales-based suppliers. That is an increase from the baseline of 35% in 2004. We are now undertaking the exercise to analyse the 2012-13 spend data—that is due to report at the end of this month—but a further exercise to analyse 2013-14 data will start in the summer. Of course, I will be reporting back on the results of those analyses. It is important, as is reflected in my report and statement, that we recognise how the use of the supply qualification information database—the SQUID—has helped construction suppliers, particularly those with headquarters in Wales, to win 75% of all major construction contracts and frameworks published on Sell2Wales, compared to around 30% in 2010-11. Again, that is a huge increase and improvement in terms of delivery as a result of those contracts and frameworks.

O ran y dadansoddiad o wariant caffael 2010-11, dangosodd fod 52% o wariant caffael Cymru wedi'i ennill gan gyflenwyr wedi'u lleoli yng Nghymru. Mae hynny'n gynnydd o'r llinell sylfaen o 35% yn 2004. Rydym nawr yn defnyddio'r ymarfer i ddadansoddi data gwariant 2012-13—rydym yn disgwyl adroddiad ar ddiwedd y mis yma—ond bydd ymarfer pellach i ddadansoddi data 2013-14 yn dechrau yn yr haf. Wrth gwrs, byddaf yn adrodd yn ôl am ganlyniadau'r dadansoddiadau hynny. Mae'n bwysig, fel yr adlewyrchir yn fy adroddiad a'm datganiad, ein bod yn cydnabod sut mae defnyddio'r gronfa ddata gwybodaeth am gymwysterau cyflenwyr—y SQUID—wedi helpu cyflenwyr adeiladu, yn enwedig y rhai sydd â'u pencadlys yng Nghymru, i ennill 75% o'r holl gontractau adeiladu a fframweithiau mawr a gyhoeddwyd ar GwerthwchiGymru, o gymharu â tua 30% yn 2010-11. Unwaith eto, mae hynny'n gynnydd ac yn welliant enfawr o ran cyflenwi o ganlyniad i'r contractau a'r fframweithiau hynny.

We also recognise that the capability and the impact of procurement have been vastly improved by Home-grown Talent. I am sure that that has had an impact on the delivery by Gwynedd Council of its successful procurement of the contract for school meals. We recognise that it is very clearly following the food procurement route planner on Sell2Wales, which is about providing advice on safe food and promoting local sourcing and sustainable food buying. Of course, it is very clear that we need to ensure that that good practice is acknowledged and recognised by all authorities across Wales. As you will see next week, in Procurement Week, a number of authorities and those involved in procurement have been shortlisted for awards in these areas.

Rydym hefyd yn cydnabod bod y gallu i gaffael, a'i effaith, wedi gwella'n sylweddol o ganlyniad i Ddoniau Cymru. Rwyf yn siŵr bod hynny wedi cael effaith ar y ffaith bod Cyngor Gwynedd wedi llwyddo i gaffael eu contract prydau ysgol. Rydym yn cydnabod eu bod yn amlwg iawn yn dilyn y canllaw cynllunio caffael bwyd ar GwerthwchiGymru, sy'n rhoi cyngor am fwyd diogel a hyrwyddo defnyddio cynnyrch lleol a phrynu bwyd yn gynaliadwy. Wrth gwrs, mae'n amlwg iawn bod angen inni sicrhau bod yr arfer da hwnnw'n cael ei gydnabod gan bob awdurdod ledled Cymru. Fel y byddwch yn gweld yr wythnos nesaf, yn ystod yr Wythnos Caffael, mae nifer o awdurdodau lleol a rhai sy'n ymwneud â chaffael ar y rhestr fer am wobrau yn y meysydd hyn.

I do believe that we are making great progress, but there is more to be done and I will be coming back on the latest statistics as soon as possible.

Rwyf yn credu ein bod yn gwneud cynnydd gwych, ond mae mwy i'w wneud a dof yn ôl i sôn am yr ystadegau diweddaraf cyn gynted ag y gallaf.

15:52 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Eluned Parrott.

Galwaf lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Eluned Parrott.

15:52 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I would like to thank the Minister for her statement today and also for the report that was published earlier today on progress, which details some of the actions that have been taken. However, I had expected that a progress report would be designed to mark progress made against agreed targets. That is clearly not what we have here. In my view, this report is rather selective, rather than comprehensive, in terms of the data given. While some figures are given, no targets are set out, so it is very difficult to assess whether it would be reasonable, for example, Minister, to describe 11 procurement executives trained through the programme having got a job as a stunning success for the Government's programme or a miserable failure. It very much depends on the context and, in this instance, there simply is no context.

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw a hefyd am yr adroddiad a gyhoeddwyd yn gynharach heddiw ar gynnydd, sy'n rhoi manylion rhai o'r camau gweithredu a gymerwyd. Fodd bynnag, roeddwn wedi disgwyl y byddai adroddiad cynnydd wedi'i gynllunio i nodi'r cynnydd a wnaethpwyd yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt. Yn amlwg, nid dyna sydd gennym yma. Yn fy marn i, mae'r adroddiad hwn braidd yn ddetholus, yn hytrach nag yn gynhwysfawr, o ran y data a roddir. Er bod rhai ffigurau wedi'u rhoi, nid oes targedau wedi'u hamlinellu, felly mae'n anodd iawn asesu a fyddai'n rhesymol, er enghraifft, Weinidog, disgrifio'r ffaith bod 11 o swyddogion gweithredol caffael a hyfforddwyd drwy'r rhaglen wedi cael swydd, fel llwyddiant trawiadol i raglen y Llywodraeth neu fel methiant truenus. Mae'n dibynnu'n fawr iawn ar y cyd-destun ac, yn yr achos hwn, nid oes dim cyd-destun.

To go back to that particular example, there is no detail on how much it costs to train each of those executives. There is no detail on what proportion of the profession's intake this represents. There is no detail on whether the profession is growing or shrinking overall. There is no idea as to what number of trained executives the Welsh Government assessed that it needed to deliver in order to see a noticeable change in the culture and outlook of the profession and the esteem in which the profession is held in the public sector in Wales. Those are the overall outcomes that we were originally talking about when this policy direction was set out.

I fynd yn ôl at yr enghraifft benodol honno, nid oes manylion am faint mae'n ei gostio i hyfforddi pob un o'r swyddogion gweithredol hynny. Nid oes manylion am ba gyfran o gymeriant y proffesiwn mae hyn yn ei chynrychioli. Nid oes manylion am a yw'r proffesiwn yn tyfu neu'n crebachu'n gyffredinol. Nid oes syniad ynghylch pa nifer o weithredwyr hyfforddedig y penderfynodd Llywodraeth Cymru fod angen iddynt eu cyflenwi er mwyn gweld newid amlwg yn niwylliant a rhagolygon y proffesiwn a'r parch a gaiff y proffesiwn gan y sector cyhoeddus yng Nghymru. Dyna'r canlyniadau cyffredinol yr oeddem yn sôn amdanynt yn wreiddiol pan nodwyd y cyfeiriad polisi hwn.

Minister, we cannot judge the success or failure of a programme by anecdote, frankly. This is not a robust or scientific way to proceed. I thank you for reporting back on an area of work that I know that you are deeply committed to and that you are very proud of, but I would ask you to publish a robust dataset, including that comparative data, so that we can be convinced that you are as successful as you have set out today. I wonder, Minister, whether you will give an undertaking to publish that comparative data, to give us a decent chance of understanding whether this is progress in line with the targets that you would wish to set for yourself.

Weinidog, a bod yn onest, ni allwn ddefnyddio hanesyn i farnu llwyddiant neu fethiant rhaglen. Nid yw hon yn ffordd gadarn na gwyddonol i symud ymlaen. Rwyf yn diolch ichi am adrodd yn ôl ar faes gwaith yr wyf yn gwybod eich bod wedi ymrwymo'n ddwfn iddo a'ch bod yn falch iawn ohono, ond gofynnaf ichi gyhoeddi set ddata cadarn, gan gynnwys y data cymharol hynny, fel y gallwn fod yn argyhoeddedig eich bod mor llwyddiannus ag yr ydych wedi'i nodi heddiw. Tybed, Weinidog, a wnewch addo cyhoeddi'r data cymharol hynny, er mwyn rhoi cyfle da inni ddeall a yw hyn yn gynnydd yn unol â'r targedau y byddech yn dymuno'u gosod i chi eich hun.

I have some other specific points, Minister. Regarding who exactly is winning the contracts, I too have concerns that there is no analysis of the size of the companies winning contracts published here. I would echo Paul Davies's comments on the importance of opening procurement to Wales's SMEs. The SQUID process systemises and simplifies things in many ways, but can you give us some idea of what assessments you have made of whether SMEs, and particularly smaller companies, are able to engage in that process effectively?

Mae gennyf rai pwyntiau penodol eraill, Weinidog. Ynghylch pwy yn union sy'n ennill y contractau, mae gennyf finnau bryderon nad oes dadansoddiad o faint y cwmnïau sy'n ennill y contractau wedi'i gyhoeddi yma. Byddwn yn ategu sylwadau Paul Davies am bwysigrwydd agor caffael i fusnesau bach a chanolig Cymru. Mae'r broses SQuID yn systemu ac yn symleiddio pethau mewn llawer ffordd, ond a allwch roi rhyw syniad o'r hyn yr ydych wedi'i wneud i asesu a yw busnesau bach a chanolig, a chwmnïau llai yn enwedig, yn gallu cymryd rhan yn y broses honno'n effeithiol?

You talked about SMEs picking up opportunities through local supply chains from bigger companies, and, of course, that is true, but some of the value of that contract is lost in the subcontracting process. Can you tell us what progress has been made on encouraging public bodies to unbundle contracts into smaller parcels that SMEs feel confident enough to bid for directly, so that they can benefit from the full value of the contract that they have won?

Soniasoch am fusnesau bach a chanolig yn cymryd cyfleoedd drwy gadwyni cyflenwi lleol gan gwmnïau mwy, ac, wrth gwrs, mae hynny'n wir, ond caiff rhywfaint o werth y contract hwnnw ei golli yn y broses is-gontractio. A allwch ddweud wrthym pa gynnydd sydd wedi'i wneud i annog cyrff cyhoeddus i ddadfwndelu contractau'n ddarnau llai y bydd busnesau bach a chanolig yn teimlo'n ddigon hyderus i wneud cais amdanynt yn uniongyrchol, fel y gallant elwa ar werth llawn y contract y maent wedi'i ennill?

Finally, when it comes to indigenous businesses, I am disappointed that it is not detailed in the report in any greater length than it is in the statement that you have made today. I would welcome a clear definition of how you would describe an indigenous business, whether that is a business that has an office or a base in Wales or a business that has its primary registered office in Wales, because, clearly, there is a difference. In your statement, you say that Welsh contractors now win 75% of all major construction awards through Sell2Wales. I wonder whether you could tell us what proportion of construction contracts through other means are won by indigenous businesses. How does that success rate compare with other sectors? Again, there is no detail on how other sectors are faring through the procurement process, and that is a concern to me. Could you provide us with greater detail, Minister, in terms of the data, and, if so, can you tell us when you might find that achievable?

Yn olaf, o ran busnesau cynhenid, rwyf wedi fy siomi nad oes mwy o fanylion am hynny yn yr adroddiad nag oedd yn y datganiad a wnaethoch heddiw. Byddwn yn croesawu diffiniad clir o sut y byddech yn disgrifio busnes cynhenid, boed yn fusnes sydd â swyddfa neu ganolfan yng Nghymru neu'n fusnes sydd â'i brif swyddfa gofrestredig yng Nghymru, oherwydd, yn amlwg, mae gwahaniaeth. Yn eich datganiad, rydych yn dweud bod contractwyr o Gymru bellach yn ennill 75% o'r holl ddyfarniadau adeiladu mawr drwy GwerthwchiGymru. Tybed a allech ddweud wrthym pa gyfran o gontractau adeiladu drwy ddulliau eraill sy'n cael eu hennill gan fusnesau cynhenid? Sut y mae'r gyfradd llwyddiant honno'n cymharu â sectorau eraill? Unwaith eto, nid oes manylion am hynt sectorau eraill drwy'r broses gaffael, ac mae hynny'n peri pryder imi. A allech roi mwy o fanylion inni, Weinidog, o ran y data, ac, os gallech, a allwch ddweud wrthym pryd y gallech gyflawni hynny?

15:56 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is a progress report on the Wales procurement policy statement, and that is what is indicated, not just in the report, but in the statistics that I have already given in my statement. I certainly will not be repeating that, expect that it is important to recognise, in terms of the impact of our public procurement policy statement, that we have made a huge impact in community benefits. That has not been raised this afternoon, but I will give those statistics. The first 27 projects, worth £346 million, show that over 84% has been reinvested in Wales. A sum of £94.7 million has been invested directly in salaries to Welsh citizens and £205 million has been invested in Wales-based businesses—80% of which were Welsh SMEs. Also, as a result of that community-benefit approach—which I hope you would welcome, Eluned Parrott; it has certainly been recognised outside of Wales, in terms of awards that have been won so far—some 517 disadvantaged people have been helped into employment, and that includes over 13,000 training weeks provided. Therefore, it is quite clear that the procurement policy statement that I am making is demonstrating progress.

Adroddiad cynnydd am ddatganiad polisi caffael Cymru yw hwn, a dyna'r hyn a nodwyd, nid yn unig yn yr adroddiad, ond yn yr ystadegau yr wyf eisoes wedi'u rhoi yn fy natganiad. Yn sicr, ni fyddaf yn ailadrodd hynny, ond mae'n bwysig cydnabod, o ran effaith ein datganiad polisi caffael cyhoeddus, ein bod wedi cael effaith enfawr ar fudd-daliadau cymunedol. Nid yw hynny wedi cael ei godi y prynhawn yma, ond rhof yr ystadegau hynny. Mae'r 27 prosiect cyntaf, gwerth £346 miliwn, yn dangos bod dros 84% wedi'i ail-fuddsoddi yng Nghymru. Mae swm o £94.7 miliwn wedi cael ei fuddsoddi'n uniongyrchol mewn cyflogau i ddinasyddion Cymru ac mae £205 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn busnesau wedi'u lleoli yng Nghymru—roedd 80% ohonynt yn fusnesau bach a chanolig yng Nghymru. Hefyd, o ganlyniad i'r ymagwedd buddion i'r gymuned honno—yr wyf yn gobeithio y byddech yn ei chroesawu, Eluned Parrott; yn sicr mae wedi cael cydnabyddiaeth y tu allan i Gymru, o ran gwobrau sydd wedi'u hennill hyd yn hyn—mae tua 517 o bobl dan anfantais wedi cael cymorth i gael cyflogaeth, ac mae hynny'n cynnwys darparu dros 13,000 wythnos o hyfforddiant. Felly, mae'n eithaf amlwg bod y datganiad polisi caffael yr wyf yn ei wneud yn dangos cynnydd.

It is important that we look at the opportunities for smaller and micro businesses. You will be aware, and I have made it clear in my statement and report, that we have a joint bidding guide, which was launched last October, to help those smaller or micro businesses to form consortia, and to help buyers to make procurement processes open to consortia bids.

Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar y cyfleoedd i fusnesau llai a busnesau micro. Byddwch yn ymwybodol, ac rwyf wedi'i gwneud yn glir yn fy natganiad a'm hadroddiad, bod gennym ganllaw ymgeisio ar y cyd, a lansiwyd fis Hydref diwethaf, i helpu'r busnesau llai neu'r busnesau micro hynny i ffurfio consortia, ac i helpu prynwyr i sicrhau bod prosesau caffael yn addas i geisiadau gan gonsortia.

In terms of the current picture of the proportion of procurement expenditure that is won by those indigenous local Wales-based businesses, we are undergoing this exercise to review procurement expenditure, as has already been reported this afternoon, from 2012-13. It is very comprehensive, and it involves analysis of hundreds of thousands of lines of data, and great care is needed to ensure that the reported outcome is accurate. However, we will complete that exercise and come back with the results.

O ran y darlun presennol o gyfran y gwariant caffael sy'n cael ei ennill gan y busnesau cynhenid lleol hynny sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, rydym yn cynnal yr ymarfer hwn i adolygu gwariant caffael, fel y nodwyd eisoes y prynhawn yma, yn 2012-13. Mae'n gynhwysfawr iawn, ac mae'n cynnwys dadansoddiad o gannoedd o filoedd o linellau o ddata, ac mae angen gofal mawr i sicrhau bod y canlyniad a adroddir yn gywir. Fodd bynnag, byddwn yn cwblhau'r ymarfer hwnnw ac yn dod yn ôl gyda'r canlyniadau.

It is also very clear, in terms of the specific guidance that we have provided, that we are, for example, enabling—particularly through our framework policies—smaller local suppliers to benefit. That was clear in terms of the delivery of the north Wales construction framework. It is those contractors from that region, from north Wales, that have secured places on the agreement.

Mae hefyd yn glir iawn, o ran y canllawiau penodol yr ydym wedi'u darparu, ein bod, er enghraifft, yn galluogi cyflenwyr lleol llai i elwa, yn enwedig drwy ein polisïau fframwaith. Roedd hynny'n glir wrth inni gyflenwi fframwaith adeiladu'r gogledd. Y contractwyr hynny o'r ardal honno, o'r gogledd, sydd wedi sicrhau lleoedd ar y cytundeb.

15:59 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There are three Members left who wish to ask a question. I will call you all, but, given the time, I will ask you for one question each. Minister, I would appreciate succinct responses. I call on Mick Antoniw first.

Mae tri Aelod yn weddill sy'n dymuno gofyn cwestiwn. Galwaf arnoch i gyd, ond, ac ystyried yr amser, gofynnaf ichi am un cwestiwn yr un. Weinidog, byddwn yn gwerthfawrogi ymatebion cryno. Galwaf ar Mick Antoniw yn gyntaf.

15:59 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is a great pity that, when backbenchers want to ask question on matters such as this, we are so restricted on time after such long questions. I will ask you, therefore, a very direct question: how will you use ethical procurement not just to create jobs and training opportunities, but also to ensure that safety, training standards and quality of employment and wages are built into that? You will have seen the two reports about the doubling under the Tories of zero-hour contracts, and you will have seen the gap growing between private and public sector pay, which is essentially private sector workers being forced down and down? How can we ensure that ethical procurement can contribute to that?

Mae'n drueni mawr, pan fydd ar aelodau meinciau cefn eisiau gofyn cwestiwn am faterion fel hyn, ein bod yn cael cyn lleied o amser ar ôl cwestiynau mor hir. Felly, gofynnaf gwestiwn uniongyrchol iawn ichi: sut y byddwch yn defnyddio caffael moesegol nid yn unig i greu swyddi a chyfleoedd hyfforddi, ond hefyd i sicrhau bod diogelwch, safonau hyfforddi ac ansawdd cyflogaeth a chyflogau'n rhan o hynny? Byddwch wedi gweld y ddau adroddiad am ddyblu contractau dim oriau dan y Torïaid, a byddwch wedi gweld y bwlch sy'n tyfu rhwng cyflogau'r sectorau preifat a chyhoeddus, lle caiff gweithwyr y sector preifat eu gorfodi i lawr ac i lawr yn y bôn. Sut y gallwn sicrhau y gall caffael moesegol gyfrannu at hynny?

16:00 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We quite clearly can ensure that through our public procurement policy statement. I would also say that that is clearly in accordance with European procurement directives, which is a key reason why we are proud to be part of the European Union.

Rydym yn eithaf clir yn gallu sicrhau hynny drwy ein datganiad polisi caffael cyhoeddus. Byddwn hefyd yn dweud bod hynny'n amlwg yn cyd-fynd â chyfarwyddebau caffael Ewropeaidd, sy'n rheswm allweddol pam yr ydym yn falch o fod yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd.

16:00 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I want to congratulate you on this statement, which I very much welcome. I also commend your hard work in elevating what was a very boring area of work, previous to this Assembly, to something that is at the forefront and centre of Government policy, where it should be. I wanted to ask you something about the transposition of the directives into British law. I know, Minister, that you are keeping a close eye on how the UK Government does that transposition, but I would like you to pay particular attention to three areas. The first of these is tax policy, because the directives, as they are at the moment, are better in terms of being able to penalise companies that do not pay all of their taxes when doing public procurement than are the current regulations. I would like to see that position being reversed when the new directives are transposed.

Weinidog, hoffwn eich llongyfarch ar y datganiad hwn, ac rwyf yn ei groesawu'n fawr. Rwyf hefyd yn cymeradwyo eich gwaith caled i ddyrchafu'r maes gwaith hwn, a oedd yn arfer bod yn faes diflas iawn cyn y Cynulliad hwn, i fod yn rhywbeth sydd ar flaen y gad ac yn ganolog i bolisi'r Llywodraeth, fel y dylai fod. Roeddwn am ofyn rhywbeth ichi am drosi'r cyfarwyddebau'n gyfraith Prydain. Gwn, Weinidog, eich bod yn cadw llygad barcud ar sut mae Llywodraeth y DU yn gwneud y trosi hwnnw, ond hoffwn ichi dalu sylw arbennig i dri maes. Y cyntaf o'r rhain yw polisi treth, oherwydd mae'r cyfarwyddebau, fel y maent ar hyn o bryd, yn well na'r rheoliadau presennol o ran gallu cosbi cwmnïau nad ydynt yn talu eu holl drethi wrth wneud caffael cyhoeddus. Hoffwn weld y sefyllfa honno'n cael ei gwrthdroi pan gaiff y cyfarwyddebau newydd eu trosi.

In terms of standards for international factories, and so on, we all remember the collapse of the Rana Plaza factory in Bangladesh. I would like to see the transposition of the ability to require international standards such as SA8000 made clear in the British regulations.

O ran safonau ar gyfer ffatrïoedd rhyngwladol, ac ati, rydym i gyd yn cofio cwymp y ffatri Rana Plaza ym Mangladesh. Hoffwn weld trosi'r gallu i fynnu safonau rhyngwladol megis SA8000 wedi'i wneud yn glir yn rheoliadau Prydain.

Thirdly, on the environmental and social regulations, regarding those things that are left as voluntary for member states to transpose in the current directives—life cycle costing, mandatory sustainable production processes, Fairtrade products, eco labels and environmental management processes, and even violations of environmental and labour law—Minister, I would like very much to be assured that you will ensure that all of these areas will be transposed into British law, so that Wales can continue to be at the absolute cutting edge of good public procurement practice, as it is now, thanks to you.

Yn drydydd, ar y rheoliadau amgylcheddol a chymdeithasol, ynghylch y pethau hynny sy'n cael eu gadael yn wirfoddol i aelod-wladwriaethau eu trosi yn y cyfarwyddebau presennol—costio cylch oes, prosesau cynhyrchu cynaliadwy gorfodol, cynhyrchion Masnach Deg, labeli eco a phrosesau rheoli amgylcheddol, a hyd yn oed troseddau yn erbyn cyfraith amgylcheddol a chyfraith llafur —Weinidog, hoffwn yn fawr iawn gael sicrwydd y gwnewch sicrhau y caiff yr holl feysydd hyn eu trosi i mewn i gyfraith Prydain, fel y gall Cymru barhau i fod ar flaen y gad o ran arferion caffael cyhoeddus da, fel y mae yn awr, diolch i chi.

16:02 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Julie James, who chaired that important working group for the Enterprise and Business Committee when we were looking at the draft EU procurement directives in the consultation. As a result of that work, I have had clear engagement with UK Government Ministers on this point. The new EU procurement directives are due to be transposed, as I said, later this year. I give my commitment that I will maximise the opportunities to ensure that they strengthen the application of Welsh procurement policy in all of the areas that you identified. That also leads us to look at what we may have to take forward in terms of regulation and legislative opportunities.

Diolch i Julie James, a gadeiriodd y gweithgor pwysig hwnnw i'r Pwyllgor Menter a Busnes pan oeddem yn edrych ar y cyfarwyddebau caffael UE drafft yn yr ymgynghoriad. O ganlyniad i'r gwaith hwnnw, rwyf wedi cael ymgysylltiad clir gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ar y pwynt hwn. Caiff cyfarwyddebau caffael newydd yr UE eu trosi, fel y dywedais, yn nes ymlaen eleni. Rhoddaf fy ymrwymiad y byddaf yn gwneud y gorau o'r cyfleoedd i sicrhau eu bod yn cryfhau sut y defnyddir y polisi caffael yng Nghymru ym mhob un o'r meysydd a nodwyd gennych. Mae hynny hefyd yn ein harwain i edrych ar yr hyn a allai fod gennym i fwrw ymlaen ag ef o ran rheoleiddio a chyfleoedd deddfwriaethol.

16:03 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finally, I call Ann Jones.

Yn olaf, galwaf ar Ann Jones.

16:03 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the statement as well, particularly the progress made on public procurement, but also the work undertaken on blacklisting and the way in which we will use procurement to stamp out that awful practice.

Croesawaf y datganiad hefyd, yn enwedig y cynnydd a wnaed o ran caffael cyhoeddus, ond hefyd y gwaith a wnaethpwyd ar esgymuno a'r ffordd y byddwn yn defnyddio caffael i ddileu'r arfer ofnadwy hwnnw.

*Daeth Rhodri Glyn Thomas i'r Gadair am 16:03.*

*Rhodri Glyn Thomas took the Chair at 16:03.*

## Ann Jones Bywgraffiad Biography

Minister, the way in which local authorities use procurement will save money for the public purse, but it could also provide a boost for orders to local SMEs. It is important that we do not disadvantage our SMEs. Often, big companies are able to develop very detailed bids with huge legal teams and with people that our SMEs do not have. How can we level that playing field so that our SMEs can compete in the same procurement field as those very big companies?

Weinidog, bydd y ffordd y bydd awdurdodau lleol yn defnyddio caffael yn arbed arian i'r pwrs cyhoeddus, ond gallai hefyd roi hwb i archebion i fusnesau bach a chanolig lleol. Mae'n bwysig nad ydym yn rhoi ein busnesau bach a chanolig dan anfantais. Yn aml, mae cwmnïau mawr yn gallu datblygu cynigion manwl iawn gyda thimau cyfreithiol enfawr a gyda phobl nad ydynt ar gael i'n busnesau bach a chanolig. Sut y gallwn lefelu'r maes chwarae fel y gall ein busnesau bach a chanolig gystadlu yn yr un maes caffael â'r cwmnïau mawr iawn hynny?

16:04

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That, again, is a very important point made by Ann Jones. I think that it does go back to the fact that we need to ensure that those who are procuring, particularly local authorities in the public sector and the health service, are fit, capable and competent in terms of procurement practice, and to recognise that part of their responsibility is to their local SMEs and suppliers. The framework contracts that we have developed, particularly from the lessons learnt exercise in terms of the north Wales schools framework, has enabled SMEs in terms of allotting opportunities to engage with the supply chain. However, I would also comment again on the fact that all 22 local authorities have now been checked. The procurement fitness checks have taken place, and I am sure that the action plans that are now being communicated to each council will, importantly, focus on how they have done, as a result of improved capability, and if they need to take action they will be expected to do so, but it will also benefit their local economies.

Mae hwnnw, unwaith eto, yn bwynt pwysig iawn gan Ann Jones. Credaf ei fod yn mynd yn ôl at y ffaith bod angen inni sicrhau bod y rhai sy'n caffael, yn enwedig awdurdodau lleol yn y sector cyhoeddus a'r gwasanaeth iechyd, yn addas, yn fedrus ac yn gymwys o ran ymarfer caffael, a chydnabod bod ganddynt gyfrifoldeb i'w busnesau bach a chanolig lleol a'u cyflenwyr. Mae'r contractau fframwaith a ddatblygwyd gennym, yn enwedig o'r ymarfer gwersi a ddysgwyd o ran fframwaith ysgolion y gogledd, wedi galluogi busnesau bach a chanolig i ddyrannu cyfleoedd i ymgysylltu â'r gadwyn gyflenwi. Fodd bynnag, gwnaf sylw unwaith eto am y ffaith bod pob un o'r 22 o awdurdodau lleol bellach wedi cael eu gwirio. Mae'r gwiriadau ffitrwydd caffael wedi'u cynnal, ac rwyf yn siŵr y bydd y cynlluniau gweithredu sydd yn awr yn cael eu lledaenu i bob cyngor, yn bwysig, yn canolbwyntio ar sut y maent wedi gwneud, o ganlyniad i well gallu, ac os oes angen iddynt gymryd camau bydd disgwyl iddynt wneud hynny, ond bydd hefyd o fudd i'w heconomïau lleol.

16:05

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr iawn, Weinidog.

Thank you very much, Minister.

16:05

# Yr Ail Gyllideb Atodol 2013-14

# The Second Supplementary Budget 2013-14

Senedd.tv Fideo Video

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Symudwn yn awr at ddadl ar yr ail gyllideb atodol 2013-14 a galwaf, unwaith yn rhagor, ar y Gweinidog Cyllid, Jane Hutt.

We now move to the debate on the second supplementary budget 2013-14 and I call, once again, on the Minister for Finance, Jane Hutt.

Cynnig NDM5433 Lesley Griffiths

Motion NDM5433 Lesley Griffiths

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 20.30, yn cymeradwyo'r Ail Gyllideb Atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013-14 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth, 11 Chwefror 2014.

To propose that the Assembly, in accordance with Standing Order 20.30, approves the Second Supplementary Budget for the financial year 2013-14 laid in the Table Office and emailed to Assembly Members on Tuesday, 11 February 2014.

16:05

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

The second supplementary budget, which I published on 11 February, reflects all the changes we have made since the first supplementary budget, which was approved last July. By 2015-16, the Welsh budget will be 10% lower in real terms than it was in 2010-11. It is against this backdrop that we remain resolute in our commitment to protect our priorities. I would like to take this opportunity to thank the Finance Committee for its scrutiny of the second supplementary budget and I will, of course, respond in detail on the specific recommendations in due course.

Mae'r ail gyllideb atodol, a gyhoeddais ar 11 Chwefror, yn adlewyrchu'r holl newidiadau yr ydym wedi'u gwneud ers y gyllideb atodol gyntaf, a gymeradwywyd fis Gorffennaf diwethaf. Erbyn 2015-16, bydd cyllideb Cymru 10% yn is mewn termau real nag ydoedd yn 2010-11. Yn erbyn y cefndir hwn, rydym yn parhau'n benderfynol yn ein hymrwymiad i ddiogelu ein blaenoriaethau. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid am eu gwaith craffu ar yr ail gyllideb atodol a byddaf, wrth gwrs, yn ymateb yn fanwl ar yr argymhellion penodol maes o law.

We have been clear that providing a safe and sustainable Welsh NHS is a priority for this Government. In line with this, I announced in October an additional three-year funding package for the Welsh NHS of £570 million, including £150 million in this financial year. The Minister for Health and Social Services has kept health budgets under close review and continues to monitor pressures across the health and social services main expenditure group. Similarly, all Ministers have continued to monitor opportunities for identifying offsetting savings without having an adverse impact on service delivery. As a result of this careful financial management, I have been able to allocate an additional £50 million to help to manage pressures in the health budget. I welcome the acknowledgement of the importance of this investment in the Finance Committee's report on the second supplementary budget.

Rydym wedi bod yn glir bod darparu GIG diogel a chynaliadwy yng Nghymru'n flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon. Yn unol â hyn, cyhoeddais ym mis Hydref becyn ariannu tair blynedd ychwanegol ar gyfer y GIG yng Nghymru o £570 miliwn, gan gynnwys £150 miliwn yn y flwyddyn ariannol hon. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi parhau i adolygu cyllidebau iechyd yn agos ac mae'n parhau i fonitro'r pwysau ar draws prif grŵp gwariant iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Yn yr un modd, mae'r holl Weinidogion wedi parhau i fonitro cyfleoedd i ganfod arbedion sy'n gwrthbwyso ei gilydd heb gael effaith anffafriol ar ddarparu gwasanaethau. O ganlyniad i'r rheoli ariannol gofalus hwn, rwyf wedi gallu dyrannu £50 miliwn ychwanegol i helpu i reoli pwysau yn y gyllideb iechyd. Rwyf yn croesawu'r gydnabyddiaeth o bwysigrwydd y buddsoddiad hwn yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar yr ail gyllideb atodol.

We have also been clear that supporting communities that have been hit by the recent bad weather has been a priority for this Government. Since Christmas, we have announced a substantial package of investment to ensure that the immediate repairs required as a result of the damage done are undertaken as a matter of priority. Also, there is investment to support repair works to tourism infrastructure, helping the tourism industry to get back on its feet and ensuring that Wales is open for business.

Rydym hefyd wedi bod yn glir bod cefnogi cymunedau a gafodd eu taro gan y tywydd gwael diweddar wedi bod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon. Ers y Nadolig, rydym wedi cyhoeddi pecyn sylweddol o fuddsoddiad i sicrhau bod y gwaith atgyweirio sydd ei angen ar unwaith o ganlyniad i'r difrod a wnaethpwyd yn cael ei wneud fel mater o flaenoriaeth. Hefyd, ceir buddsoddiad i ategu gwaith atgyweirio seilwaith twristiaeth, i helpu'r diwydiant twristiaeth i godi'n ôl ar ei draed a sicrhau bod Cymru ar agor i fusnes.

The supplementary budget provides for a transfer of nearly £5 million from revenue to capital to deliver this Government's £240 million flood and coastal defence improvement programme. Together with over £50 million from the European regional development fund, this brings our total investment to some £300 million. We believe that it is because of our sustained investment that Welsh flood defences stood up well over the recent months, protecting over 99% of at-risk properties. We are also continuing to target investment on interventions that deliver the greatest support to projects that create and maintain jobs. The supplementary budget provides for £80 million in support of the priorities in the Wales infrastructure investment plan. This extra funding builds on the additional £76 million that I allocated in the first supplementary budget, bringing the total additional capital investment allocated in-year to over £150 million.

Mae'r gyllideb atodol yn darparu ar gyfer trosglwyddo bron i £5 miliwn o refeniw i gyfalaf i gyflenwi rhaglen gwerth £240 miliwn y Llywodraeth hon i wella amddiffyn rhag llifogydd ac amddiffyn yr arfordir. Ynghyd â dros £50 miliwn o gronfa datblygu rhanbarthol Ewrop, mae hyn yn dod â chyfanswm ein buddsoddiad i ryw £300 miliwn. Rydym yn credu mai oherwydd ein buddsoddiad parhaus y mae amddiffynfeydd rhag llifogydd yng Nghymru wedi sefyll cystal dros y misoedd diwethaf, gan ddiogelu dros 99% o'r eiddo mewn perygl. Rydym hefyd yn parhau i dargedu buddsoddiad at ymyriadau sy'n rhoi'r cymorth mwyaf i brosiectau sy'n creu swyddi ac yn eu cynnal. Mae'r gyllideb atodol yn darparu £80 miliwn i ategu'r blaenoriaethau yn y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru. Mae'r cyllid ychwanegol hwn yn adeiladu ar y £76 miliwn ychwanegol a ddyrennais yn y gyllideb atodol gyntaf, gan godi cyfanswm y buddsoddiad cyfalaf ychwanegol a ddyrannwyd yn ystod y flwyddyn dros £150 miliwn.

This package of investment includes £5 million that will be invested in the social housing grant in 2013-14 to provide between 60 and 100 affordable homes across Wales, which will create or support over 100 jobs during the construction phase. Again, I would like to take this opportunity to thank the Finance Committee for its scrutiny of the supplementary budget and its subsequent report. I hope that Members will welcome the supplementary budget, which shows how, despite the challenges we face, we are determined to protect our priorities.

Mae'r pecyn buddsoddi hwn yn cynnwys £5 miliwn a fuddsoddir yn y grant tai cymdeithasol yn 2013-14 i ddarparu rhwng 60 a 100 o gartrefi fforddiadwy ledled Cymru, a fydd yn creu neu'n cefnogi dros 100 o swyddi yn ystod y cyfnod adeiladu. Unwaith eto, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid am eu gwaith craffu ar y gyllideb atodol a'u hadroddiad dilynol. Rwyf yn gobeithio y bydd yr Aelodau'n croesawu'r gyllideb atodol, sy'n dangos sut yr ydym, er gwaethaf yr heriau yr ydym yn eu hwynebu, yn benderfynol o ddiogelu ein blaenoriaethau.

16:09 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf yn awr ar Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Jocelyn Davies.

I now call on the Chair of the Finance Committee, Jocelyn Davies.

16:09 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Finance Committee met to consider the supplementary budget on 19 February, and we have published our report, which contains a number of conclusions and recommendations. We considered the supplementary budget around the four principles of financial scrutiny. Those are: affordability, prioritisation, value for money and budget process. The committee also considered the supplementary budget memorandum for the Assembly Commission and the Auditor General for Wales, and we were content with those.

Cyfarfu'r Pwyllgor Cyllid i ystyried y gyllideb atodol ar 19 Chwefror, ac rydym wedi cyhoeddi ein hadroddiad, sy'n cynnwys nifer o gasgliadau ac argymhellion. Gwnaethom ystyried y gyllideb atodol yn ôl pedair egwyddor craffu ariannol. Y rheini yw: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a'r broses gyllideb. Hefyd, ystyriodd y pwyllgor y memorandwm cyllideb atodol ar gyfer Comisiwn y Cynulliad ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac roeddem yn fodlon â hwy.

In relation to the Welsh Government's budget, we were pleased to see a clear focus on health funding. However, we had real concerns about whether the current estimates of local health board deficits can be accommodated within the £50 million being made available from reserves.

O ran cyllideb Llywodraeth Cymru, roeddem yn falch o weld ffocws clir ar gyllid iechyd. Fodd bynnag, roedd gennym bryderon gwirioneddol ynghylch a ellir cynnwys yr amcangyfrifon presennol o ddiffygion byrddau iechyd lleol o fewn y £50 miliwn sydd ar gael o gronfeydd wrth gefn.

We were also concerned that this reserve could reduce the incentive for LHBs to achieve a break-even position by year-end. The Minister suggested that the increase in funding for the NHS is a form of preventative spending. The committee did not agree with that and we thought that contingency funding should not be viewed as preventative spend; it cannot be both.

Rydym hefyd yn pryderu y gallai'r gronfa wrth gefn hon leihau'r cymhelliant i fyrddau iechyd lleol gyflawni sefyllfa o adennill costau erbyn diwedd y flwyddyn. Awgrymodd y Gweinidog fod y cynnydd yng nghyllid y GIG yn fath o wariant ataliol. Nid oedd y pwyllgor yn cytuno â hynny, ac rydym yn credu na ddylid ystyried bod cyllid wrth gefn yn gyfystyr â gwariant ataliol; ni all fod y ddau.

One of the main areas of concern of the committee related to welfare reform and the discretionary assistance fund that is costing over £2 million in administrative costs. Members strongly believe that the Minister should ensure that work is undertaken to monitor and review how the fund is administered and whether administrative costs are proportionate. Members also queried why uptake of this fund had been slow, considering that the scheme was replacing the old social fund that was already in existence.

Roedd un o brif feysydd pryder y pwyllgor yn ymwneud â diwygio lles a'r gronfa cymorth dewisol sy'n costio dros £2 miliwn mewn costau gweinyddol. Mae'r Aelodau'n credu'n gryf y dylai'r Gweinidog sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud i fonitro ac adolygu sut y mae'r gronfa'n cael ei gweinyddu ac a yw costau gweinyddol yn gymesur. Holodd yr Aelodau hefyd pam y bu defnyddio'r gronfa hon yn araf, ac ystyried bod y cynllun yn disodli'r hen gronfa gymdeithasol a oedd eisoes yn bodoli.

We looked at the links between the budgets and the programme for government. We support the Minister's aim to improve links between allocations and outcomes and we recommend that the Welsh Government takes the opportunity to include information in terms of resource input, as well as outputs and outcomes, in the next programme for government annual report.

Rydym yn edrych ar y cysylltiadau rhwng y cyllidebau a'r rhaglen lywodraethu. Rydym yn cefnogi bwriad y Gweinidog i wella cysylltiadau rhwng dyraniadau a chanlyniadau ac rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n cymryd y cyfle i gynnwys gwybodaeth am fewnbwn adnoddau, yn ogystal ag allbynnau a chanlyniadau, yn adroddiad blynyddol y rhaglen lywodraethu nesaf.

Following our inquiry on the invest-to-save fund, we made a recommendation that said that invest-to-save funds should only be used where there is robust evidence of savings resulting from the investment, not when there is just a need for extra funding that will probably result in savings over time. The Government accepted this. The committee considered transfers of £12.2 million to the delivery of core NHS services and how this fitted into the ethos of invest-to-save in terms of generating savings through improvement. While we were content with the Minister's assertion that it does fit with the invest-to-save ethos, we recommend that the Minister commits to producing an annual report that details the money being transferred from repayments to invest-to-save. The report should also identify the actual and projected savings to be made from the invest-to-save projects. Therefore, with these observations, we recommend approval of the supplementary budget motion.

Yn dilyn ein hymchwiliad i'r gronfa buddsoddi i arbed, gwnaethom argymhelliad na ddylid ond defnyddio arian buddsoddi i arbed lle ceir tystiolaeth gadarn o arbedion yn deillio o'r buddsoddiad, nid pan fo ond angen arian ychwanegol a fydd yn ôl pob tebyg yn arwain at arbedion dros gyfnod. Derbyniodd y Llywodraeth hyn. Ystyriodd y pwyllgor drosglwyddo £12.2 miliwn i gyflenwi gwasanaethau craidd y GIG a sut yr oedd hyn yn cyd-fynd â'r ethos buddsoddi-i-arbed o ran creu arbedion drwy wella. Er ein bod yn fodlon â honiad y Gweinidog ei fod yn cyd-fynd â'r ethos buddsoddi i arbed, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ymrwymo i gynhyrchu adroddiad blynyddol sy'n manylu ar yr arian sy'n cael ei drosglwyddo o ad-daliadau i fuddsoddi i arbed. Dylai'r adroddiad hefyd nodi'r arbedion gwirioneddol ac arfaethedig a wneir o'r prosiectau buddsoddi i arbed. Felly, gyda'r sylwadau hyn, rydym yn argymell cymeradwyo'r cynnig cyllideb atodol.

16:12 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am pleased to be able to respond to this afternoon's debate on behalf of the Welsh Conservatives. In comparison to the first supplementary budget 2013-14, it can be seen that the total managed expenditure allocated to Welsh Government departments is increasing by 4.1%. Despite that, we did not support the Government's initial budget and, therefore, it will be no surprise to the Minister that we, on this side of the Chamber, will be abstaining on the motion before us this afternoon.

Rwyf yn falch o allu ymateb i'r ddadl y prynhawn yma ar ran Ceidwadwyr Cymru. O'i chymharu â'r gyllideb atodol gyntaf yn 2013-14, gellir gweld bod cyfanswm y gwariant a reolir a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru'n cynyddu 4.1%. Er hynny, ni wnaethom gefnogi cyllideb gychwynnol y Llywodraeth ac, felly, ni fydd yn syndod i'r Gweinidog y byddwn ni, ar yr ochr hon i'r Siambr, yn ymatal ar y cynnig ger ein bron y prynhawn yma.

Despite the measures taken by the Minister in this supplementary budget, Wales still faces deep problems, particularly in our health service: recent figures have shown that 11 out of 17 district general hospitals have higher death rates than should be expected; the number of patients waiting more than 12 hours in Welsh emergency departments has increased; and, 19% of all NHS beds in Wales have been lost between 2003 and 2013. These are certainly worrying times for patients across Wales.

Er gwaethaf y camau a gymerodd y Gweinidog yn y gyllideb atodol, mae Cymru'n dal i wynebu problemau dwfn, yn enwedig yn ein gwasanaeth iechyd: mae ffigurau diweddar wedi dangos bod 11 o 17 o ysbytai cyffredinol dosbarth yn cael cyfraddau marwolaethau uwch nag y dylid eu disgwyl; bod nifer y cleifion sy'n aros dros 12 awr yn adrannau achosion brys Cymru wedi cynyddu; a bod 19% o holl welyau'r GIG yng Nghymru wedi cael eu colli rhwng 2003 a 2013. Mae hwn yn sicr yn gyfnod sy'n peri pryder i gleifion ledled Cymru.

This supplementary budget shows a clear prioritisation of funding to health, which is something that I am sure that we would all agree with. The narrative explains that the main allocations relating to health are in reference to the £150 million funding package arising from the Francis review and a £50 million contingency fund in the event that some health boards will not reach their break-even positions.

Mae'r gyllideb atodol yn dangos yn glir bod cyllid wedi'i flaenoriaethu i iechyd, ac mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn siŵr y byddem i gyd yn cytuno ag ef. Mae'r naratif yn egluro bod y prif ddyraniadau sy'n ymwneud ag iechyd yn cyfeirio at y pecyn ariannu £150 miliwn yn deillio o adolygiad Francis a chronfa wrth gefn o £50 miliwn rhag ofn i rai byrddau iechyd fethu â chyrraedd eu sefyllfaoedd adennill costau.

Members will be aware that the Welsh NHS's chief executive raised concerns with the Assembly's Public Accounts Committee Chair confirming that the overall NHS is forecasting a deficit of almost £77 million after month 10. While the Welsh Government has confirmed a £50 million contingency fund, despite the Welsh Government's best efforts, there is still a gap of around £27 million, which will clearly need to be addressed. The Minister has made it quite clear in evidence to the Finance Committee that there will be no further allocation, so perhaps she would be kind enough to explain, in response to this debate, how this shortfall will be addressed if the deficit does not fall to a level at or below £50 million by year-end.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod prif weithredwr y GIG yng Nghymru wedi mynegi pryderon gyda Chadeirydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad i gadarnhau bod y GIG yn gyffredinol yn rhagweld diffyg o bron i £77 miliwn ar ôl mis 10. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau cronfa wrth gefn o £50 miliwn, er gwaethaf ymdrechion gorau Llywodraeth Cymru, mae bwlch o tua £27 miliwn, ac yn amlwg bydd angen rhoi sylw i hyn. Mae'r Gweinidog wedi ei gwneud yn gwbl glir mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid na fydd dyraniad pellach, felly efallai y byddai mor garedig ag egluro, mewn ymateb i'r ddadl hon, sut y rhoddir sylw i'r diffyg hwn os nad yw'r diffyg yn gostwng i £50 miliwn neu lai erbyn diwedd y flwyddyn.

I would like to echo the comments of the Public Accounts Committee in its report on health finances last week, which said,

'We asked the Welsh Government to supply the financial information at the end of December..., but they were unable to provide us with this until two weeks into February'.

I also share the committee's concerns when it says that

'this suggests the Welsh Government does not have a timely understanding of the finances of NHS Wales. We believe this has a significant impact on the ability to scrutinise the financial performance of NHS Wales. The publication of the current financial position is essential for transparency and accountability.'

Clearly, the Government must get a grip on the way that it manages NHS finances.

Secondly, I would like to raise the issue of Welsh Government borrowing, particularly in respect of financing capital projects. Members will be aware that this supplementary budget includes a number of allocations in relation to financial transactions from the UK Treasury. I was pleased that the Minister was able to confirm that existing borrowing using innovative financing and financial transactions funding from the Treasury would not count against any Welsh Government borrowing limits set out in a future Wales Bill. However, as I understand it, repayment terms for the financial transactions funding have not been formally agreed and are likely to be the subject of negotiation at the next quadrilateral meeting with other UK Ministers for finance. I therefore very much agree with the Finance Committee's view that the Minister should provide written details of the arrangements for paying back financial transactions funding to the Treasury when an agreement is reached, and I very much hope that the Minister will do this as soon as possible. I cannot emphasise enough just how important these economic levers are in terms of generating income for capital projects.

Finally, I would like to mention preventative spending and the Welsh Government's intention in this area. The Chair of the Finance Committee touched on this earlier. As the OBR fiscal sustainability report last year said, the biggest challenge for the UK, looking further ahead, is the ageing population, which will require increasing levels of support, so I am pleased that the Minister has, once again, confirmed that preventative spending is an important consideration when allocating funds. Of course, she claimed in evidence to the Finance Committee that increased funding for the NHS in this supplementary budget is preventative. However, I think that it is quite clear that the additional £50 million for the health service is actually reactive, not proactive and preventative. So, I believe that the Government must be much clearer in the future on what it means by 'preventative spending'. Therefore, in closing, acting Deputy Presiding Officer, in view of the concerns expressed by the Finance Committee and, indeed, the Public Accounts Committee, we on the side of the Chamber will be abstaining on this motion this afternoon.

Hoffwn adleisio sylwadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn eu hadroddiad ar gyllid iechyd yr wythnos diwethaf, a ddywedodd,

'Gofynasom i Lywodraeth Cymru ddarparu'r wybodaeth ariannol ar ddiwedd mis Rhagfyr..., ond ni wnaethant lwyddo i'w rhoi inni tan bythefnos i mewn i fis Chwefror'.

Rwyf hefyd yn rhannu pryderon y pwyllgor pan ddywedant

'mae hyn yn awgrymu nad oes gan Lywodraeth Cymru ddealltwriaeth amserol o gyllid GIG Cymru. Rydym yn credu bod hyn yn cael effaith sylweddol ar y gallu i graffu ar berfformiad ariannol GIG Cymru. Mae cyhoeddi'r sefyllfa ariannol bresennol yn hanfodol ar gyfer tryloywder ac atebolrwydd.'

Yn amlwg, rhaid i'r Llywodraeth gael gafael ar y ffordd y mae'n rheoli cyllid y GIG.

Yn ail, hoffwn godi mater benthyca gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig er mwyn ariannu prosiectau cyfalaf. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod y gyllideb atodol hon yn cynnwys nifer o ddyraniadau sy'n ymwneud â thrafodion ariannol gan Drysorlys y DU. Roeddwn yn falch bod y Gweinidog wedi gallu cadarnhau na fyddai'r benthyca presennol gan ddefnyddio cyllid ariannu a thrafodion ariannol arloesol gan y Trysorlys yn cyfrif yn erbyn unrhyw gyfyngiadau ar fenthyca gan Lywodraeth Cymru a nodir mewn Bil Cymru yn y dyfodol. Fodd bynnag, yn ôl a ddeallaf, nid yw telerau ad-dalu'r cyllid trafodion ariannol wedi cael eu cytuno'n ffurfiol ac mae'n debygol y byddant yn destun trafod yn y cyfarfod pedrochrog nesaf gyda Gweinidogion cyllid eraill y DU. Rwyf, felly, yn cytuno'n gryf iawn â barn y Pwyllgor Cyllid y dylai'r Gweinidog roi manylion ysgrifenedig y trefniadau i ad-dalu'r arian trafodion ariannol i'r Trysorlys pan gaiff cytundeb ei gyrraedd, ac rwyf yn gobeithio'n fawr y gwnaiff y Gweinidog hyn cyn gynted â phosibl. Ni allaf bwysleisio digon pa mor bwysig yw'r liferi economaidd hyn o ran cynhyrchu incwm ar gyfer prosiectau cyfalaf.

Yn olaf, hoffwn sôn am wariant ataliol a bwriad Llywodraeth Cymru yn y maes hwn. Soniodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid am hyn yn gynharach. Fel y dywedodd adroddiad cynaliadwyedd ariannol OBR y llynedd, yr her fwyaf i'r DU, wrth edrych ymhellach i'r dyfodol, yw'r boblogaeth sy'n heneiddio, a fydd yn mynnu mwy o gefnogaeth, felly rwyf yn falch bod y Gweinidog, unwaith eto, wedi cadarnhau bod gwariant ataliol yn ystyriaeth bwysig wrth ddyrannu cyllid. Wrth gwrs, honnodd mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid fod mwy o gyllid i'r GIG yn y gyllideb atodol yn ataliol. Fodd bynnag, rwyf yn meddwl ei bod yn gwbl glir bod yr £50 miliwn ychwanegol i'r gwasanaeth iechyd mewn gwirionedd yn adweithiol, nid yn rhagweithiol ac ataliol. Felly, rwyf yn credu bod rhaid i'r Llywodraeth fod yn llawer cliriach yn y dyfodol ar yr hyn y maent yn ei olygu wrth 'wariant ataliol'. Felly, i gloi, Ddirprwy Lywydd dros dro, ac ystyried y pryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor Cyllid ac, yn wir, gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, byddwn ni ar ochr y Siambr yn ymatal ar y cynnig hwn y prynhawn yma.

16:17 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rydym ni'n falch iawn, yn y gyllideb wreiddiol, fod Plaid Cymru wedi llwyddo i gael cytundeb i greu 5,000 o brentisiaethau er mwyn hyrwyddo cyfleoedd i bobl ifanc. Mae'r gyllideb atodol hon, ar y llaw arall, yn dangos tuedd i gefnogi'n ariannol y byrddau iechyd a hoffwn ystyried canlyniadau gwneud hynny yn y sylwadau byr hyn. Mae perygl, fel mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi, fod taflu arian at y byrddau iechyd wrth iddyn nhw fethu â byw o fewn eu cyllideb yn gallu arwain at arferion gwael. Rwy'n gobeithio y gall y Gweinidog ein sicrhau bod rheolaeth ariannol o fewn y gwasanaeth iechyd yn gwella ac, yn llawn mor bwysig wrth gwrs, y bydd hynny'n arwain at ofal ac allbynnau gwell i'r cleifion maes o law.

We are very pleased that, in the original budget, Plaid Cymru managed to get an agreement to create 5,000 apprenticeships in order to boost opportunities for young people. This supplementary budget, on the other hand, shows a tendency to support the health boards financially and I would like to consider the results of doing that in these brief comments. There is a danger, as the Finance Committee notes, that throwing money at the health boards as they fail to live within their budgets can lead to bad practice. I hope that the Minister can assure us that financial management within the health service is improving, and, just as importantly of course, that that will lead to better care and outcomes for patients in due course.

My wider concern is the implication of protecting NHS spending on the rest of the budget. Now, it may be very laudable—indeed, I may support it—but there are some serious long-term implications for this when you look at the projections made by the Institute for Fiscal Studies about the future of devolved Welsh public spending. What I would like to see beyond this supplementary budget is more of a commentary from the Government about preparing public services for the future, whether that is through responding as a Government to the proposals of the Williams commission or some other means. That is a wider debate, admittedly, but it needs to be dealt with as part of the longer-term public finance agenda in Wales.

Fy mhryder ehangach yw goblygiad diogelu gwariant y GIG ar weddill y gyllideb. Nawr, gallai fod yn ganmoladwy iawn —yn wir, efallai y byddaf yn ei gefnogi—ond mae rhai goblygiadau hirdymor difrifol i hyn pan edrychwch ar y rhagamcanion a wnaeth y Sefydliad Astudiaethau Cyllid am ddyfodol gwariant cyhoeddus datganoledig Cymru. Yr hyn yr hoffwn ei weld y tu hwnt i'r gyllideb atodol hon yw mwy o sylwadau gan y Llywodraeth am baratoi gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer y dyfodol, boed hynny drwy ymateb fel Llywodraeth i gynigion comisiwn Williams neu rywsut arall. Mae honno'n ddadl ehangach, rhaid cyfaddef, ond mae angen ymdrin â hi fel rhan o'r agenda cyllid cyhoeddus mwy hirdymor yng Nghymru.

Turning back to the supplementary budget, I welcome the movements that reflect support for council tax being guaranteed for 2013-14. On local government funding more generally, one of the effects of the Welsh Government's protection of health is that we are seeing inevitable council tax increases to try to save services and protect jobs. We need, I think, a more honest approach to council tax in Wales. Plaid Cymru has said that, where local authorities put up council tax, they should explain clearly which services or improvements the increases will deliver.

I droi'n ôl at y gyllideb atodol, rwyf yn croesawu'r symudiadau sy'n adlewyrchu cefnogaeth i warantu'r dreth gyngor ar gyfer 2013-14. O ran cyllid llywodraeth leol yn fwy cyffredinol, un o effeithiau'r ffaith bod Llywodraeth Cymru'n diogelu iechyd yw ein bod yn gweld cynnydd anochel yn y dreth gyngor i geisio achub gwasanaethau a diogelu swyddi. Mae arnom angen, rwyf yn meddwl, ymagwedd fwy gonest at y dreth gyngor yng Nghymru. Mae Plaid Cymru wedi dweud, lle bydd awdurdodau lleol yn codi'r dreth gyngor, y dylent egluro'n glir pa wasanaethau neu welliannau y bydd y codiadau'n eu cyflenwi.

In Gwynedd, for example, the council tax was increased last year to put more resources into its housing support fund to help mitigate the bedroom tax and other welfare cuts. This year, the council is using it to deliver a pay rise for the lowest-paid council workers. In 2011, the Minister for Finance set out how the Barnett consequential from England's council tax freeze was to be spent on a capital investment stimulus for the Welsh economy. At that time, the focus was very much on boosting the economy as the recovery was nowhere in sight. I am not sure whether it is in sight still, but never mind. However, what I would ask today is: what has happened to the subsequent council tax freeze consequential and is there a way of specifically directing that consequential into the local government settlement?

Yng Ngwynedd, er enghraifft, cafodd y dreth gyngor ei chynyddu y llynedd i roi mwy o adnoddau i'w cronfa cymorth tai i helpu i liniaru'r dreth ystafell wely a thoriadau lles eraill. Eleni, mae'r cyngor yn ei defnyddio i roi codiad cyflog i weithwyr y cyngor sy'n cael y tâl isaf. Yn 2011, amlinellodd y Gweinidog Cyllid sut y câi arian canlyniadol Barnett o rewi'r dreth gyngor yn Lloegr ei wario ar symbylu buddsoddi cyfalaf yn economi Cymru. Ar y pryd, roedd y ffocws i raddau helaeth ar roi hwb i'r economi gan nad oedd yr adferiad i'w weld o gwbl. Nid wyf yn siŵr a yw i'w weld o hyd, ond ta waeth. Fodd bynnag, yr hyn y byddwn yn ei ofyn heddiw yw: beth sydd wedi digwydd i arian canlyniadol o ganlyniad i rewi'r dreth gyngor ac a oes ffordd o gyfarwyddo'r arian canlyniadol penodol hwnnw i mewn i'r setliad llywodraeth leol?

16:20 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I start my contribution to this debate by welcoming the additional £150 million allocated to address service pressures arising from the Francis review. The recent Royal College of Nursing employment survey in January highlighted the pressures our nurses are under, with 59% of respondents reporting that they are under too much stress at work, and more than half of respondents saying that they are unable to give the level of care that they would like to give. We have also seen a figure this week of 1,856 operations cancelled since September due to a shortage of beds, which may often be because beds are being occupied by patients coming through A&E or emergency routes. I therefore welcome that £123 million of this £150 million has gone towards unscheduled care, and £10 million towards nurse staffing. However, I would be grateful for some detail on how the outcomes of this will be measured, and how value for money will be monitored, which I think will be important for decisions over the future allocations of money relating to the Francis review in forthcoming budgets. However, I am concerned, like previous speakers, about the £50 million that has been set aside, effectively, to bail out the NHS if it fails to meet its spending targets this year. The question has to be, 'What sort of message does this send to the health boards?' Are we saying to them, 'It is okay to overspend, provided that you keep within that £50 million target'?

Dechreuaf fy nghyfraniad at y ddadl hon drwy groesawu'r £150 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd i ymdrin â'r pwysau ar wasanaethau sy'n deillio o adolygiad Francis. Roedd arolwg cyflogaeth diweddar y Coleg Nyrsio Brenhinol ym mis Ionawr yn pwysleisio bod ein nyrsys o dan bwysau; dywedodd 59% o'r ymatebwyr eu bod dan ormod o straen yn y gwaith, a dywedodd dros hanner yr ymatebwyr nad ydynt yn gallu rhoi lefel y gofal yr hoffent ei roi. Rydym hefyd wedi gweld ffigur yr wythnos yma o 1,856 o lawdriniaethau a ganslwyd ers mis Medi oherwydd prinder gwelyau, yn aml oherwydd bod gwelyau'n cael eu meddiannu gan gleifion sy'n dod drwy adrannau damweiniau ac achosion brys neu lwybrau argyfwng. Felly, rwyf yn croesawu'r ffaith bod £123 miliwn o'r £150 miliwn hwn wedi mynd tuag at ofal heb ei drefnu, a £10 miliwn tuag at staffio nyrsys. Fodd bynnag, byddwn yn ddiolchgar o gael rhywfaint o fanylion ynghylch sut y caiff canlyniadau hyn eu mesur, a sut y caiff gwerth am arian ei fonitro; credaf y bydd hynny'n bwysig i benderfyniadau am ddyraniadau arian yn ymwneud ag adolygiad Francis mewn cyllidebau yn y dyfodol. Fodd bynnag, rwyf yn bryderus, fel siaradwyr blaenorol, am yr £50 miliwn sydd wedi cael ei osod o'r neilltu, i bob diben, i achub croen y GIG os byddant yn methu â chyflawni eu targedau gwario eleni. Rhaid gofyn, 'Pa fath o neges y mae hyn yn ei hanfon i'r byrddau iechyd?' A ydym yn dweud wrthynt, "Mae gorwario'n iawn, cyn belled â'ch bod yn cadw o fewn y targed £50 miliwn hwnnw'?

The recent Public Accounts Committee report on NHS finances warns that the allocation of such in-year funding is not sustainable and does not encourage NHS organisations to live within their means. Figures given to the committee show that it is still forecasting a deficit of around £77 million, which still leaves a gap of £27 million unaddressed. We have welcomed the move towards three-year financing, but, as the committee highlights, this must be supported by timely, transparent and consistent information from local health boards.

Mae adroddiad diweddar y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am gyllid y GIG yn rhybuddio nad yw dyrannu cyllid yn ystod y flwyddyn fel yna'n gynaliadwy ac nad yw'n annog sefydliadau GIG i fyw o fewn eu modd. Mae ffigurau a roddwyd i'r pwyllgor yn dangos eu bod yn dal i ragweld diffyg o tua £77 miliwn, sy'n dal i adael bwlch o £27 miliwn heb gael sylw. Rydym wedi croesawu'r symudiad tuag at ariannu tair blynedd, ond, fel y mae'r pwyllgor yn ei bwysleisio, rhaid i fyrddau iechyd lleol ategu hyn â gwybodaeth amserol, dryloyw a chyson.

The director general told the committee that managing significant budgets in the context of producing three-year future strategic operational plans would be challenging. The Finance Committee heard that the Minister was on track to approve the new plans by the start of the new financial year. I would be grateful for an update on this. I would also appreciate clarity from the Welsh Government on how it will ensure that these plans are affordable and sustainable, and how the Government will monitor progress to ensure that local health boards remain disciplined and that we are not left with a situation where we simply face an even larger bail-out at the end of the three-year period. I think that all of these are issues that are raised as part of that £50 million allocation.

Dywedodd y cyfarwyddwr cyffredinol wrth y pwyllgor y byddai'n anodd rheoli cyllidebau sylweddol yng nghyd-destun cynhyrchu cynlluniau gweithredu strategol y dyfodol fesul tair blynedd. Clywodd y Pwyllgor Cyllid fod y Gweinidog ar y trywydd iawn i gymeradwyo'r cynlluniau newydd erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd. Byddwn yn ddiolchgar o gael y wybodaeth ddiweddaraf am hyn. Byddwn hefyd yn gwerthfawrogi eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut y byddant yn sicrhau bod y cynlluniau hyn yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy, a sut y bydd y Llywodraeth yn monitro cynnydd i sicrhau bod byrddau iechyd lleol yn ddisgybledig ac na chawn ein gadael mewn sefyllfa lle bydd angen swm mwy fyth o arian i'n hachub ar ddiwedd y tair blynedd. Credaf fod pob un o'r rhain yn faterion a godwyd fel rhan o'r dyraniad £50 miliwn hwnnw.

Another concern that I have in relation to this budget is in relation to the discretionary assistance fund. Last April, the Welsh Government was given £12.4 million by Westminster to help in cases where people need urgent assistance and where there is an identified need to safeguard health and wellbeing. The Finance Committee was told that £568,000 of this money has been unspent and has therefore been redistributed, and that £2 million has been spent paying the private company to run this scheme. That is a substantial proportion of the total budget being spent, effectively, on administration. The Minister admitted in committee that there had been a slow take-up of the scheme. Could the Minister therefore clarify whether she believes that spending a sixth of the funding on administration of the scheme is acceptable, and on what basis was the value for money of this expenditure assessed?

Mae gennyf bryder arall ynglŷn â'r gyllideb hon o ran y gronfa cymorth dewisol. Fis Ebrill diwethaf, cafodd Llywodraeth Cymru £12.4 miliwn gan San Steffan i helpu mewn achosion lle mae angen cymorth brys ar pobl a lle nodwyd bod angen diogelu iechyd a lles. Dywedwyd wrth y Pwyllgor Cyllid bod £568,000 o'r arian hwn heb ei wario ac felly wedi'i ailddosbarthu, a bod £2 miliwn wedi'i wario i dalu cwmni preifat i gynnal y cynllun hwn. Mae hynny'n gyfran sylweddol o gyfanswm y gyllideb yn cael ei gwario, i bob diben, ar weinyddu. Cyfaddefodd y Gweinidog yn y pwyllgor nad oes llawer wedi manteisio ar y cynllun. Felly, a allai'r Gweinidog egluro a yw'n credu bod gwario chweched rhan o'r cyllid ar weinyddu'r cynllun yn dderbyniol, ac ar ba sail y cafodd gwerth am arian y gwariant hwn ei asesu?

In addition to those points, there is an additional £7.8 million from the UK Government in respect of the Green Deal. The Minister has advised that this will be for local council schemes. I would be grateful for any further information as to how this will be allocated and how the schemes will be promoted. There is also an additional £3.1 million from reserves to fund Careers Wales projects. The Minister has advised that this will support rationalisation of the estate and re-branding. I would be grateful if she could give us some more information on that.

Yn ychwanegol at y pwyntiau hynny, mae £7.8 miliwn ychwanegol gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â'r Fargen Werdd. Mae'r Gweinidog wedi cynghori y bydd yr arian hwn i gynlluniau cynghorau lleol. Byddwn yn ddiolchgar am unrhyw wybodaeth bellach ynghylch sut y caiff ei ddyrannu a sut y caiff y cynlluniau eu hyrwyddo. Hefyd, mae swm ychwanegol o £3.1 miliwn o gronfeydd wrth gefn i ariannu prosiectau Gyrfa Cymru. Mae'r Gweinidog wedi cynghori y bydd hwn yn talu am resymoli'r ystad ac ail-frandio. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai roi rhagor o wybodaeth inni am hynny.

We hope that the Minister will consider the points raised in the Liberal Democrats' recent report on widening access to apprenticeships on the need for more to be done to streamline the application process for those apprenticeships. Will the Welsh Minister be considering the trial of a UCAS-style single application process and clearing-house system so that there is parity of approach between different career-progression routes to increase the take-up of apprenticeships?

Rydym yn gobeithio y gwnaiff y Gweinidog ystyried y pwyntiau a godwyd yn adroddiad diweddar y Democratiaid Rhyddfrydol am ehangu mynediad i brentisiaethau am yr angen i wneud mwy i symleiddio'r broses o wneud cais am y prentisiaethau hynny. A fydd y Gweinidog Cymru'n ystyried treialu proses ceisiadau unigol a system glirio fewnol yn arddull UCAS fel bod yr un dulliau'n cael eu defnyddio rhwng gwahanol lwybrau dilyniant gyrfa i gynyddu'r niferoedd sy'n gwneud prentisiaethau?

There is an allocation of £32.5 million of financial transactions funding to new and existing Finance Wales investment funds. Obviously, we have issues and the Finance Committee is looking at how Finance Wales is operating. Concerns have been raised, of course, by the Dylan Jones-Evans report on access to finance through that particular body. Given those concerns, can the Minister justify a business-as-usual approach and can she say how that £32.5 million is being spent? I think those are important questions and I hope that the Minister is able to respond to them.

Cafodd £32.5 miliwn o gyllid trafodion ariannol ei ddyrannu i gronfeydd buddsoddi newydd a phresennol Cyllid Cymru. Yn amlwg, mae gennym faterion ac mae'r Pwyllgor Cyllid yn edrych ar sut y mae Cyllid Cymru'n gweithredu. Mae pryderon wedi cael eu mynegi, wrth gwrs, gan adroddiad Dylan Jones-Evans am fynediad at gyllid drwy'r corff penodol hwnnw. Ac ystyried y pryderon hynny, a all y Gweinidog gyfiawnhau dull busnes-fel-arfer ac a all ddweud sut mae'r £32.5 miliwn hynny'n cael eu gwario? Rwyf yn meddwl bod y rheini'n gwestiynau pwysig ac rwyf yn gobeithio y gall y Gweinidog eu hateb.

16:26 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

Galwaf felly ar y Gweinidog Cyllid i ymateb i'r ddadl—Jane Hutt.

I therefore call on the Minister for Finance to reply to the debate—Jane Hutt.

16:26 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance*

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Members for their contributions to this debate. This supplementary budget demonstrates our continued commitment to using every Welsh pound to deliver better public services. We have looked to ensure that our budgets are aligned to deliver our priorities, despite the fact that we have a budget—I will repeat this again—that by 2015-16 will be 10% lower in real terms than it was in 2010-11, but we remain resolute in our commitment to protect our priorities and manage our finances in-year accordingly.

Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau at y ddadl hon. Mae'r gyllideb atodol hon yn dangos ein hymrwymiad parhaus i ddefnyddio pob un o bunnoedd Cymru i gyflenwi gwell gwasanaethau cyhoeddus. Rydym wedi ceisio sicrhau bod ein cyllidebau wedi'u halinio i gyflenwi ein blaenoriaethau, er gwaethaf y ffaith bod gennym gyllideb—ailadroddaf hyn eto—a fydd erbyn 2015-16 10% yn is mewn termau real nag ydoedd yn 2010-11 , ond rydym yn dal i fod yn benderfynol yn ein hymrwymiad i ddiogelu ein blaenoriaethau a rheoli ein cyllid yn ystod y flwyddyn yn unol â hynny.

It is important, in terms of the Finance Committee's report, which raises a number of issues and, in fact, I have responded in writing to the Finance Committee on some of those points of clarification, that I do comment on them in this debate, as they have been raised by Members. It is important, looking at the discretionary payments scheme, to recognise, as is very clear in my letter to the Finance Committee, that this was something that we have had to ensure as a result of the fact that it was the UK Government that, without our agreement at all, abolished the social fund and transferred the responsibilities to us without the additional funding that we needed to deliver that. With the discretionary assistance fund, however, we got a transfer of £12.4 million, following the abolition of the social fund, which included £10.2 million in respect of grant payments and £2.2 million in respect of administration costs. Those adjustments were reflected in the first supplementary budget.

Mae'n bwysig, o ran adroddiad y Pwyllgor Cyllid, sy'n codi nifer o faterion ac, yn wir, yr wyf wedi ymateb yn ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid ar rai o'r pwyntiau hynny o eglurhad, fy mod yn rhoi sylwadau amdanynt yn y ddadl hon, gan fod Aelodau wedi eu codi. Mae'n bwysig cydnabod, wrth edrych ar y cynllun taliadau dewisol, fel sy'n amlwg iawn yn fy llythyr at y Pwyllgor Cyllid, bod hwn yn rhywbeth yr ydym wedi gorfod ei sicrhau o ganlyniad i'r ffaith mai Llywodraeth y DU, heb inni gytuno o gwbl, a ddiddymodd y gronfa gymdeithasol gan drosglwyddo'r cyfrifoldebau i ni heb yr arian ychwanegol yr oedd ei angen arnom i gyflawni hynny. Gyda'r gronfa cymorth dewisol, fodd bynnag, cafodd £12.4 miliwn ei drosglwyddo inni, ar ôl diddymu'r gronfa gymdeithasol, a oedd yn cynnwys £10.2 miliwn ar gyfer taliadau grant a £2.2 miliwn ar gyfer costau gweinyddu. Roedd yr addasiadau hynny wedi'u hadlewyrchu yn y gyllideb atodol gyntaf.

In awarding the contract for the administration of the discretionary assistance fund, we were able to deliver cost savings to the extent that the administration budget of the fund is approximately £1.3 million in each year. It is important that we put the record straight on that. There was underspend in grant payments this year, but that was as a result of an initial slow take-up of the grant while the new scheme was embedded. I have met with Jeff Cuthbert, the Minister for Communities and Tackling Poverty, and take-up is now at expected levels and we do not expect underspend in future years. We have savings on the administration costs for the fund and unallocated grant payments have been transferred from the tackling poverty action to help to manage pressures in other priority areas. So, it is important that we put the record straight. The costs of administering the fund have been reduced significantly as a result of cost savings in awarding the contract.

Wrth ddyfarnu contract gweinyddu'r gronfa cymorth dewisol, roeddem yn gallu sicrhau arbedion cost i'r graddau bod cyllideb gweinyddu'r gronfa tua £1.3 miliwn ym mhob blwyddyn. Mae'n bwysig ein bod yn egluro'r sefyllfa ynghylch hynny. Bu tanwariant o ran taliadau grant eleni, ond roedd hynny o ganlyniad i'r niferoedd isel a fanteisiodd ar y grant i ddechrau tra'r oedd y cynllun newydd yn cael ei sefydlu. Rwyf wedi cwrdd â Jeff Cuthbert, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, ac erbyn hyn mae'r niferoedd disgwyliedig yn manteisio ar y grant ac nid ydym yn disgwyl tanwariant yn y dyfodol. Mae gennym arbedion ar gostau gweinyddu'r gronfa ac mae taliadau grant heb eu dyrannu wedi'u trosglwyddo o'r camau gweithredu i drechu tlodi i helpu i reoli pwysau mewn meysydd blaenoriaeth eraill. Felly, mae'n bwysig ein bod yn egluro'r sefyllfa. Mae costau gweinyddu'r gronfa wedi gostwng yn sylweddol o ganlyniad i arbedion costau wrth ddyfarnu'r contract.

It is also important to recognise the other points that were made by the Finance Committee and by the Chair of the Finance Committee in the report in terms of invest-to-save. I set this out in my letter to the Finance Committee last week: we are publishing information about the fund and the whole Government accounts for 2013-14 in the summer and, of course, we will give the corresponding expenditure information. We need to consider how we can best show the expenditure information in forthcoming accounts but those invest-to-save reports include project investment details and their associated projected savings. I think the focus that the Finance Committee has placed on preventative spending, in accordance and very much aligned with the Welsh Government's approach, is very important. We do recognise that we have to make maximum use of our available resources, and as I said during the scrutiny of the draft budget, we have a commitment to preventative spending underpinning our spending plans. Of course, in terms of that commitment, it is not about achieving savings in the short term, but we need to take a balanced view to ensure that we can respond to short-term mitigation demands. I think that is reflected in the supplementary budget.

Mae hefyd yn bwysig cydnabod y pwyntiau eraill a wnaeth y Pwyllgor Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn yr adroddiad o ran buddsoddi i arbed. Nodais hyn yn fy llythyr at y Pwyllgor Cyllid yr wythnos diwethaf: rydym yn cyhoeddi gwybodaeth am y gronfa a holl gyfrifon y Llywodraeth ar gyfer 2013-14 yn yr haf ac, wrth gwrs, byddwn yn rhoi'r wybodaeth gyfatebol am wariant. Mae angen inni ystyried y ffordd orau o ddangos y wybodaeth am wariant yn y cyfrifon sydd ar y gweill ond mae'r adroddiadau buddsoddi-i-arbed hynny'n cynnwys manylion buddsoddiadau mewn prosiectau a'u cynilion rhagamcanol cysylltiedig. Rwyf yn meddwl bod y ffocws y mae'r Pwyllgor Cyllid wedi'i roi ar wariant ataliol, yn unol ac wedi'i alinio i raddau helaeth â dulliau Llywodraeth Cymru, yn bwysig iawn. Rydym yn cydnabod bod rhaid inni ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael cystal â phosibl, ac fel y dywedais yn ystod y craffu ar y gyllideb ddrafft, mae gennym ymrwymiad i wariant ataliol fel sail i'n cynlluniau gwariant. Wrth gwrs, o ran yr ymrwymiad hwnnw, nid mater o sicrhau arbedion yn y tymor byr yw hyn, ond mae angen inni gymryd golwg gytbwys er mwyn sicrhau y gallwn ymateb i ofynion lliniaru tymor byr. Credaf fod y gyllideb atodol yn adlewyrchu hynny.

Finally, I will come to the point about the NHS. We have made it clear, and we have always made it clear, that the NHS is a priority for this Government. I am pleased that our supplementary budget includes additional funding for the national health service in this financial year. This is what the people of Wales want to hear. They want to hear that there is an extra £50 million going into the Welsh national health service on top of the £150 million that I announced. That is what the people of Wales want to hear. We are providing resources to ensure that doctors and nurses are paid, that patients receive their treatments, and that businesses are paid for their services in terms of healthcare. These are the actions of a responsible Government that puts investment in health at the forefront of our priorities. It is on that basis that I move this supplementary budget. I have to say that it is strange that the Welsh Conservatives choose to abstain here today when I am announcing an extra £50 million for our Welsh national health service and an extra £5 million for social housing. This supplementary budget shows how we are continuing, as a Welsh Labour Government, to effectively manage the resources available to us, despite the cuts from the UK Government, to deliver the priorities that maximise the benefits for Wales.

Yn olaf, dof at y pwynt am y GIG. Rydym wedi ei gwneud yn glir, ac rydym wedi ei gwneud yn glir erioed, bod y GIG yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon. Rwyf yn falch bod ein cyllideb atodol yn cynnwys arian ychwanegol i'r gwasanaeth iechyd gwladol yn y flwyddyn ariannol hon. Dyma beth mae ar bobl Cymru eisiau ei glywed. Mae arnynt eisiau clywed bod £50 miliwn ychwanegol yn mynd i wasanaeth iechyd gwladol Cymru ar ben y £150 miliwn a gyhoeddais. Dyna beth mae ar bobl Cymru eisiau ei glywed. Rydym yn darparu adnoddau i sicrhau bod meddygon a nyrsys yn cael eu talu, bod cleifion yn cael eu triniaethau, a bod busnesau'n cael eu talu am eu gwasanaethau o ran gofal iechyd. Mae'r rhain yn gamau gan Lywodraeth gyfrifol sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i fuddsoddi mewn iechyd. Rwyf yn cynnig y gyllideb atodol hon ar y sail honno. Rhaid imi ddweud ei bod yn rhyfedd bod Ceidwadwyr Cymru'n dewis ymatal yma heddiw pan yr wyf yn cyhoeddi £50 miliwn ychwanegol i wasanaeth iechyd gwladol Cymru a £5 miliwn ychwanegol i dai cymdeithasol. Mae'r gyllideb atodol hon yn dangos sut yr ydym yn parhau, fel Llywodraeth Lafur Cymru, i reoli'r adnoddau sydd ar gael inni'n effeithiol, er gwaethaf y toriadau gan Lywodraeth y DU, i gyflenwi'r blaenoriaethau sy'n creu'r buddion mwyaf i Gymru.

16:31 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Y cwestiwn yw y dylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Mae gwrthwynebiad, felly gwnaf ohirio'r bleidlais tan y cyfnod pleidleisio.

The question is that the motion. Does any Member object? There is objection, therefore I will defer the voting on this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 16:32.*

*The Presiding Officer took the Chair at 16:32.*

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 i Amrywio Trefn Ystyried Gwelliannau'r Cyfnod Adrodd i'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

Cynnig NDM5446 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn y Cyfnod Adrodd yn y drefn ganlynol:

a) adrannau 2-79

b) atodlen 1

c) adrannau 80-137

d) atodlen 2

e) adrannau 138-173

f) atodlen 3

g) adrannau 174-194

h) adran 1

i) Teitl Hir

## Motion under Standing Order 26.36 to Vary the Order of Consideration of Report Stage Amendments to the Social Services and Well-being (Wales) Bill

Motion NDM5446 Lesley Griffiths

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.36:

Agrees to dispose of sections and schedules to the Social Services and Well-being (Wales) Bill at Report Stage in the following order:

a) sections 2-79

b) schedule 1

c) section 80-137

d) schedule 2

e) sections 138-173

f) schedule 3

g) sections 174-194

h) section 1

i) Long title

16:32 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

*Y Diprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol / The Deputy Minister for Social Services*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

Senedd.tv
Fideo Video

16:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I have no speakers, so I take it that you do not wish to reply to the debate, Deputy Minister.

Nid oes gennyf siaradwyr, felly rwy'n cymryd nad ydych yn dymuno ymateb i'r ddadl, Ddirprwy Weinidog.

Senedd.tv
Fideo Video

16:32 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

No. I just ask for support for this.

Na. Dim ond gofyn am gefnogaeth ar gyfer hyn ydw i.

Senedd.tv
Fideo Video

16:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Fine, thank you very much. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There is no objection, therefore the motion is agreed under Standing Order 12.36.

Iawn, diolch yn fawr iawn. Y cynnig yw cytuno ar y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Senedd.tv
Fideo Video

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Business Committee agreed that voting time would take place before Stage 3. We have now reached that point. Unless three Members wish for the bell to be rung, I intend to move straight to the vote.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r cyfnod pleidleisio yn digwydd cyn Cam 3. Rydym bellach wedi cyrraedd y pwynt hwnnw. Oni bai bod tri Aelod yn dymuno i'r gloch gael ei chanu, bwriadaf symud yn syth at y bleidlais.

## Cyfnod Pleidleisio

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5433.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 32, Yn erbyn 0, Ymatal 21.*

## Voting Time

Result of the vote on motion NDM5433.

*Motion agreed: For 32, Against 0, Abstain 21.*

## Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Addysg (Cymru)

## Stage 3 Standing Order 26.44 Debate on the Education (Wales) Bill

### Grŵp 1: Enw Cyngor y Gweithlu Addysg (Gwelliannau 20, 2, 24, 25 a 26)

### Group 1: Name of Education Workforce Council (Amendments 20, 2, 24, 25 and 26)

16:34 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 20. I call on Simon Thomas to move amendment 20 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 20. Galwaf ar Simon Thomas i gynnig gwelliant 20 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

16:34 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf welliant 20 yn fy enw i.

Mae'n dda gennyf gynnig gwelliant 20 sy'n ymwneud ag enw ar gyfer y corff newydd. Mae'r Bil hwn yn gosod yn ei le corff cwbl newydd ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae gennym y Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, y 'General Teaching Council for Wales', ac, wrth gwrs, mae'r Bil yn ehangu gwaith y cyngor hwn i gynnwys nifer o staff sy'n gysylltiedig ag athrawon ac addysgu, megis staff cynorthwyol. Cawn drafod yn nes ymlaen yn ystod y drafodaeth ar y Bil beth yr ydym yn ei wneud gyda gweithwyr ieuenctid. Yn sicr, y pwrpas y tu ôl i'r Bil yw proffesiynoli pawb sy'n cefnogi dysgu yn ein hysgolion, a gwneud yn siŵr bod y dysgu o ansawdd uchel ac yn cyrraedd ei llawn botensial i bob plentyn.

Yn y cyd-destun hwnnw, mae'r gwahaniaeth proffesiynol rhwng athro a staff cynorthwyol yn mynd yn llai. Mae nifer o staff cynorthwyol yn hyfforddi yn uwch ac yn uwch, a da o beth yw hynny, ac yn ymwneud yn llawer mwy yn awr â dysgu uniongyrchol yn y dosbarth.

Hefyd, mae nifer o staff cynorthwyol yn cael eu hyfforddi i gynorthwyo wrth reoli ysgolion, felly nid dim ond yn y dosbarth yr ydych yn gweld staff cynorthwyol yn awr. Rydych yn gweld pobl o'r ochr weinyddol yn cynorthwyo prifathrawon a rheolwyr ysgol i sicrhau bod y gyllideb a phopeth o gwmpas yr ysgol yn gweithio fel watsh. Maent i gyd yn bobl broffesiynol iawn.

I move amendment 20 in my name.

I am pleased to move amendment 20, which relates to the name of the new body. This Bill puts in place an entirely new body for the education workforce in Wales. At present, we have the General Teaching Council for Wales, and, of course, the Bill enhances the scope of the work of that council to include a number of staff who are related to teachers and teaching, such as support staff. We will discuss later in the debate on the Bill what we do in relation to youth workers. Certainly, the purpose behind the Bill is to professionalise everyone who supports teaching and learning in our schools, and to ensure that teaching is of the highest possible quality and achieves its full potential for each pupil.

In that context, the professional difference between a teacher and support staff reduces. Many support staff are training to higher and higher levels, which is a good thing, and are far more involved now with direct teaching in the classroom.

In addition to that, a number of support staff are trained to assist in school management, so it is not just in the classroom that you see support staff now. You also see people on the administration side assisting headteachers and school managers in order to ensure that the budgets and everything around the school work like clockwork. They are all very professional people.

Mae'r Llywodraeth wedi penderfynu taw'r enw mwyaf priodol ar gyfer y corff newydd yma fydd 'cyngor y gweithlu addysg'. Nid oes unrhyw beth mawr o'i le â'r enw hwnnw; mae'n rhaid imi fod yn onest. Dyna pam na chawsom lawer o drafodaeth yn y pwyllgor ynglŷn â'r enw arfaethedig, achos nid oedd unrhyw un teimlo bod yr enw yn mynd ar gyfeiliorn yn gyfan gwbl, na dim byd felly, a bod yna bwrpas i'r enw, o leiaf.

The Government has decided that the most appropriate name for this new body is the 'education workforce council'. There is not much wrong with that name; I have to be honest. That is why we did not have much discussion at committee stage on the proposed name, because nobody felt that the name was insulting in any way whatsoever, and that there was a purpose to it, at least.

Fodd bynnag, wrth inni drafod yn y pwyllgor, ac wrth inni edrych ar y Bil sydd, fel y mae yn awr, heb y rhan a oedd yn ymwneud ag anghenion arbennig, a oedd wedi'i thynnu allan—sy'n ein galluogi i weld yn well sut mae'r Bil yn effeithio ar y gweithlu yng Nghymru—mae'n dod yn fwyfwy clir i mi taw pwrpas y Bil hwn yw proffesiynoli'r gweithlu cyfan. Yn y cyd-destun hwnnw, rwy'n credu y dylai teitl y cyngor newydd adlewyrchu'r ffaith mai pobl broffesiynol wedi'u hyfforddi'n drwyadl sy'n ymwneud â'r cyngor newydd ac sy'n cael eu cynnwys y tu mewn iddo.

However, in discussing at committee stage, and in looking at the Bill that, as it currently stands, does not include a section on special educational needs, which was taken out —enabling us to see better how the Bill affects the workforce in Wales—it becomes more apparent to me that the purpose of this Bill is to professionalise the workforce as a whole. In that context, I believe that the name of the new council should reflect the fact that these are professional, highly trained people who are involved with the new council and are to be included within its remit.

Er ei bod yn eithaf hwyr yn y dydd, erbyn Cyfnod 3, rwy'n credu ei bod yn gwbl briodol ein bod yn cymryd cam yn ôl ac edrych ar bwrpas y Bil a'r gweithlu yr effeithir ganddo a chanfod yr enw mwyaf priodol, sy'n adlewyrchu nid yn unig y gweithlu fel y mae ond dyheadau ac uchelgeisiau'r gweithlu fel y bydd yn datblygu. Rwyf, felly, yn cynnig bod yr enw yn y gwelliant hwn, sy'n gosod 'proffesiynau' yn lle'r gair 'gweithlu', yn llawer mwy cadarnhaol ac agored ar gyfer y datblygiad a fydd yn digwydd yn y maes hwn yn y dyfodol.

Although it is quite late in the day, at Stage 3, I think that it is entirely appropriate that we take a step back and look at the purpose of the Bill and the workforce that will be affected by it and find the most appropriate name that reflects not only the workforce as it currently exists, but also the ambitions and aspirations of that workforce as it develops. I am therefore proposing that the name in this amendment, which includes the word 'professions' rather than the word 'workforce', is far more positive and open for any development that may take place in the future in this area.

Mae'r holl welliannau yn y grŵp hwn yn fy enw i, rwy'n meddwl, ac maent i gyd yn ymwneud â newid yr enw ac unrhyw welliannau sy'n ddilynol yn hynny o beth.

All of the other amendments in this group are in my name, I think, and they all relate to that change of name and any consequential amendments in that respect.

16:37

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I have no other speakers, so I call on the Minister.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr eraill, felly galwaf ar y Gweinidog.

16:38

## Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

I have listened carefully to what Simon Thomas has said this afternoon. He will recall that the Children and Young People Committee stated in its Stage 1 report that:

Rwyf wedi gwrando'n ofalus ar yr hyn a ddywedodd Simon Thomas y prynhawn yma. Bydd yn cofio bod y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wedi dweud yn ei adroddiad Cyfnod 1:

'The Committee does not have a strong opinion on the title of the body, but the Committee does believe that the title of a registration body should reflect the content and purpose of the body.'

Nid oes gan y Pwyllgor farn gref ar deitl y corff, ond mae'r Pwyllgor yn credu y dylai teitl corff cofrestru adlewyrchu cynnwys a phwrpas y corff.

The title 'education workforce council', to my mind, does exactly that.

Mae'r teitl 'cyngor y gweithlu addysg', yn fy marn i, yn gwneud yn union hynny.

We could probably spend a considerable amount of time—the rest of this debate, for sure—discussing the name of the reconfigured body and still, perhaps, not reach a consensus. However, what is important to me, parents and learners is that the reconfigured council contributes to the improvement of teaching standards and the quality of learning.

Gallasem mae'n debyg dreulio cryn dipyn o amser—gweddill y ddadl hon, yn sicr—yn trafod enw'r corff a aildrefnwyd a dal i fod, efallai, heb gyrraedd consensws. Fodd bynnag, yr hyn sy'n bwysig i mi, i rieni ac i ddysgwyr yw bod y cyngor wedi'i aildrefnu yn cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd dysgu.

At Stage 1, I stated that the name 'education workforce council' accurately reflects the work of the reconfigured body, and I have not heard anything that persuades me otherwise. For that reason, I would urge Members to resist all of the amendments in this group, namely amendments 20, 2, 24, 25 and 26.

Yng Nghyfnod 1, dywedais fod yr enw 'cyngor y gweithlu addysg' yn adlewyrchu gwaith y corff a aildrefnwyd yn gywir, ac nid wyf wedi clywed unrhyw beth sy'n fy mherswadio fel arall. Am y rheswm hwnnw, byddwn yn annog yr Aelodau i wrthod pob un o'r gwelliannau yn y grŵp hwn, sef gwelliannau 20, 2, 24, 25 a 26.

16:39 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf wedi gwrando ar y Gweinidog, ac rwy'n cytuno'n llwyr gydag ef—wrth gwrs, dyna beth oedd casgliad y pwyllgor. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y pwyllgor wedi tanlinellu bod angen i'r enw hwn adlewyrchu'r gwaith y bydd y cyngor yn ei wneud. Rwy'n meddwl bod gennyf enw sy'n llawer mwy 'futureproof', os taw dyna'r gair, na'r enw presennol. Rwyf, felly, yn dymuno cael gweld beth yw barn y Cynulliad ar y mater hwn.

I have listened to the Minister's response, and I agree with him entirely—of course, that was the conclusion of the committee. However, it is important that the committee had highlighted the fact that this name should reflect the work that the council is to carry out. I believe that I have a name here that is far more futureproof, if that is the word, than the proposed name. Therefore, I wish to see what the view of the Assembly is on this issue.

16:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 20 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will move straight to an electronic vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 20 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn yn syth i bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 20.

Result of the vote on amendment 20.

*Gwrthodwyd gwelliant 20: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 20 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

16:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Simon Thomas to move amendment 2.

Galwaf ar Simon Thomas i gynnig gwelliant 2.

16:40 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf welliant 2 yn fy enw i.

I move amendment 2 in my name.

16:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 2 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will move to an electronic vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 2 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn i bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2.

Result of the vote on amendment 2.

*Gwrthodwyd gwelliant 2: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 2 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

**Grŵp 2: Nodau a Swyddogaethau'r Cyngor (Gwelliannau 21, 3 a 58)**

**Group 2: Aims and Functions of the Council (Amendments 21, 3 and 58)**

16:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in this group is amendment 21. I call on Simon Thomas to move amendment 21 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 21. Galwaf ar Simon Thomas i gynnig gwelliant 21 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

16:41 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf welliant 21 yn fy enw i.

I move amendment 21 in my name.

Mae tri gwelliant yn y grŵp hwn ac maent i gyd yn ymwneud, mewn rhyw ffordd, â gwaith arfaethedig a swyddogaethau'r cyngor newydd. Mae'r tri wedi eu cyflwyno yn fy enw i.

There are three amendments in this group and they all relate, in one way or another, to the proposed work and the functions of the new body. All three have been introduced in my name.

Rwyf eisoes wedi amlinellu sut yr wyf i a Phlaid Cymru yn credu y bydd y cyngor yn gwneud gwaith trwyadl iawn i hybu'r proffesiwn dysgu yn yr ystyr ehangach yng Nghymru. Roeddwn ni hefyd yn awyddus i weld rhywbeth cryfach ar wyneb y Bil i adlewyrchu hynny.

I have already outlined how I and Plaid Cymru believe that the council will be doing extremely thorough work to promote the teaching profession in its wider sense in Wales. We were also eager to see something more robust on the face of the Bill that reflects that.

Os darllenwch chi'r Bil fel y mae, fe welwch ei fod yn glir iawn sut y mae swyddogaethau presennol y GTCW, yn enwedig ym maes disgyblu, yn cael eu trosglwyddo i'r corff newydd. Mae hefyd sôn yn y Bil am rai o'r pethau eraill y bydd y cyngor yn eu gwneud yn fwy eang i hyrwyddo'r proffesiwn, yn enwedig fel gyrfa yng Nghymru—mae hynny'n glir iawn. Yn fy marn i ac ym marn Plaid Cymru nid oes cydbwysedd ar wyneb y Bil rhwng yr ochr ddisgyblu a'r ochr ehangach o hyrwyddo'r proffesiwn.

If you read the Bill as it currently stands, you will see that it is quite clear that the current functions of the GTCW, particularly in the area of discipline, will be transferred to the new body. There is also mention in the Bill of some of the other functions that the council will carry out more broadly to promote the profession, particularly as a career in Wales—that is very clear. In my opinion, and in Plaid Cymru's opinion, the balance on the face of the Bill has not been struck between the disciplinary side and the wider aims of promoting the profession.

Soniaf am bwrpas y tri gwelliant. Yn gyntaf, bydd gwelliant 21 yn ei wneud yn glir bod swyddogaethau'r cyngor newydd er lles y cyhoedd—rwy'n meddwl y bydd gosod hynny yn glir yn y Bil yn rhoi hyder i'r cyngor a hefyd yn rhoi hyder i'r cyhoedd. Nid yw hyn yn digwydd yn awr; o bryd i'w gilydd yn y gorffennol, rydym wedi gweld cyrff proffesiynol sy'n gyfrifol am reoli proffesiwn yn rheoli'r proffesiwn er budd y proffesiwn, nid er budd y cyhoedd. Mae hynny wedi digwydd mewn cyd-destun gwahanol yn y gorffennol—mae'r maes iechyd yn dod i'r meddwl, ac efallai gellid ychwanegu cyfreithwyr at hynny. Ers y dyddiau hynny, rydym wedi symud ymlaen i sylweddoli, os bydd proffesiwn yn rheoli ei hunan, bydd yn rhaid i'r proffesiwn hwnnw nid yn unig edrych ar ôl y proffesiwn, ond rhaid gwneud hynny er lles y cyhoedd yn ehangach hefyd. Mae gwelliant 21 yn ei wneud yn glir iawn mai dyna yw bwriad a swyddogaeth y cyngor newydd.

I will outline the aim of the three amendments. First, amendment 21 will make it clear that the functions of the new council are in the interest of the public—I think that placing that on the face of the Bill will give confidence to the council and also to the public. This does not happen now; from time to time in the past, we have seen professional bodies responsible for regulating a profession doing so for the benefit of the profession, rather than the public. That has happened in different contexts in the past—the health area comes to mind, and perhaps lawyers could be added to that list. Since those days, we have moved forward to realise that if a profession is to manage itself, it will not only have to look after the profession but that it must also do so in the public interest. Amendment 21 makes it clear that that is the function of the new council.

Mae'r ddau welliant arall yn ymwneud â gwneud yn siŵr bod arferion proffesiynol hefyd yn cael eu dodi yn rhan o amcanion y cyngor newydd. Mae gan y cyngor dysgu cyffredinol presennol god proffesiynol a chod ymddygiad a phethau felly sy'n ymwneud â chymhwysedd i ddysgu. Rwy'n credu bod ychwanegu safonau at ffwythiannau a swyddogaethau'r cyngor yn fodd, yn y pen draw, o wella'r hyfforddiant a fydd ar gael i athrawon, a hefyd i wella pwrpas yr hyfforddiant hwnnw. Rwy'n meddwl mai hyn sy'n cryfhau amcanion y cyngor sydd wedi eu gosod yn Rhan 3 o'r Bil fel y mae.

The other two amendments relate to ensuring that professional activities are also noted as being part of the aims of the new council. The current general teaching council has a professional code and a code of conduct and such things that relate to the competence to teach. I believe that adding standards to the functions of the council is a means of ultimately improving the training available to teachers, as well as improving the purpose of that training. I think that this strengthens the objectives of the council set out in Part 3 of the Bill as it stands.

O roi'r tri gwelliant at ei gilydd, fe gewch gyfle i wella datblygiad proffesiynol yn y cyngor, i'w wneud yn gliriach mai gweithredu yn enw'r cyhoedd fydd y cyngor ac i'w wneud yn haws i'r cyngor benderfynu ar y cydbwysedd rhwng yr ochr ddisgyblu, yr ochr reoli a'r ochr o hyrwyddo'r proffesiwn.

So, in bringing these three amendments together, what you will get is an opportunity to improve continuing professional development within the council, to make it clearer that the council will act in the interest of the public and make it easier for the council to decide on the balance between the discipline side of things, the management side of things and the promotion side of things.

16:44 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to thank Plaid Cymru for bringing forward these amendments. I rise to seek clarification on amendment 58. I totally support your desire to clarify the aims and the functions of the council, because I am not sure that the Bill itself, Minister, goes far enough along that. I agree that the council should have more responsibility for things such as continuing professional development as well as disciplinary actions.

Hoffwn ddiolch i Blaid Cymru am gyflwyno'r gwelliannau hyn. Rwy'n codi i ofyn am eglurhad ar welliant 58. Rwy'n llwyr gefnogi eich awydd i egluro amcanion a swyddogaethau'r cyngor, oherwydd nid wyf yn siŵr bod y Bil ei hun, Weinidog, yn mynd yn ddigon pell ynghylch hynny. Rwy'n cytuno y dylai'r cyngor gael mwy o gyfrifoldeb am bethau megis datblygiad proffesiynol parhaus yn ogystal â chamau disgyblu.

You talked just now about seeking, with amendment 58, to have the council promote the profession of teaching, which I absolutely support. I also agree with your contention that this amendment could help to drive up the overall education standards in Wales. However, I have a slight confusion around what effect you think that the council could or should have on the provision of a quality of a learning setting. You talk here about the quality of learning in Wales, and while I can see that it has everything to do with teachers, their discipline, development and all the rest of it, how can it affect, or should be allowed to impact upon, a school setting, what Estyn's work does and what the cross-cutting agenda is? I am just seeking clarification so that we here can decide whether we can support amendment 58, because the council is designed to do everything to support and raise that profession to where it should be. However, we need to leave the school element of it to the governors' and the teachers' insight and to the policies of the local authority and of Government. I would appreciate your illumination.

Soniasoch yn awr am geisio, gyda gwelliant 58, i gael y cyngor i hyrwyddo'r proffesiwn addysgu, ac rwy'n llwyr gefnogi hynny. Rwyf hefyd yn cytuno â'ch haeriad y gallai'r gwelliant hwn helpu i godi safonau addysg yn gyffredinol yng Nghymru. Fodd bynnag, rwyf braidd yn ddryslyd ynghylch pa effaith yr ydych yn credu y gallai neu y dylai'r cyngor ei gael ar ddarparu lleoliad dysgu o ansawdd. Rydych yn sôn yma am ansawdd y dysgu yng Nghymru, ac er fy mod yn gallu gweld bod hyn yn ymwneud yn llwyr ag athrawon, eu disgyblaeth, eu datblygiad a phopeth arall, sut y gall effeithio, neu a ddylid caniatáu iddo effeithio ar, leoliad ysgol, beth y mae gwaith Estyn yn ei wneud a beth yw'r agenda trawsbynciol? Rwyf yn gofyn am eglurhad er mwyn i ni yma allu penderfynu a allwn gefnogi gwelliant 58, oherwydd bod y cyngor wedi ei gynllunio i wneud popeth i gefnogi a chodi'r proffesiwn hwnnw i lle y dylai fod. Fodd bynnag, mae angen i ni adael yr elfen ysgol o hynny i ddirnadaeth llywodraethwyr ac athrawon ac i bolisïau'r awdurdod lleol a Llywodraeth. Byddwn yn gwerthfawrogi eich eglurhad.

16:46 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Amendment 21 does not, to my mind, add anything to the Bill. The education workforce council as a public body is subject to the public law duty to act fairly and reasonably. It is in the public interests to have a body exercising the functions in section 3. Therefore, to add to the face of the Bill the words 'in the interest of the public' seems superfluous at best, I contend.

Nid yw gwelliant 21, yn fy marn i, yn ychwanegu unrhyw beth at y Bil. Mae cyngor y gweithlu addysg fel corff cyhoeddus yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd cyfraith gyhoeddus i weithredu'n deg ac yn rhesymol. Mae er budd y cyhoedd i gael corff sy'n arfer y swyddogaethau yn adran 3. Felly, mae ychwanegu'r geiriau 'er budd y cyhoedd' at wyneb y Bil yn ymddangos yn ddiangen ar y gorau, byddwn yn dadlau.

As Simon Thomas has set out, amendment 3 seeks to amend the principal aims of the proposed education workforce council to include professional practice under section 3(b). The principal aims of the council, as currently set out in the Bill, deal with the two key matters in relation to the education workforce in Wales, and these two key matters are practice and conduct. The first aim, as set out under section 3(a) is to contribute to improving the standards of teaching and the quality of learning in Wales. Both elements of this aim are, for obvious reasons, inextricably linked and provide for the improvement of the teaching practice in Wales. While the term 'practice' is not specifically used, the standard of professional practice throughout the education workforce in Wales is exactly what this section aims to address. Therefore, the issue that Simon Thomas is seeking to address through his amendment is already encompassed within the current provision.

Fel y mae Simon Thomas wedi ei nodi, mae gwelliant 3 yn ceisio diwygio prif amcanion y cyngor y gweithlu addysg arfaethedig i gynnwys ymarfer proffesiynol o dan adran 3 (b). Mae prif amcanion y cyngor, fel y maent wedi'u gosod ar hyn o bryd yn y Bil, yn ymdrin â'r ddau fater allweddol o ran y gweithlu addysg yng Nghymru, a'r ddau fater allweddol hyn yw arfer ac ymddygiad. Y nod cyntaf, fel y nodir o dan adran 3 (a) yw cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd dysgu yng Nghymru. Mae cyswllt anorfod, am resymau amlwg, rhwng dwy elfen y nod hwn, ac maent yn darparu ar gyfer gwella arfer addysgu yng Nghymru. Er nad yw'r term 'arfer' yn cael ei ddefnyddio yn benodol, safon yr arfer proffesiynol ym mhob rhan o'r gweithlu addysg yng Nghymru yw'r union beth y mae'r adran hon yn ceisio mynd i'r afael ag ef. Felly, mae'r mater y mae Simon Thomas yn ceisio mynd i'r afael ag ef drwy ei welliant eisoes wedi'i gwmpasu o fewn y ddarpariaeth bresennol.

Amendment 58 is already encompassed, too, in section 3(b) of the Bill. This reflects the overarching aim that I have for the education workforce council. Simply duplicating that aim within the functions of the council is therefore not necessary. Therefore, while I appreciate Simon's intentions, for the reasons I have set out, I consider that amendments 21, 3 and 58 are not necessary, and I ask Members to resist them.

Mae gwelliant 58 eisoes wedi ei gwmpasu, hefyd, yn adran 3 (b) y Bil. Mae hyn yn adlewyrchu'r nod cyffredinol sydd gennyf ar gyfer cyngor y gweithlu addysg. Nid yw dyblygu'r nod hwnnw o fewn swyddogaethau'r cyngor, yn angenrheidiol felly. Felly, er fy mod yn gwerthfawrogi bwriadau Simon, am y rhesymau yr wyf wedi'u nodi, rwyf o'r farn nad yw gwelliannau 21, 3 a 58 yn angenrheidiol, ac rwyf yn gofyn i'r Aelodau eu gwrthod.

16:48

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I note with interest what the Minister has said, and we will see whether he says the same about some of his amendments later on, which are, in my view, totally unnecessary as well.

Nodaf gyda diddordeb yr hyn y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud, a byddwn yn gweld a fydd yn dweud yr un peth am rai o'i welliannau ef yn nes ymlaen, sydd hefyd, yn fy marn i, yn hollol ddiangen.

The interesting thing here, which I want to take up with Angela Burns, is a reasonable point, because, to answer Angela and the Minister, I think that amendment 58 strengthens the ability of the new council to take action in this area. I do not agree with the Minister that simply allowing section 3 as it is at the moment, which sets out the aims of the council, gives enough incentive for the council to operate effectively as a disciplinary, regulatory and promoting function. The reason I say that is that it is very clear, if you read the Bill, that all the steps that the disciplinary process take are all set out on the face of the Bill, but it is not when it comes to professional practice. That is why I want to see the word 'practice' added, which is amendment 3. It is also why I want to see amendment 58 made, which has been the subject of discussion with the lawyers here as to how we could place on the face of the Bill something that builds on 3b—I agree that with the Minister that amendment 58 comes under 3b—and adds to the ability of the council to make a difference to learning in Wales.

Mae'r hyn sy'n ddiddorol yma, yr wyf am ei godi gyda Angela Burns, yn bwynt rhesymol, oherwydd, i ateb Angela a'r Gweinidog, credaf fod gwelliant 58 yn cryfhau gallu'r cyngor newydd i weithredu yn y maes hwn. Nid wyf yn cytuno â'r Gweinidog bod caniatáu adran 3 fel ag y mae ar hyn o bryd, sy'n nodi amcanion y cyngor, yn rhoi digon o gymhelliant i'r cyngor weithredu'n effeithiol fel swyddogaeth disgyblu, rheoleiddio a hyrwyddo. Y rheswm yr wyf yn dweud hynny yw ei bod yn glir iawn, os ydych yn darllen y Bil, bod yr holl gamau y mae'r broses ddisgyblu yn eu cymryd i gyd wedi eu nodi ar wyneb y Bil, ond nid yw hyn yn wir pan ddaw i arfer proffesiynol. Dyna pam yr wyf yn awyddus i weld y gair 'arfer' wedi'i ychwanegu, sef gwelliant 3. Dyna hefyd pam yr wyf am weld gwelliant 58 wedi'i wneud, sydd wedi bod yn destun trafodaeth gyda'r cyfreithwyr yma ynghylch sut y gallem roi ar wyneb y Bil rywbeth sy'n adeiladu ar 3b—rwy'n cytuno gyda'r Gweinidog bod gwelliant 58 yn dod dan 3b—ac yn ychwanegu at allu'r cyngor i wneud gwahaniaeth i ddysgu yng Nghymru.

I assure Angela that there is nothing in this that I have been told affects what happens in the school. This is not about the day-to-day running of schools, what the governors do or the control of the headteacher or governors in any way or shape on the school. However, it would allow the council to undertake activities—it is quite wide, I admit that—where it can demonstrate that those activities contribute to improving the standards of teaching. The quality of learning is not about the day-to-day class but the overall quality of learning within Wales—the raising of the profession. I particularly have in mind here the learning assistants and auxiliary workers, rather than the profession itself. You must read amendment 58 in the context of the aims of the council under section 3. So, the full impact of that is not to be taken on its own; it can only be read in that context.

Rwy'n sicrhau Angela nad oes dim byd yn hyn yr wyf wedi cael gwybod sy'n effeithio ar yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol. Nid yw hyn yn ymwneud â rhedeg ysgolion o ddydd i ddydd, yr hyn y mae'r llywodraethwyr yn ei wneud neu reolaeth y pennaeth neu lywodraethwyr mewn unrhyw ffordd ar yr ysgol. Fodd bynnag, byddai'n caniatáu i'r cyngor ymgymryd â gweithgareddau—mae'n eithaf eang, rwy'n cyfaddef hynny—lle y gellir dangos bod y gweithgareddau hynny yn cyfrannu at wella safonau addysgu. Nid yw ansawdd dysgu yn ymwneud â'r dosbarth o ddydd i ddydd ond ag ansawdd cyffredinol dysgu yng Nghymru—codi'r proffesiwn. Yr hyn sydd gennyf mewn golwg yn arbennig yma yw cynorthwywyr dysgu a gweithwyr ategol, yn hytrach na'r proffesiwn ei hun. Rhaid i chi ddarllen gwelliant 58 yng nghyd-destun amcanion y cyngor o dan adran 3. Felly, nid yw effaith lawn hynny i'w hystyried ar ei phen ei hun; ni ellir ond ei ddarllen yn y cyd-destun hwnnw.

Without an amendment like this, I would be concerned that it would be too easy for the council to implement the Bill as it is, which tells it very clearly what it does on the disciplinary side, and to struggle to know what sort of resources or leadership it could give in the field of raising standards more generally. I hope that that explains why we have worded it as we have, and provides an assurance that, in achieving this wording, my instructions to the lawyers were not anything to do with Angela's concerns, but to fit in with section 3 and to allow this discretion for the new council to become practised in this field, and particularly to be a leadership figure in this field. Estyn does the inspection, it recognises all the best practice and it is doing a good job of moving on with that. However, I would like to see a leadership figure within the teaching profession in Wales as well, and I think that this council can do that. That is why amendment 58 has been proposed.

Heb welliant fel hwn, byddwn yn pryderu y byddai'n rhy hawdd i'r cyngor weithredu'r Bil fel ag y mae, sy'n dweud wrtho'n glir iawn beth mae'n ei wneud ar yr ochr ddisgyblu, ac i gael trafferth i wybod pa fath o adnoddau neu arweinyddiaeth y gallai roi ym maes codi safonau yn fwy cyffredinol. Rwy'n gobeithio bod hynny'n egluro pam yr ydym wedi ei eirio fel yr ydym, ac yn darparu sicrwydd, wrth gyflawni'r geiriad hwn, nad oedd gan fy nghyfarwyddiadau i'r cyfreithwyr unrhyw beth i'w wneud â phryderon Angela, ond i gyd-fynd ag adran 3 ac i ganiatáu'r disgresiwn hwn i'r cyngor newydd i fod yn hyddysg yn y maes hwn, ac yn arbennig i fod yn ffigwr arweinyddiaeth yn y maes hwn. Mae Estyn yn gwneud yr arolygu, mae'n cydnabod yr holl arferion gorau ac mae'n gwneud gwaith da o symud ymlaen â hynny. Fodd bynnag, hoffwn weld ffigwr arweinyddiaeth o fewn y proffesiwn addysgu yng Nghymru yn ogystal, ac rwy'n credu y gall y cyngor hwn wneud hynny. Dyna pam mae gwelliant 58 wedi ei gynnig.

16:52

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 21 be agreed to. Does any Member object? There is objection. We will move straight to an electronic vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 21 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Symudwn yn syth i bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 21.

Result of the vote on amendment 21.

*Gwrthodwyd gwelliant 21: O blaid 14, Yn erbyn 27, Ymatal 13.*

*Amendment 21 not agreed: For 14, Against 27, Abstain 13.*

16:52

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call Simon Thomas to move amendment 3.

Galwaf Simon Thomas i gynnig gwelliant 3.

16:52

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf welliant 3 yn fy enw.

I move amendment 3 in my name.

16:52

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 3 be agreed to. Does any Member object? There is objection. We will move straight to an electronic vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 3 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Symudwn yn syth i bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3.

Result of the vote on amendment 3.

*Gwrthodwyd gwelliant 3: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 3 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order No. 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

16:53

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call Simon Thomas to move amendment 58.

Galwaf Simon Thomas i gynnig gwelliant 58.

16:53

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf welliant 58 yn fy enw.

I move amendment 58 in my name.

16:53

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 58 be agreed to. Does any Member object? There is objection. We will move straight to an electronic vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 58 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Symudwn yn syth i bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 58.

Result of the vote on amendment 58.

*Gwrthodwyd gwelliant 58: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 58 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order No. 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

### Grŵp 3: Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (Gwelliannau 49, 50 a 54)

### Group 3: Training and Continued Professional Development (Amendments 49, 50 and 54)

16:53

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 49. I call on Aled Roberts to move amendment 49 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 49. Rwy'n galw ar Aled Roberts i gynnig gwelliant 49 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

16:53

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf welliant 49 yn fy enw i.

I move amendment 49 in my name.

Dywedodd y Gweinidog wrth gyflwyno grŵp 1 ei fod yn cymryd yr un safbwynt â'r pwyllgor. Dyna yn union yr hyn yr ydym ni yn ei wneud wrth gynnig y gwelliannau hyn ynglŷn â hyfforddiant a datblygu proffesiynol.

The Minister, in speaking to group 1, said thathe takes the same stance as that taken by the committee. That is exactly what we are doing in moving these amendments on training and professional development.

Mae'n amlwg fod pob un o'r gwelliannau hyn yn cyd-fynd ag argymhellion y pwyllgor yng Nghyfnod 1, er bod y Gweinidog wedi darbwyllo Aelodau ar feinciau'r Llywodraeth i bleidleisio yn erbyn argymhellion y pwyllgor erbyn i ni ddod i Cyfnod 2. Fodd bynnag, roedd y Llywodraeth yn ddibynnol ar bleidlais y Llywydd, gan iddi bleidleisio yn erbyn y gwelliannau hyn yn unol â'n rheolau. Felly, y cwbl yr ydym yn ei wneud yw rhoi'r cyfle unwaith eto i'r Senedd, yn ei chyfanrwydd, i nodi ei barn ynglŷn â'r gwelliannau hyn.

It is evident that all these amendments are in line with the recommendations of the committee at Stage 1, although the Minister had convinced Members on the Government benches to vote against the committee's recommendations by the time we got to Stage 2. However, the Government was dependent on the vote of the Presiding Officer, as she voted against these amendments in accordance with our Standing Orders. Therefore, all that we are doing is giving the opportunity once again to the Senedd in its entirety to note its opinion regarding these amendments.

Soniodd Simon Thomas, wrth siarad am y grŵp blaenorol, am geisio rhoi rôl arwain i'r cyngor. Rwy'n credu ein bod ni'n ceisio gwneud yr un peth yn union yn y fan hon wrth sôn am hyfforddiant a datblygiad proffesiynol. Roedd y Gweinidog, wrth iddo drafod hyn yn y pwyllgor, hwyrach wedi camddehongli ein bwriad fel aelodau'r pwyllgor o ran gwneud y cyngor yn gyfrifol am ddarparu'r hyfforddiant a'r gwaith ar ddatblygiad proffesiynol. Nid hynny oedd ein bwriad, ond rydym yn teimlo bod cryn dipyn o feirniadaeth ynglŷn â hyfforddiant cychwynnol athrawon ac, ar ôl hynny, ynglŷn â'u datblygiad proffesiynol. Felly, rydym yn meddwl bod dyletswydd arnom i roi rôl arwain i'r cyngor, ac rydym yn gofyn i'r Senedd bleidleisio o blaid gwelliannau 49, 50 a 54 oherwydd hynny.

In speaking on the previous group, Simon Thomas talked about trying to give a leadership role to the council. I think that this is exactly what we are trying to do here in terms of training and professional development. The Minister, in discussing this in committee perhaps misinterpreted our intention as committee members in terms of the council being responsible for providing training and the work on professional development. That was not our intention, but we feel that there is quite a lot of criticism of initial teacher training and, after that, of professional development. So, we think that there is a duty on us to give a leadership role to the council, and we ask the Senedd to vote for amendments 49, 50 and 54 because of that.

16:56

## David Rees Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I would like to ask a couple of questions about amendment 50 in particular, because paragraph (2)(b) talks about accrediting training courses. As someone who used to have to ensure that programmes were such that they were developed for qualifications and, as such, were not deemed to be training programmes but academic programmes, I would like you to clarify for me how you define 'training courses'. What is a training course? Are we talking about qualifications as well—courses that award qualifications? It also creates an accreditation body by including that simple point in there. Can you also define for me the processes and regulations that will be in place to ensure that the body undertakes its duty to provide the accreditation to all people who may wish to apply to it? If you are talking about accrediting training programmes, we are obviously talking about a large number, so there have to be some sort of rules and procedures in place. So, can you identify any procedures and regulations you have in place for that body to work to?

Hoffwn ofyn ychydig o gwestiynau am welliant 50 yn benodol, oherwydd mae paragraff (2) (b) yn sôn am achredu cyrsiau hyfforddi. Fel rhywun a oedd yn arfer gorfod sicrhau bod rhaglenni yn rhai a oedd yn cael eu datblygu ar gyfer cymwysterau ac, fel y cyfryw, nid ystyriwyd eu bod yn rhaglenni hyfforddi ond yn rhaglenni academaidd, hoffwn ichi egluro i mi sut yr ydych yn diffinio 'cyrsiau hyfforddi'. Beth yw cwrs hyfforddi? A ydym ni'n sôn am gymwysterau yn ogystal—cyrsiau sy'n dyfarnu cymwysterau? Mae hefyd yn creu corff achredu trwy gynnwys y pwynt syml hwnnw o'i fewn. A allwch chi hefyd ddiffinio i mi y prosesau a'r rheoliadau a fydd ar waith i sicrhau bod y corff yn cyflawni ei ddyletswydd i ddarparu achrediad i'r holl bobl a allai fod yn dymuno gwneud cais amdano? Os ydych yn siarad am achredu rhaglenni hyfforddiant, rydym yn amlwg yn siarad am nifer fawr, felly mae'n rhaid sefydlu rhyw fath o reolau a gweithdrefnau. Felly, a allwch chi nodi unrhyw weithdrefnau a rheoliadau sydd gennych ar waith i'r corff hwnnw weithio ar eu cyfer?

16:57

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwyf ddim ond yn codi i gefnogi'r gwelliannau. Maent yn welliannau sy'n fwy cul na'r rhai yr oeddem yn eu trafod yn y grŵp blaenorol, ond maent yn ceisio cyflawni'r un peth, sef bod yn fwy clir ar wyneb y Bil beth fydd y gwaith arwain proffesiynol y bydd y corff hwn yn ei wneud. Mae'r gwelliannau hyn yn ymwneud yn benodol ag ymarfer dysgu, ond mae rhai o'r adroddiadau mwy diweddar ar ansawdd yr ymarfer dysgu mewn ambell goleg yn dangos bod arweiniad yn y maes. Er ein bod ni wedi colli'r gwelliannau cynt yn anffodus, mae'r gwelliannau hyn yn ffitio i mewn gydag ethos y gwelliannau hynny, felly byddwn yn hapus i'w cefnogi.

I simply speak to support the amendments. They are not as wide-ranging as the ones that we discussed earlier, but they seek to achieve the same things, namely to be clear on the face of the Bill as to the professional leadership that this new body will undertake. These amendments relate specifically to teacher training, but some of the most recent reports on the quality of the training in some of our colleges demonstrate a need for leadership in this area. Although the previous amendments fell unfortunately, these amendments fit in with the ethos of those amendments, so we are happy to support them.

16:58 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have to inform Members that I am surprised to see these amendments re-tabled. They completely disregard the various statements and observations on professional development made during the evidence sessions at Stage 1 by the unions, Estyn and the Welsh Local Government Association. Ann Keane, the chief inspector of Estyn, in evidence to the then Children and Young People Committee, was clear that the function of supporting continuing professional development should remain very close to the provision. Placing such duties on the council would realise the very same concerns raised by unions, Estyn and the WLGA, as cited in their evidence to the then Children and Young People Committee, namely fears of significant duplication and further muddying of the water over roles and responsibilities.

Rhaid i mi roi gwybod i'r Aelodau fy mod yn synnu gweld y gwelliannau hyn yn cael eu hail-gyflwyno. Maent yn llwyr ddiystyru'r gwahanol ddatganiadau a sylwadau ar ddatblygiad proffesiynol a wnaed yn ystod y sesiynau tystiolaeth yng Nghyfnod 1 gan yr undebau, Estyn a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Roedd Ann Keane, prif arolygydd Estyn, mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar y pryd, yn glir y dylai'r swyddogaeth o gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus barhau i fod yn agos iawn at y ddarpariaeth. Byddai gosod dyletswyddau o'r fath ar y cyngor yn achosi yr un pryderon ag a godwyd gan yr undebau, Estyn a CLlLC, fel y nodwyd yn eu tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar y pryd, sef ofnau o ddyblygu sylweddol a chymylu pethau ymhellach o ran swyddogaethau a chyfrifoldebau.

However, again, I am afraid that Aled Roberts seems to have dismissed those concerns. Further, I must make it clear that placing such duties on the council would realise the very same concerns, again raised at Stage 1, regarding the cost of such activities. I will say again that the education workforce council, as the General Teaching Council for Wales will become known, will be self-financing in respect of its core functions. This is a critical point. If the Assembly were to accept these amendments and CPD were to become a core function of the education workforce council, the funding would have to be generated through the registration fee, and this would inevitably lead to considerable increases in that fee. During these times of austerity and ongoing pay freezes in the public sector, it is my duty to protect the educational workforce as much as I can from unnecessary increases.

Fodd bynnag, unwaith eto, mae arnaf ofn bod Aled Roberts fel petai wedi diystyru'r pryderon hynny. Hefyd, mae'n rhaid imi ei gwneud yn glir y byddai gosod dyletswyddau ar y cyngor yn achosi yr union bryderon, a godwyd unwaith eto yng Nghyfnod 1, ynghylch cost gweithgareddau o'r fath. Dywedaf unwaith eto bod cyngor y gweithlu addysg, fel y bydd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn cael ei adnabod, yn hunangyllidol o ran ei swyddogaethau craidd. Mae hwn yn bwynt hollbwysig. Pe byddai'r Cynulliad yn derbyn y gwelliannau hyn ac os yw DPP i ddod yn un o swyddogaethau craidd cyngor y gweithlu addysg, byddai'n rhaid i'r arian gael ei gynhyrchu drwy'r ffi gofrestru, a byddai hyn yn arwain yn anochel at gynnydd sylweddol yn y ffi honno. Yn ystod y cyfnod hwn o ddarbodaeth a rhewi cyflogau parhaus yn y sector cyhoeddus, mae'n ddyletswydd arnaf i amddiffyn y gweithlu addysgol gymaint ag y gallaf rhag codiadau diangen.

This Government's aim is to ensure that every learner gets the education that they deserve to achieve their aspirations. Improving professionalism and standards has to be done across the piece in education. This was the message coming from those who gave evidence to this committee at Stage 1 and I concur with that view. This is not about duplication of effort, but about recognising the role that all key partners play in raising standards, including the council, Welsh Government, Estyn, consortia and, not least, practitioners themselves.

Nod y Llywodraeth yw sicrhau bod pob dysgwr yn cael yr addysg y maent yn ei haeddu i gyflawni eu dyheadau. Mae'n rhaid gwella proffesiynoldeb a safonau ym mhob agwedd ar addysg. Dyma oedd y neges a ddaeth oddi wrth y rhai a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor hwn yng Nghyfnod 1 ac rwy'n cytuno â'r farn honno. Nid yw hyn yn ymwneud â dyblygu ymdrech, ond am gydnabod y swyddogaeth y mae'r holl bartneriaid allweddol yn ei chwarae o ran codi safonau, gan gynnwys y cyngor, Llywodraeth Cymru, Estyn, consortia ac, yn anad dim, yr ymarferwyr eu hunain.

The council already has a role in relation to professional development through the administration and management of Welsh Government programmes. The Welsh Government provides GTCW with funding by way of a grant to undertake additional work on our behalf. Grant funding is entirely separate from, and should not be confused with, the core functions and fee arrangements.

Mae gan y cyngor eisoes swyddogaeth o ran datblygiad proffesiynol trwy weinyddu a rheoli rhaglenni Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu CyngACC gyda chyllid drwy grant i wneud gwaith ychwanegol ar ein rhan. Mae cyllid grant yn hollol ar wahân i swyddogaethau craidd a threfniadau ffioedd, ac ni ddylid drysu rhyngddynt.

Members of the Children and Young People Committee will know that I have already made an amendment at Stage 2 under section 8 of the Bill that refers to the development of careers. This was intended to reassure Members and interested parties that Welsh Ministers will be able to request the council to undertake activities relating to professional development. A key task for the education workforce council will be to ensure that its registration procedures are in place and that it is fully operational by April 2015.

Bydd aelodau'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn gwybod fy mod eisoes wedi gwneud gwelliant yng Nghyfnod 2 o dan adran 8 o'r Bil sy'n cyfeirio at ddatblygu gyrfaoedd. Bwriad hyn oedd rhoi sicrwydd i Aelodau a rhai â budd y bydd Gweinidogion Cymru yn gallu gofyn i'r cyngor ymgymryd â gweithgareddau yn ymwneud â datblygiad proffesiynol. Un o dasgau allweddol cyngor y gweithlu addysg fydd sicrhau bod ei weithdrefnau cofrestru ar waith a'i fod yn gwbl weithredol erbyn mis Ebrill 2015.

Moving to amendment 54, this amendment is not necessary, as the Welsh Government has well-established procedures in place in relation to grant funding, which are built on the foundations of consultation and agreement. Members can be assured that any future grant arrangements with the education workforce council will continue to be in line with Welsh Government procedures and will be publicised accordingly. However, in the spirit of cross-party working and to address, in particular, concerns about the funding that would be available for professional development, let me say again that, for 2013-14, I grant funded more than £6 million to GTCW. This £6 million funds GTCW to undertake specific work in relation to professional development, including early professional development and the Master's in education programme. Our vision, through this primary legislation, is for a whole-system approach that sees a council that works with all partners, including Welsh Government, Estyn, consortia and practitioners, recognising not only its own role, but the critical roles that all play, in raising standards.

Gan symud at welliant 54, nid yw'r gwelliant hwn yn angenrheidiol, gan fod gan Lywodraeth Cymru weithdrefnau sefydledig ar waith ar gyfer cyllid grant, sy'n cael eu hadeiladu ar sylfeini ymgynghori a chytuno. Gall aelodau fod yn sicr y bydd unrhyw drefniadau grant yn y dyfodol gyda chyngor y gweithlu addysg yn parhau i fod yn unol â gweithdrefnau Llywodraeth Cymru, a bydd yn cael ei gyhoeddi yn unol â hynny. Fodd bynnag, yn yr ysbryd o weithio trawsbleidiol a mynd i'r afael, yn arbennig, â'r pryderon am y cyllid a fyddai ar gael ar gyfer datblygiad proffesiynol, gadewch i mi ddweud eto, ar gyfer 2013-14, fy mod wedi dyfarnu arian grant o fwy na £6 miliwn i GyngACC. Mae'r £6 miliwn hwn yn ariannu CyngACC i ymgymryd â gwaith penodol yn ymwneud â datblygiad proffesiynol, gan gynnwys datblygiad proffesiynol cynnar a'r rhaglen Meistr mewn addysg. Ein gweledigaeth, drwy'r ddeddfwriaeth sylfaenol hon, yw dull system gyfan sy'n gweld cyngor sy'n gweithio gyda'r holl bartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Estyn, consortia ac ymarferwyr, gan gydnabod nid yn unig ei swyddogaeth ei hun, ond y swyddogaethau hanfodol y mae pawb yn ei chwarae, wrth godi safonau.

The establishment of the education workforce council sends out a hugely important signal about the aims and aspirations that the Welsh Government has for the education workforce. I therefore ask Members to reject amendments 49, 50 and 54.

Mae sefydlu cyngor y gweithlu addysg yn anfon neges hynod bwysig am y nodau a'r dyheadau sydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y gweithlu addysg. Felly, gofynnaf i'r Aelodau wrthod gwelliannau 49, 50 a 54.

17:03 

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on Aled Roberts to reply to the debate.

Rwy'n galw ar Aled Roberts i ymateb i'r ddadl.

17:03 

## Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I think that there is a difference of opinion with regard to the intention that lies behind these particular amendments. It is a difference of opinion that was canvassed during the committee Stage. I also have to say that the Minister has referred to the evidence given by a whole series of agencies with regard to these particular amendments, but, of course, the committee still felt, during Stage 1, that it wanted to put these forward. These amendments are based on recommendations from the committee.

Rwy'n credu bod gwahaniaeth barn o ran y bwriad y tu ôl i'r gwelliannau penodol hyn. Mae'n wahaniaeth barn a gafodd ei ganfasio yn ystod y Cam pwyllgor. Rhaid i mi hefyd ddweud bod y Gweinidog wedi cyfeirio at y dystiolaeth a roddwyd gan gyfres gyfan o asiantaethau o ran y gwelliannau penodol hyn, ond, wrth gwrs, roedd y pwyllgor yn dal i deimlo, yn ystod Cyfnod 1, ei fod yn awyddus i gyflwyno'r rhain. Mae'r gwelliannau hyn yn seiliedig ar argymhellion y pwyllgor.

To answer David Rees's point, the amendments here today are narrower in focus because of the very issues that you raise and, certainly, it is not the intention. There is, we think, a real need for there to be leadership with regard to the provision of both initial teacher training, which has been the subject of some criticism, and continuing professional development, while recognising that the accreditation et cetera and those arrangements sit beyond those particular functions. That is why we have narrowed the wording of these particular amendments. Albeit that we still appear to have that difference of opinion, I would want a vote on these amendments.

I ateb pwynt David Rees, mae'r gwelliannau yma heddiw yn gulach eu cwmpas oherwydd yr union faterion yr ydych yn eu codi ac, yn sicr, nid dyna'r bwriad. Mae angen gwirioneddol, yn ein barn ni, am arweiniad o ran y ddarpariaeth o hyfforddiant cychwynnol athrawon, sydd wedi bod yn destun peth beirniadaeth, a datblygiad proffesiynol parhaus, gan gydnabod bod yr achredu ac ati a'r trefniadau hynny yn gorwedd y tu hwnt i'r swyddogaethau penodol hynny. Dyna pam yr ydym wedi culhau geiriad y gwelliannau penodol hyn. Er ei bod yn ymddangos bod y gwahaniaeth barn yn parhau, byddwn yn dymuno cael pleidlais ar y gwelliannau hyn.

17:04 

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 49 be agreed to. Does any Member object? There are objections, therefore we will move straight to an electronic vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 49 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiadau, felly symudwn yn syth i bleidlais electronig.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 49.](#)

[Result of the vote on amendment 49.](#)

*Gwrthodwyd gwelliant 49: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 49 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order No. 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

17:04

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call Aled Roberts to move amendment 50.

Galwaf ar Aled Roberts i gynnig gwelliant 50.

17:04

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf welliant 50 yn fy enw i.

I move amendment 50 in my name.

17:04

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 50 be agreed to. Are there any objections? There is objection, therefore we will move straight to an electronic vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 50 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn yn syth i bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 50.

Result of the vote on amendment 50.

*Gwrthodwyd gwelliant 50: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 50 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order No. 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

### Grŵp 4: Ffioedd Cofrestru (Gwelliant 51)

### Group 4: Registration Fees (Amendment 51)

17:05

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead and only amendment in the group is amendment 51. I call on Aled Roberts to move amendment 51 and to speak to it.

Y prif welliant a'r unig un yn y grŵp yw gwelliant 51. Rwy'n galw ar Aled Roberts i gynnig gwelliant 51 ac i siarad amdano.

17:05

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 51 in my name.

Cynigiaf welliant 51 yn fy enw i.

Again, this amendment was not agreed previously at Stage 2 on the casting vote, which I have to accept, despite the discussions taking place at Stage 1, where the report said:

Unwaith eto, ni chafodd y gwelliant hwn ei dderbyn yn flaenorol yng Nghyfnod 2 ar y bleidlais fwrw, ac mae'n rhaid i mi dderbyn hynny, er gwaethaf y trafodaethau a gynhelir yng Nghyfnod 1, lle'r oedd yr adroddiad yn dweud:

'The Committee recommends that the Council should set its own fees but that the Welsh Ministers should issue guidance, based on principles of fairness and equality, on the setting of registration fees.'

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Cyngor bennu ei ffioedd eu hunan, ond y dylai Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau, yn seiliedig ar egwyddorion tegwch a chydraddoldeb, ar bennu ffioedd cofrestru.

The purpose behind this amendment is that we feel that there is a need to safeguard the independence of the council, and we believe that the basic way of doing that is to ensure that all people within the profession drive the manner in which its registration fees are determined. We think that, if we are to be serious with regard to the Government's stated intention that there should be a body that is at arm's length from Government, we have to give the profession the responsibility to set its fees, albeit within guidance published by the Government. I have to accept that the Minister was able to sway his colleagues to resist the amendment at committee Stage, but this amendment has been supported fully both by the Conservatives and by Plaid Cymru throughout.

Y diben y tu ôl i'r gwelliant hwn yw ein bod yn teimlo bod angen diogelu annibyniaeth y cyngor, ac rydym yn credu mai'r ffordd sylfaenol o wneud hynny yw sicrhau bod yr holl bobl o fewn y proffesiwn yn sbarduno'r modd y mae ei ffioedd cofrestru yn cael eu penderfynu. Rydym yn credu, os ydym am fod o ddifrif o ran y bwriad a nodwyd gan y Llywodraeth y dylai fod corff sydd hyd braich oddi wrth y Llywodraeth, mae'n rhaid i ni roi'r cyfrifoldeb i'r proffesiwn i bennu ei ffioedd, ond o fewn canllawiau a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth. Rhaid i mi dderbyn bod y Gweinidog wedi gallu dylanwadu ar ei gydweithwyr i wrthod y gwelliant yn y Cam pwyllgor, ond mae'r gwelliant hwn wedi ei gefnogi'n llawn gan y Ceidwadwyr a gan Blaid Cymru drwy'r adeg.

It may be that the Minister honestly believes that it is for Welsh Ministers to continue to set the fees. I think that the question that we have to ask ourselves is: why is the teaching profession being dealt with differently to many other professions? For example, we believe that doctors should determine the fees that are set by the General Medical Council. We believe that this would be a real statement of trust as far as the teaching profession is concerned. We are always told that politicians have interfered in the teaching profession excessively, yet my feeling is that we are in danger of acceding to Government micromanagement as far as registration fees are concerned in this particular instance. I would ask you, therefore, to support amendment 51.

Efallai fod y Gweinidog yn credu yn onest ei fod yn fater i Weinidogion Cymru i barhau i bennu'r ffioedd. Credaf mai'r cwestiwn y mae'n rhaid i ni ofyn i ni'n hunain yw: pam mae'r proffesiwn addysgu yn cael ei drin yn wahanol i lawer o broffesiynau eraill? Er enghraifft, rydym yn credu mai meddygon ddylai benderfynu ar y ffioedd a bennir gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol. Rydym yn credu y byddai hyn yn wir ddatganiad o ymddiriedaeth cyn belled ag y mae'r proffesiwn addysgu yn y cwestiwn. Rydym bob amser yn clywed bod gwleidyddion wedi ymyrryd yn y proffesiwn addysgu yn ormodol, ond fy marn i er hynny yw ein bod mewn perygl o gytuno i ficroreolaeth gan Lywodraeth cyn belled ag y mae ffioedd cofrestru yn y cwestiwn yn yr achos penodol hwn. Felly, gofynnaf i chi gefnogi gwelliant 51.

17:07

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Byddwn yn cefnogi'r gwelliant am y rhesymau a amlinellwyd gan Aled Roberts. Yn benodol, rwy'n meddwl bod angen inni daflu golwg dros yr egwyddorion yn y fan hon. Y ffaith amdani yw nad yw'r Llywodraeth eisiau newid y sefyllfa bresennol, oherwydd bod y Llywodraeth yn talu cryn dipyn o'r ffioedd hyn eisoes ac nid yw eisiau gorfod talu mwy na negodi gyda'r undebau am unrhyw godiad yn y taliad hwnnw. Hefyd, mae oherwydd bod undebau'r athrawon yn bryderus iawn ynglŷn â chorff annibynnol a fydd yn gallu codi ei ffioedd ei hun ac, yn sicr, nid ydynt eisiau gweld corff sydd yn codi ffioedd ar gyfer pethau fel datblygiad proffesiynol. Ond, fel rydym newydd glywed gan y Gweinidog, mae yntau yn rhoi arian sylweddol i'r maes hwnnw beth bynnag. Yn y bôn, os ydych yn sefydlu corff annibynnol i fod yn gyfrifol yn annibynnol am broffesiynoldeb a disgyblaeth mewn maes proffesiynol, dylai'r corff hwnnw gael gosod ei ffioedd ei hun. Dyna'r unig ffordd hirdymor i sicrhau hynny.

We will support the amendment for the reasons outlined by Aled Roberts. In particular, I think that we need to take a broad look at the principles at this point. The fact is that the Government does not want to change the status quo, because the Government pays a significant amount of these fees already and does not want to have to pay more, and does not want to negotiate with the unions for any increase in those payments. Also, the teaching unions are very concerned about an independent body that will be able to raise its own fees and, certainly, they do not want to see a body charging fees for things such as professional development. However, as we have just heard from the Minister, he provides substantial sums for that area anyway. Esentially, if you are setting up an independent body to be independently responsible for professionalism and discipline in a professional field, that body should be able to set its own fees. That is the only long-term way to ensure that.

Rwy'n deall y problemau ymarferol o ddydd i ddydd sy'n bodoli yn awr, ond rydym yn ceisio pasio deddfwriaeth a fydd yn dda mewn degawd, dau ddegawd ac efallai hanner canrif. Felly, rwyf eisiau gweld rhywbeth sy'n llawer cryfach a mwy annibynnol o safbwynt y cyngor, ac yn y cyd-destun hwn yn benodol, nid oes dim byd mwy annibynnol nac arian, wrth gwrs. Mae cyllid sydd ynghlwm wrth y Llywodraeth neu benderfyniadau'r Llywodraeth, os yw'r Llywodraeth yn dymuno, yn mynd i gadw'r cyngor hwnnw mewn sefyllfa daeogaidd am gyfnod hir. Nid wyf yn meddwl bod gan y cyngor presennol llawer o adnoddau wrth gefn oherwydd bod y Llywodraeth wedi mynnu rhewi ei ffioedd am gyfnod mor hir—mae un codiad wedi bod, rwy'n gwybod. Yn gyffredinol, rwy'n credu bod yr egwyddor uwch law'r cwestiynau ymarferol sydd gennym heddiw oherwydd cyni, llymder a phethau eraill.

I understand the practical problems on a day to day basis that exist now, but we are trying to pass legislation that will be fit for a decade, two decades or perhaps half a century. Therefore, I want to see something that is more robust and independent for the council, and, in this context in particular, there is nothing more independent than funding, of course. Funding that is attached to the Government, or to Government decisions, if the Government so wishes, is going to keep that council in a servile position for a long period. I do not think that the current council has much resource in reserve, because the Government has insisted that it freezes its fees for so long —there has been one uplift, I know. In general, I think that the principle overrides the practical questions that we have today because of austerity, rigour and so on.

17:09

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This amendment was tabled at Stage 2, and I would like to reiterate the consequences of amendment 51. I must make clear to Members that I have been under significant pressure from the existing council of GTCW to increase the registration fee. The Government's objection to amendment 51 is not about protecting the Government, but about protecting those who have to register. I am sure that Members would agree that, during these times of austerity and ongoing pay freezes in the public sector, it is my duty to protect the educational workforce as much as I can from unnecessary increases. It is vital to ensure that the fees associated with registration are fair and comparable to practitioners' salaries. I would remind Members, Aled included, that we are not just going to be talking about teachers here. We will also be talking about members of the educational workforce who earn far less than a teacher might be expected to earn. That is why it is essential that, at this time, Welsh Ministers continue to set the fee. I am determined that the reconfigured council is given the appropriate time to bed in, and that, in that time, it focuses on delivering its core functions of registration.

Cafodd y gwelliant hwn ei gyflwyno yng Nghyfnod 2, a hoffwn ailadrodd ganlyniadau gwelliant 51. Rhaid imi ei gwneud yn glir i Aelodau fy mod wedi bod o dan bwysau sylweddol gan gyngor presennol CyngACC i gynyddu'r ffi gofrestru. Nid yw gwrthwynebiad y Llywodraeth i welliant 51 yn ymwneud ag amddiffyn y Llywodraeth, ond amddiffyn y rhai sy'n gorfod cofrestru. Rwy'n siŵr y byddai'r Aelodau'n cytuno, yn ystod y cyfnod hwn o ddarbodaeth a rhewi cyflogau parhaus yn y sector cyhoeddus, ei bod yn ddyletswydd arnaf i amddiffyn y gweithlu addysgol gymaint ag y gallaf rhag codiadau diangen. Mae'n hanfodol i sicrhau bod y ffioedd sy'n gysylltiedig â chofrestru yn deg ac yn debyg i gyflogau ymarferwyr. Hoffwn atgoffa Aelodau, gan gynnwys Aled, nad ydym yn mynd i fod yn siarad am athrawon yn unig yma. Byddwn hefyd yn siarad am aelodau o'r gweithlu addysgol sy'n ennill llawer llai nag y gallai athro ddisgwyl ei ennill. Dyna pam y mae'n hanfodol, ar hyn o bryd, bod Gweinidogion Cymru yn parhau i bennu'r ffi. Rwy'n benderfynol y bydd y cyngor a aildrefnwyd yn cael yr amser priodol i ymsefydlu, ac, yn y cyfnod hwnnw, ei fod yn canolbwyntio ar gyflawni ei swyddogaethau cofrestru craidd.

The Bill allows us to specify in regulations who is to determine the amount. Initially, this will be for Welsh Ministers, but the Bill does provide the scope to change this. However, now is not the right time. For this reason, I urge Members to resist amendment 51.

Mae'r Bil yn ein galluogi i bennu mewn rheoliadau pwy sydd i benderfynu ar y swm. I ddechrau, bydd hyn yn fater i Weinidogion Cymru, ond mae'r Bil yn darparu'r cyfle i newid hyn. Fodd bynnag, nid nawr yw'r adeg iawn. Am y rheswm hwn, rwy'n annog yr Aelodau i wrthod gwelliant 51.

17:11

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I invite Aled Roberts to reply to the debate.

Rwy'n gwahodd Aled Roberts i ymateb i'r ddadl.

17:11 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I understand the Government's view on this. It is clearly the case that there is a difference of opinion: that the opposition benches, in particular, feel that it should be the profession that dictates the nature of the organisation and the value of fees. The Minister will also know that there was a great deal of time spent in committee discussing the gradient of fees to reflect the capacity of individuals and different aspects of the workforce to pay those fees. I honestly ask the Government to reconsider. I accept that it has probably taken a stance at this position, as Simon Thomas said. If we are to strengthen the role of the teaching profession and see us through all of these changes that we all want to see, in all honesty it is imperative that we have a robust and independent body that is properly resourced. On that basis, it should be the body itself that determines the level of registration fees.

Rwy'n deall safbwynt y Llywodraeth ar hyn. Mae'n amlwg yn wir bod gwahaniaeth barn: bod meinciau'r gwrthbleidiau, yn arbennig, yn teimlo mai'r proffesiwn ddylai fod yn pennu natur y sefydliad a gwerth ffioedd. Bydd y Gweinidog hefyd yn gwybod bod llawer iawn o amser wedi'i dreulio yn y pwyllgor yn trafod y graddiant ffioedd i adlewyrchu gallu unigolion a gwahanol agweddau ar y gweithlu i dalu'r ffioedd hynny. Rwyf wir yn gofyn i'r Llywodraeth ailystyried. Rwy'n derbyn ei bod yn ôl pob tebyg wedi cymryd safiad yn hyn o beth, fel y dywedodd Simon Thomas. Os ydym am gryfhau swyddogaeth y proffesiwn addysgu a sicrhau ein bod yn mynd drwy bob un o'r newidiadau hyn yr ydym i gyd am eu gweld, i fod yn gwbl onest, mae'n hanfodol bod gennym gorff cadarn ac annibynnol sydd ag adnoddau priodol. Ar y sail honno, y corff ei hun ddylai fod yn pennu lefel y ffioedd cofrestru.

17:12 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 51 be agreed to. Does any Member object? There is objection, therefore we will move to an electronic vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 51 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn i bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 51.

Result of the vote on amendment 51.

*Gwrthodwyd gwelliant 51: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 51 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

## Grŵp 5: Gweithdrefnau Deddfwriaethol (Argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol) (Gwelliannau 28, 29, 30, 31, 32, 33, 34, 35, 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42, 43, 44, 45, 46, 47 a 48)

## Group 5: Legislative Procedures (CLA Committee Recommendations) (Amendments 28, 29, 30, 31, 32, 33, 34, 35, 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42, 43, 44, 45, 46, 47 and 48)

17:12 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 28. I call on Suzy Davies to move amendment 28 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 28. Galwaf ar Suzy Davies i gynnig gwelliant 28 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

17:13 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 28 in my name.

Cynigiaf welliant 28 yn fy enw i.

I begin by advising Members that these amendments were also considered at Stage 2, and that they were all taken to the Chair's casting vote—something that I think that the Government needs to take account of, as that has already proven to be something of a pattern here at Stage 3. I think that it would help with our legislative process if the Government were able to persuade more opposition Members to go along with its proposed legislation.

Dechreuaf drwy hysbysu'r Aelodau bod y gwelliannau hyn hefyd wedi eu hystyried yng Nghyfnod 2, a'u bod i gyd wedi mynd i bleidlais fwrw—rhywbeth yr wyf yn credu y mae angen i'r Llywodraeth ei ystyried, gan ei fod eisoes wedi profi i fod yn dipyn o batrwm yma yng Nghyfnod 3. Rwy'n meddwl y byddai'n helpu gyda'n proses ddeddfwriaethol pe byddai'r Llywodraeth yn gallu perswadio mwy o Aelodau'r gwrthbleidiau i gytuno â'i deddfwriaeth arfaethedig.

Committee members listened to the Minister's response to the argument in favour of these amendments, and while I thank you, Minister, for your response, I do not think that you dealt with all of the issues that we raised sufficiently in order to prevent me bringing these amendments back to Plenary today. All of the amendments in this group reflect recommendations made by the Constitutional and Legislative Affairs Committee in its report on this Bill. That committee does not scrutinise or seek to change policy referred to in the legislation or prevent Welsh Ministers assuming powers. It simply scrutinises the quality of the legislation. Is the policy intention clear from the face of the Bill? Will the Bill, as drafted, successfully implement that policy intention?

Gwrandawodd aelodau'r Pwyllgor ar ymateb y Gweinidog i'r ddadl o blaid y gwelliannau hyn, ac er fy mod yn diolch i chi, Weinidog, am eich ymateb, nid wyf yn credu eich bod wedi ymdrin â phob un o'r materion a godwyd gennym yn ddigonol er mwyn fy atal rhag dod â'r gwelliannau hyn yn ôl i'r Cyfarfod Llawn heddiw. Mae pob un o'r gwelliannau yn y grŵp hwn yn adlewyrchu argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ei adroddiad ar y Bil hwn. Nid yw'r pwyllgor hwnnw'n craffu na cheisio newid y polisi y cyfeirir ato yn y ddeddfwriaeth nac atal Gweinidogion Cymru rhag cymryd pwerau. Yn syml, mae'n craffu ar ansawdd y ddeddfwriaeth. A yw'r bwriad polisi yn glir o wyneb y Bil? A fydd y Bil, fel y'i drafftiwyd, yn gweithredu'r bwriad polisi hwnnw yn llwyddiannus?

Amendments 28 through to 32 are tabled because opposition committee members felt that sections 14 to 17 of the Bill failed to be clear about the policy intention of the Government. They do not introduce certainty of policy intention. Certainty may, of course, be introduced and postponed to regulation, but that is for implementing policy rather than introducing policy. The certainty of the policy intention itself was not clear in these amendments.

Mae gwelliannau 28 hyd at 32 wedi eu cyflwyno am fod aelodau pwyllgor y gwrthbleidiau'n teimlo bod adrannau 14 i 17 o'r Bil wedi methu â bod yn glir ynghylch bwriad polisi'r Llywodraeth. Nid ydynt yn cyflwyno sicrwydd o fwriad polisi. Gellid, wrth gwrs, cyflwyno sicrwydd a'i ohirio hyd at reoleiddio, ond mae hynny ar gyfer gweithredu polisi yn hytrach na chyflwyno polisi. Nid yw sicrwydd y bwriad polisi ei hun yn glir yn y gwelliannau hyn.

At the moment, the legislation gives Ministers the power to introduce regulations that prevent certain people from doing certain things in a school, college or further education establishment. However, the Bill does not provide a complete list of the people or the activities that will be caught by the Act. There is no obligation to introduce clarifying regulations—in other words, this is just a power; it is not an obligation. It is that traditional question that we face: the difference between 'may' and 'must'. Surely, a policy position should be sufficiently developed at Stage 3 of a Bill to tell us who will be affected by these sections and what they will be prevented from doing. This is law, Minister; it is not a policy statement. It must be clear and it must be enforceable. At the moment, there is nothing in the sections that I am referring to that is enforceable. Teachers and support workers will have no idea whether they are engaging in activities that you may stop from doing in the future and they have no comfort that you will ever introduce regulations to make your intention clear.

Ar hyn o bryd, mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi pŵer i Weinidogion gyflwyno rheoliadau sy'n atal pobl benodol rhag gwneud pethau penodol mewn ysgol, coleg neu sefydliad addysg bellach. Fodd bynnag, nid yw'r Bil hwn yn darparu rhestr gyflawn o'r bobl na'r gweithgareddau a fydd yn cael eu dal gan y Ddeddf. Nid oes unrhyw rwymedigaeth i gyflwyno rheoliadau egluro—mewn geiriau eraill, pŵer yn unig yw hyn; nid yw'n rhwymedigaeth. Y cwestiwn traddodiadol yr ydym yn ei wynebu: y gwahaniaeth rhwng 'caiff' a 'rhaid'. Siawns y dylai safbwynt polisi gael ei ddatblygu'n ddigonol yng Nghyfnod 3 Bil i ddweud wrthym pwy fydd yn cael eu heffeithio gan yr adrannau hyn a'r hyn y byddant yn cael eu hatal rhag ei wneud. Cyfraith yw hon, Weinidog; nid ddatganiad polisi yw hwn. Rhaid ei bod yn glir ac yn orfodadwy. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw beth yn yr adrannau yr wyf yn cyfeirio atynt sy'n orfodadwy. Ni fydd gan athrawon a gweithwyr cymorth unrhyw syniad o ba un a ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y gallwch eu hatal rhag eu gwneud yn y dyfodol ac nid oes ganddynt unrhyw gysur y byddwch byth yn cyflwyno rheoliadau i wneud eich bwriad yn glir.

You also seek a power to introduce regulations governing induction courses and appraisals. Do you want to legislate on excluding activity, induction courses and appraisals or not? If you do not, please do not put them in the Bill. If you do, why not commit that policy intention to the face of the Bill? By all means, leave the description of implementation to regulations, as you might want to do for induction courses and appraisals, but policy intention must be clear on the face of the Bill. I genuinely do not understand why you are so coy about this because you have no compunction about committing to the introduction of a code on the face of the Bill.

Rydych hefyd yn ceisio pŵer i gyflwyno rheoliadau sy'n rheoli cyrsiau ymsefydlu a gwerthusiadau. Ydych chi eisiau deddfu ar eithrio gweithgareddau, cyrsiau sefydlu a gwerthusiadau ai peidio? Os nad ydych, peidiwch â'u rhoi yn y Bil. Os ydych, beth am ymrwymo'r bwriad polisi hwnnw i wyneb y Bil? Ar bob cyfrif, gadewch y disgrifiad o weithredu i reoliadau, fel efallai y byddwch am ei wneud ar gyfer cyrsiau sefydlu a gwerthusiadau, ond mae'n rhaid i fwriad polisi fod yn glir ar wyneb y Bil. Nid wyf wir yn deall pam yr ydych mor swil am hyn oherwydd nad oes gennych unrhyw gydwybod o ran ymrwymo i gyflwyno cod ar wyneb y Bil.

In your response at Stage 2, Minister, you claimed that you did not want to be obliged to bring forward regulations that you may not need, that you needed flexibility and that these amendments might propel you into a situation where elements will be legislated for prematurely. There is no time limit on these amendments so there is no propulsion there, Minister, but your comments revealed that there may still be material considerations on which you are unclear as you introduce this primary legislation. Further, in committee, you were unable to respond to this essential point: there is a critical difference between the power to determine the content of a regulation and a power to determine whether there will be a regulation at all. The former is standard; the latter results in unenforceable primary legislation.

Yn eich ymateb yng Nghyfnod 2, Weinidog, gwnaethoch honni nad oeddech am gael eich gorfodi i gyflwyno rheoliadau efallai na fyddwch eu hangen, eich bod angen hyblygrwydd ac y gallai'r gwelliannau hyn eich rhuthro i mewn i sefyllfa lle y deddfir ar gyfer elfennau yn rhy fuan. Nid oes terfyn amser ar y gwelliannau hyn felly nid oes rhaid rhuthro, Weinidog, ond datgelodd eich sylwadau y gall fod ystyriaethau perthnasol yr ydych yn dal yn ansicr yn eu cylch wrth i chi gyflwyno'r ddeddfwriaeth sylfaenol hon. Hefyd, yn y pwyllgor, nid oeddech yn gallu ymateb i'r pwynt hanfodol hwn: mae gwahaniaeth hanfodol rhwng y pŵer i benderfynu ar gynnwys rheoliad a phŵer i benderfynu a fydd rheoliad o gwbl. Mae'r cyntaf yn safonol; mae'r olaf yn arwain at ddeddfwriaeth sylfaenol na ellir ei gorfodi.

Amendment 33 seeks some further explanation from you, Minister. Having committed, as I have said, to introducing a code via regulation, there is no commitment to clarity on the punitive elements of such a code. This is an important element upon which those affected by this Act should have certainty within the code itself. I look forward to your response to this part of the debate, Minister, because, depending on your response, I will decide whether to move this amendment.

Mae gwelliant 33 yn gofyn am rywfaint o eglurhad pellach gennych, Weinidog. Wedi ymrwymo, fel y dywedais, i gyflwyno cod drwy reoleiddio, nid oes ymrwymiad i eglurder ar elfennau cosbol cod o'r fath. Mae hon yn elfen bwysig y dylai'r rheini yr effeithir arnynt gan y Ddeddf hon gael sicrwydd yn ei chylch o fewn y cod ei hun. Edrychaf ymlaen at eich ymateb i'r rhan hon o'r ddadl, Weinidog, oherwydd, yn dibynnu ar eich ymateb, byddaf yn penderfynu ar ba un ai cynnig y gwelliant hwn ai peidio.

Amendment 32 and amendments 35 through to 44 are also tabled on the back of the Constitutional and Legislative Affairs Committee's report. With so much of the Bill being left to regulation, we wanted some certainty that the Assembly could scrutinise those regulations as well as it possibly could. Naturally, we should expect policy intention to be clear on the face of the Bill and not developed through regulations that subject committees cannot scrutinise. It is not enough for the Minister to say that he will consult formally and informally before making regulations; he has a legislature to satisfy now. These amendments, therefore, require the affirmative procedure—sometimes only on the first publication, rather than in perpetuity—so that Members can be satisfied that they understand whether there is any policy development as it unfolds, as well as technical details. To avoid that in the future, Minister, you need to make sure that the policy intention is clear on the face of the Bill.

Mae gwelliant 32 a gwelliannau 35 hyd at 44 hefyd wedi eu cyflwyno ar gefn adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Gyda chymaint o'r Bil yn cael ei adael i reoleiddio, roeddem eisiau rhywfaint o sicrwydd y gall y Cynulliad graffu ar y rheoliadau hynny i eithaf ei allu. Yn naturiol, dylem ddisgwyl i fwriad polisi fod yn glir ar wyneb y Bil, ac nid cael ei ddatblygu drwy reoliadau na all pwyllgorau pwnc graffu arnynt. Nid yw'n ddigon i'r Gweinidog ddweud y bydd yn ymgynghori'n ffurfiol ac yn anffurfiol cyn gwneud rheoliadau; mae ganddo ddeddfwrfa i'w bodloni nawr. Mae'r gwelliannau hyn, felly, yn gwneud gweithdrefn gadarnhaol yn ofynnol—weithiau ar y cyhoeddiad cyntaf yn unig, yn hytrach nag am byth—fel y gall Aelodau fod yn fodlon eu bod yn deall pa un a oes unrhyw ddatblygiad polisi wrth iddo ddatblygu, yn ogystal â manylion technegol. Er mwyn osgoi hynny yn y dyfodol, Weinidog, mae angen i chi wneud yn siŵr bod y bwriad o ran polisi yn glir ar wyneb y Bil.

Amendments 34 and 46 attempt to deal with our old friends, the Henry VIII powers, using this Bill to give Welsh Ministers powers by regulation to introduce any provision that they think is appropriate to give effect to this Bill or under this Bill, including changing any other legislation. Minister, you explained your position on these amendments to the committee and I would be grateful if you would explain them again in Plenary—particularly why you believe that the current drafting of these sections is a sufficient safeguard against the abuse of these powers. I will then consider whether to proceed to move the amendments. However, I will move to a vote unless you undertake that these powers will not be used to introduce new policy that is not signalled on the face of the Bill or new burdens or further uncertainties for our constituents that are not signalled on the face on the Bill.

Mae gwelliannau 34 a 46 yn ymgais i ymdrin â'n hen ffrindiau, pwerau Harri VIII, gan ddefnyddio'r Bil hwn i roi pwerau i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau i gyflwyno unrhyw ddarpariaeth y maent yn meddwl sy'n briodol er mwyn rhoi effaith i'r Bil hwn neu o dan y Bil hwn, gan gynnwys newid unrhyw ddeddfwriaeth arall. Weinidog, fe wnaethoch chi egluro eich safbwynt ar y gwelliannau hyn i'r pwyllgor a byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn eu hegluro eto yn y Cyfarfod Llawn—yn enwedig pam yr ydych yn credu bod y drafftio ar hyn o bryd o'r adrannau hyn yn ddull diogelu digonol yn erbyn cam-ddefnyddio'r pwerau hyn. Byddaf wedyn yn ystyried a ddylwn i symud ymlaen i gynnig y gwelliannau. Fodd bynnag, byddaf yn symud i bleidlais oni bai eich bod yn addo na fydd y pwerau hyn yn cael eu defnyddio i gyflwyno polisi newydd nad yw wedi'i nodi ar wyneb y Bil neu feichiau newydd neu ansicrwydd pellach ar gyfer ein hetholwyr nad ydynt wedi'u nodi ar wyneb y Bil.

Finally, on amendments 47 and 48, is it right that a commencement Order should be introduced with no procedure at all when these Orders still allow Welsh Ministers to take transitional and other apparently consequential legislative steps without any reference to this Assembly? Again, Minister, if you can persuade us that these powers will not be used to develop policy or to introduce any steps that involve new burdens or uncertainties for constituents, then I will consider whether to proceed to move these two particular amendments.

Yn olaf, ar welliannau 47 a 48, a yw'n iawn y dylai Gorchymyn cychwyn gael ei gyflwyno heb unrhyw weithdrefn o gwbl pan fo'r Gorchmynion hyn yn dal i ganiatáu i Weinidogion Cymru gymryd camau trosiannol a chamau deddfwriaethol eraill yr ymddangosir eu bod yn ganlyniadol heb unrhyw ystyriaeth o'r Cynulliad hwn? Unwaith eto, Weinidog, os gallwch ein perswadio na fydd y pwerau hyn yn cael eu defnyddio i ddatblygu polisi neu i gyflwyno unrhyw gamau sy'n ymwneud â beichiau neu ansicrwydd newydd ar gyfer etholwyr, yna byddaf yn ystyried a ddylwn symud ymlaen i gynnig y ddau welliant penodol hyn.

17:20 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yn syml iawn, rwyf jyst eisiau cefnogi'r hyn ddywedodd Suzy Davies. Os yw unrhyw Lywodraeth yn dod â deddfwriaeth gerbron ac yn dweud ei bod eisiau pwerau rheoli mewn unrhyw faes, mi ddylai fod yn glir ar wyneb y Bil hwnnw ym mha gyd-destun y bydd yn defnyddio'r pwerau hynny, a beth yw pwrpas defnyddio'r pwerau. Sawl gwaith ar wyneb y Bil hwn mae gormod o grynhoi grym i ddwylo'r Gweinidog heb unrhyw argoel o beth yw'r pwrpas neu'r allyriadau polisi o safbwynt hynny.

Quite simply, I just want to support the comments made by Suzy Davies. If any Government brings legislation forward and states that it wants regulation powers in any area, it should be clear on the face of the Bill in what context it will use those powers, and what the purpose of the use of the powers is. On a number of occasions on the face of this Bill there is too much concentration of power into the hands of the Minister without any indication as to what the purpose or the policy outcomes would be in that regard.

Mae hynny'n rhywbeth sydd wastad yn destun pryder yn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yr wyf yn eistedd arno, gyda Suzy. Dylai fod yn destun pryder hefyd yn y maes hwn pan rydych yn edrych ar y sgîl-effeithiau neu'r posibiliadau sydd gan y Gweinidog o gyflwyno rheoliadau. Yr ail ran o hwn yw, os yw'r Gweinidog am wneud rheoliadau dan rai o'r pwerau hyn, mi ddylai'r Gweinidog ar sawl achlysur ddod yma yn gyntaf, o leiaf am olwg gyntaf, fel ein bod ni fel corff deddfu yn gweld y rheoliadau, i weld ym mha ffordd y mae'r Gweinidog yn defnyddio'r pŵer sydd wedi cael ei roi iddo gan bobl Cymru, i bob pwrpas, trwy ddulliau'r Siambr a'r Senedd hon.

That is something that is always a cause for concern for the Constitutional and Legislative Affairs Committee that I am a member of, along with Suzy. It should also be a cause for concern in this area when you look at the side effects or the possibilities that the Minister has in bringing forward regulations. The second part of this is, if the Minister wishes to make regulations using some of these powers, the Minister should, on a number of occasions, come here first, at least for a first glance, so that we as legislative body will see the regulations and see in which way the Minister is using the powers that have been conferred to him by the people of Wales, to all intents and purposes, by means of this Chamber and this Senedd.

Felly, rwy'n cefnogi'r hyn yr oedd Suzy yn ei ddweud ac rwy'n dweud unwaith eto bod hwn yn faes lle rydym yn dechrau deddfu gormod fel San Steffan: heb feddwl digon am anghenion Cymru, a'r ffordd yr ydym yn deddfu yn y fan hon.

Therefore, I support Suzy's comments and would reiterate that this is an area where we are starting to become too similar to Westminster in the way that we legislate, and not thinking enough about the needs of Wales, and the way that we legislate here.

17:21 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First of all, could I contend with Suzy Davies's view that I have in any way been unreasonable or not recognised the views of opposition parties in the process of the passage of this Bill? I think that any reasonable observer who knows anything about the history of the passage of this Bill will know from the evidence that they will see there, and which they will read in terms of committee proceedings and subsequent developments, that I have made every effort to be respectful of the views of opposition parties during the development of this legislation. However, it is vital that this Bill provides the necessary agility to put in place different arrangements for the different sectors of the education workforce, reflecting and responding to what are very different stages of development.

Yn gyntaf oll, a allwn i anghytuno â barn Suzy Davies fy mod mewn unrhyw ffordd wedi bod yn afresymol neu heb gydnabod barn y gwrthbleidiau ym mhroses hynt y Bil hwn? Rwy'n credu y bydd unrhyw arsylwr rhesymol sy'n gwybod unrhyw beth am hanes hynt y Bil hwn yn gwybod o'r dystiolaeth y byddant yn ei weld yno, ac y byddant yn ei darllen mewn trafodion pwyllgorau a datblygiadau dilynol, fy mod wedi gwneud pob ymdrech i barchu barn y gwrthbleidiau yn ystod datblygiad y ddeddfwriaeth hon. Fodd bynnag, mae'n hanfodol fod y Bil hwn yn darparu'r hyblygrwydd angenrheidiol i sefydlu trefniadau gwahanol ar gyfer y gwahanol sectorau'r gweithlu addysg, gan adlewyrchu ac ymateb i'r hyn sy'n gamau datblygu gwahanol iawn.

At Stage 2, I gave a detailed and lengthy explanation for the procedures in this Bill. We need to be able to meet the changing needs of the education workforce, both now and in the future, and make certain that arrangements meet the different requirements of the wider workforce. That is why discretionary regulation-making powers are appropriate for sections 14 to 17, 23 and 25. For example, statutory induction and appraisal regimes are already well-established for teachers, and I anticipate that regulations made under this Bill will largely reflect these arrangements. However, similar arrangements for the wider workforce are at significantly different stages of development. Indeed, regulations may not be appropriate in all circumstances. These amendments would mean that Welsh Ministers were instead placed under a duty to make regulations. The education workforce council provisions would be flawed if we sought to tie down details relating to the wider workforce and left no scope for variation over time. Put simply, one size does not fit all.

Yn ystod Cyfnod 2, rhoddais esboniad manwl a hir ar gyfer y gweithdrefnau yn y Bil hwn. Mae angen i ni fod yn gallu diwallu anghenion newidiol y gweithlu addysg, yn awr ac yn y dyfodol, a gwneud yn siŵr bod trefniadau yn bodloni gwahanol ofynion y gweithlu ehangach. Dyna pam mae pwerau dewisol i wneud rheoliadau yn briodol ar gyfer adrannau 14 i 17, 23 a 25. Er enghraifft, mae cyfundrefnau sefydlu a gwerthuso statudol eisoes wedi'u sefydlu'n dda ar gyfer athrawon, ac rwy'n rhagweld y bydd y rheoliadau a wneir o dan y Bil hwn yn adlewyrchu'r trefniadau hyn i raddau helaeth. Fodd bynnag, mae trefniadau tebyg ar gyfer y gweithlu ehangach ar gamau datblygu tra gwahanol. Yn wir, efallai na fydd y rheoliadau yn briodol ym mhob amgylchiad. Byddai'r gwelliannau hyn yn golygu bod Gweinidogion Cymru yn cael eu gosod yn hytrach o dan ddyletswydd i wneud rheoliadau. Byddai darpariaethau cyngor y gweithlu addysg yn ddiffygiol pe byddem yn ceisio penderfynu ar fanylion yn ymwneud â'r gweithlu ehangach a ddim yn gadael cyfle am amrywiadau dros gyfnod. Yn syml, nid yw un maint yn addas i bawb.

The effect of these amendments will be to remove the necessary flexibility and possibly not only lead to elements being legislated for prematurely, but also affect the phased implementation of this element of the Bill, which would not be in anyone's interest. For these reasons, I ask Members not to support amendments 28, 29, 30, 31, 32 and 33.

Effaith y gwelliannau hyn fydd cael gwared ar yr hyblygrwydd angenrheidiol ac o bosibl nid yn unig arwain at elfennau y deddfir ar eu cyfer yn rhy fuan, ond hefyd effeithio ar y broses o weithredu'r elfen hon ar y Bil, na fyddai o fudd i unrhyw un. Am y rhesymau hyn, gofynnaf i'r Aelodau beidio â chefnogi gwelliannau 28, 29, 30, 31, 32 a 33.

Amendments 35 to 45 seek to change the procedure from the negative to the affirmative. I am confident that the negative procedure is appropriate and proportionate for sections 10(2)(b), 13 through to 17, 19(3), 23, 25(1), 26(6) and 28(1). Attaching a negative procedure to a power should be seen in its proper context. We will consult, both informally and formally, before making such regulations and Members can, of course, seek to annul them. Therefore, such regulations should not be characterised as being without scrutiny.

Mae diwygiadau 35 i 45 yn ceisio newid y weithdrefn o'r negyddol i'r cadarnhaol. Rwy'n hyderus bod y weithdrefn negyddol yn briodol ac yn gymesur i adrannau 10 (2) (b), 13 hyd at 17, 19 (3), 23, 25 (1), 26 (6) a 28 (1). Dylid gweld atodi gweithdrefn negyddol i bŵer yn ei gyd-destun priodol. Byddwn yn ymgynghori, yn anffurfiol ac yn ffurfiol, cyn gwneud rheoliadau o'r fath a gall Aelodau, wrth gwrs, geisio eu diddymu. Felly, ni ddylai rheoliadau o'r fath gael eu nodweddu fel rhai lle nad oes craffu.

A number of the powers can be characterised as being administrative or procedural in nature, setting out the processes, rules and arrangements that need to be in place before the education workforce council is up and running, for example, sections 13, 25, 26 and 28. Other regulation-making powers relate to professional standards and will reflect the different stages of development, again, of the different sectors of the education workforce, for example, sections 10(2), 14, 15, 16, 17 and 18, as well as section 23. In accordance with the Counsel General's guidance, the negative procedure is appropriate for these powers. There are no factors that would indicate that the affirmative procedure is appropriate.

Gall sawl un o'r pwerau gael eu nodweddu fel rhai gweinyddol neu weithdrefnol eu natur, gan nodi'r prosesau, y rheolau a'r trefniadau y mae angen iddynt fod ar waith cyn i gyngor y gweithlu addysg fod yn weithredol, er enghraifft, adrannau 13, 25, 26 a 28. Mae pwerau gwneud rheoliadau eraill yn ymwneud â safonau proffesiynol a bydd yn adlewyrchu gwahanol gyfnodau o ddatblygiad, unwaith eto, y gwahanol sectorau o'r gweithlu addysg, er enghraifft, adrannau 10 (2), 14, 15, 16, 17 a 18, yn ogystal ag adran 23. Yn unol ag arweiniad y Cwnsler Cyffredinol, mae'r weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer y pwerau hyn. Nid oes unrhyw ffactorau sy'n awgrymu bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol.

However, other subordinate legislation powers provide the agility to meet the changing needs of the education workforce, both now and in future, to make certain that arrangements meet the different requirements of the wider workforce. I recognise that this type of subordinate legislation is different, and, in accordance with the Counsel General's guidance, the relevant sections will be subject to the affirmative procedure, for example, sections 5, 10(6), 12 and Schedule 2, paragraph 2. I believe that we now have the right procedures and I therefore ask Members not to support amendments 35 to 45.

Fodd bynnag, mae pwerau is-ddeddfwriaeth arall yn cynnig yr hyblygrwydd i fodloni anghenion newidiol y gweithlu addysg, yn awr ac yn y dyfodol, i wneud yn siŵr bod trefniadau'n bodloni gwahanol ofynion y gweithlu ehangach. Rwy'n cydnabod bod y math hwn o is-ddeddfwriaeth yn wahanol, ac, yn unol ag arweiniad y Cwnsler Cyffredinol, bydd yr adrannau perthnasol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, er enghraifft, adrannau 5, 10 (6), 12 ac Atodlen 2, paragraff 2 . Rwy'n credu bod y gweithdrefnau cywir gennym nawr ac felly gofynnaf i'r Aelodau beidio â chefnogi gwelliannau 35 i 45.

Amendments 34 and 46 seek to apply the superaffirmative procedure to the Henry VIII Order-making power under section 46 of the Bill. I have listened carefully to the concerns raised, but I believe that that would not be proportionate. The section 46 power would be used for such matters as making changes to other legislation needed in consequence of the provisions of this Bill or to deal with unforeseen details arising from the implementation of the new system, for example, amendments because of the change of name from the General Teaching Council for Wales to the education workforce council. Such an Order amending primary legislation is already subject to the affirmative procedure.

Mae gwelliannau 34 a 46 yn ceisio cymhwyso'r weithdrefn uwchgadarnhaol i bŵer gwneud Gorchymyn Harri VIII o dan adran 46 y Bil. Rwyf wedi gwrando'n ofalus ar y pryderon a godwyd, ond rwy'n credu na fyddai hynny'n gymesur. Byddai pŵer adran 46 yn cael ei ddefnyddio ar gyfer materion megis gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth arall sydd eu hangen o ganlyniad i ddarpariaethau'r Bil hwn neu i ymdrin â manylion annisgwyl sy'n codi o weithredu'r system newydd, er enghraifft, newidiadau oherwydd y newid enw o Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i gyngor y gweithlu addysg. Mae Gorchymyn o'r fath sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol eisoes yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

These amendments are entirely disproportionate and unnecessary, because the power under section 46 can only be used to give full effect to any provision made by or under the Bill; it cannot be used to introduce new matters of policy. Use of this power should not compromise private interests and individuals in a way that is specific to them, and the power will not impose a sanction or leave a retrospective effect. Were there to be some for form of retrospectivity, or were private interests to be compromised, then that might merit the superaffirmative procedure. However, this is not the case here, therefore, I urge Members not to support amendments 34 and 46.

Mae'r gwelliannau hyn yn gwbl anghymesur a diangen, oherwydd gellir defnyddio'r pŵer o dan adran 46 i roi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth a wneir gan neu o dan y Bil, ac ni ellir ei ddefnyddio i gyflwyno materion newydd o bolisi. Ni ddylai defnydd o'r pŵer hwn beryglu unigolion a buddiannau preifat mewn ffordd sy'n benodol iddynt hwy, ac ni fydd y pŵer yn gosod cosb na gadael effaith ôl-weithredol. Pe byddai rhyw fath o ôl-syllu, neu pe byddai buddiannau preifat am gael eu peryglu, yna efallai y byddai'r weithdrefn uwchgadarnhaol yn briodol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir yma, felly, rwy'n annog yr Aelodau i beidio â chefnogi gwelliannau 34 a 46.

Turning to amendments 47 and 48, these seek to apply an Assembly legislative procedure to commencement Orders. Currently, the Bill does not provide for any procedure to apply to commencement Orders. This is usual practice, as the Assembly will already have approved the relevant provisions, and all that remains to be done is to switch them on. It is not appropriate to impose a further procedure on the commencement of provisions, as this would give the Assembly the power to stop the bringing into force of provisions that have already been agreed by the Assembly. This would create legal uncertainty and unnecessary delay.

Gan droi at welliannau 47 a 48, mae'r rhain yn ceisio cymhwyso gweithdrefn ddeddfwriaethol y Cynulliad i Orchmynion cychwyn. Ar hyn o bryd, nid yw'r Bil yn darparu ar gyfer unrhyw weithdrefn i fod yn gymwys i Orchmynion cychwyn. Mae hyn yn arfer arferol, gan y bydd y Cynulliad eisoes wedi cymeradwyo darpariaethau perthnasol, a'r cyfan sydd ar ôl i'w wneud yw eu troi ymlaen. Nid yw'n briodol i osod gweithdrefn ychwanegol ar gychwyn darpariaethau, gan y byddai hyn yn rhoi'r pŵer i'r Cynulliad i atal dwyn i rym y darpariaethau sydd eisoes wedi eu cytuno gan y Cynulliad. Byddai hyn yn creu ansicrwydd cyfreithiol ac oedi diangen.

Commencement Orders with transitional, saving and consequential elements are designed to cater for the process of moving from one regime to another, so that the process is as seamless as possible and the new law works; it is common wording in most Acts that include secondary-legislation-making powers. Such provisions do not introduce new policy principles, but ensure that the transition is smooth and that it is clear when either the old law or the new law applies.

Mae Gorchmynion Cychwyn ag elfennau trosiannol, arbed a chanlyniadol wedi eu cynllunio i ddarparu ar gyfer y broses o symud o un drefn i'r llall, fel bod y broses mor ddi-dor â phosibl a bod y gyfraith newydd yn gweithio; mae'n eiriad cyffredin yn y rhan fwyaf Deddfau sy'n cynnwys pwerau gwneud is-ddeddfwriaeth. Nid yw darpariaethau o'r fath yn cyflwyno egwyddorion polisi newydd, ond maent yn sicrhau bod y trosglwyddiad yn llyfn a'i fod yn glir pan fo naill ai'r hen gyfraith neu'r gyfraith newydd yn berthnasol.

The transitional provisions that could be made by way of a commencement Order are very limited and would have to relate to the commencement of the provisions, not the provisions themselves. If commencement Orders that included transitional, transitory or savings provisions were made subject to a form of Assembly procedure, we would find ourselves in the unfortunate position where it would be possible for the substantive provision to be commenced but the connected saving, transitional or transitory provision to be annulled. It would be undesirable for the fate of a transitional Order to be uncertain, when its provisions were necessary to allow effective commencement of the substantive provisions.

Mae'r darpariaethau trosiannol y gellid eu gwneud drwy gyfrwng Gorchymyn cychwyn yn gyfyngedig iawn a byddai'n rhaid iddynt ymwneud â chychwyn y darpariaethau, nid y darpariaethau eu hunain. Pe byddai Gorchmynion cychwyn a oedd yn cynnwys darpariaethau trosiannol, darfodol neu arbed yn cael eu gwneud yn ddarostyngedig i fath o weithdrefn y Cynulliad, byddem yn canfod ein hunain yn y sefyllfa anffodus lle y byddai'n bosibl i'r brif ddarpariaeth gael ei chychwyn, ond bod y ddarpariaeth arbed, trosiannol neu ddarfodol gysylltiedig yn cael ei diddymu. Byddai'n annymunol i dynged Gorchymyn trosiannol fod yn ansicr, pan fyddai ei ddarpariaethau yn angenrheidiol i ganiatáu cychwyn effeithiol ar y darpariaethau sylweddol.

Making commencement Orders subject to a form of Assembly procedure would also cause uncertainty, as it would subject the Order to the 40-day annulment period. In other words, if an Order was laid for the appropriate 21 day period, there would then be a further 40-day period when a Member may table a motion to annul the Order. That would mean that, within that 40-day period, it would not be clear to the public whether the old law or the new was in force. Commencement Orders are generally subject to no procedure, partly because the time necessary to complete the procedure is too long for the practical administration of implementation, given that commencement is a one-off event.

Byddai gwneud Gorchmynion cychwyn yn ddarostyngedig i fath o weithdrefn y Cynulliad hefyd yn achosi ansicrwydd, gan y byddai'n gwneud y Gorchymyn yn ddarostyngedig i'r cyfnod diddymu 40 diwrnod. Mewn geiriau eraill, pe byddai'r Gorchymyn yn cael ei osod am y cyfnod 21 diwrnod priodol, byddai cyfnod 40 diwrnod arall wedyn pryd y gallai Aelod gyflwyno cynnig i ddiddymu'r Gorchymyn. Byddai hynny'n golygu, o fewn y cyfnod 40 diwrnod, na fyddai'n glir i'r cyhoedd pa un ai'r hen gyfraith neu'r un newydd a oedd mewn grym. Nid yw Gorchmynion Cychwyn ar y cyfan yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn, yn rhannol oherwydd bod yr amser angenrheidiol i gwblhau'r weithdrefn yn rhy hir ar gyfer gweinyddu ymarferol y gweithredu, o ystyried bod cychwyn yn ddigwyddiad unwaith ac am byth.

Amendment 48 proposes the negative procedure where any commencement Order is made after the end of the current Assembly term. This, again, is unusual, and I do not think that it is necessary for the same reasons that I have already given. Therefore, I urge Members to resist amendments 47 and 48.

Mae gwelliant 48 yn cynnig y weithdrefn negyddol lle mae unrhyw Orchymyn cychwyn yn cael ei wneud ar ôl diwedd tymor presennol y Cynulliad. Mae hyn, unwaith eto, yn anarferol, ac nid wyf yn credu ei fod yn angenrheidiol am yr un rhesymau ag yr wyf eisoes wedi'u rhoi. Felly, rwy'n annog yr Aelodau i wrthod gwelliannau 47 a 48.

17:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on Suzy Davies to reply to the debate.

Galwaf ar Suzy Davies i ymateb i'r ddadl.

17:31 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, I will just begin by saying that I did not mean to imply at any point that you had showed disrespect to the views of opposition parties. That certainly was not my intention; it was just merely to point out that I think that it is very telling with regard to this particular Bill that you have not managed to persuade at least one of the opposition parties routinely to support wholeheartedly the work that has been done towards putting this Bill together. I think that it is fair to say that the Welsh Government usually has some success in attracting at least one opposition party, whichever one it is, to support it, and I do not think that that is happening with this—at least so far.

Weinidog, rwyf am ddechrau drwy ddweud nad oeddwn yn bwriadu awgrymu ar unrhyw adeg eich bod wedi dangos diffyg parch i farn y gwrthbleidiau. Yn sicr, nid dyna oedd fy mwriad; dim ond nodi yr oeddwn fy mod o'r farn ei fod yn drawiadol iawn o ran y Bil penodol hwn nad ydych wedi llwyddo i berswadio o leiaf un o'r gwrthbleidiau fel mater o drefn i lwyr gefnogi'r gwaith sy'n cael ei wneud tuag at roi'r Bil hwn at ei gilydd. Rwy'n credu ei bod yn deg dweud bod gan Lywodraeth Cymru fel arfer rywfaint o lwyddiant o ran denu o leiaf un wrthblaid, pa un bynnag ydyw, i'w chefnogi, ac nid wyf yn credu bod hynny'n digwydd gyda hyn—o leiaf nid hyd yma.

You mentioned, as indeed you did at committee stage, that education workers, including teachers, are at different stages of development in their careers, and the way that this Bill will deal with them will inevitably be at different stages as well. You said that in some cases regulations might not be appropriate. You then went on to say that regulations that will apply to teachers will probably just reflect the existing regulations. The Bill will also deal with people who have not been dealt with by this education workforce council before. So, it is not entirely clear to me who those people to whom some regulations would not apply would be. I think that everybody who will be covered by this Bill will have regulations of some sort or another apply to them in connection with the sections to which these amendments refer. Therefore, I do not think that I am entirely satisfied with your answer. Who, exactly, is not being legislated for in this particular Bill?

Roeddech yn sôn, fel yn wir y gwnaethoch ar y cam pwyllgor, bod gweithwyr addysg, gan gynnwys athrawon, ar wahanol gamau o ddatblygiad yn eu gyrfaoedd, a bydd y ffordd y bydd y Bil hwn yn ymdrin â hwy yn anochel ar wahanol gamau hefyd. Dywedasoch efallai na fydd rheoliadau yn briodol mewn rhai achosion. Wedyn aethoch ymlaen i ddweud y bydd y rheoliadau a fydd yn berthnasol i athrawon yn ôl pob tebyg ddim ond yn adlewyrchu'r rheoliadau presennol. Bydd y Bil hefyd yn ymdrin â phobl nad ydynt wedi cael eu trin gan gyngor y gweithlu addysg o'r blaen. Felly, nid yw'n gwbl glir i mi pwy fyddai'r bobl hynny na fyddai rhai rheoliadau'n berthnasol iddynt. Rwy'n meddwl y bydd gan bawb fydd yn cael eu cwmpasu gan y Bil hwn reoliadau o ryw fath neu'i gilydd yn berthnasol iddynt mewn cysylltiad â'r adrannau y mae'r gwelliannau hyn yn cyfeirio atynt. Felly, nid wyf yn meddwl fy mod yn gwbl fodlon ar eich ateb. Pwy, yn union, na fydd y Bil penodol hwn yn deddfu ar eu cyfer?

Again, I am afraid that you did not address my essential point that there are different types of regulation, one which deals with the detail of implementation and the one that explains whether a power will be introduced at all.

Unwaith eto, mae arnaf ofn nad aethoch i'r afael â fy mhwynt hanfodol bod gwahanol fathau o reoleiddio, un sy'n ymdrin â manylion y gweithredu a'r un sy'n esbonio pa un a fydd pŵer yn cael ei gyflwyno o gwbl.

I agree with you that regulations should only really be used for technical matters and minor issues perhaps that do not need an awful lot of scrutiny, but so uncertain are we about what your regulations may include, due to the extreme framework nature of this Bill, that it has been quite difficult to have confidence in what might be coming in future regulations. Perhaps we would not be so nervous about that regulation if, as I said, the policy intention of the Bill was just a bit clearer on the face of the document itself.

Rwy'n cytuno â chi na ddylai rheoliadau mewn gwirionedd gael eu defnyddio dim ond ar gyfer materion technegol a mân faterion efallai nad oes angen llawer iawn o graffu arnynt, ond rydym ni mor ansicr am yr hyn y gall eich rheoliadau ei gynnwys, oherwydd natur fframwaith eithafol y Bil hwn, fel ei bod wedi bod yn eithaf anodd i fod yn hyderus yn yr hyn a allai fod yn dod mewn rheoliadau yn y dyfodol. Efallai na fyddem mor nerfus am y rheoliad hwn pe byddai, fel y dywedais, bwriad polisi'r Bil ychydig yn fwy eglur ar wyneb y ddogfen ei hun.

On the Henry VIII powers, Minister, I did not hear anything that you did not say to us at committee stage. I just loomed in on the magic words 'unforeseen circumstances'—that you would have unlimited power to change not only this legislation but other legislation should unforeseen circumstances arise from this Bill. From a Bill that has grown from the soil of uncertainty, we might expect unforeseen circumstances to be the fruit that it bears, and so I will be moving those amendments in due course.

Ar bwerau Harri VIII, Weinidog, chlywais i ddim byd na wnaethoch chi ei ddweud wrthym ni yn ystod y cam pwyllgor. Wnes i ddim ond edrych ar y geiriau hud 'amgylchiadau annisgwyl'—y byddai gennych y pŵer anghyfyngedig i newid nid yn unig y ddeddfwriaeth hon ond deddfwriaeth arall pe byddai amgylchiadau annisgwyl yn codi o'r Bil hwn. O Fil sydd wedi tyfu o bridd ansicrwydd, efallai y dylem ddisgwyl mai amgylchiadau annisgwyl fydd y ffrwyth a ddaw ohono, ac felly byddaf yn cynnig y gwelliannau hynny maes o law.

I listened again to what you said regarding commencement Orders, which is, again, broadly what you told us in committee. However, as you have been able to offer that explanation to the whole Assembly, I do not propose to move the two amendments in connection with commencement Orders when the time comes.

Gwrandewais eto ar yr hyn a ddywedasoch ynghylch Gorchmynion cychwyn, sydd, unwaith eto, yn fras, yr un fath â'r hyn a ddywedasoch wrthym yn y pwyllgor. Fodd bynnag, gan eich bod wedi gallu cynnig yr esboniad hwnnw i'r Cynulliad cyfan, nid wyf yn bwriadu cynnig y ddau welliant mewn cysylltiad â Gorchmynion cychwyn pan ddaw'r amser.

17:34

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I propose that amendments 28 to 32, which appear consecutively on the marshalled list, be disposed of en bloc, given their nature. Does any Member object to those being grouped? There is no objection. I call on Suzy Davies to move amendments 29 to 32.

Cynigiaf fod gwelliannau 28 i 32, sy'n ymddangos yn olynol ar y rhestr o welliannau wedi'u didoli, yn cael eu gwaredu en bloc, o ystyried eu natur. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu i'r rhain gael eu grwpio? Nid oes gwrthwynebiad. Galwaf ar Suzy Davies i gynnig gwelliannau 29 i 32.

17:34

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendments 29, 30, 31 and 32 in my name.

Cynigiaf welliannau 29, 30, 31 a 32 yn fy enw i.

17:34

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendments 28 to 32 be agreed to. Does any Member object? There is objection. We will move to an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliannau 28 i 32. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Symudwn i bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliannau 28, 29, 30, 31 a 32

Result of the vote on amendments 28, 2, 30, 31 and 32

*Gwrthodwyd gwelliannau 28, 29, 30, 31 a 32: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendments 28, 29, 30, 31 and 32 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliannau.*

*As required by Standing Order No. 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendments.*

### Grŵp 6: Sefydlu a Gwerthuso (Gwelliant 4)

### Group 6: Induction and Appraisal (Amendment 4)

17:35

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead and only amendment in the group is amendment 4. I call on the Minister to move amendment 4 and to speak to it.

Y prif welliant a'r unig un yn y grŵp yw gwelliant 4. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 4 ac i siarad amdano.

17:35

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 4 in my name.

Cynigiaf welliant 4 yn fy enw i.

Amendment 4 removes section 23(5) from the Bill and inserts a new subsection in its place, simply restating the current law. The new subsection effectively restates section 131(5) of the Education Act 2002.

Mae gwelliant 4 yn dileu adran 23 (5) o'r Bil ac yn mewnosod is-adran newydd yn ei lle, gan, yn syml, ailddatgan y gyfraith bresennol. Mae'r is-adran newydd yn effeithiol yn ailddatgan adran 131 (5) o Ddeddf Addysg 2002.

Section 23 of the Bill deals with the appraisal of the education workforce. As currently drafted, section 23(5) allows the Welsh Ministers to specify the circumstances where the outcome of an appraisal may be used to determine a registered person's remuneration. It may be considered that section 23(5) modifies the Secretary of State function to set teachers' pay and conditions as set out in section 122 of the Education Act 2002. Such a modification requires the Secretary of State's consent. On reflection, the policy intent can be achieved by restating the existing law, and consent is not required to do that. Therefore, I have decided to remove section 23(5) from the face of the Bill and insert a new section 23(5) in its place through the means of amendment 4.

Mae Adran 23 y Bil yn ymdrin â gwerthuso'r gweithlu addysg. Fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, mae adran 23 (5) yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu amgylchiadau lle y ceir defnyddio canlyniad gwerthusiad i benderfynu ar gydnabyddiaeth ariannol person cofrestredig. Gellir ystyried bod adran 23 (5) yn addasu swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol i bennu cyflog ac amodau gwaith athrawon fel y nodir yn adran 122 o Ddeddf Addysg 2002. Mae addasiad o'r fath yn gofyn am gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. Wrth edrych yn ôl, gellir cyflawni'r bwriad polisi trwy ailddatgan y gyfraith bresennol, ac nid oes angen caniatâd i wneud hynny. Felly, rwyf wedi penderfynu tynnu adran 23 (5) o wyneb y Bil, a mewnosod adran newydd 23 (5) yn ei lle drwy gyfrwng gwelliant 4.

17:36

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I just double-check you on that again, Minister? By putting in the line that only mentions schoolteachers, and given that the education workforce council is going to have a number of people subscribing to it, are you saying that the education workforce council or the Welsh Ministers will not have any impact on any of the other types of professions within the remit of the education workforce council? Are you also saying, because I think I followed your argument there, that this is purely a technical revision?

A gaf fi wirio hynny eto, Weinidog? Drwy gynnwys y llinell sydd ond yn sôn am athrawon ysgol, ac o gofio bod cyngor y gweithlu addysg yn mynd i gael nifer o bobl yn tanysgrifio iddo, a ydych chi'n dweud na fydd cyngor y gweithlu addysg neu Weinidogion Cymru yn cael unrhyw effaith ar unrhyw un o'r mathau eraill o broffesiynau o fewn cylch gwaith cyngor y gweithlu addysg? A ydych chi hefyd yn dweud, oherwydd rwy'n credu fy mod wedi dilyn eich dadl yn hyn o beth, mai adolygiad technegol yn unig yw hwn?

17:37

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Do you want to reply to that, Minister?

A ydych chi eisiau ymateb i hynny, Weinidog?

17:37

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Ydw.

*Simon Thomas a gododd—*

*Simon Thomas rose—*

17:37

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I beg your pardon.

Mae'n ddrwg gennyf.

17:37

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Do you want to respond to that or will you wait until Simon Thomas has spoken?

Ydych chi eisiau ymateb i hynny neu a fyddwch yn aros tan fydd Simon Thomas wedi siarad?

17:37 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

As you wish, Presiding Officer.

Fel y dymunwch, Lywydd.

Senedd.tv Fideo Video

17:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Okay. I call Simon Thomas.

Iawn. Galwaf ar Simon Thomas.

Senedd.tv Fideo Video

17:37 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Thank you, Presiding Officer. I thank the Minister, I think, for what he said, but I am still struggling here. Let us try to use words that we understand. This can relate to performance-related pay; that is what it can boil down to. At the moment, pay is not devolved, therefore we cannot legislate on teachers' pay and conditions here as it would be beyond the devolution settlement. However, what the Minister is trying to do—

Diolch i chi, Lywydd. Rwy'n diolch i'r Gweinidog, rwy'n meddwl, am yr hyn a ddywedodd, ond rwy'n dal i gael trafferth yma. Gadewch inni geisio defnyddio geiriau yr ydym yn eu deall. Gall hyn ymwneud â thâl yn gysylltiedig â pherfformiad; dyna ydyw yn ei hanfod. Ar hyn o bryd, nid yw cyflog wedi'i ddatganoli, felly ni allwn ddeddfu ar gyflog ac amodau athrawon yma gan y byddai y tu hwnt i'r setliad datganoli. Fodd bynnag, yr hyn y mae'r Gweinidog yn ceisio ei wneud—

Senedd.tv Fideo Video

17:37 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Will the Member give way on that point?

A wnaiff yr Aelod ildio ar y pwynt hwnnw?

Senedd.tv Fideo Video

17:37 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Indeed, yes.

Gwnaf yn wir.

Senedd.tv Fideo Video

17:37 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Can the Member confirm that his party's position is the same as it was at the 2011 election and that you do want the devolution of teachers' pay to Wales?

A all yr Aelod gadarnhau bod sefyllfa ei blaid yr un fath ag yr oedd yn etholiad 2011 a'ch bod eisiau datganoli cyflogau athrawon i Gymru?

Senedd.tv Fideo Video

17:38 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

I am surprised that the Member sleeps when the First Minister answers questions from me; had he been awake, he would have known that. The question has to be about this legislation and what we are doing now. What we are doing now is restating current UK legislation in our legislation. I do not know why we are doing that. Why are we doing that? The Minister has not given a reason for why we need to restate current UK legislation in our legislation. It is allowable; it is allowable under the Government of Wales Act 2006. [Interruption.] Would the Member like me to give way?

Rwy'n synnu bod yr Aelod yn cysgu pan fydd y Prif Weinidog yn ateb cwestiynau gennyf fi; pe byddai wedi bod yn effro, byddai'n gwybod hynny. Rhaid i'r cwestiwn ymwneud â'r ddeddfwriaeth hon a beth yr ydym yn ei wneud yn awr. Yr hyn yr ydym yn ei wneud yn awr yw ailddatgan deddfwriaeth gyfredol y DU yn ein deddfwriaeth ni. Nid wyf yn gwybod pam yr ydym yn gwneud hynny. Pam ydym ni'n gwneud hynny? Nid yw'r Gweinidog wedi rhoi rheswm dros pam y mae angen ailddatgan deddfwriaeth gyfredol y DU yn ein deddfwriaeth ni. Mae'n ganiatadwy; mae'n ganiatadwy o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. [Torri ar draws.] A fyddai'r Aelod yn hoffi i mi ildio?

Senedd.tv Fideo Video

17:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

No, just carry on; I think that I am chairing this, Simon Thomas.

Na, ewch yn eich blaen; rwy'n credu mai fi sy'n cadeirio hyn, Simon Thomas.

Senedd.tv Fideo Video

17:38 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

I thought that he wanted to intervene.

Roeddwn i'n meddwl ei fod yn dymuno ymyrryd.

Senedd.tv Fideo Video

17:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Just carry on.

Ewch yn eich blaen.

Senedd.tv Fideo Video

17:38 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The situation is that we are stating UK legislation in our legislation, and we do not need to do so. We do not need to do it. If you are taking the overall issue of whether we should have the right to determine performance-related pay for teachers in Wales, that is not what we are debating in this Bill. That is completely without everything that we debated within committee and at Stage 1. The principle of whether teachers' pay should be devolved or not to this body has been addressed by the cross-party Silk commission, to which the Labour party is signed up to, which says that it should be devolved. So, I am not sure why we are even starting to legislate on this matter when we have Silk coming down the line that will address this in full and the potential to look at the full picture. Why therefore do we need to restate in our legislation something that is already in the 2002 Act? It simply strikes me as strange.

Y sefyllfa yw ein bod yn datgan deddfwriaeth y DU yn ein deddfwriaeth ni, ac nid oes angen i ni wneud hynny. Nid oes angen i ni ei wneud. Os ydych chi'n cymryd y mater cyffredinol o ba un a ddylem gael yr hawl i benderfynu ar dâl ar sail perfformiad ar gyfer athrawon yng Nghymru, nid dyna'r ydym yn ei drafod yn y Bil hwn. Mae hynny'n gwbl y tu allan i bopeth a drafodwyd gennym o fewn y pwyllgor ac yng Nghyfnod 1. Mae'r egwyddor o ba un a ddylai cyflog athrawon gael ei ddatganoli ai peidio i'r corff hwn wedi derbyn sylw gan y comisiwn Silk trawsbleidiol, y mae'r blaid Lafur wedi ymrwymo iddo, sy'n dweud y dylid ei ddatganoli. Felly, nid wyf yn siŵr pam yr ydym hyd yn oed yn dechrau deddfu ar y mater hwn pan fod gennym Silk ar ei ffordd a fydd yn ymdrin â hyn yn llawn a'r potensial i edrych ar y darlun llawn. Pam, felly, mae angen i ni ailddatgan yn ein deddfwriaeth rhywbeth sydd eisoes yn Neddf 2002? Mae'n fy nharo i fel rhywbeth rhyfedd.

The Government has overreached itself in the initial reading of the Bill, and now wants to roll back on that to ensure that this Bill does not end up in the Supreme Court. However, I do not see why the Government needs this at all. I would much prefer that we as an Assembly debate teachers' pay and conditions and their devolution, if that ever happens under Silk, as a whole, not in this piecemeal fashion. I am very worried that we will, in effect, pass on the face of the Bill in this place something that relates to performance-related pay for teachers without having properly discussed it.

Mae'r Llywodraeth wedi gorgyrraedd ei hun yn narlleniad cyntaf y Bil, ac yn awr mae'n awyddus i ddirwyn y broses yn ôl ar hynny i sicrhau na fydd y Bil hwn yn diweddu yn y Goruchaf Lys. Fodd bynnag, nid wyf yn gweld pam mae'r Llywodraeth angen hwn o gwbl. Byddai'n llawer gwell gennyf i ni fel Cynulliad drafod cyflogau ac amodau athrawon a thrafod datganoli hynny, os bydd hynny'n digwydd byth o dan Silk, yn ei gyfanrwydd, nid yn y ffordd dameidiog hon. Rwy'n bryderus iawn y byddwn, mewn gwirionedd, yn pasio ar wyneb y Bil yn y lle hwn rhywbeth sy'n ymwneud â thâl ar sail perfformiad ar gyfer athrawon heb ei drafod yn iawn.

17:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister to reply.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb.

17:40 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Well, it is no ambition of mine to see this Bill end up in the Supreme Court as some kind of macho test of just what we are prepared to do here in Cardiff bay vis-à-vis what is going on as regards the wider debate around teachers' pay and conditions. Angela Burns is quite right that this is, essentially, a technical amendment. As I have stated, the way that the provision is currently drafted, it might be considered that section 23(5) modifies the Secretary of State function as set out in the Education Act 2002. It was never my intention with this Bill to modify this function, and that is why I have decided to remove section 23(5) and simply restate section 131(5) of the 2002 Act. Simon Thomas has answered his own question as to the logic behind this. As of now, pay and conditions for teachers are not devolved. Therefore, if we are to make good law in this instance, then we have to set the deliberations around Silk to one side. Those are another matter. Of course, they are very important and we will have those deliberations, but these are not matters that should be in our minds in terms of making sure that this piece of legislation is well written.

Diolch i chi, Lywydd. Wel, nid yw'n uchelgais i mi i weld y Bil hwn yn diweddu yn y Goruchaf Lys fel rhyw fath o brawf gwrol o beth yn union yr ydym yn barod i'w wneud yma ym mae Caerdydd o ran yr hyn sy'n digwydd ynglŷn â'r drafodaeth ehangach o gwmpas cyflog ac amodau athrawon. Mae Angela Burns yn llygad ei lle mai gwelliant technegol yw hwn, yn ei hanfod. Fel yr wyf wedi dweud, y ffordd y caiff y ddarpariaeth ei drafftio ar hyn o bryd, gellid ystyried bod adran 23 (5) yn addasu swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol fel y nodir yn Neddf Addysg 2002. Nid oedd yn fwriad gennyf erioed gyda'r Bil hwn i addasu'r swyddogaeth hon, a dyna pam yr wyf wedi penderfynu cael gwared ar adran 23 (5) a dim ond ailddatgan adran 131 (5) o Ddeddf 2002. Mae Simon Thomas wedi ateb ei gwestiwn ei hun ynghylch y rhesymeg y tu ôl i hyn. Ar hyn o bryd, nid yw tâl ac amodau ar gyfer athrawon wedi eu datganoli. Felly, os ydym am wneud cyfraith dda yn yr achos hwn, yna mae'n rhaid i ni osod y trafodaethau o amgylch Silk i un ochr. Mater arall yw'r rheini. Wrth gwrs, maent yn bwysig iawn a byddwn yn cael y trafodaethau hynny, ond nid yw'r rhain yn faterion a ddylai fod yn ein meddyliau o ran gwneud yn siŵr bod y darn hwn o ddeddfwriaeth yn cael ei ysgrifennu'n dda.

17:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 4 be agreed to. Does any Member object? There is objection. We will move straight to an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 4. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Symudwn yn syth i bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4.

Result of the vote on amendment 4.

*Derbyniwyd gwelliant 4: O blaid 27, Yn erbyn 14, Ymatal 13.*

*Amendment 4 agreed: For 27, Against 14, Abstain 13.*

17:41

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on Suzy Davies to move amendment 33.

Galwaf ar Suzy Davies i gynnig gwelliant 33.

17:42

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendment 33 in my name.

Cynigiaf welliant 33 yn fy enw i.

17:42

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The question is that amendment 33 be agreed to. Are there any objections? There is objection. We will move to an electronic vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 33 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Mae gwrthwynebiad. Symudwn i bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 33.

Result of the vote on amendment 33.

*Gwrthodwyd gwelliant 33: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 33 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

### Grŵp 7: Swyddogaethau Disgyblu (Gwelliannau 22, 5, 6, 7, 23 a 10)

### Group 7: Disciplinary Functions (Amendments 22, 5, 6, 7, 23 and 10)

17:42

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 22. I call on Simon Thomas to move amendment 22 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 22. Galwaf ar Simon Thomas i gynnig gwelliant 22 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

17:42

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Cynigiaf welliant 22 yn fy enw i.

I move amendment 22 in my name.

Rwyf hefyd yn siarad am welliant 23, sydd ynghlwm wrth welliant 23. Maent yn mynd gyda'i gilydd. Rydym eisoes wedi trafod sut bydd y corff hwn yn gweithio o ran disgyblu, ond mae un peth sydd yn aros yn dipyn o bryder i fi, sef sut y bydd y cyngor newydd, wrth ddatblygu ei broses disgyblu, yn gallu defnyddio ei bwerau a'i swyddogaethau i wneud yn siŵr bod gennym y gweithlu addysg mwyaf addas ar gyfer anghenion Cymru. Yn hynny o beth, rwyf o'r farn bydd angen i'r cyngor newydd hwn, maes o law, feddu ar ddull arall o benderfynu ar faterion disgyblu. Yn benodol, rwyf yn meddwl y dylai fod gan y cyngor hwn yr hawl i benderfynu'n fwy cyffredinol ac yn fwy eang ar y cysyniad o'r gallu i weithio—'fitness to practice', fel y mae'n cael ei alw mewn deddfwriaeth arall. Rydym yn hen gyfarwydd, rwy'n meddwl, â'r ffaith bod y gweithlu iechyd yn mynd drwy broses fel hyn. Rydym wedi gweld, ysywaeth, sawl achos o hyn yn digwydd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw hynny'n digwydd yn y gweithlu addysg o ran athrawon, ac na fydd yn digwydd o dan y ddeddfwriaeth bresennol, achos nad oes modd i'r cyngor weithredu yn y ffordd honno. Heb enwi unrhyw achosion, rwyf am atgoffa pobl o'r fath o achosion ynglŷn ag athrawon rydym yn tueddu eu gweld yn y wasg. Mae tueddiad i ymdrin â'r peth fel achos cyfreithiol bron neu achos troseddol. Mae gennych erlyniad ac amddiffyniad ac mae'r ddau yn mynd yn erbyn ei gilydd ac yn penderfynu yn y pen draw a fydd athro yn cael ei disgyblu ac a fydd hi neu ef yn parhau i weithio neu beidio. Mae i gyd yn troi o gwmpas pethau penodol o ran ymddygiad, a llawer ohono wedi ei amlinellu yn y Bil, wrth gwrs.

I will also speak to amendment 23, which is related to amendment 22. They go together. We have already discussed how this new body will work in terms of its disciplinary functions, but there is one concern that remains for me, namely how the new council, in developing its disciplinary process, could use its powers and functions to ensure that we have the education workforce most suited to Wales's needs. In that respect, I believe that this new council will need, in due course, another means of deciding on disciplinary issues. Specifically, I believe that this council should have the right to make more general wide-ranging decisions on the question of fitness to practice, as it is described in other pieces of legislation. We are well used, I think, to the fact that the health workforce goes through a process such as this. We have seen many cases of this happening, unfortunately. However, this does not presently happen in terms of the education workforce and teachers, and it will not happen under the current legislation because there is no means for the new council to take that sort of action. Without naming any specific cases, I just want to remind people of the kinds of cases we see covered in the media related to teachers. There is a tendency to treat it almost as a court case or a criminal case. You have a prosecution and a defence and they go head to head and a decision is finally made as to whether the teacher is to be disciplined and whether he or she will continue to work. It all revolves around specific issues related to conduct, and much of it is outlined in the Bill, of course.

Mae cysyniad arall, cydsyniad ehangach, sydd yn cydfynd, rwy'n meddwl, yn arbennig â phroffesiynau megis y proffesiwn cyfreithiol a'r proffesiwn meddygol ag ati o ran y gallu i weithio—'fitness to practice'—lle rydych yn edrych yn fwy eang ar sgiliau, proffesiynoldeb, cywirdeb ac ati y person, ac yn gofyn cwestiynau mwy sylfaenol ynglŷn â'u roliau nhw yn y cyd-destun o hyrwyddo proffesiynoldeb yn y maes, safonau ac ansawdd, ac ati. Nid ydym yn barod i fynd yn syth at hynny yn awr, achos nid yw'r cyngor wedi bod yn gweithredu felly. Y cwbl mae gwelliannau 22 a 23 yn eu gwneud, yw rhoi'r hawl—efallai na fydd Suzy Davies yn rhy hoff o hyn ar ôl y gwelliannau ynghynt—nid yr orfodaeth, i'r Gweinidog gyflwyno'r ffordd hon o gynnal system ddisgyblu, os yw hynny'n ddymuniad gan y Gweinidog. Mae hefyd yn rhoi'r hawl iddo fe neu hi wedyn gael rheoliadau o dan y system honno.

There is another, broader concept, which strikes a chord, I think, with professions such as the legal profession and the medical profession in terms of the issue of fitness to practice, where you look more broadly at the skills, professionalism, correctness and so on of an individual, and ask more fundamental questions on their role in the context of promoting professionalism in this area, standard and quality, and so on. We are not ready to go there yet, because the council has not been operating in this way. All that amendments 22 and 23 do, is to give the Minister the right—and perhaps Suzy Davies may not be too keen on this given the previous amendments—not the requirement, to introduce this sort of means of progressing with a disciplinary system, if that is the Minister's desire. It also gives the Minister the right to make regulations under that system.

Felly, rwy'n cydnabod nad ydym yn barod, efallai, i symud yn syth at y system hon yn awr. Fodd bynnag, rwy'n credu, wrth i'r proffesiwn hwn datblygu ac wrth i fwy o bobl ddod i mewn i waith y cyngor, ac wrth i fwy o ffocws ddod wrth y Llywodraeth, y lle hwn a chan gymdeithas sifil yn ehangach yng Nghymru ar gynnal safonau ac ansawdd ac ati, mae'n bosibl iawn y byddwn ni am ffordd arall o reoli a disgyblu yn y proffesiwn, fel y gall y proffesiwn herio'i hunain o ran ei allu i weithio a'i allu i gyfrannu at y proffesiwn. Dyna yw pwrpas y gwelliannau hyn—caniatáu i hynny ddigwydd, heb ddod yn ôl at ryw ddeddfu pellach. Rwy'n meddwl ei fod yn gwbl addas o ran swyddogaethau a fframwaith y Bil presennol.

So, I admit that we are not, perhaps, ready to move immediately to this system. However, I believe that, as this body develops and as more and more people come under the remit of the council, and as a greater focus comes from Government, from this place and from wider civil society in Wales on the maintenance of standards and quality and so on, it is very possible that we would want another means of managing and disciplining in the profession, so that the profession can challenge itself in terms of its ability and its ability to contribute to the profession. That is the purpose of these amendments—to allow that to happen, without having to return to any further legislation. I think that it is quite appropriate that it should be included within the functions and the framework of the current Bill.

17:46

## Y Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on the Minister to reply.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb.

17:46 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

May I begin by addressing the Government's amendments 5, 6, 7 and 10 in this group? Section 27 of the Bill provides for disciplinary functions of the reconfigured body and allows the council to continue to perform disciplinary functions in relation to teachers while broadening the scope to the wider education workforce that will be required to register.

A gaf fi ddechrau drwy roi sylw i welliannau 5, 6, 7 a 10 y Llywodraeth yn y grŵp hwn? Mae adran 27 y Bil yn darparu ar gyfer swyddogaethau disgyblu'r corff a aildrefnwyd ac yn caniatáu i'r cyngor barhau i gyflawni swyddogaethau disgyblu ar gyfer athrawon wrth ehangu cwmpas y gweithlu addysg ehangach y bydd yn ofynnol iddynt gofrestru.

The intention behind amendment 5 is to provide further clarity on the face of the Bill regarding the definition of a registered person under section 27(1), making explicit that registration under both sections 9 of the Bill or under section 3 of the 1998 Act is covered. We consider that that is the effect of the Bill in any event and the amendment seeks to provide some useful clarity.

Y bwriad y tu ôl i welliant 5 yw darparu mwy o eglurder ar wyneb y Bil ynghylch y diffiniad o berson cofrestredig o dan adran 27 (1), gan ei gwneud yn glir bod cofrestru o dan adran 9 y Bil neu o dan adran 3 o Ddeddf 1998 wedi'i gwmpasu. Rydym o'r farn mai dyna effaith y Bil beth bynnag fo'r amgylchiadau ac mae'r gwelliant yn ceisio darparu rhywfaint o eglurder defnyddiol.

The effect of amendment 7 is to ensure that there is no difference in treatment where a prohibition order is made in relation to a teacher in England or any other country who seeks to teach in Wales. Upon reflection, we consider that the provision as drafted may have had an unintentional discriminatory effect. The discriminatory effect lies in the fact that it allowed teachers with prohibition orders made in England to be treated differently to those with discriminatory orders made in other countries—Scotland, or Northern Ireland, for example.

Effaith gwelliant 7 yw sicrhau nad oes gwahaniaeth yn y driniaeth lle mae gorchymyn gwahardd yn cael ei wneud ynglŷn ag athro yn Lloegr neu unrhyw wlad arall sy'n dymuno addysgu yng Nghymru. Ar ôl myfyrio, rydym o'r farn y gall y ddarpariaeth fel y mae wedi'i drafftio fod wedi cael effaith wahaniaethol anfwriadol. Mae'r effaith wahaniaethol yn gorwedd yn y ffaith ei bod yn caniatáu i athrawon â gorchmynion gwahardd a wnaed yn Lloegr i gael eu trin yn wahanol i'r rhai â gorchmynion gwahaniaethu a wneir mewn gwledydd eraill—yr Alban, neu Ogledd Iwerddon, er enghraifft.

It is important to note that the Bill still allows for teachers with prohibition orders made outside of Wales to be prevented from teaching in schools in Wales under the suitability test within section 10 of the Bill. The proposed amendment would not alter that. It mainly ensures that teachers with prohibition orders based on the standard of their teaching are dealt with in the same way by the Bill. I think that this is the appropriate way forward rather than prescribing that any order prohibiting a person from teaching made in another country would also apply in Wales.

Mae'n bwysig nodi bod y Bil yn dal yn caniatáu ar gyfer athrawon sydd â gorchmynion gwahardd a wnaed y tu allan i Gymru i gael eu hatal rhag addysgu mewn ysgolion yng Nghymru o dan y prawf addasrwydd o fewn adran 10 y Bil. Ni fyddai'r gwelliant arfaethedig yn newid hynny. Mae'n sicrhau yn bennaf bod athrawon sydd â gorchmynion gwahardd yn seiliedig ar safon eu haddysgu yn cael eu trin yn yr un modd gan y Bil. Rwy'n credu mai dyma'r ffordd briodol ymlaen yn hytrach na rhagnodi y byddai unrhyw orchymyn i atal person rhag addysgu a wnaed mewn gwlad arall hefyd yn berthnasol yng Nghymru.

The intention is purely to remove the discriminatory aspect and to make it compatible with article 14 of the European Convention on Human Rights. I have therefore, decided to remove sections 28(4) and 28(5) from the Bill and any reference to prohibition orders made outside of Wales on those grounds.

Y bwriad yw cael gwared ar yr agwedd wahaniaethol ac i'w gwneud yn gydnaws ag Erthygl 14 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Felly, rwyf wedi penderfynu cael gwared ar adrannau 28 (4) a 28 (5) o'r Bil ac unrhyw gyfeiriad at orchmynion gwahardd a wneir y u allan i Gymru ar sail hynny.

Amendments 5 and 7 are minor amendments, with 6 being a consequential amendment of 5, and 10 being a consequential amendment of 7. I urge Members to support these amendments.

Mân welliannau yw gwelliannau 5 a 7, ac mae 6 yn welliant canlyniadol i 5, a 10 yn welliant canlyniadol i 7. Anogaf yr Aelodau i gefnogi'r gwelliannau hyn.

Turning to amendment 22 and amendment 23, which is consequential to amendment 22 tabled by Simon Thomas, the issues that the education workforce council will consider in exercising disciplinary functions are alleged unacceptable professional conduct, serious professional incompetence, or criminal convictions of registered persons. These matters together essentially help inform whether somebody is fit to practice. Consideration of these matters will allow the council to form a view when deciding whether to make a disciplinary order. It is key that the education workforce council continues to perform the disciplinary role for teachers and the wider education workforce. The Bill will enable this to happen. For the reason that I have set out above, I do not consider that the amendments by Simon Thomas will add anything to the Bill, and I urge Members to resist amendments 22 and 23.

Gan droi at welliant 22 a gwelliant 23, sy'n ganlyniadol i welliant 22 a gyflwynwyd gan Simon Thomas, y materion y bydd cyngor y gweithlu addysg yn eu hystyried wrth arfer swyddogaethau disgyblu yw ymddygiad proffesiynol annerbyniol honedig, anghymhwysedd proffesiynol difrifol, neu euogfarnau troseddol personau cofrestredig. Mae'r materion hyn gyda'i gilydd yn y bôn yn helpu i hysbysu a yw rhywun yn addas i ymarfer. Bydd ystyried y materion hyn yn caniatáu i'r cyngor lunio barn wrth benderfynu a ddylid gwneud gorchymyn disgyblu. Mae'n allweddol bod cyngor y gweithlu addysg yn parhau i gyflawni'r swyddogaeth ddisgyblu ar gyfer athrawon a'r gweithlu addysg ehangach. Bydd y Bil yn galluogi hyn i ddigwydd. Am y rheswm yr wyf wedi'i amlinellu uchod, nid wyf yn ystyried y bydd y gwelliannau gan Simon Thomas yn ychwanegu unrhyw beth at y Bil, ac rwy'n annog yr Aelodau i wrthod gwelliannau 22 a 23.

17:50

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Simon Thomas to reply to the debate.

Galwaf ar Simon Thomas i ymateb i'r ddadl.

17:50

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yn fyr iawn, hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am esbonio'i welliannau yntau. Byddwn ni'n eu cefnogi. Rwy'n meddwl bod problem yn y fan honno o ran estyn yr hyn sydd wedi digwydd yng nghyd-destun Lloegr i'r cyd-destun Cymreig.

Very briefly, I would like to thank the Minister for explaining his amendments. We will be supporting those. I think that there is a problem there in terms of extending what happened in the English context to the Welsh context.

Rwy'n siomedig, serch hynny, yn ei ymateb i'm gwelliant 22 innau, achos er ei fod wedi rhestru'r tair sail sydd yn gallu arwain at achos yn erbyn rhywun proffesiynol yn y maes hwn, maent ond yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd i athrawon yn awr, a holl bwynt y cyngor hwn yw ei fod yn estyn ac yn newid. Rydym eisiau rhywbeth mwy ffres a modern, rhywbeth sy'n fwy hyblyg ac ystwyth ar gyfer y ffordd y mae'r proffesiwn yn datblygu y dyddiau hyn, yn hytrach na'r ffordd yr oedd athrawon yn gweithredu 20 neu 30 blynedd yn ôl. Felly, byddwn yn awyddus i'r Cynulliad gael llais ar y materion hynny.

I am, however, disappointed in his response to my amendment 22, because although he listed the three areas that can lead to a case against an individual in this area, they only reflect what happens to teachers now, and the whole point of this council is that it extends and changes. We want to see something more fresh and modern, something that is more flexible in terms of how the profession is developing today, rather than the way that teachers operated some 20 or 30 years ago. So, I would be eager that the Assembly should have its say on those issues.

17:51

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 22 is not agreed, amendment 23 will fall. The question is that amendment 22 be agreed to. Does any Member object? There is objection, therefore we will move straight to an electronic vote.

Os nad yw gwelliant 22 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliant 23 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 22 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn yn syth i bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 22.

Result of the vote on amendment 22.

*Gwrthodwyd gwelliant 22: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 22 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order No. 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

17:51

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I propose that amendments 5 to 7, which appear consecutively on the marshalled list, are disposed of en bloc, given their nature. Does any Member object to that? There are no objections, therefore I call the Minister to move amendments 5 to 7.

Cynigiaf fod gwelliannau 5 i 7, sy'n ymddangos yn olynol ar y rhestr o welliannau wedi'u didoli, yn cael eu gwaredu en bloc, o ystyried eu natur. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu hynny? Nid oes gwrthwynebiad, felly galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliannau 5 i 7.

17:51 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendments 5, 6 and 7 in my name.

Cynigiaf welliannau 5, 6 a 7 yn fy enw i.

17:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendments 5 to 7 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendments 5, 6 and 7 are agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliannau 5 i 7. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly caiff gwelliannau 5, 6 a 7 eu derbyn.

*Derbyniwyd gwelliannau 5, 6 a 7 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendments 5, 6 and 7 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

### Grŵp 8: Deddf Addysg 1996: Diffiniadau (Gwelliannau 8, 9, 11, 13, 14, 15, 16, 17 ac 18)

### Group 8: Education Act 1996: Definitions (Amendments 8, 9, 11, 13, 14, 15, 16, 17 and 18)

17:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 8. I call on the Minister to move amendment 8 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 8. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 8 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

17:52 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 8 in my name.

Cynigiaf welliant 8 yn fy enw i.

These amendments are minor and their effect is to simply apply the definitions in the Education Act 1996 to the Bill. The definitions in the Education Act 1996 are applied in many of the education Acts. Those terms are familiar to those who need to understand education law.

Mân welliannau yw'r rhain a'u heffaith yn syml yw cymhwyso'r diffiniadau yn Neddf Addysg 1996 i'r Bil. Mae'r diffiniadau yn Neddf Addysg 1996 yn cael eu cymhwyso mewn llawer o'r Deddfau addysg. Mae'r termau hynny'n gyfarwydd i'r rhai sydd angen deall cyfraith addysg.

Amendment 11 is the principal amendment in this group and amendments 8 and 9 and 13 to 18, are consequential to it. The amendments will, therefore, ensure consistency in the terminology used in education law. So, I urge Members to support amendments 8, 9, 11, 13, 14, 15, 16, 17 and 18.

Gwelliant 11 yw'r prif welliant yn y grŵp hwn ac mae gwelliannau 8 a 9 a 13 i 18, yn ganlyniadol iddo. Bydd y gwelliannau, felly, yn sicrhau cysondeb yn y derminoleg a ddefnyddir mewn cyfraith addysg. Felly, rwy'n annog yr Aelodau i gefnogi gwelliannau 8, 9, 11, 13, 14, 15, 16, 17 a 18.

17:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no other speakers, so the question is that amendment 8 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 8 is agreed.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr eraill, felly y cwestiwn yw bod gwelliant 8 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 8 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 8 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 8 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister to move amendment 9.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 9.

17:53 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 9 in my name.

Cynigiaf welliant 9 yn fy enw i.

17:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 9 be agreed to. Are there any objections? There are no objections, therefore amendment 9 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 9 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 9 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 9 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 9 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Grŵp 9: Dyddiadau Gwyliau Ysgol (Gwelliant 27)

## Group 9: Dates of School Holidays (Amendment 27)

17:53

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead and only amendment in the group is amendment 27. I call on Bethan Jenkins to move amendment 27 and to speak to it.

Y prif welliant a'r unig un yn y grŵp yw gwelliant 27. Galwaf ar Bethan Jenkins i gynnig gwelliant 27 ac i siarad amdano.

17:53

### Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 27 in my name.

Cynigiaf welliant 27 yn fy enw i.

Following discussions following on from the previous stage, I made some changes to this particular amendment, as I think that many people believed that it was too narrow and too prescriptive in the way that it was written, focusing on Easter solely. It now reads that we should

Yn dilyn trafodaethau yn dilyn ymlaen o'r cam blaenorol, rwyf wedi gwneud rhai newidiadau i'r gwelliant penodol hwn, gan fy mod yn credu bod llawer o bobl o'r farn ei fod yn rhy gul ac yn rhy gyfarwyddol o ran y ffordd y cafodd ei ysgrifennu, gan ganolbwyntio ar y Pasg yn unig. Mae bellach yn darllen y dylem:

'have regard to major religious festivals celebrated by pupils and their families'.

roi sylw i'r prif wyliau crefyddol sy'n cael eu dathlu gan ddisgyblion a'u teuluoedd.

This would add that, before directing local authorities to set school terms at particular dates, the Welsh Ministers would have regard to major religious festivals as opposed to, as I said before, focusing solely on Easter.

Byddai hyn yn ychwanegu, cyn cyfarwyddo awdurdodau lleol i osod tymhorau ysgol ar ddyddiadau penodol, y byddai Gweinidogion Cymru yn rhoi sylw i brif wyliau crefyddol yn hytrach, fel y dywedais o'r blaen, na chanolbwyntio ar y Pasg yn unig.

My amendment focuses on new powers for Ministers that will allow for the harmonisation of school term dates, which will allow governing bodies or diocesan authorities to be overruled when it comes to setting holidays. As we have discussed in committee, we are all broadly in agreement on this particular way forward, because we know that there are, currently, disparities at the local authority level, whereby some teachers may work in one local authority and have caring duties in another, and that may then pose problems for childcare in the future, not only for teachers, but for other professions as well. It created a complexity in the system. So, that is something that I think that we all agree on.

Mae fy ngwelliant yn canolbwyntio ar bwerau newydd i Weinidogion a fydd yn caniatáu ar gyfer cysoni dyddiadau tymor ysgol, a fydd yn caniatáu dyfarnu yn erbyn cyrff llywodraethu neu awdurdodau esgobaethol pan ddaw'n fater o bennu gwyliau. Fel yr ydym wedi trafod yn y pwyllgor, rydym i gyd yn cytuno yn fras ar y ffordd benodol hon ymlaen, oherwydd gwyddom, ar hyn o bryd, fod gwahaniaethau ar lefel awdurdod lleol, lle y gall rhai athrawon weithio mewn un awdurdod lleol a bod ganddynt ddyletswyddau gofalu mewn un arall , a gall hynny wedyn achosi problemau ar gyfer gofal plant yn y dyfodol, nid yn unig i athrawon, ond ar gyfer proffesiynau eraill yn ogystal. Roedd yn creu cymhlethdod yn y system. Felly, mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn credu ein bod i gyd yn cytuno arno.

We have had correspondence from the Catholic Education Service, fundamentally, which broadly welcomes the Bill and its proposals to improve educational standards in Wales. However, it wants to see safeguards in place so that major religious festivals can be adhered to within the school system. In this case, of course, it is to celebrate Easter, which is an essential part of Catholic school life, and to make sure that it is not undermined. I think that the same could therefore be the case in terms of whether we would want to celebrate other religions within the school system. You will know that, within Christianity, it is the only moveable feast, so it is causing a problem in many schools having the discussion now about any future harmonisation of the structure. I believe that we need to give flexibility in the system for local diocesan authorities to determine the future of their structures to have the flexibility.

Rydym wedi cael gohebiaeth gan y Gwasanaeth Addysg Gatholig, yn y bôn, a oedd yn fras yn croesawu'r Bil a'i gynigion i wella safonau addysgol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae am weld mesurau diogelu ar waith fel y gellir dilyn prif wyliau crefyddol o fewn y system ysgolion. Yn yr achos hwn, wrth gwrs, mae ar gyfer dathlu'r Pasg, sy'n rhan hanfodol o fywyd yr ysgol Gatholig, ac i wneud yn siŵr nad yw'n cael ei danseilio. Rwy'n credu y gallai'r un peth felly fod yn wir o ran a fyddem ni eisiau dathlu crefyddau eraill o fewn y system ysgol. Byddwch yn gwybod, o fewn Cristnogaeth, mai dyma'r unig wŷl symudol, felly mae'n achosi problem mewn llawer o ysgolion sy'n cael y drafodaeth yn awr am unrhyw gysoni strwythur yn y dyfodol. Rwy'n credu bod angen i ni roi hyblygrwydd yn y system i awdurdodau esgobaethol lleol i benderfynu ar ddyfodol eu strwythurau i gael yr hyblygrwydd.

The issue first arose from a reference made in the explanatory memorandum, which used Easter as an example of where the Minister may want to set term dates. Paragraph 147 of the explanatory memorandum refers to Welsh Ministers being able to use their powers to direct varying term dates for different types of schools or local authority areas for good reason. The example given was the Ryder Cup tournament. It has been interpreted as the Government taking the Ryder Cup to be more important than some other issues within society. While I believe that that is not the case, we need to make sure that, when people want to celebrate the Holy feast of Easter, that should be taken into account for any future decision-making process.

Cododd y mater i ddechrau o gyfeiriad a wnaed yn y memorandwm esboniadol, a ddefnyddiodd y Pasg fel enghraifft o lle y gallai'r Gweinidog ddymuno gosod dyddiadau tymor. Mae paragraff 147 y memorandwm esboniadol yn cyfeirio at Weinidogion Cymru yn gallu defnyddio eu pwerau i gyfarwyddo dyddiadau tymor gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o ysgolion neu ardaloedd awdurdodau lleol am reswm da. Yr enghraifft a roddwyd oedd twrnamaint Cwpan Ryder. Mae wedi cael ei ddehongli fel y Llywodraeth yn ystyried Cwpan Ryder i fod yn fwy pwysig na rhai materion eraill o fewn y gymdeithas. Er nad wyf yn credu bod hynny'n wir, mae angen i ni wneud yn siŵr, pan fydd pobl eisiau dathlu gŵyl Sanctaidd y Pasg, y dylid ystyried hynny ar gyfer unrhyw broses o wneud penderfyniadau yn y dyfodol.

So, I amended the previous amendment to try to broaden it out so that we could not only focus on this issue but also consider other schools where there is a predominance of Muslim students that may want to hold certain activities, and that if there were an international-style event that they wanted to hold, they could also do that. To give respect to those different faiths is something that we would like to see, hence why we have made moves to try to expand on the amendments so that we can accommodate the Minister's view, which was to say that this was not necessary, and that the Minister would take into regard these types of decisions within the process that is currently set out. However, I do not think that it is strong enough as it is currently outlined.

Felly, diwygiais y gwelliant blaenorol i geisio ei ehangu fel y gallem nid yn unig ganolbwyntio ar y mater hwn, ond hefyd ystyried ysgolion eraill lle mai Moslemiaid yw mwyafrif y myfyrwyr, a allai fod yn awyddus i gynnal gweithgareddau penodol, a phe byddai digwyddiad o fath rhyngwladol eu bod am ei gynnal, gallent hefyd wneud hynny. Mae rhoi parch i ffydd wahanol yn rhywbeth y byddem yn hoffi ei weld, dyna pam yr ydym wedi cymryd camau i geisio ehangu ar y gwelliannau fel y gallwn fodloni barn y Gweinidog, a oedd yn dweud nad yw hyn yn angenrheidiol, ac y byddai'r Gweinidog yn ystyried y mathau hyn o benderfyniadau yn y broses sydd wedi ei gosod ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nid wyf yn credu ei bod yn ddigon cryf fel y mae wedi'i hamlinellu ar hyn o bryd.

17:57

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will be honest with you, I was going to rise to tell you that we were going to abstain and why, but, in fact, you have made such a convincing argument that my colleagues are of the mind that we will, in fact, support you. I think that the reason why we were going to abstain—and, Minister, I think that this is obviously very important, given your ambition to harmonise—was so that we did not end up creating another problem where everyone says, 'This is a very special religious festival, and that is a very special religious festival', and then we still have all of our schools and our areas all out of sync. As my colleague Suzy Davies pointed out, it is a due regard function and therefore we will support you on this, because I think that it is incredibly important that we honour and respect people's religions when it comes to major festivals, and sometimes school dates can clash with that.

Rwyf am fod yn onest gyda chi, roeddwn yn mynd i godi i ddweud wrthych nad oeddem yn mynd i bleidleisio a pham, ond, mewn gwirionedd, rydych wedi gwneud dadl mor argyhoeddiadol fel bod fy nghydweithwyr o'r farn y byddwn, mewn gwirionedd, yn eich cefnogi. Rwy'n credu mai'r rheswm pam nad oeddem yn mynd i bleidleisio—ac, Weinidog, rwy'n meddwl bod hyn yn amlwg yn bwysig iawn, o ystyried eich uchelgais i gysoni—oedd fel nad ydym yn y pen draw yn creu problem arall lle mae pawb yn dweud, 'Mae hon yn ŵyl grefyddol arbennig iawn, ac mae honna'n ŵyl grefyddol arbennig iawn', gan olygu pob un o'n hysgolion a'n hardaloedd yn cael gwyliau ar wahanol amser. Fel y nododd fy nghydweithiwr Suzy Davies, mae'n swyddogaeth sylw dyledus, ac felly byddwn yn eich cefnogi ar hyn, gan fy mod yn credu ei bod yn eithriadol o bwysig ein bod yn anrhydeddu ac yn parchu crefyddau pobl pan ddaw at brif wyliau, ac weithiau gall dyddiadau ysgol wrthdaro â hynny.

17:58

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister to respond.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb.

17:58

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This amendment arises, I understand, from concerns that the proposed Welsh Ministers' powers to intervene in term-date setting will be used without having regard to major religious festivals that are celebrated by pupils and their families. Of course, we live in a multicultural society and I am sensitive to the need for all faiths to be able to raise any concerns that they have about proposals for term dates.

Mae'r gwelliant hwn yn codi, rwy'n deall, o bryderon y bydd pwerau arfaethedig Gweinidogion Cymru i ymyrryd mewn pennu dyddiadau tymhorau yn cael eu defnyddio heb roi sylw i brif wyliau crefyddol sy'n cael eu dathlu gan y disgyblion a'u teuluoedd. Wrth gwrs, rydym yn byw mewn cymdeithas amlddiwylliannol ac rwy'n ymwybodol o'r angen i bob ffydd allu codi unrhyw bryderon sydd ganddynt am gynigion ar gyfer dyddiadau'r tymor.

The Bill, as drafted, places a duty on the Welsh Ministers, which includes all of my successors, to carry out an appropriate consultation before using their term date-setting powers. This duty to carry out an appropriate consultation means that the consultation must be carried out in what the law views as a reasonable manner, just as public law means that the use of the Welsh Ministers' powers to effectively set term dates must be used in a reasonable way. To do otherwise may risk legal challenge. Any consultation on proposed term dates will be properly carried out, and concerns raised about how they will sit with religious festivals or any other matters will be duly considered. Also—and this is very important, Presiding Officer—this amendment is not clear about what would be classed as a major religious festival, or who would make that judgment. In my view, it is perhaps even more muddled than its previous iteration. Therefore, I am satisfied that this amendment is unnecessary as the Bill as well as public law already provide sufficient safeguards with regard to the use of such powers. I ask Members to resist amendment 27.

Mae'r Bil, fel y'i drafftiwyd, yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, sy'n cynnwys pob un o fy olynwyr, i gynnal ymgynghoriad priodol cyn defnyddio eu pwerau pennu dyddiadau'r tymor. Mae'r ddyletswydd hon i gynnal ymgynghoriad priodol yn golygu bod yn rhaid i'r ymgynghoriad gael ei gynnal yn yr hyn y mae'r gyfraith yn ei ystyried sy'n fodd rhesymol, yn union fel y mae cyfraith gyhoeddus yn golygu bod yn rhaid i'r defnydd o bwerau Gweinidogion Cymru i bennu dyddiadau'r tymor yn effeithiol gael eu defnyddio mewn ffordd resymol. Byddai gwneud fel arall, efallai'n peri risg o her gyfreithiol. Bydd unrhyw ymgynghoriad ar ddyddiadau tymor arfaethedig yn cael ei wneud yn briodol, a bydd y pryderon a godwyd ynghylch sut y byddant yn cyd-fynd â gwyliau crefyddol neu unrhyw faterion eraill yn cael eu hystyried yn briodol. Hefyd—ac mae hyn yn bwysig iawn, Lywydd—nid yw'r gwelliant hwn yn glir ynghylch yr hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn brif ŵyl grefyddol, neu pwy a fyddai'n gwneud y penderfyniad hwnnw. Yn fy marn i, mae efallai hyd yn oed yn fwy dryslyd na'i eiriad blaenorol. Felly, rwy'n fodlon nad yw'r gwelliant hwn yn angenrheidiol gan fod y Bil, yn ogystal â'r gyfraith gyhoeddus eisoes yn rhoi digon o fesurau diogelu ynglŷn â defnyddio pwerau o'r fath. Rwy'n gofyn i'r Aelodau wrthod gwelliant 27.

18:00

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call Bethan Jenkins to reply to the debate.

Galwaf ar Bethan Jenkins i ymateb i'r ddadl.

18:00 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Angela Burns for her comments. Obviously, the term 'have regard' was initiated as a way of doing purely that—to have regard for those types of festivities, not to make things prescriptive. So, I thank you for changing your mind on that. I am increasingly frustrated, however, by the Government's response because I was led to believe that I was being very narrow in terms of outlining initially the fact that it was about Easter. We have not had comments from any other faith group, other than the Church in Wales, I believe, and the Catholic community. So, when I said it would refer to Easter, I was told that that was too narrow. So, I sought to consult the people who had contacted me to ask how we could word this so that the Government would look at it in a positive way so that it had due regard to this particular issue. I think that people want to feel that they can, on a local level, have that flexibility because of it being a movable feast. So, I am frustrated that the Minister cannot move with me on this, because I have tried to accommodate the Government on the way forward. So, I will be asking people to vote on this particular issue.

Diolch i Angela Burns am ei sylwadau. Yn amlwg, cafodd y term 'rhoi sylw' ei gyflwyno fel ffordd o wneud hynny'n union—i roi sylw i'r mathau hynny o ddathliadau, nid i wneud pethau yn gyfarwyddol. Felly, rwy'n diolch i chi am newid eich meddwl ar hynny. Rwy'n fwyfwy rhwystredig, fodd bynnag, gan ymateb y Llywodraeth oherwydd roedd gen i bob lle i gredu fy mod yn bod yn gul iawn o ran amlinellu yn y lle cyntaf y ffaith ei fod yn ymwneud â'r Pasg. Nid ydym wedi cael sylwadau gan unrhyw grŵp ffydd arall, heblaw am yr Eglwys yng Nghymru, rwy'n credu, a'r gymuned Gatholig. Felly, pan ddywedais y byddai'n cyfeirio at y Pasg, dywedwyd wrthyf bod hynny'n rhy gul. Felly, ceisiais ymgynghori â'r bobl a oedd wedi cysylltu â mi i ofyn sut y gallem eirio hwn fel y byddai'r Llywodraeth yn edrych arno mewn ffordd gadarnhaol er mwyn rhoi sylw priodol i'r mater penodol hwn. Rwy'n meddwl bod pobl eisiau teimlo bod ganddynt, ar lefel leol, yr hyblygrwydd hwnnw oherwydd ei bod yn ŵyl symudol. Felly, rwy'n rhwystredig na all y Gweinidog symud gyda mi ar hyn, oherwydd rwyf wedi ceisio ymaddasu â'r Llywodraeth ar y ffordd ymlaen. Felly, byddaf yn gofyn i bobl i bleidleisio ar y mater penodol hwn.

18:01 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 27 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will move to an electronic vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 27 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn i bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 27.

Result of the vote on amendment 27.

*Gwrthodwyd gwelliant 27: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 27 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

18:01 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Suzy Davies to move amendment 34.

Galwaf ar Suzy Davies i gynnig gwelliant 34.

18:01 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 34 in my name.

Cynigiaf welliant 34 yn fy enw i.

18:01 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 34 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will move to the vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 34 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn at y bleidlais.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 34.

Result of the vote on amendment 34.

*Gwrthodwyd gwelliant 34: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 34 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

18:02 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Suzy Davies to move amendment 35.

Galwaf ar Suzy Davies i gynnig gwelliant 35.

18:02 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 35 in my name.

Cynigiaf welliant 35 yn fy enw i.

18:02 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 35 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will open the vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 35 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly byddwn yn agor y bleidlais.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 35.

Result of the vote on amendment 35.

*Gwrthodwyd gwelliant 35: O blaid 26, Yn erbyn 27, Ymatal 1.*

*Amendment 35 not agreed: For 26, Against 27, Abstain 1.*

*Methodd gwelliant 23.*

*Amendment 23 fell.*

18:02 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I propose that amendments 36 to 45, which appear consecutively on the marshalled list, be disposed of en bloc. Does any Member object to this grouping? No. Therefore, I call Suzy Davies to move amendments 36 to 45.

Cynigiaf fod gwelliannau 36-45, sy'n ymddangos yn olynol ar y rhestr o welliannau wedi'u didoli, yn cael eu gwaredu en bloc. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu'r grwpio hwn? Na. Felly, galwaf ar Suzy Davies i gynnig gwelliannau 36 i 45.

18:02 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendments 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42, 43, 44 and 45 in my name.

Cynigiaf welliannau 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42, 43, 44 a 45 yn fy enw i.

18:02 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendments 36 to 45 be agreed to. Are there any objections? There are objections. Open the vote. We will vote en bloc.

Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliannau 36 i 45. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Mae gwrthwynebiadau. Agorwch y bleidlais. Byddwn yn pleidleisio en bloc.

Canlyniad y bleidlais ar welliannau 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42, 43, 44 a 45.

Result of the vote on amendments 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42, 43, 44 and 45.

*Gwrthodwyd gwelliannau 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42, 43, 44 a 45: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendments 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42, 43, 44 and 45 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliannau.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendments.*

18:03 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 10.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 10.

18:03 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 10 in my name.

Cynigiaf welliant 10 yn fy enw i.

18:03 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is that amendment 10 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Therefore, amendment 10 is agreed.

Y cynnig yw bod gwelliant 10 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, caiff gwelliant 10 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 10 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 10 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:03

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Suzy Davies to move amendment 46.

Galwaf ar Suzy Davies i gynnig gwelliant 46.

18:03

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 46 in my name.

Cynigiaf welliant 46 yn fy enw i.

18:03

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 46 be agreed to. Are there any objections? There are objections. Open the vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 46 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Mae gwrthwynebiadau. Agorwch y bleidlais.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 46.

Result of the vote on amendment 46.

*Gwrthodwyd gwelliant 46: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 46 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

18:03

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call Suzy Davies to move amendment 47.

Galwaf ar Suzy Davies i gynnig gwelliant 47.

18:03

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not wish to move amendment 47.

Nid wyf yn dymuno cynnig gwelliant 47.

*Ni chynigiwyd gwelliant 47.*

*Amendment 47 not moved.*

18:04

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Suzy Davies to move amendment 48.

Galwaf ar Suzy Davies i gynnig gwelliant 48.

18:04

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not wish to move amendment 48.

Nid wyf yn dymuno cynnig gwelliant 48.

*Ni chynigiwyd gwelliant 48.*

*Amendment 48 not moved.*

18:04

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 11.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 11.

18:04

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 11 in my name.

Cynigiaf welliant 11 yn fy enw i.

18:04

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is that amendment 11 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. [Interruption.] Was that a sneeze or an objection? [Laughter.] It was a sneeze. Therefore, amendment 11 is agreed.

Y cynnig yw bod gwelliant 11 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. [Torri ar draws.] Ai tisian neu wrthwynebiad oedd hwnna? [Chwerthin.] Tisian ydoedd. Felly, caiff gwelliant 11 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 11 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 11 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

**Grŵp 10: Cyllid ar gyfer Grantiau (Gwelliannau 52, 53 a 55)**

**Group 10: Funding for Grants (Amendments 52, 53 and 55)**

18:04

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 52. I call on Aled Roberts to move amendment 52 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 52. Galwaf ar Aled Roberts i gynnig gwelliant 52 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

18:04

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 52 in my name.

Cynigiaf welliant 52 yn fy enw i.

At Stage 1, committee recommendation 8 expressed and reflected the concern we had as a committee regarding the manner in which funding was set out for the council in order for it to discharge its responsibilities. A number of us on the committee felt that the explanatory memorandum would not form part of the final Bill. I remember, in particular, Suzy Davies making that point, namely that the explanatory memorandum only mentions best estimates, although I believe that, subsequently, that particular wording was changed. In the committee report, which received unanimous endorsement, we indicated that we felt that the financial information in the explanatory memorandum was inadequate. The purpose of these amendments, therefore, is to ask for some kind of clarity from the Minister with regard to the manner in which the council will fulfil its responsibilities, as the Assembly, at this stage, does not have adequate financial information to satisfy itself that the council would be able to discharge its responsibilities.

Yng Nghyfnod 1, mynegodd ac adlewyrchodd argymhelliad 8 y pwyllgor y pryder a oedd gennym fel pwyllgor ynghylch y modd y mae cyllid yn cael ei osod ar gyfer y cyngor er mwyn iddo gyflawni ei gyfrifoldebau. Mae nifer ohonom ar y pwyllgor yn teimlo na fyddai'r memorandwm esboniadol yn ffurfio rhan o'r Bil terfynol. Rwy'n cofio, yn benodol, Suzy Davies yn gwneud y pwynt hwnnw, sef nad yw'r memorandwm esboniadol ond yn sôn am amcangyfrifon gorau, er fy mod yn credu, ar ôl hynny, fod y geiriad penodol hwnnw wedi ei newid. Yn adroddiad y pwyllgor, a gafodd gymeradwyaeth unfrydol, roeddem yn dangos ein bod yn teimlo bod y wybodaeth ariannol yn y memorandwm esboniadol yn annigonol. Diben y gwelliannau hyn, felly, yw gofyn am ryw fath o eglurder gan y Gweinidog o ran y modd y bydd y cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau, gan nad oes gan y Cynulliad, ar hyn o bryd, wybodaeth ariannol ddigonol i fodloni ei hun y byddai'r cyngor yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau.

Clearly, at committee stage, there was, again, a difference of opinion, whereby the Minister said that he disagreed with the stance that the committee had taken and indicated that the Welsh Government already had well-established procedures in place in relation to grant funding. He also emphasised and gave us an assurance that, when the education workforce council was asked to undertake such activities, the appropriate level of funding would be made available. However, with regard to core funding, the decision that the committee took on the basis, again, of the Chair's casting vote, made it clear that it was the Minister whom the committee felt should decide on that core funding. My concern, and the reason why we have put forward these amendments, is that what we are doing here today is extending that same power to give the Minister control over all funding. Again, I think that there is a difference of view between the opposition parties and the Government, where we feel that too much power is being placed in the hands of the Minister with regard to dictating how the council will discharge its responsibilities through its control over funding. There is a difference of opinion, and the reason why these amendments have been put forward is to reflect what we believe is the amount of trust that the Assembly would want to give to the profession, which is clearly different to the stance taken by the Government.

Yn amlwg, yn ystod y cam pwyllgor, yr oedd, unwaith eto, wahaniaeth barn, lle dywedodd y Gweinidog ei fod yn anghytuno â'r safbwynt yr oedd y pwyllgor wedi'i gymryd a nododd fod gan Lywodraeth Cymru eisoes weithdrefnau a sefydlwyd yn dda ar waith yn ymwneud â chyllid grant. Pwysleisiodd hefyd a rhoddodd sicrwydd i ni, pan ofynnwyd i'r cyngor gweithlu addysg ymgymryd â gweithgareddau o'r fath, y byddai'r lefel briodol o gyllid ar gael. Fodd bynnag, o ran cyllid craidd, roedd y penderfyniad a gymerodd y pwyllgor ar sail, unwaith eto, pleidlais fwrw'r Cadeirydd, yn ei gwneud yn glir bod y pwyllgor yn teimlo mai'r Gweinidog ddylai benderfynu ar y cyllid craidd. Fy mhryder, a'r rheswm pam yr ydym wedi cyflwyno'r gwelliannau hyn, yw bod yr hyn yr ydym yn ei wneud yma heddiw yn ymestyn yr un pŵer hwnnw i'r Gweinidog gael rheolaeth dros yr holl gyllid. Unwaith eto, rwy'n credu bod gwahaniaeth barn rhwng y gwrthbleidiau a'r Llywodraeth, lle'r ydym yn teimlo bod gormod o bŵer yn cael ei roi yn nwylo'r Gweinidog o ran dweud sut bydd y cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau drwy ei reolaeth dros gyllid. Ceir gwahaniaeth barn, a'r rheswm pam mae'r gwelliannau hyn wedi eu rhoi gerbron yw i adlewyrchu faint o ymddiriedaeth y byddai'r Cynulliad yn awyddus i'w roi i'r proffesiwn, yn ein barn ni, sy'n amlwg yn wahanol i'r safbwynt a gymerir gan y Llywodraeth .

18:07 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will begin by reiterating for absolute clarity at this point that the Welsh Government does not fund the GTCW in respect of its core functions. The GTCW is self-financing in respect of its core functions and raises its funds through an annual registration fee. The Welsh Government provides the GTCW with funding by way of a grant to undertake additional work on our behalf. Grant funding is entirely separate from, and should not be confused with, its core functions and fee arrangements.

Dechreuaf drwy ailadrodd er mwyn eglurder llwyr ar y pwynt hwn nad yw Llywodraeth Cymru yn ariannu'r CyngACC o ran ei swyddogaethau craidd. Mae CyngACC yn hunan-gyllidol o ran ei swyddogaethau craidd ac yn codi ei arian trwy ffi gofrestru flynyddol. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i CyngACC drwy grant i wneud gwaith ychwanegol ar ein rhan. Mae cyllid grant yn hollol ar wahân, ac ni ddylid drysu rhyngddo â'i swyddogaethau craidd a threfniadau ffioedd.

We currently grant fund the GTCW to undertake a number of activities, including, for instance, to administer the award of qualified teacher status, to administer payments for the Disclosure and Barring Service disclosures for newly qualified teachers, and to administer funding, recording and tracking arrangements for induction, early professional development and the Master's in educational practice. I currently fund the GTCW with more than £6 million to undertake those activities on behalf of the Welsh Government.

Ar hyn o bryd rydym yn rhoi arian grant i'r CyngACC i ymgymryd â nifer o weithgareddau, gan gynnwys, er enghraifft, gweinyddu'r gwaith o ddyfarnu statws athro cymwysedig, gweinyddu taliadau ar gyfer datgeliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer athrawon sydd newydd gymhwyso, a gweinyddu cyllid, cofnodi ac olrhain trefniadau ar gyfer sefydlu, datblygiad proffesiynol cynnar a gradd Meistr mewn Arfer Addysgol. Ar hyn o bryd rwy'n ariannu'r CyngACC gyda mwy na £6 miliwn i ymgymryd â'r gweithgareddau hynny ar ran Llywodraeth Cymru.

Grant offers made to the GTCW are set out in the grant offer letter. This is prepared in accordance with 'Grants Centre of Excellence—Minimum Standards for Grant Funding'. This grant offer letter is agreed and signed by GTCW before the start of each financial year and sets out the amount of money that is to be made available to the GTCW and the terms and conditions of the grant. The awarding of the grants is then publicised. As grant funding is to support additional activities on behalf of the Welsh Government, an integral part of the process is the consultation and agreement of the GTCW. The same principles will apply in relation to the reconfigured council.

Mae cynigion grant a wneir i CyngAcc wedi'u nodi yn y llythyr cynnig grant. Mae hwn yn cael ei baratoi yn unol â 'Canolfan Ragoriaeth Grantiau—Safonau Gofynnol ar gyfer Cyllid Grant'. Mae'r llythyr cynnig grant yn cael ei gytuno a'i lofnodi gan CyngACC cyn dechrau pob blwyddyn ariannol ac mae'n nodi faint o arian sydd ar gael i CyngACC a thelerau ac amodau'r grant. Mae dyfarnu'r grantiau wedyn yn cael ei gyhoeddi. Gan mai diben cyllid grant yw cefnogi gweithgareddau ychwanegol ar ran Llywodraeth Cymru, rhan annatod o'r broses yw ymgynghori a chytundeb CyngACC. Bydd yr un egwyddorion yn berthnasol ynglŷn â'r cyngor wedi'i aildrefnu.

Therefore, amendments 52, 53 and 55 are simply not necessary. I have today given further clarification on the grant funding provided for the council as well as the arrangements and procedures already in place. To be clear, in requesting the education workforce council to undertake additional activities, the appropriate funding would, of course, be made available. For this reason, I urge Members to resist amendments 52, 53 and 55.

Felly, yn syml, nid yw gwelliannau 52, 53 a 55 yn angenrheidiol. Heddiw rwyf wedi rhoi eglurhad pellach ar y cyllid grant a ddarperir ar gyfer y cyngor yn ogystal â'r trefniadau a'r gweithdrefnau sydd eisoes ar waith. I fod yn glir, wrth ofyn i gyngor y gweithlu addysg ymgymryd â gweithgareddau ychwanegol, byddai'r cyllid priodol, wrth gwrs, yn cael ei roi ar gael. Am y rheswm hwn, yr wyf yn annog yr Aelodau i wrthod gwelliannau 52, 53 a 55.

18:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Aled Roberts to reply to the debate.

Galwaf ar Aled Roberts i ymateb i'r ddadl.

18:10 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We are just reiterating positions that have been taken by the opposition parties and the Government during Stage 2 and, given the circumstances, we will put the matter to the vote.

Nid ydym ond yn ailadrodd safbwyntiau a gymerwyd gan y gwrthbleidiau a'r Llywodraeth yn ystod Cyfnod 2 ac, o ystyried yr amgylchiadau, byddwn yn rhoi'r mater i bleidlais.

18:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 52 be agreed to. Does any Member object? I see that there is objection. Therefore, we will move to a vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 52 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, symudwn i bleidlais.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 52.

Result of the vote on amendment 52.

*Gwrthodwyd gwelliant 52: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 52 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

18:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Aled Roberts to move amendment 53.

Galwaf ar Aled Roberts i gynnig gwelliant 53.

18:10 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf welliant 53 yn fy enw i.

I move amendment 53 in my name.

18:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 53 be agreed to. Does any Member object? I see that there is objection. Therefore, we will move to a vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 53 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, symudwn i bleidlais

Canlyniad y bleidlais ar welliant 53.

Result of the vote on amendment 53.

*Gwrthodwyd gwelliant 53: O blaid 18, Yn erbyn 36, Ymatal 0.*

*Amendment 53 not agreed: For 18, Against 36, Abstain 0.*

18:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Aled Roberts to move amendment 54.

Galwaf ar Aled Roberts i gynnig gwelliant 54.

18:11 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf welliant 54 yn fy enw i.

I move amendment 54 in my name.

18:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 54 be agreed to. Does any Member object? I see that there is objection. Therefore, we will move to a vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 54 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, symudwn i bleidlais.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 54.

Result of the vote on amendment 54.

*Gwrthodwyd gwelliant 54: O blaid 18, Yn erbyn 36, Ymatal 0.*

*Amendment 54 not agreed: For 18, Against 36, Abstain 0.*

18:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Aled Roberts to move amendment 55.

Galwaf ar Aled Roberts i gynnig gwelliant 55.

18:11 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf welliant 55 yn fy enw i.

I move amendment 55 in my name.

18:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 55 be agreed to. Does any Member object? I see that there is objection. Therefore, we will move to a vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 55 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, symudwn i bleidlais.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 55.

Result of the vote on amendment 55.

*Gwrthodwyd gwelliant 55: O blaid 18, Yn erbyn 36, Ymatal 0.*

*Amendment 55 not agreed: For 18, Against 36, Abstain 0.*

## Grŵp 11: Ymestyn Cofrestru ar gyfer Gweithwyr Ieuenctid (Gwelliannau 56 a 57)

## Group 11: Extending Registration for Youth Workers (Amendments 56 and 57)

18:11

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 56. I call on Aled Roberts to move amendment 56 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 56. Rwy'n galw ar Aled Roberts i gynnig gwelliant 56 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

18:12

### Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendment 56 in my name.

Cynigiaf welliant 56 yn fy enw i.

Once again, these amendments are based on the recommendations of the committee, although I accept that, following consideration at Stage 1, Labour members of the committee voted against them at Stage 2.

Unwaith eto, mae'r gwelliannau hyn yn seiliedig ar argymhellion y pwyllgor, er fy mod yn derbyn, yn dilyn ystyriaeth yng Nghyfnod 1, bod aelodau Llafur y pwyllgor wedi pleidleisio yn eu herbyn yng Nghyfnod 2.

As a committee, we felt that there was strong evidence that there was a real difficulty in defining 'youth workers'. We heard evidence from Carmarthenshire and Wrexham local authorities that explained the muddled definitions that currently apply. These amendments were moved at Stage 2 in the hope that the Government would come forward with a definition of its own in order to move things forward. I accept that there is still difficulty with regard to definition, but we feel that there is a need for the Government to move forward and improve the status of youth workers who are involved in providing educational support. Providing that those criteria are met, eligibility for registration in accordance with these amendments would include them as 'education professionals' and would remove some of the confusion that currently surrounds the description as it stands.

Fel pwyllgor, rydym yn teimlo bod tystiolaeth gref bod anhawster gwirioneddol wrth ddiffinio 'gweithwyr ieuenctid'. Clywsom dystiolaeth gan awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin a Wrecsam a eglurodd y diffiniadau dryslyd sy'n berthnasol ar hyn o bryd. Cafodd y gwelliannau hyn eu cynnig yng Nghyfnod 2 yn y gobaith y byddai'r Llywodraeth yn cyflwyno ei diffiniad ei hun er mwyn symud pethau ymlaen. Rwy'n derbyn bod anhawster o ran diffiniad, ond rydym yn teimlo bod angen i'r Llywodraeth symud ymlaen a gwella statws gweithwyr ieuenctid sy'n ymwneud â darparu cymorth addysgol. Cyn belled â bod y meini prawf hynny'n cael eu bodloni, byddai cymhwysedd ar gyfer cofrestru yn unol â'r gwelliannau hyn yn eu cynnwys fel 'gweithwyr proffesiynol addysg' a byddai'n cael gwared ar rywfaint o'r dryswch a geir ar hyn o bryd o amgylch y disgrifiad fel ag y mae.

The committee heard from a number of sources that the current situation leads to a huge variation in who is classed as a 'youth worker'. Nevertheless, they agreed with the Minister's intention to include youth workers within the Bill. The Stage 1 committee report states that Members were particularly concerned about the definition of 'youth workers' and that this should be fully considered by the Minister. I am disappointed that the Minister has chosen to defer putting forward any kind of definition to allow us to move forward, but I would like to emphasise once again that amendment 56 covers only those youth workers who are currently involved directly in the provision of education, while amendment 57 seeks to broaden the definition.

Clywodd y pwyllgor oddi wrth nifer o ffynonellau bod y sefyllfa bresennol yn arwain at amrywiad enfawr o ran pwy sy'n cael ei ystyried yn 'weithiwr ieuenctid'. Serch hynny, roeddent yn cytuno â bwriad y Gweinidog i gynnwys gweithwyr ieuenctid o fewn y Bil. Mae'r adroddiad pwyllgor Cyfnod 1 yn nodi bod yr Aelodau yn arbennig o bryderus ynghylch y diffiniad o 'gweithwyr ieuenctid' ac y dylai hyn gael ei ystyried yn llawn gan y Gweinidog. Rwy'n siomedig bod y Gweinidog wedi dewis gohirio cyflwyno unrhyw fath o ddiffiniad i'n galluogi i symud ymlaen, ond hoffwn bwysleisio unwaith eto bod gwelliant 56 dim ond yn cynnwys y gweithwyr ieuenctid hynny sydd ar hyn o bryd yn ymwneud yn uniongyrchol â darparu addysg, tra bod gwelliant 57 yn ceisio ehangu'r diffiniad.

18:14

### Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I would like to thank Aled Roberts and the Liberal Democrats for bringing forward this amendment once again. They have pursued this issue with tenacity, which is to be commended. If I am honest, Government, I would like to tell you that it is a poor show that you have not put forward this definition during the various debates that we have had, because it is an area that worries people—the area of what and who is a 'youth worker'.

Hoffwn ddiolch i Aled Roberts a'r Democratiaid Rhyddfrydol am gyflwyno'r gwelliant hwn unwaith eto. Maent wedi mynd ar drywydd y mater hwn gyda dycnwch, ac mae hynny i'w ganmol. Os ydw i'n onest, Lywodraeth, hoffwn ddweud wrthych ei bod yn siomedig nad ydych wedi cyflwyno'r diffiniad hwn yn ystod y gwahanol ddadleuon yr ydym wedi'u cael, oherwydd ei fod yn faes sy'n poeni pobl —y maes o beth a phwy sy'n 'weithiwr ieuenctid'.

Aled Roberts has very clearly defined the way in which the Liberal Democrats see it, and I would like assurance from the Government that it, too, sees it that way. One of the issues about putting in a cover-all comment like 'youth worker' is that you can inadvertently affect people who are not necessarily youth workers in the traditional sense, but are people who help with and work with young people on a voluntary basis, within some kind of club or society, rather than a youth worker who might be looking after people who are not in education at present, otherwise known as EOTAS, and they go to some kind of facility for proper learning and development of youth work. So, I really do commend you for trying to put forward this definition, and we will be supporting you.

Mae Aled Roberts wedi diffinio'n glir iawn y ffordd y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn gweld pethau, a hoffwn gael sicrwydd gan y Llywodraeth ei bod hithau, hefyd, yn ei gweld felly. Un o'r materion yn ymwneud â chynnwys sylw sy'n cwmpasu popeth fel 'gweithiwr ieuenctid' yw y gallwch yn anfwriadol effeithio ar bobl nad ydynt o reidrwydd yn weithwyr ieuenctid yn yr ystyr traddodiadol, ond maent yn bobl sydd yn helpu pobl ifanc ac yn gweithio gyda phobl ifanc ar sail wirfoddol, o fewn rhyw fath o glwb neu gymdeithas, yn hytrach na gweithiwr ieuenctid a allai fod yn gofalu am bobl nad ydynt mewn addysg ar hyn o bryd, a elwir hefyd yn rai sy'n ymwneud ag addysg heblaw yn yr ysgol, ac maent yn mynd i ryw fath o gyfleuster ar gyfer dysgu a datblygu gwaith ieuenctid priodol. Felly, rwyf yn wir yn eich canmol am geisio cyflwyno'r diffiniad hwn, a byddwn yn eich cefnogi.

18:15

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch i Aled Roberts am ddod â hyn gerbron. Rydym wedi cael y drafodaeth hon fel pwyllgor, fel y dywedodd Aled, ac wedi cael cefnogaeth pawb ar y pwyllgor. Rydym yn deall bod graddfa a natur eang gwaith gwirfoddol yn golygu ei fod yn anodd i'w ddiffinio, ond i'r rhai sy'n deall y sector addysg, mae'n rhaid inni wybod bod tiwtoriaid cymorth dysgu hefyd yn cael llawer o ddiffiniadau gwahanol. Roedd y bobl a roddodd dystiolaeth i ni yn dweud mai rôl y corff newydd fyddai edrych ar ddiffiniadau a chategorïau gwahanol, ac yn dweud mai'r corff newydd hwnnw, gan wisgo'i het broffesiynol, gan ddeall y sector yn iawn, ddylai gael y gair olaf ar y diffiniadau. Nid wyf yn credu y dylem fod mor galed ar ein hunain fel Aelodau Cynulliad ar y diffiniad clir sydd yn y fan hon gan Aled Roberts, er y byddai wedi bod yn dda pe bai Huw Lewis, fel Gweinidog, wedi'i barchu yn fwy ac wedi edrych ar y diffiniadau sy'n rhan o waith gweithwyr gwirfoddol. Ond, rwy'n credu ei fod yn rhywbeth sy'n gallu cael ei basio fel rhan o'r ddeddfwriaeth, ac yna i'r corff newydd edrych ar sut y byddai'n gweithredu hynny ar lawr gwlad.

I thank Aled Roberts for bringing this forward. We have had this discussion as a committee, as Aled said, and received the unanimous support of the committee. We understand that the broad nature of voluntary work means that it is difficult to define, but for those who understand the education sector, we must know that learning support tutors also have many different definitions. The people who gave evidence to us said that the role of the new body would be to look at different definitions and categories, and said that that new body, wearing its professional hat, with its understanding of the sector, should have the final word on the definitions. I do not think that we should be so hard on ourselves as Assembly Members on the clear definition provided here by Aled Roberts, although it would have been good if Huw Lewis, as Minister, had respected it more and looked at the definitions that are part of the work of voluntary workers. However, I think that it is something that can be passed as part of the legislation, for the new body to look at how it would be implemented on the ground.

Hefyd, rydym ni fel aelodau'r pwyllgor—dyma a ddywedwyd mewn adran arall—yn dweud y dylid rhoi'r un parch a'r un hawl i bawb sy'n rhan o'r corff proffesiynol newydd hwn. Os nad ydym yn rhoi gweithwyr gwirfoddol yn rhan o'r corff newydd, pa fath o neges a roddir iddynt o ran y parch tuag at eu rôl? Dyna pam na fyddwn am eu gadael allan ar hyn o bryd. Pam na ddylid ei wneud yn awr os mai dyma'r cyfle i greu deddfwriaeth gref? Dyna pam y byddwn yn annog pobl i gefnogi'r gwelliant hwn heddiw.

Also, we as committee members—this is what was said in another section—say that the same respect and the same rights should be given to all those who are part of this new professional body. If we do not include voluntary workers as part of the new body, what kind of message are we sending them in terms of the respect for their role? That is why I would not want them to be left out at present. Why not do it now if this is the opportunity to create robust legislation? That is why I would encourage people to support this amendment today.

18:17

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Now, I welcome the principles behind amendments 56 and 57, tabled by Aled Roberts, but I must point out that Aled Roberts himself acknowledged, during the Stage 2 debate, that there are problems with this definition. I have to agree with him. Amendment 57 is flawed. The proposed definition only refers to volunteer workers—entirely failing to recognise those youth workers with an employed status. In other words, if we pass this amendment, we will be excluding many of the very people we would want to include under the future remit of the workforce council. This again, you see, underscores just how difficult it is to get this definition right. We all need to do more thinking and working in order to get that definition correct.

Er fy mod yn croesawu'r egwyddorion wrth wraidd gwelliannau 56 a 57, a gyflwynwyd gan Aled Roberts, mae'n rhaid imi nodi bod Aled Roberts ei hun wedi cydnabod, yn ystod dadl Cyfnod 2, bod problemau gyda'r diffiniad hwn. Mae'n rhaid i mi gytuno ag ef. Mae gwelliant 57 yn ddiffygiol. Mae'r diffiniadau arfaethedig yn cyfeirio at weithwyr gwirfoddol yn unig—gan fethu'n llwyr â chydnabod y gweithwyr ieuenctid hynny sydd â statws cyflogedig. Mewn geiriau eraill, os derbyniwn y gwelliant hwn, byddwn yn eithrio llawer o'r union bobl y byddem yn awyddus i'w cynnwys o dan gylch gwaith cyngor y gweithlu yn y dyfodol. Mae hyn eto, fe welwch, yn tanlinellu pa mor anodd yw hi i gael y diffiniad hwn yn iawn. Mae angen i bob un ohonom feddwl a gwneud mwy o waith er mwyn cael y diffiniad hwnnw'n gywir.

I have made it clear that it remains my intention to require youth workers to register, recognising their key role in supporting young people to successfully remain engaged and progress through their formal education and training. However, I cannot agree, as we are being asked this afternoon to do, that the best place to test out such a legal definition is on the face of the Bill. I have said before that I have no intention of bringing forward legislation on the hoof without proper consideration. Testing out a definition for youth workers in primary legislation will not allow for engagement with the sector, which is essential if we are to get their registration right. The youth work sector varies considerably—we all know this—and work is ongoing to identify, for the purposes of the registration scheme, what we want youth worker to mean. We need to ensure that, when we do legislate, we get it right.

Rwyf wedi ei gwneud yn glir ei bod yn parhau i fod yn fwriad gennyf i fynnu bod gweithwyr ieuenctid yn cofrestru, gan gydnabod eu swyddogaeth allweddol wrth gefnogi pobl ifanc i lwyddo i aros yn ymgysylltiedig a symud ymlaen drwy eu haddysg a'u hyfforddiant ffurfiol. Fodd bynnag, ni allaf gytuno, fel y gofynnir i ni wneud y prynhawn yma, mai'r lle gorau i brofi diffiniad cyfreithiol o'r fath yw ar wyneb y Bil. Rwyf wedi dweud o'r blaen nad oes gennyf unrhyw fwriad o gyflwyno deddfwriaeth drwy ruthro a heb ystyriaeth briodol. Ni fydd profi diffiniad ar gyfer gweithwyr ieuenctid mewn deddfwriaeth sylfaenol yn caniatáu ar gyfer ymgysylltu â'r sector, sy'n hanfodol os ydym am gael eu cofrestriad yn iawn. Mae'r sector gwaith ieuenctid yn amrywio'n sylweddol—rydym i gyd yn gwybod hyn—ac mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi, at ddibenion y cynllun cofrestru, yr hyn yr ydym eisiau i weithiwr ieuenctid ei olygu. Mae angen i ni sicrhau, pan fyddwn yn deddfu, ein bod yn cael hyn yn iawn.

I will be using the enabling powers in the Bill to make regulations to require youth workers to register. These regulation will be subject to a further full consultation that will assist in informing us on all aspects of the policy, including defining the workforce. For this reason, I ask Members to resist amendments 56 and 57.

Byddaf yn defnyddio'r pwerau galluogi yn y Bil i wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i weithwyr ieuenctid gofrestru. Bydd y rheoliadau hyn yn destun ymgynghoriad llawn pellach a fydd yn helpu i'n llywio ar bob agwedd ar y polisi, gan gynnwys diffinio'r gweithlu. Am y rheswm hwn, gofynnaf i'r Aelodau wrthod gwelliannau 56 a 57.

18:20

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call Aled Roberts to reply to the debate.

Galwaf ar Aled Roberts i ymateb i'r ddadl.

18:20

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am sorry that we have got to this stage. I think that there was an earlier discussion with regard to the need for this Chamber to have a greater number of Assembly Members in order that scrutiny is properly undertaken. Surely, the role of the Children and Young People Committee was to scrutinise the legislation that is brought forward by the Government. At Stage 1, we identified that there was a real issue with regard to the definition of the very youth workers who were, according to the Government's own proposals, to be encompassed within the terms of this Bill.

Mae'n ddrwg gennyf ein bod wedi cyrraedd y cam hwn. Rwy'n credu y cafwyd trafodaeth gynharach o ran yr angen i'r Siambr hon gael mwy o Aelodau Cynulliad er mwyn i'r craffu gael ei wneud yn iawn. Siawns mai swyddogaeth y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc oedd craffu ar y ddeddfwriaeth sy'n cael ei chyflwyno gan y Llywodraeth. Yng Nghyfnod 1, nodwyd gennym bod problem wirioneddol o ran y diffiniad o'r union weithwyr ieuenctid a oedd, yn ôl cynigion y Llywodraeth ei hun, i gael eu cwmpasu o fewn telerau'r Bil hwn.

The whole thing that we are talking about here is the education workforce council, yet we have no clear indication from the Government as to what is included within that workforce. I have to say that it is the responsibility of Government to bring forward legislation that is properly drafted and that can then be properly scrutinised so that we can have confidence, as the Parliament elected by the people of Wales, that the legislation that we pass is proper. I have to say that I am quite disappointed with the stance that the Government has taken. Albeit that the proposals that we have put forward as a group are open to scrutiny and open to challenge, they are the only proposals that have been placed before this Assembly for its consideration.

Yr holl beth yr ydym yn siarad amdano yma yw cyngor y gweithlu addysg, ac eto nid ydym yn cael syniad clir gan y Llywodraeth ynghylch beth sydd wedi'i gynnwys o fewn y gweithlu hwnnw. Mae'n rhaid i mi ddweud ei bod yn gyfrifoldeb ar y Llywodraeth i gyflwyno deddfwriaeth sy'n cael ei drafftio yn briodol ac y gellir craffu arni'n briodol fel y gallwn fod yn hyderus, fel y Senedd a etholwyd gan bobl Cymru, bod y ddeddfwriaeth yr ydym yn ei phasio yn briodol. Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod yn dra siomedig â'r safiad y mae'r Llywodraeth wedi'i gymryd. Er bod y cynigion yr ydym wedi'u cyflwyno fel grŵp yn agored i graffu ac yn agored i herio, y rhain yw'r unig gynigion sydd wedi eu gosod gerbron y Cynulliad hwn i'w hystyried.

18:21

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 56 is not agreed, amendment 57 will fall. The question is that amendment 56 be agreed to. Does any Member object? There is objection, therefore we will move to a vote.

Os nad yw gwelliant 56 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliant 57 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 56 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn i bleidlais.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 56. | Result of the vote on amendment 56.

*Gwrthodwyd gwelliant 56: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 56 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order No. 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

*Methodd gwelliant 57.*

*Amendment 57 fell.*

18:22

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call Simon Thomas to move amendment 24?

Galwaf ar Simon Thomas i gynnig gwelliant 24?

18:22

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Nid wyf am gynnig y gwelliant, Llywydd.

I do not wish to move the amendment, Llywydd.

18:22

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You are not moving the amendment, therefore we move to Angela Burns. [Interruption.] Are you moving amendment 24, Simon? To me, a shaking of the head means 'no'. Are you definitely not moving the amendment?

Nid ydych yn cynnig y gwelliant, felly symudwn at Angela Burns. [Torri ar draws.] A ydych chi'n cynnig gwelliant 24, Simon? I mi, mae ysgwyd pen yn golygu 'na'. A ydych chi'n bendant ddim yn cynnig y gwelliant?

18:22

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am definitely not moving the amendment.

Yn bendant nid wyf yn cynnig y gwelliant.

18:22

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. So, Angela Burns will now move the lead amendment. I call Angela Burns. No, I am in the wrong group, am I? I beg your pardon. It is all a bit technical at this time of night.

Diolch yn fawr. Felly, bydd Angela Burns yn awr yn cynnig y prif welliant. Galwaf ar Angela Burns. Na, yr wyf yn y grŵp anghywir, ydw i? Mae'n ddrwg gennyf. Mae'r cyfan braidd yn dechnegol ar yr adeg hon o'r nos.

*Ni chynigiwyd gwelliant 24.*

*Amendment 24 not moved.*

### Grŵp 12: Technegol (Gwelliant 12)

### Group 12: Technical (Amendment 12)

18:22

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead and only amendment in the group is amendment 12. I call on the Minister to move amendment 12 and to speak to it.

Y prif welliant a'r unig un yn y grŵp yw gwelliant 12. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 12 ac i siarad amdano.

18:22

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 12 in my name.

Cynigiaf welliant 12 yn fy enw i.

This is a technical amendment that seeks to ensure clarity and consistency of drafting in the changes that the Bill is making to the Education Act 2002 regarding school term dates. The existing power to make regulations for school session times in the 2002 Act is subject to the so-called 'negative' or 'annulment' procedure. This amendment clarifies that the power to regulate regarding school session times, which has been consolidated by the Bill and does not make any changes to the scope of the existing power, will continue to be subject to the negative procedure. So, I urge Members to support amendment 12.

Gwelliant technegol yw hwn sy'n ceisio sicrhau eglurder a chysondeb drafftio yn y newidiadau y mae'r Bil yn ei wneud i Ddeddf Addysg 2002 o ran dyddiadau tymor ysgol. Mae'r pŵer presennol i wneud rheoliadau ar gyfer amserau sesiynau ysgol yn Neddf 2002 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn 'negyddol' neu 'diddymu ' fel y'i gelwir. Mae'r gwelliant hwn yn egluro y bydd y pŵer i reoleiddio ynghylch amseroedd sesiynau ysgolion, sydd wedi ei gadarnhau gan y Bil ac nad yw'n gwneud unrhyw newidiadau i gwmpas y pŵer presennol, yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Felly, rwy'n annog yr Aelodau i gefnogi gwelliant 12.

18:23 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

There are no speakers. The question is that amendment 12 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 12 is agreed.

Nid oes unrhyw siaradwyr. Y cwestiwn yw bod gwelliant 12 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 12 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 12 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 12 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:23 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Simon Thomas, would you like to move amendment 25?

Simon Thomas, a hoffech chi gynnig gwelliant 25?

18:23 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Nid wyf am gynnig y gwelliant, Llywydd.

I do not wish to move the amendment, Llywydd.

*Ni chynigiwyd gwelliant 25.*

*Amendment 25 not moved.*

18:23 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Would you like to move amendment 26?

A fyddech chi'n hoffi cynnig gwelliant 26?

18:23 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Nid wyf am gynnig y gwelliant, Llywydd.

I do not wish to move the amendment, Llywydd.

*Ni chynigiwyd gwelliant 26.*

*Amendment 26 not moved.*

18:23 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Therefore, I propose that amendments 13 to 18, which appear consecutively on the marshalled list, are disposed of en bloc. Does any Member object to this method of voting? There is no objection. Minister, would you like to move amendments 13 to 18?

Felly, rwy'n cynnig bod gwelliannau 13 i 18, sy'n ymddangos yn olynol ar y rhestr o welliannau wedi'u didoli, yn cael eu gwaredu en bloc. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu i'r dull hwn o bleidleisio? Nid oes gwrthwynebiad. Weinidog, a hoffech chi gynnig gwelliannau 13 i 18?

18:24 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendments 13 to 18 in my name.

Cynigiaf welliannau 13 i 18 yn fy enw i.

18:24 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendments 13 to 18 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendments 13 to 18 are agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliannau 13 i 18. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly caiff gwelliannau 13 i 18 eu derbyn.

*Derbyniwyd gwelliannau 13 i 18 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendments 13 to 18 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Grŵp 13: Teitl Hir (Gwelliannau 19 ac 1)

## Group 13: Long Title (Amendments 19 and 1)

18:24 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 19. I call on Simon Thomas to move amendment 19 and to speak to it.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 19. Galwaf ar Simon Thomas i gynnig gwelliant 19 ac i siarad amdano.

18:24 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Nid wyf am gynnig y gwelliant, Llywydd.

I am not moving the amendment, Lywydd.

*Ni chynigiwyd gwelliant 19.*

*Amendment 19 not moved.*

Senedd.tv Fideo Video

18:24 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Amendment 1, therefore, becomes the lead amendment in group 12, and I ask Angela Burns to move and speak to amendment 1.

Mae gwelliant 1, felly, yn dod yn brif welliant grŵp 12, a gofynnaf i Angela Burns i gynnig a siarad am welliant 1.

Senedd.tv Fideo Video

18:24 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

I move amendment 1 in my name.

Cynigiaf welliant 1 yn fy enw i.

Presiding Officer, this amendment is consequential to the removal of the original Part 3 of the Bill that referred to special educational needs, and it was agreed by the Government and all opposition parties that it should be withdrawn from this Bill and dealt with in a separate Bill.

Lywydd, mae'r gwelliant hwn yn ganlyniadol i gael gwared ar Ran 3 gwreiddiol y Bil a oedd yn cyfeirio at anghenion addysgol arbennig, a chytunwyd gan y Llywodraeth a phob gwrthblaid y dylid ei dynnu oddi ar y Bil hwn ac ymdrin ag ef mewn Bil ar wahân.

Senedd.tv Fideo Video

18:25 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

The title of a registration body should reflect the content and purpose of the body. The title 'education workforce council' does exactly that. As I stated earlier in the debate, what is important to me and to parents and learners is that the new, reconfigured body contributes to the improvement of teaching standards and the quality of learning. For this reason I urge Members to resist amendment 19 and accept amendment 1.

Dylai teitl corff cofrestru adlewyrchu cynnwys a phwrpas y corff. Mae'r teitl 'cyngor y gweithlu addysg' yn gwneud yn union hynny. Fel y nodais yn gynharach yn y ddadl, yr hyn sy'n bwysig i mi ac i rieni a dysgwyr yw bod y corff newydd, a aildrefnwyd yn cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd dysgu. Am y rheswm hwn rwy'n annog yr Aelodau i wrthwynebu gwelliant 19 a derbyn gwelliant 1.

Senedd.tv Fideo Video

18:25 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on Angela Burns to reply to the debate.

Galwaf ar Angela Burns i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv Fideo Video

18:25 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Just for clarification, amendment 19 was not moved. I think, Minister, that you said that you would support amendment 1.

Dim ond er mwyn eglurhad, nid yw gwelliant 19 wedi ei gynnig. Rwy'n meddwl, Weinidog, eich bod wedi dweud y byddech yn cefnogi gwelliant 1.

Senedd.tv Fideo Video

18:25 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

I did.

Fe wnes i.

Senedd.tv Fideo Video

18:25 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 1 be agreed to. Does any Member object? There is no objection, therefore amendment 1 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 1 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly caiff gwelliant 1 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 17.34.*

*Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 17.34.*

Senedd.tv Fideo Video

18:25 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We have reached the end of Stage 3 consideration of the Education (Wales) Bill. I declare that all sections of and Schedules to the Bill are deemed agreed. That concludes Stage 3 proceedings, and also today's proceedings.

Yr ydym wedi dod i ddiwedd ystyriaeth Cyfnod 3 y Bil Addysg (Cymru). Rwy'n datgan y bernir bod pob adran ac Atodlen i'r Bil wedi eu derbyn. Dyna ddiwedd trafodion 3, a hefyd trafodion heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:26.*

*The meeting ended at 18:26.*

Senedd.tv Fideo Video

## Neges gan Ei Mawrhydi Y Frenhines, Pennaeth y Gymanwlad

*Gellir gweld neges y Frenhines drwy ddilyn y linc hon:*

Neges y Frenhines.

## A Message from Her Majesty The Queen, Head of the Commonwealth

*The Queen's message can be accessed by following this link:*

The Queen's message.